YR EFENGYL YN OL IOAN

PENNOD I–X.

Y Parch. STEPHEN GEORGE, M.A.


FIDE ET VIRTUTE
CANCELLED
W E Gladstone
CANCELLED
St. Deiniol's Library
Hawarden, Clwyd
Founded by
The Rt. Hon. W. E. Gladstone

349
10

ST. DEINIOL'S
HAWARDEN
LIBRARY

Digitized by the Internet Archive
in 2026

https://archive.org/details/efengylioan0000step

EFENGYL IOAN

I.—X.

CANCELLED

GYDA

NODIADAU EGLURHAOL

GAN

Y PARCH. STEPHEN GEORGE, M.A.,
LLANDRINDOD.

CYHOEDDEDIG GAN Y GYMANFA GYFFREDINOL YN Y LLYFRFA,
CAERNARFON

1930

NODIAD.—Nid yw'r awdur yn gyfrifol am yr orgraff ond mewn rhan yn unig.

Printed and made in Wales, Great Britain.

RHAGYMADRODD.

Pan dorrodd fy iechyd i lawr ganol Mai diweddaf, cynghorwyd fi gan lawer o'm cyfeillion i roi i fyny'r gwaith o ysgrifennu'r Esboniad hwn. Credaf yn awr y dylaswn wrando arnynt. Eithr gobeithiaf y bydd o ryw gymorth i'w ddarllenwyr. Ceisiais ysgrifennu'n syml, a gwneuthur fy meddwl yn eglur. Darllenais rai llyfrau ar yr Efengyl, ac yr wyf yn ddyledus iawn iddynt. Ond y mae'r hyn a geir yn yr Esboniad wedi ei hidlo trwy fy meddwl, gwreiddiol neu beidio.

Dymunaf ddatgan fy niolchgarwch gwresocaf i'r Parch. John Owen, M.A., am ei garedigrwydd "yn estyn hyd fy oes" ynglŷn â'r gwaith o'i ysgrifennu; i bobl fy nghofal yn Llandrindod am roddi hamdden imi i'w ysgrifennu; i'r Parch. R. Morris, M.A., B.D., am y nodiadau ar y ddegfed bennod, ac i gyfaill arall, am y bennod yn y Rhagarweiniad ar "Fywyd yr Apostol Ioan."

Yn awr, cyflwynaf ef yn ostyngedig i'w ddarllenwyr. Rhoddaf i bob un a fydd yn astudio Efengyl Ioan yn ystod y blynyddoedd nesaf y cyngor hwn: "Dïosg dy esgidiau oddi am dy draed; oherwydd y lle yr wyt ti yn sefyll arno sydd ddaear sanctaidd." A'm gweddi sydd am iddynt gael adnabyddiaeth gynyddol o'r Hwn y mae ei adnabod yn fywyd.

STEPHEN GEORGE.

Llyscaron, Llandrindod Wells.

Ionawr 6, 1930.

RHAGARWEINIAD.

I.

Bywyd yr Apostol Ioan.

Prin a chynnil yw manylion hanes yr Apostol Ioan, a chudd llen dirgelwch ffeithiau y carem eu gwybod amdano. Prif ffynonellau hynny o'i hanes a geir yw'r Efengylau Cyfolwg; ei weithiau ef ei hun; Llyfr yr Actau; ac ysgrifeniadau'r Tadau.

Rhyw dair pennod fawr sydd i'w fywyd, sef pennod yr ymgeledd neu fore oes, pennod yr ymegnio neu ei helyntion fel disgybl ac Apostol, a phennod yr ymneilltuo o Gaersalem.

Ym mhennod yr ymgeledd ceir cipolwg ar awyrgylch ei fore oes. Mab ydoedd i Sebedeus, gŵr oedd mewn amgylchiadau cysurus, gan y cadwai weision i'w gynorthwyo yn ei fasnach fel pysgotwr. Ei fam oedd Salome, chwaer, y mae'n debyg, i fam yr Iesu. Amlygodd awydd naturiol mam am anrhydedd i'w meibion yn y Deyrnas newydd (Math. xx. 20, &c.). (Yn ôl Marc gwnaed y cais gan Ioan ac Iago eu hunain.) Yr oedd Salome yn un o'r gwragedd a edrychai o hirbell ar y croeshoeliad, ac a ddilynodd yr Iesu gan weini iddo pan oedd Ef yng Ngalilea (Math. xxvii. 25, 26; Mc. xv. 40, 41). Yng Ngalilea y ganed ac y magwyd ef, a thybir mai ym Methsaida, man preswyl Andreas a Phedr. Nid oes un sicrwydd am adeg ei eni, ond ystyrir ef yr ieuengaf o'r Deuddeg. Diamau iddo'n gynnar deimlo dylanwadau grymus gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr, a gwnaeth hynny ef yn agored i apêl y Proffwyd Newydd o Nazareth; ac y mae'n debygol mai ef yw disgybl dienw Ioan i. 40. Cyfeiriodd y Bedyddiwr y ddau ddisgybl at yr Iesu yn y geiriau bythgofiadwy, "Wele oen Duw" (Ioan i. 35, 36).

Am bennod yr ymegnio—ceir mwy o fanylion, ac yma yr olrheinir ei berthynas hanesyddol â'r Iesu. Atebodd yr Alwad gan adael popeth i ddilyn (Mt. iv. 18—22; Mc. i. 16—20; Luc v. 1—11); a gwelir mai parodrwydd ac nid perffeithrwydd yw rhinwedd cyntaf disgybl. Nid ymadawodd ag Ef mwy, a buan y dewiswyd ef yn un o'r Deuddeg, i fod dan ddisgyblaeth arbennig drwy fod gydag Ef.

Un o'r pethau cyntaf a dderbyniodd ef a'i frawd Iago gan eu Harglwydd ydoedd enw newydd, sef "Boanerges"—ac ni ellir nad enw o anrhydedd ac nid o anfri ydoedd. Fel yn hanes cyfenwi Simon yn Pedr y datguddiodd yr elfen gudd yn ei gymeriad, felly wrth gyfenwi y rhai hyn yn Boanerges y dangosodd yr angerdd a'r sêl hwnnw yn eu cymeriad a'u gwnaeth yn arweinwyr diogel ac yn golofnau disigl i'r Eglwys.

Cawn ei fod nid yn unig yn un o'r deuddeg, ond hefyd yn un o dri a fu mewn cyfathrach arbennig â'r Iesu. Ef ynghyda Pedr ac Iago a gafodd fod yn dystion o allu'r Iesu i atgyfodi merch Jairus (Mc. v. 37). Hwy a gymerwyd gan yr Iesu i binacl mynydd y Gweddnewid i fod yn llygad dystion o'i ogoniant Ef (Mt. xvii. 1; Mc. xii. 2; Luc ix. 28). Hwynthwy hefyd a gafodd weled ingoedd ei enaid yng ngardd Gethsemane.

Gwelir arwyddion o'i barodrwydd a'i benderfyniad dros yr Iesu pan geisiai wahardd i un a fwriai allan gythreuliaid ac yntau heb eu dilyn hwy (Mc. ix. 38; Luc ix. 49).

Awyddai dynnu tân o'r nef ar drefwyr Samaria am wrthod ohonynt yr Iesu (Luc ix. 54)—a thebyg ei fod ef a'i frawd yn gyfrannog â'u mam yn ei chais am gael ohonynt le pwysig yn y Deyrnas (Mt. xx. 20; Mc. x. 35).

Y mae'r enw a ddefnyddia amdano'i hun, sef "y disgybl yr hwn yr oedd yr Iesu'n ei garu" (xiii. 23; xix. 26; xxi. 7, 20), yn awgrymu bod ei gyfeillgarwch ef â'r Iesu yn un arbennig ac agos iawn.

Ef ynghyda Phedr a anfonwyd i baratoi lle i'r Pasg, a dywaid iddo yn adeg y Swper bwyso ar fynwes ei Arglwydd, (xiii. 23). Glynodd wrtho gyda'r gwragedd wrth y Groes, ac iddo ef y gwelodd yr Iesu yn dda roddi gofal ei fam, a chymerodd yntau hi i'w gartref ei hun (xix. 25). Gwelodd y milwr yn trywanu corff yr Iesu (xix. 34, 35). Credodd air y Fagdalen am atgyfodiad yr Iesu a rhedodd gyda Phedr i weled y bedd gwag; ac iddo ef ynghyda chwech eraill o'r disgyblion yr ymddangosodd yr Iesu yng ngwyrth y "ddalfa bysgod." (xxi. 1—14).

Dengys Llyfr yr Actau iddo barhau'r cyfeillgarwch â Phedr—aent ynghyd i'r deml yng Nghaersalem, a iachasant glaf wrth ei phorth (Act. iii. 1). Er bygythion y Sanhedrin parhasant yn hy dros yr Iesu, a cheir i'r hwn gynt a awyddai gael tân o'r nef ar y Samariaid weddio ar iddynt gael o'r Ysbryd Glân, a bod yn gyfrwng iddynt ei dderbyn (Act. viii. 14—17). A chyfeiria Paul ato pan ysgrifennai at y Galatiaid (ii. 9) fel un o "golofnau'r" eglwys yng Nghaersalem.

Bellach rhaid symud at bennod olaf ei hanes—sef yr ymneilltuo; a rhaid symud yn ochelgar, gan na feddir ond gair y Tadau—er y bu traddodiad yn hynod brysur yn ei gylch. Credir iddo weled hir ddyddiau, ac iddo symud i fyw o Gaersalem ychydig cyn ei dinistr, ac iddo dreulio llawer o flynyddoedd yn Effesus. Yno yr ysgrifennodd ei Efengyl a'i Epistolau. Rhaid mai wedi marw Paul yr aeth yno, neu

buasai'r Apostol yn siwr o fod wedi cyfeirio ato pan ysgrifennodd at yr Effesiaid (tua 61. O.C). Ar air Irenaeus, oedd yn ddisgybl i Bolycarp—yntau yn ddisgybl i Ioan ei hun—dysgir ni iddo wneud gwaith mawr yn Effesus i gadarnhau ffydd yr eglwysi a'u diogelu rhag dylanwadau peryglus athroniaeth y dyddiau hynny.

Dywedir y dygid ef i'r cydgynulliad pan oedd ei nerth wedi pallu er mwyn ei glywed yn dywedyd gydag argyhoeddiad ac arddeliad — "Fy mhlant bychain, cerwch eich gilydd"—dyna ddechrau a diwedd crefydd Crist iddo ef.

Ar sail y cyfeiriad yn Datguddiad (i. 9), a thystiolaeth yr Hanesydd Eglwysig Eusebius, credir iddo yn ei henaint, yn adeg erledigaeth yr Ymherawdr Rhufeinig Domitian, gael ei alltudio i ynys Patmos oherwydd ei ffydd yng Nghrist a'i ymlyniad wrth ei air Ef.

Dywaid Jerome ei farw drigain ac wyth o flynyddoedd wedi Croeshoeliad Crist, a chredir ei eni tua deng mlynedd ar ôl ei Arglwydd.

II.

AWDURIAETH YR EFENGYL.

Y mae eisiau gwybodaeth fwy helaeth a thrwyadl nag a feddwn ni (yr ysgrifennwr presennol) i ymdrin ag awduriaeth y Bedwaredd Efengyl, yn enwedig ynglŷn â'r dystiolaeth allanol. Eithr y mae rhan fawr o'r hyn a ddywedir dros ac yn erbyn y farn draddodiadol, sef mai'r Apostol Ioan yw'r awdur, ger ein bron, a barnwn nad oes rhesymau digonol dros ei rhoddi o'r neilltu. Geilw Nolloth sylw at y ffaith yr argyhoeddwyd Lightfoot, Westcott, a Hort mai Ioan yr Apostol yw'r awdur, ac na chaed dim o natur darganfyddiad newydd o ffeithiau perthnasol wedi amser yr ysgolheigion mawr hynny i wrthbrofi eu casgliadau. Nid oedd unrhyw ffaith gerbron y sawl a ymdriniodd ag awduriaeth yr Efengyl yr wythnos ddiweddaf nad oedd yn wybyddus i dri gŵr Caergrawnt. Rhaid cadw hyn yn ofalus mewn cof. Ac, yn y cysylltiad hwn, medd Nolloth ymhellach, ni ddylid anghofio enw Th. Zahn, ysgolhaig y mae cylch ei wybodaeth am y Testament Newydd yn ddigymar yn y dydd presennol. Ond, ar wahân i awdurdod yr enwau mawr hyn, ffaith fwy arwyddocaol yw nad yw eu rhesymau o blaid y farn draddodiadol erioed wedi eu hateb yn llwyddiannus. A dywaid C. Harris y ceidw ymresymiad Lightfoot, Westcott a Hort lawer o'i werth gwreiddiol. Gwrthwynebir y farn draddodiadol gan nifer mawr o ysgolheigion. Yn wir, "yn y presennol rhed prif linell opiniwn beirniadol yn gryf yn erbyn priodoli awduriaeth Apostolaidd uniongyrchol i'r Bedwaredd Efengyl, a hynny nid yn unig ar y Cyfandir, eithr hefyd (er i raddau llawer llai) yn y wlad hon. Ond y mae yna awdurdodau diweddar pwysig yn ffafr yr ochr geidwadol; a phan wyliwn gwrs beirniadaeth tueddir rhai ohonom i gredu yr ail-sefydlir y farn draddodiadol."

A. Y Dystiolaeth Allanol.

Cyn diwedd yr ail ganrif priodolwyd awduriaeth yr Efengyl ym mhob rhan o'r byd Cristionogol, gyda'r eithriad o sect a eilw Epiphanius yr "Alogai" (amddifad o'r [athrawiaeth am y] Logos (y Gair), neu yn amddifad o reswm). Ioan yr Apostol oedd yr Ioan y priodolwyd yr awduriaeth iddo gan Apollinaris o Hierapolis, Theophilus o Antioch, Irenaeus, Canon Muratori, Clement o Alecsandria, Polycrates o Effesus. Dywaid Bernard nad oes amheuaeth ynghylch cred yr ail ganrif mai Ioan yr Apostol oedd **awdur** y Bedwaredd Efengyl, o leiaf yn yr ystyr fod ei dystiolaeth apostolaidd ef y tu cefn iddi.

Rhoddir y rhesymau a ganlyn yn erbyn y farn draddodiadol:—

i. Dyfyniad gan Eusebius (y bedwaredd ganrif) o waith Papias, esgob Hierapolis, a aned oddeutu 60—70 O.C., ac a gyhoeddodd y gwaith y dyfynnir ohono gan Eusebius oddeutu 135—140 O.C. "Pa bryd bynnag y cyfarfyddwn ag unrhyw un a fu'n ganlynwr i'r henaduron, arferwn ei holi am eiriau'r henaduron; (sef) pa beth a ddywedodd Andreas neu Bedr neu Phylip neu Thomas neu Iago neu Ioan neu Matthew, neu arall o ddisgyblion yr Arglwydd; a pha beth a ddywaid Aristion a Ioan yr henadur, disgyblion yr Arglwydd." Awgryma Eusebius fod Ioan yr Henadur y cyfeirir ato gan Bapias a'r Ioan a enwir yn flaenorol yn y dyfyniad uchod yn bersonau gwahanol, ac y bu'r ddau fyw yn Effesus. Apêlia at Dionysius, a ddywaid fod dau feddrod yn Effesus. Eithr ni sonia Dionysius am ddau Ioan. Y mae'n anodd penderfynu ystyr y darn uchod, ond cred nifer o feirniaid y camesboniwyd geiriau Papias gan Eusebius, ac mai am un Ioan y sieryd—yr Apostol—gan ei alw'n gyntaf, ynghyd â disgyblion eraill, yn ddisgybl yr Arglwydd ac yna yn Ioan yr henadur.

Dadleuir gan Bernard mai Ioan yr henadur yw awdur yr Efengyl, eithr barna mai'r awdurdod gwreiddiol oedd Ioan yr Apostol. Ef oedd y llygad-dyst y cyfeiria'r awdur ato; ac felly ei dystiolaeth ef am eiriau a gweithredoedd yr Iesu a geir yn yr Efengyl. Fel, yn ôl traddodiad, mai tystiolaeth Pedr sydd y tu cefn i Efengyl Marc, er mai Marc a'i hysgrifennodd, felly tystiolaeth Ioan yr Apostol sydd y tu cefn i'r Bedwaredd Efengyl, er mai Ioan yr henadur a'i hysgrifennodd.

Dywaid Bernard yr arwydda xxi. 24, ar yr olwg gyntaf, ysgrifennu o'r Disgybl Annwyl yr Efengyl â'i law ei hun, yn cynnwys yr Atodiad, ac nid yn unig fod ei atgofion y tu cefn iddi. Ond gwneir defnydd weithiau o'r gair am ysgrifennu a ddefnyddir yn yr adnod lle y golygir 'dictation.' E.e., golyga "A Philat a ysgrifennodd deitl ac a'i dododd ar y groes" (xix 19) mai Pilat oedd gyfrifol am eiriad y teitl, ond prin mai ef ei hunan a'i hysgrifennodd ar y darn o bren. Cyfeiria Bernard ymhellach at Rhuf. xv. 15, "Eithr mi a ysgrifennais yn hyfach o beth atoch." Gwelir oddi wrth xvi. 22 mai ysgrif-

ennwr yr Epistol oedd gŵr o'r enw Tertius. Barnwn fod yr ymresymiad hwn yn un eiddil iawn. Os llefaru'r Bedwaredd Efengyl i ysgrifennwr a wnaed gan Ioan, fel y gwnaed gan Paul ynglŷn â'r llythyr at y Rhufeiniaid, y mae'r awduriaeth Iohannaidd uniongyrchol wedi ei sefydlu.

Addef Harnack na ellir gwadu y saif Ioan fab Sebedeus, mewn rhyw fodd, y tu cefn i'r Bedwaredd Efengyl, a'i bod, felly, i'w hystyried fel Efengyl Ioan yr Henadur yn ôl Ioan fab Sebedeus. Gwelir bod mab Sebedeus yn ŵr anodd cael gwared ohono. Gyrrir ef allan, eithr dychwel o hyd.

ii. Merthyrwyd Ioan yn gynnar yn ei yrfa Apostolaidd. Rhoddir y rhesymau a ganlyn yn ffafr hyn: (1) Mewn crynodeb (y seithfed neu'r wythfed ganrif) o waith Phylip o Side ym Mhamphylia (y bumed ganrif) mynegir ddywedyd o Bapias yn ei Ail Lyfr y lladdwyd Ioan y Diwinydd a'i frawd Iago gan yr Iddewon. Ac ar sail yr un awdurdod (Papias) dywaid Georgius Hamartolus (y nawfed ganrif) ddarfod i'r Iddewon ferthyru Ioan. (Eithr dywaid ef mai wedi iddo ysgrifennu'r Efengyl y merthyrwyd Ioan). Dygir y rhesymau a ganlyn yn erbyn y traddodiad hwn: (a) Y mae'n amheus a yw Georgius a Phylip yn dystion annibynnol. (b) Nid yw Phylip yn dyst y gellir ymddiried ynddo. Geilw Bacon ef yn "proved bungler" ymhlith haneswyr eglwysig boreol. (c) Ceir cyfeiriad at hir-hoedledd Ioan yn yr un Llawysgrif o Gronicl Georgius ag a gynnwys yr hyn a gyflwynir fel dyfyniad o waith Papias. (2) Mewn merthyrdraeth Syriaeg (411 O.C.) dethlir merthyrdod Ioan ac Iago ar yr un dydd, sef Rhagfyr 27. Ac os merthyrwyd y ddau ar yr un pryd, rhaid y gwnaed hynny cyn 70 O.C. (a) Eithr dangoswyd yn eglur gan Harnack, Stanton, Bernard, Nolloth ac eraill nad ydyw hyn yn derfynol. Ni phraw y ffaith y cysylltir enw Ioan ag eiddo'i frawd y dioddefasant ferthyrdod ar yr un pryd neu yn yr un modd. Ystyr y gair Groeg 'martyros' yw 'tyst,' ac amcan y merthyrdraeth yw cofio tystion. Sylwa Bernard y cynhwysai'r 'Calendars' Eglwysig enwau arweinwyr mawr pa un bynnag a oeddynt yn ferthyron 'coch' neu beidio.

iii. Y broffwydoliaeth am dynged Ioan ac Iago ym Mt. xx. 23 a Marc x. 39, "Dïau yr yfwch o'm cwpan, ac y'ch bedyddir â'r bedydd y'm bedyddir ag ef." Dadleuir na chofnodasid y broffwydoliaeth hon pe na buasai i'r ddau selio eu tystiolaeth â'u gwaed. Ynglŷn â hyn bodlonwn ar ddywedyd y byddai dioddef erledigaeth yn gyflawniad o'r broffwydoliaeth, ac mai yn yr ystyr honno y deallwyd hi gan y ddau frawd pan atebasant, "Gallwn." Ni wyddai'r disgyblion fod yr Iesu i farw.

Cyflwynwn yn ychwanegol y rhesymau a ganlyn yn erbyn y golygiad ddarfod merthyru Ioan: (a) Y mae'n anghredadwy y buasai i'r Eglwys ysbeilio'i sant mwyaf o goron merthyrdod—peth y rhoddid

cymaint o fri arno. (b) Yn ôl Irenaeus bu Ioan fyw hyd amser Trajan, a ddaeth yn Ymherawdr yn 98 O.C. Barnwn y clywir llai am ferthyrdod Ioan yn y dyfodol nag a glywyd yn y gorffennol.

B. Y Dystiolaeth Fewnol.

i. Ceir yn yr Efengyl dystiolaeth **uniongyrchol** fod yr awdur yn llygad-dyst o'r hyn a edrydd. Gwêl i. 14 (cym. 1 Ioan i. 1), xix. 35, xxi. 24. Hyd yn oed a chaniatáu mai ychwanegiad gan law arall yw xxi. 24, y mae yn dystiolaeth uniongyrchol nad gwybodaeth ail-law a roddir inni gan yr Efengylwr.

ii. Ceir ynddi dystiolaeth anuniongyrchol (1) mai Iddew ydoedd yr awdur. Gwelir hyn (a) yn y modd yr ymwnâ â'r Hen Destament. Y mae'r Hen Destament iddo ef yn gymorth i ffydd ac yn ffynhonnell profiad crefyddol. Gwêl gyflawniad o'r Ysgrythurau mewn llawer o'r hanes a edrydd (xiii. 18, xvii. 12, xix. 24, 28, 36, 37, etc.); a nodir y cyflawniadau hyn gyda'r amcan o ennyn ffydd (xix. 35). (b) Medd wybodaeth am arferion Iddewig (ii. 1—10, x. 1—14, xi. 38, 44,. xix. 40), ac am fanylion y defodau cysylltiedig â'r Gŵyliau; am ystâd pleidiau; am y disgwyliad Mesiannaidd poblogaidd yng Ngalilea (i. 41, 45, 49, vi. 28, 30), yn Samaria (iv. 25, 29), ac yn Judea (v. 39, 45, vii. 26, 40—43, viii. 28, 30, x. 24). A dysgir i ni mai Hebreaidd yw'r arddull. Ni wrthbrofir hyn gan y defnydd a wna'r awdur o'r term "yr Iddewon." Ysgrifennwyd yr Efengyl i gylch cynwysedig o Roegiaid yn bennaf, ac y mae'n bosibl yr ysgrifennodd yr awdur fel yr arferai siarad wrth y cynulleidfaoedd yn Effesus. Y mae'n wir y ceir elfen achlysurol o chwerwder yn y cyfeiriadau at "yr Iddewon," ond nid ydyw hynny'n ddim ond mynegiad o deimlad dwys gwladgarwr na fedr anghofio'r ddinas a fradychodd ei gobaith—"At ei eiddo'i hun y daeth, a'i bobl ef ei hunan nis derbyniasant ef." Nid amlygir dirmyg o'r hil yr oedd iechydwriaeth ohoni (iv. 22).

(2) Mai Iddew o Balestina ydoedd. Gwelir hyn yn ei wybodaeth am y wlad (i. 28, 46, ii. 1, iii. 23, iv. 5, 47, xi. 18, 54, xxi. 2). Sylwer ar y wybodaeth fanwl am leoedd a ragdybir yn ii. 12, iv. 11, 12, 20, vi. 22—24. Yr amlygiad mwyaf nodedig o'r wybodaeth hon am leoedd yw'r hyn a geir ynglŷn â Jerusalem, yr hon oedd wedi ei dinistrio cyn amser ysgrifennu'r Bedwaredd Efengyl. Gŵyr yr Efengylwr am y fasnach a ddygid ymlaen yng nghyntedd y Deml a'r hyn a werthid yno (ii. 6); am lyn Bethesda (v. 2); am borth Solomon (x. 23); am afon Cedron, lle yr oedd gardd (xviii. 1); am y Palmant (xix. 13); am Golgotha (xix. 17); am y Deml a'i gwasanaeth (xviii.20); am yr ochr iddi y ceid cysgod ar dywydd oer (x. 22, 23); a gŵyr fod y gwaith o'i hadeiladu wedi ei ddwyn ymlaen am chwe blynedd a deugain (ii. 20).

(3) Ei fod yn llygad-dyst o'r hyn a edrydd. Gŵyr fanylion am bersonau, amseroedd, lleoedd, a digwyddiadau (iv 6, 43, 52, vi. 16, 22,

etc., xi. 6, 17, xii. 1, xiii. 4, 23, 30, xix. 26, xx. 1, etc.). Ni ddygir ni yn unrhyw un o'r Efengylau eraill i gysylltiad mor agos â'r gwŷr a gwragedd o gylch yr Arglwydd, e.e., Simon, Andreas, Phylip, Nathanael, Mair a Martha o Fethania, Judas, Thomas, a Mair Magdalen. Ac y mae'r un peth yn wir am gymeriadau eraill a gyflwynir yng nghwrs yr hanes: Nicodemus, y wraig o Samaria, y dyn a aned yn ddall; yn bennaf oll, Pilat, o gymeriad yr hwn y ceir darlun na allesid ei dynnu ond gan un a sylwasai gyda diddordeb angerddol ar bob cam yn y trychineb mawr y cymerwyd rhan mor amlwg ynddo gan y rhaglaw Rhufeinig.

(4) Ei fod yn Apostol. Amlygir gwybodaeth am feddyliau a theimladau'r disgyblion ar achlysuron pwysig (ii. 11, 17, 22, iv. 27, vi. 19, 60, xii. 16, xiii. 22, 28, xxi. 12); ceir atgofion o ymddiddanion rhwng disgyblion a'i gilydd (iv. 33, xvi. 17, xx. 25, xxi. 3, 7), neu a'i Meistr (iv. 31, ix. 2, xi. 8, 12, xvi. 29, xxi. 5), ac am gymhellion dirgel Crist (ii. 24, iv. 1, v. 6, vi. 15, vii. 1, xvi. 19).

(5) Mai'r Apostol Ioan ydoedd. i. Ym mhennod xxi. (cym. adn. 20 a 24) unolir "y disgybl yr oedd yr Iesu yn ei garu" â'r Efengylwr. A barnwn mai cyfeiriad gan yr Efengylwr ato'i hunan a geir yn xix. 35; ac od felly, y Disgybl Annwyl ydyw (gwêl xix. 26).

ii. Ioan yr Apostol oedd y Disgybl Annwyl. (a) Rhaid bod y disgybl hwnnw'n Apostol, oblegid yr oedd yn bresennol yn y Swper Olaf, pryd nad oedd neb ond Apostolion yn bresennol. (b) Dengys yr Efengylwyr eraill fod cyfathrach arbennig o agos rhwng yr Iesu a thri disgybl,—Pedr, Iago ac Ioan; a saif "y disgybl yr oedd yr Iesu yn ei garu" mewn cysylltiad agos â Phedr yn yr Efengyl hon (xiii. 24, xx. 2, xxi. 7, 20, cym. xviii. 15). Ac y mae'n beth teilwng o sylw y pwysleisia Luc yn fynych gymdeithas Pedr ac Ioan. (c) Yn xxi. 2 darllenwn, "Yr oedd ynghyd Simon Pedr, a Thomas yr hwn a elwir Didymus, a Nathanael o Gana yng Ngalilea, a **meibion** Sebedeus, a dau eraill o'i ddisgyblion ef." "Rhaid bod y Disgybl Annwyl yn un o'r saith hyn, ac yn eu pilth cynhwysir meibion Sebedeus. Nid Iago ydoedd, canys ni allasai'r traddodiad a geir yn adn. 23 gyfodi mewn cysylltiad ag ef (Act. xii. 2). Felly, onid Ioan yr Apostol oedd y Disgybl Annwyl rhaid mai Thomas, neu Nathanael, neu un o'r 'ddau eraill' ydoedd. Eithr traddodiad cyson yr Eglwys foreol oedd mai Ioan oedd **enw'r** Disgybl Annwyl. Felly, caeir allan Thomas a Nathanael" (Bernard). Ac nid oes tystiolaeth mai Ioan oedd enw un o'r ddau eraill.

Hefyd, gellir dywedyd ei fod yn beth arwyddocaol na chyfeirir at Ioan yr Apostol wrth ei enw yn y Bedwaredd Efengyl. Paham, onid ef oedd yr awdur?

Dadleuir (a) nad yw "ansawdd cymeriad Ioan fab Sebedeus, fel y'i disgrifir yn yr Efengylau eraill, y fath a'n tuedda i edrych ynddo ef

am 'y disgybl yr oedd yr Iesu yn ei garu.' Un o Feibion y Daran ydoedd, a ofynodd am ganiatâd i alw tân i lawr o'r nef i ddifa pentref anlletygar yn Samaria (Luc ix. 54). Yr oedd yn un o'r ddau a greodd soriant y deg drwy ofyn am y safle agosaf i'r Iesu yn ei ogoniant." Pan sieryd dynion fel hyn, y mae'n eglur eu bod wedi anghofio'r hyn y medr gras ei wneuthur. Parhaodd Mab y Daran i daranu, ond gwnaed y taranau yn is-wasanaethgar i ddibenion teyrnas Dduw: dofwyd y mellt, ond ni ddiffoddwyd mohonynt. (b) Na allasai mab Sebedeus ysgrifennu Efengyl mor aruchel ac ysbrydol â'r Bedwaredd Efengyl. Oherwydd ei heiddilwch, y mae'n anodd cyfarfod â'r wrthddadl hon. Gwyddom mai pysgotwr oedd Ioan wrth ei grefft, ond beth am hynny? Ai yn ysgolion y Rabbiniaid y cyfrennid athrylith? A chofier y bu Ioan am o ddwy i dair blynedd yn ysgol y dysgawdr mwyaf a welodd y byd, a'i fod yn eglur y meddai Pedr, Ioan ac Iago ar ryw ansoddau arbennig, canys y tri hyn oedd cylch mewnol disgyblion yr Iesu. (c) Y rhagdybia disgrifiad Ioan ohono'i hunan fel "y disgybl yr oedd yr Iesu yn ei garu" hunanogoneddiad ar draul eraill. Eithr y mae hyn yn fynegiad o ddiolchgarwch am yr anrhydedd mawr a roddwyd i Ioan, ac yn esboniad gwylaidd ar y lle amlwg a roddwyd iddo ar wahanol achlysuron.

"Gan fod y dystiolaeth mor gryf," medd J. A. Robertson, "pa beth yw'r rheswm am y gwrthwynebiad beirniadol cryf i awduriaeth Apostolaidd? Y mae yn rhannol yn llenyddol, yn bennaf yn athrawiaethol. Yn lle'r elfen fwy dynol a naturiol yn yr Efengylau eraill ceir ymdeimlad oll-dreiddiol o'r goruwchnaturiol. Yn yr Efengylau eraill gweithreda'r Iesu, yn y Bedwaredd Efengyl hawlia. Yn y cyntaf y mae dull yr Iesu o siarad yn gartrefol, syml, damhegol, am Dduw a'r enaid, am fywyd beunyddiol a Theyrnas Dduw. Yn yr ail y mae'n ymresymiadol, ac yn ymwneuthur yn bennaf â'i berson Ef ei Hunan." Eithr, fel y dywedwn mewn pennod arall, nid y gwahaniaeth rhwng Iesu dynol a Christ nefol yn unig yw'r gwahaniaeth rhwng athrawiaeth yr Efengylau Cyfolwg a'r Bedwaredd Efengyl. Yn y darlun mwy cyflawn o Berson yr Iesu a gyflwynir yn y Bedwaredd y gwneir yn amlwg ystyr yr amlinelliad a geir yn y Tair cyntaf. Ni allai Efengyl Ioan lai na bod yn wahanol i'r adroddiadau cynharach, gan fod gwahaniaeth rhwng gosodiad o ffeithiau a datblygiad o'r egwyddorion annherfynol a chyffredinol a orwedd oddïtan y ffeithiau, ac o'r rhai y mae'r ffeithiau yn arwyddïon.

III.

Lle ac Amser Ysgrifennu'r Efengyl.

1. **Y Lle.** Ceir traddodiad unfrydol mai yn Effesus, y lle y preswyliodd Ioan ynddo yn ystod y rhan olaf o'i fywyd, yr ysgrifennwyd yr Efengyl. Haera rhai beirniaid na fu Ioan byw yn Effesus, a hynny

yn wyneb traddodiad yr Eglwys foreol fel y'i rhoddir gan Justin Ferthyr, Irenaeus, Tertullian, a Clement o Alecsandria. Y mae'n wir na cheir cyfeiriad at breswyliad Ioan yn Effesus yn ysgrifeniadau Clement o Rufain, Polycarp o Smyrna, nac Ignatius o Antioch, ond nid yw eu distawrwydd hwynt yn rheswm digonol dros roddi o'r neilltu dystiolaeth yr ysgrifenwyr uchod. (Er y gwnaethom ddefnydd o'r ymresymiad oddi wrth ddistawrwydd ynglŷn â merthyrdod Ioan, dymunwn ddywedyd nad yw'n beth i roddi pwys arno bob amser. Cymerodd gwladweinydd neilltuol ran amlwg mewn amgylchiadau yr ymdrinir â hwynt mewn llyfr a gyhoeddwyd rai blynyddoedd yn ôl, ond nid enwir ef yn y llyfr hwnnw.)

2. **Yr amser.** Nid yn ddiweddarach na 110 O.C. (Harnack). Nid yn ddiweddarach na 100 O.C., ac, o bosibl, mor gynnar â 95 O.C. (Streeter). Credai'r diweddar Ganon Burney ei bod yn bosibl yr ysgrifennwyd yr Efengyl mor gynnar â 80 O.C. "Os rhoddir y dyddiad ymhellach ymlaen yn yr ail ganrif, fel y gwna Baur, gwneir yr athrawiaeth Apostolaidd yn amhosibl. Eithr bernir yn gyffredinol na ellir gwneuthur hyn" (Nolloth).

IV.

AMCAN A CHYLLUN YR EFENGYL.

A. **Amcan yr Efengyl.** Ceir gosodiad eglur o amcan yr Efengyl yn xx. 30, "Eithr y pethau hyn a ysgrifennwyd fel y credoch chwi mai Iesu yw'r Crist, Mab Duw; a chan gredu, y caffoch fywyd yn ei enw ef." Gwelir felly fod i'r Efengyl (1) amcan athrawiaethol, sef profi (a) mai Iesu, y dysgawdr adnabyddus a gwir ddyn yw'r Crist, y Meseia disgwyliedig a Gwaredwr Israel; (b) mai Iesu yw Mab Duw—y Mab Duw, a fedd berthynas â Duw nad yw neb arall yn gyfrannog ohoni (uniganedig). (2) Amcan ymarferol, "a chan gredu, y caffoch fywyd yn ei enw ef." Ei "enw" yw Ef ei Hunan fel y datguddir Ef yn y cymeriad a nagdybia ei enw. Nid yw cred ddeallol yn unig ddim. Y ffydd a ddwg fywyd i feirw yw'r ffydd y sieryd Ioan amdani, y ffydd a una ddynion â Christ ei Hun, Ef yn ddynt hwy, a hwythau ynddo Yntau, y ffydd sydd yn hanfodol yn eni o Dduw. Gwelir bod diwedd yr Efengyl yn adlais o'i dechrau (i. 4, 12). "Dyma genadwri ganolog yr Efengyl, mai cred yng Nghrist yw'r llwybr i fywyd. Gwêl iii. 15, 16, 36; 1 Ioan v. 13. Ceir yn y Rhagair y datganiad "ynddo ef yr oedd bywyd," ac amcan ei ddyfodiad oedd caffael o ddynion fywyd; cym. v. 40, vi. 53, x. 10" (Bernard).

Nid ysgrifennu hanes cyflawn o fywyd Crist yw amcan Ioan. Ped ysgrifennid hynny tybia na chynhwysai'r byd mo'r llyfrau a ysgrifennid (xxi. 25). Ysgrifennodd i gynhyrchu effaith neilltuol ar ei ddarllenwyr, a gwnaeth ddetholiad gofalus a hunanymwadol o'r hyn oedd

at ei wasanaeth i gyrraedd yr amcan hwnnw. Adweinir 'artist' nid yn unig wrth yr hyn a gynnwys yn ei waith, ond hefyd wrth yr hyn ni chynnwys. [Ysgrifennwyd y tair Efengyl cyntaf hefyd gyda phwrpas. Ceisiodd eu hysgrifenwyr gyflwyno'r Iesu i'r dosbarth neilltuol o bobl oedd mewn golwg ganddynt wrth ysgrifennu fel ag i'w hennill i gredu ynddo. Sieryd rhai fel pe credent mai unig amcan Mt., Marc, a Luc, oedd casglu defnyddiau ynghyd, fel petaent grefftwyr yn hytrach na chelfwyr. Eithr dengys astudiaeth ofalus o hyd yn oed y gynharaf o'r tair Efengyl cyntaf, sef Efengyl Marc, y llywodraethir hi gan amcan amddiffynnol. Cyflwynir yr hanes mewn modd a'i gwna'n is-wasanaethgar i brif bwrpas yr Efengylwr.]

B. **Cynllun yr Efengyl.** Penderfyna'r amcan y cynllun i raddau helaeth. Gan mai ennyn a chadarnhau ffydd yn yr Iesu fel y Crist a Mab Duw yw amcan yr Efengylwr, ceir nid yn unig ddetholiad gofalus, ond trefniad gofalus hefyd o'r rhannau o fywyd Crist a rydd ger ein bron, a'n harwain o gam i gam i'r casgliad a fynegir yng nghyffes Thomas, "Fy Arglwydd a'm Duw" (xx. 28). Ceir dechrau ffydd y disgyblion yn y bennod gyntaf, a'i heithafbwynt yn nghyffes Thomas. Cred yr Efengylwr y bydd i'r hyn a enynnodd ffydd ynddo ef a'i gyd-ddisgyblion beri i eraill gredu, os gosodir y ffeithiau'n deg ger eu bron. Nid dychmygu ffeithiau a wna, i gyfleu'r argraff a wnaed arno gan hunan-amlygiadau'r Iesu, ond adrodd y ffeithiau a wnaethant yr argraff honno, gan hyderu y cânt yr un dylanwad ar ei ddarllenwyr ag a gawsant arno ef. Eithr y mae ochr arall i'r mater. Ochr yn ochr â ffydd gynyddol ceir anghrediniaeth gynyddol, a dry yn y diwedd yn elyniaeth yn erbyn i'r treial a'r groes. Teimla'r Efengylwr y gelwir arno i brofi y ceir y gwir reswm am hyn nid yn annigonolrwydd amlygiadau'r Iesu ohono'i Hun, ond yn niffyg ysbrydolrwydd yr anghredinwyr a'u hymneilltuad oddi wrth Dduw.

Esbonia amcan ysgrifennu'r Efengyl paham y geilw Ioan y gwahanol ddigwyddiadau a edrydd yn "arwyddion." "Arwyddion" oedd y cwbl, y geiriau a'r gweithredoedd, o'r Iesu fel y Crist, a Mab Duw. Ac yn y goleuni hwn gallwn weled y modd yr edrychai Ioan ar ymddangosiad ei Feistr yn y byd. Yn niwinyddiaeth Paul saif yr Ymgnawdoliad fel arwydd o ymostyngiad anhraethol ar ran yr Hwn, ac Ef yn ffurf Duw, a'i dibrisiodd ei Hun. Eithr yn Efengyl Ioan saif fel y modd y bu iddo Ef, a fynega Dduw yn gyflawn, ei hysbysu i ddynion drwyddo. Yr oedd y cnawd, yr hyn y gwnaethpwyd y Gair, megis ffenestr yn agor ar ogoniant y Duw Anfeidrol. Ni phortreadir yr Iesu yn unlle yn yr Efengyl—ni phortreadir Ef hyd yn oed ar y groes — ond fel yn datguddio gogoniant tragwyddol y Tad, ac yn ennyn cred mewn rhai o leiaf. Goleuir amgylchiadau allanol ei fywyd gan lewyrch dwyfol. Ei enedigaeth: hynny yw, "y Gair a wnaethpwyd yn gnawd . . . . ac ni a welsom ei ogoniant ef." Ei wrthodiad gan anghrediniaeth: cyflwyniad angenrheidiol o air Duw

mewn proffwydoliaeth, a hyd yn oed o'r pwrpas dwyfol yw hynny. Ei farwolaeth: y cwblhad o'i dystiolaeth i gariad y Tad yw hynny; a theifl y gair "Gorffennwyd" lewyrch dwyfol ar waradwydd Calfaria, fel y credodd ac y tystiolaethodd yr hwn a welodd.

Eithr ni cheir yn yr Efengylau eraill bortread mwy cyffyrddol o dynerwch a gwirioneddolrwydd natur ddynol ein Harglwydd. Yn hyn y mae'r Efengyl yn debyg i'r Epistol at yr Hebreaid, a gyflwyna'r gwirionedd o allu'r Gwaredwr dwyfol i gydymdeimlo â'r ddynoliaeth ddioddefus. Yr hwn a rydd ei bresenoldeb mewn priodas, ac a chwanega'r llawenydd; yr hwn sydd yn flinedig a sychedig; yr hwn a ŵyla wrth fedd Lazarus; yr hwn a ddywaid "Wele dy fam;" "Wele dy fab,"—y mae hwn yn ddyn fel ninnau, er ei fod y datgudd-iad cyflawn o'r Tragwyddol Dduw. Yn y cysylltiad hwn diddorol yw sylwi mai ar y Bedwaredd Efengyl yn bennaf (yn y Testament Newydd) y seiliodd yr Ariaid eu gwadiad o Ddwyfoldeb Crist.

Dywaid Irenaeus yr ysgrifennwyd yr Efengyl yn erbyn heresi Cer-inthus, un o'r ffurfiau a gymerai Docetiaeth. Ymddengys, medd R. Law, y bodolai Docetiaeth mewn dwy ffurf mwy neu lai penodol. (a) Nid oedd yr Iesu mewn unrhyw ystyr yn fod dynol: rhith yn unig a gerddodd y ddaear ac a groeshoeliwyd. (b) Y mae i'r ffurf arall gysylltiad arbennig â Cherinthus. Dysgai ef mai yn ei fedydd y disgynnodd y Crist ar yr Iesu; y gadawodd y Crist nefol yr Iesu yn niwedd ei fywyd; y bu'r Iesu farw, ond na ddioddef y Crist, am mai bod ysbrydol ydoedd. Yn ôl y golygiad hwn nid oedd yr Iesu y Crist, ond yn unig, o'r bedydd i'r croeshoeliad, trigle daearol y Crist nefol. Gwnâi'r ddwy 'theory' hyn, medd Law ymhellach, yr Ymgnawdoliad yn beth ymddangosiadol yn unig. Gwadai'r gyntaf wir-ioneddolrwydd yr ymgorfforiad dynol o'r Bywyd Dwyfol; addefai'r ail wirioneddolrwydd yr ymgorfforiad dynol, eithr gwadai ei unol-iaeth barhaol a phersonol â'r Dwyfol.

Y mae'n eglur y ceir amcan dadleuol yn yr Efengyl. A gwelir ynddi'r dadleuwr delfrydol, yr hwn nid erys i gyfarfod â golygiadau gau yn y ffordd o ymresymiad, eithr a edrydd y ffeithiau a gyfiawnha'r golygiad cywir. Pa beth bynnag oedd natur yr heresïau a goleddid yn amser ysgrifennu'r Efengyl, gwrthbrofir hwynt gan y ffeithiau a adroddir ynddi.

Dywaid Eusebius i Ioan, yn gweled bod hanes y gweithredoedd a wnaeth Crist yn nechrau ei weinidogaeth yn eisiau yn yr Efengylau eraill, roddi yn ei Efengyl hanes yr amser a adawyd allan gan yr Efengylwyr cynharach, a'r gweithredoedd a wnaeth y Gwaredwr yn ystod yr amser hwnnw; h.y., y pethau a ddigwyddodd cyn carcharu'r Bedyddiwr. Ac fel y dywedwyd mewn pennod arall dywaid Clement o Alecsandria, "Ioan, yn olaf, wedi sylwi ohono fod y pethau corff-orol (y ffeithiau hanesyddol) wedi eu gosod allan yn yr Efengylau eraill, ac yn cael ei annog gan ei gyfeillion, a gynhyrchodd Efengyl ysbrydol." (Gwêl y bennod ar "Yr Efengyl fel Hanes").

Y mae'n wir y cynnwys Efengyl Ioan ddigwyddiadau nodedig ac anerchiadau pwysig a'r nis cynhwysir yn y lleill, ac y rhoddir ynddi amlygrwydd mawr i natur ysbrydol dysgeidiaeth ein Harglwydd. Eithr yma eto, is-wasanaethgar yw'r amcanion hyn i brif amcan yr Efengyl.

v.

EFENGYL IOAN FEL HANES.

"Nid enillir dim drwy leihau'r gwahaniaethau rhwng Efengyl Ioan a'r Efengylau eraill. Y maent yna ar yr wyneb. Oni fedrwn eu cysoni'n deg gorau yw dywedyd felly a gadael i astudiaeth a darganfyddiad dyfodol waith sydd y tu hwnt i'n galluoedd ni. Cyfansoddir y gwahaniaethau yn rhannol o ychwanegiadau, ac yn rhannol o bethau a adewir allan." Ychwanegir yn Efengyl Ioan yr hanesion am Nicodemus a'r wraig o Samaria, a gwyrthiau fel troi'r dwfr yn win, iachâd y claf wrth lyn Bethesda, iachâd y dyn dall o'i enedigaeth, ac atgyfodiad Lazarus. Gadewir allan hanes bedydd yr Iesu, y temtiad, y gweddnewidiad (ond gwêl ar i. 14), sefydliad Swper yr Arglwydd, yr ing yn yr ardd (ond ceir ei hanfod yn xii. 27, 28), rhwygo llen y Deml, a chyffes y canwriad. Ni sonnir chwaith am eni ac achau'r Iesu (cym. Marc, a chyf. Mt. a Luc). Rhaid cadw mewn cof mai rhannol yw cynnwys y pedair Efengyl; ni chawn ynddynt ond detholiad bychan o weithredoedd ac anerchiadau'r Iesu. Dywedir yn eglur mai rhannol yw Efengyl Ioan (xx. 30), a rhannol hefyd yw'r lleill. Ac nid ydym ni mewn safle i ddywedyd beth a ddylid, neu beth ni ddylid ei gynnwys yn y cynlluniau a osododd yr Efengylwyr i lawr iddynt eu hunain. Pwysleisia Windisch annigonolrwydd **unrhyw** ysgrif i osod allan yr Efengyl Dragwyddol yn ei holl gyflawnder. Ni fedr un o'n Hefengylau wneuthur hynny—ni fedr hyd yn oed Efengyl Ioan. Erys yr Efengyl Dragwyddol heb ei hysgrifennu. Llewyrcha pelydrau ohoni ym mhob Efengyl. Yn y dyfodol y datguddir hi gyntaf yng nghyflawnder ei gwirionedd. Bydd hynny pan baid yr Efengylau ysgrifenedig â bod—Ioan yr olaf oll.

Pan wrthddywaid (neu yr ymddengys y gwrthddywaid) unrhyw osodiad yn y Bedwaredd Efengyl osodiadau yn y lleill, credir gan lawer fod cyflwyniad Ioan o'r achos yn anhanesyddol. Y mae'r syniad hwn wedi ei ddyrchafu ymron i gylch gwirioneddau hunaneglur. Siaredir am dair Efengyl yn erbyn un; eithr nid felly y mae. Yn y tair cyntaf dilynir yn gyffredin, yn y rhan hanesyddol, drefn ac amlinelliad Marc. Ac nid yw Marc yn dyst uniongyrchol, ond, fel y dywaid Papias, "dehonglwr Pedr, a ysgrifennodd yn gywir, eithr nid mewn trefn, yr hyn a gofiai o'r hyn a ddywedwyd neu a wnaethpwyd gan Grist." Yn awr, y peth cyntaf a'n tery yw yr honna awdur y Bedwaredd Efengyl wybodaeth agos a phersonol o'r

digwyddiadau a edrydd. Gellir gwrthod yr honiad, ond ni ellir anwybyddu'r ffaith y gwneir ef.

Addefir weithiau y meddai'r Efengylwr wybodaeth gyflawn, eithr nad oedd adrodd ffeithiau yn rhan o'i fwriad. Ei fwriad oedd ysgrifennu traethawd diwinyddol uniongred. E.e., ni chyfodwyd Lazarus o'r bedd, ond cytuna'r geiriau a roddir ar enau ein Harglwydd mewn cysylltiad â'r digwyddiad dychmygol hwnnw yn weddol dda â'r syniadau a geir yn yr Efengylau eraill, a dichon y rhoddant felly yr hyn a ddysgwyd gan ein Harglwydd ar achlysuron eraill. Wrth gwrs gellir tybied y bwriadai'r Efengylwr ysgrifennu rhamant hanesyddol ac nid adrodd ffeithiau. Eithr gwrthddywaid y fath olygiad osodiadau'r Efengyl ei hun (xix. 35, xxi. 24). Pan wna ysgrifennwr y fath honiadau â'r rhain, ac eto a ysgrifenna hanes dychmygol, y mae'n anodd ei farnu'n ddieuog o dwyll bwriadol. Ymhellach, meddwn dystiolaeth annibynnol am ddigwyddiad llawer iawn o'r hyn a adroddir yn yr Efengyl hon. Glanhawyd y Deml; porthwyd y miloedd; bu'r swper ym Methania; bradychodd Judas yr Iesu; gwadodd Pedr Ef; bu'r treial gerbron Caiaphas a'r treial gerbron Pilat; croeshoeliwyd yr Iesu; atgyfododd. Eithr cynllun yr awdur, meddir, oedd, nid anwybyddu hanes yn hollol, ond ei ŵyrdroi a gosod i mewn un neu ddau o hanesion dychmygol o'i eiddo'i hun. Yma eto rhaid inni ddewis rhwng cywirdeb bwriadol a thwyll bwriadol.

Cymerwn yr hanesion yr ymddengys Ioan a'r Efengylwyr eraill fel yn gwrthddywedyd ei gilydd ynddynt.

1. Yn Ioan, cydnabyddir yr Iesu o'r dechrau fel y Meseia. Gwneir hyn gan Andreas a Phylip (i. 41, 45): anerchir Ef fel "Brenin Israel gan Nathanael (i. 49); ac y mae'n eglur y cydnabuwyd Ef fel y Meseia gan y Bedyddiwr o adeg ei fedydd. (Sylwa Bernard fod hyn yn eglur oddiwrth Mt. iii. 14 hefyd, ac nad yw ei betruster diweddarach yn anghyson â'i argyhoeddiad brwdfrydig blaenorol, fel y cydnebydd y neb a astudia eneideg). Eithr yn yr Efengylau eraill gwelir cynnydd yn argyhoeddiad y Deuddeg mai'r Meseia oedd yr Iesu, a chyrraedd hyn ei eithafbwynt yn y Gyffes Fawr yng Nghesarea-Philippi. Y mae fel pe bai'r Iesu wedi disgwyl hyd oni ddatblygodd y disgyblion weledigiad ysbrydol a beiddgarwch digonol i'w annerch fel y Meseia yn ei syniad Ef am y swydd honno. Eithr "Nid yw'r ymresymiad na all yr Efengyl (Ioan) fod yn gywir oherwydd y portreada Feseiaeth ein Harglwydd fel peth a gydnabuwyd o ddechrau ei weinidogaeth mor gryf ag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf. Y mae'n eglur, hyd yn oed oddi wrth yr Efengylau eraill, yr ymgysylltodd canlynwyr y Bedyddiwr â'r Iesu gyda'r gobaith cryf neu'r grediniaeth ddechreuol o leiaf y byddai i'r hwn y datganwyd ei ddyfodiad gan Ioan droi allan i fod y Meseia. Ni ragdybir mwy na hyn yn Ioan i. 41. Cyffes seiliedig ar ddisgwyliadau Mesiannaidd yw cyffes Nathanael (i. 49), a derbyniad oenaidd a roddwyd iddi gan

yr Iesu. Ar adegau eraill siaradodd yn amwys (x. 24). Gwnaeth ei ddatganiad o'i Feseiaeth wrth y wraig o Samaria am mai syniad proffwydol yn hytrach na gwleidyddol a goleddai'r Samariaid am swyddogaeth y Meseia.

2. Cylch a hyd gweinidogaeth yr Iesu. (a) Cylch y weinidogaeth. Yn yr Efengylau eraill, Galilea yw cylch gweinidogaeth yr Iesu: nid enwir Jerusalem neu Judea ond yn anfynych hyd oni ddeuir at derfyn ei fywyd. I'r gwrthwyneb, cylch pennaf y weinidogaeth yn Efengyl Ioan yw Judea. Eithr nid oes anghysondeb yma. Rhagdybir gweinidogaeth yn Judea yn yr Efengylau eraill. "O, Jerusalem, Jerusalem, yr hon wyt yn lladd y proffwydi, ac yn llabyddio y rhai a anfonir atat; pa sawl gwaith y mynaswn gasglu dy blant ynghyd, y modd y casgl iâr ei chywion dan ei hadenydd, ac nis mynnech!" (Mt. xxiii. 37; Luc xiii. 34). Nid yw barn Drummond mai cyfeirio at ddyheadau yr Iesu yn ystod ymweliadau â Jerusalem cyn dechrau ei weinidogaeth gyhoeddus a wna'r geiriau hyn yn esboniad digonol arnynt. Gwelir hefyd oddi wrth yr Efengylau eraill fod i'r Iesu gyfeillion yn Jerusalem y gall ddibynnu arnynt yn yr awr dduaf: e.e., teulu a rydd lety iddo; dyn a rydd iddo ebol i'w farchogaeth, am fod "yn rhaid i'r Arglwydd wrtho;" cyfaill a geidw oruwchystafell fawr yn barod ar gyfer ei Basg olaf.

Yn sicr, y mae'r tebygolrwydd yn ffafr Ioan ynglŷn â'r mater hwn. Ni ellir tybied i'r Iesu, fel Iddew duwiolfrydig, anwybyddu'r gwyliau mawr blynyddol. Yn Luc ii. 41 darllenwn, "A'i rieni ef a aent i Jerusalem bob blwyddyn ar ŵyl y Pasg." "Ni allwn amau na wnaeth yr Iesu hynny. Hyd yn oed a chaniatáu na pharhaodd ei weinidogaeth gyhoeddus am fwy na blwyddyn, y mae'n anodd credu nad aeth i ŵyl y Pentecost, neu i ŵyl y Pebyll, y fwyaf o'r holl wyliau. Ni cheir awgrym y cyhuddwyd Ef o beidio â mynychu'r gwyliau. Ac y mae'n llawn mor annhebygol "na wnaeth ymdrech i apelio'n bersonol at Jerusalem, cartref y grefydd genedlaethol a chanolbwynt ei hawdurdod, cyn yr wythnos olaf o'i fywyd ar y ddaear."

Hefyd, dichon y rhagdybia geiriau'r Iesu pan "oeddynt ar y ffordd yn myned i fyny i Jerusalem" wybodaeth brofiadol am fwriadau'r awdurdodau. "Bydd iddynt ladd."

(b) Hyd y weinidogaeth. Am un Pasg yn unig y sieryd yr Efengylwyr eraill, a pharant inni gasglu y croeshoeliwyd yr Iesu adeg y Pasg dilynol i'w Fedydd. Cynhwysai hyn mai am flwyddyn yn unig y parhaodd ei weinidogaeth. Eithr yn Efengyl Ioan enwir tri Pasg (ii. 13, vi. 4, xii. 1). Od aeth yr Iesu i fyny i Basg vi. 4 bu'n bresennol deirgwaith yng ngŵyl y Pasg (yn ystod ei weinidogaeth gyhoeddus). (Aeth i fyny hefyd i ŵyl y Pebyll (pen. vii.) a'r Gysegrŵyl (pen. x.); a barna rhai mai gŵyl y Pwrim yw'r ŵyl y cyfeirir ati

yn v. 1, a rhaid mai'r Pentecost oedd). Y tebyg yw mai cynnil yw'r hanes a roddir yn yr Efengylau eraill—a elwir yr Efengylau Cyfolwg—am dymor bore gweinidogaeth ein Harglwydd cyn galwad y disgyblion, ac y lleinw'r hanes yn Ioan y bwlch hwn.

3. Dywaid Burkitt y "daw'r anghysondeb rhwng y Bedwaredd Efengyl a'r Efengylau Cyfolwg, h.y., Efengyl Marc, i bwynt yn hanes atgyfodi Lazarus. Nid cwestiwn o annhebygolrwydd neu amhosibilrwydd gwyrth ydyw, ond o amser a lle a'r effaith a gynhyrchodd. Yn mha le y gellir gosod yr olygfa i mewn yng nghynllun hanesyddol Marc? A ellir rhoddi unrhyw ateb ond 'nid oes le'? A ydyw'n bosibl y medr y neb a ddarllen stori ddifwlch a manwl Marc o'r Gweddnewidiad hyd y mynediad buddugoliaethus i Jerusalem roddi lle ynddi i'r hanes am Lazarus a'r effaith nodedig y sicrheir ni a gynhyrchodd? Er ei holl 'setting' dramatig argyhoeddir fi na ellir edrych ar stori Atgyfodiad Lazarus fel hanes digwyddiadau hanesyddol."

Gwelir y gwna Burkitt eilun o Marc. Gallwn addef yn rhwydd y cynwysasai Marc yr hanes pe buasai'n ymwybodol o le'r wyrth ynglŷn â phenderfyniad terfynol yr archoffeiriaid. Eithr y mae'n bosibl na wyddai awdur yr Ail Efengyl ddim am yr ymgynghori dirgel oedd yn wybyddus i awdur y Bedwaredd. (Sylwa Bernard y dichon nad oedd Pedr yn bresennol). Eithr os rhoddir o'r neilltu ystyriaeth o'r effaith a gynhyrchodd y wyrth ar yr awdurdodau, nid oes reswm paham y dylai Marc adrodd yr hanes hwn mwy na rhyw hanes arall. Gadawer inni ystyried y mater o debygolrwydd y ddau hanes—un yn cynnwys hanes Atgyfodiad Lazarus a'r llall heb unrhyw gyfeiriad ato. Yn Ioan, esbonia'r digwyddiad bopeth—brwdfrydedd y tyrfaoedd ar Sul y Palmwydd, ofn yr awdurdodau Iddewig y byddai i gyflwr cynhyrfus y pererinion o Galilea arwain i wrthryfel a ddygai oddi amgylch ymyriad y Rhufeiniaid, a'r anhawster i ddal yr Iesu heb greu cynnwrf ymhlith y bobl. Yn yr achos hwn, fel mewn llawer eraill, y mae'r hanes a roddir gan Ioan yn angenrheidiol er deall y lleill.

4. Glanhad y Deml. Yn ôl y Bedwaredd Efengyl digwyddodd hyn yn gynnar yng ngweinidogaeth yr Iesu; yn yr Efengylau eraill yn yr wythnos olaf o'i fywyd. Ceir y dybiaeth y bu dau lanhad, ac y mae yna lawer i'w ddywedyd yn ffafr hynny. Eithr os gorfodir ni i dybied na wnaed hyn ond unwaith, ymddengys yr amser a rydd Ioan y mwyaf tebygol o lawer. Pair yr hanes ym Marc inni dybied yr aeth yr Iesu i fyny i Jerusalem ŵyl ar ôl gŵyl, eithr na sylwodd ar stad gywilyddus cyntedd y Deml—peth a ymddengys yn annhebygol iawn.

5. Dydd marw'r Iesu. Yn ôl yr Efengylau eraill y Pasg oedd Swper yr Iesu gyda'i ddisgyblion yr hwyr olaf o'i fywyd (Mt. xxvi.

2, 17, 18, 19; Marc xiv. 14—16; Luc xxii. 7, 11—13, 15). Ond yn ôl Ioan bwytawyd y Swper Olaf yr hwyr cyn y Pasg (xiii. 1, 29, xviii. 28). Yr hanes yn yr Efengylau eraill am ddydd y Croeshoeliad, yn llawn o ddigwyddiadau ac yn amddifad o unrhyw gysegredigrwydd arbennig, yw'r praw gorau mai Ioan sydd gywir, ac y croeshoeliwyd yr Iesu ar yr amser y lleddid oen y Pasg ar gyfer y wledd.

Dymunwn yn ostyngedig gyflwyno'r farn bendant mai hanes a geir yn Efengyl Ioan, ac nid rhamant hanesyddol—"darn o farddoniaeth, nid hanes" (Drummond). Nid gyda "Thaith y Pererin" y mae i'w rhestru. Myn Windisch y cred yr Efengylwr fod ei Efengyl o natur mor ddigonol ac awdurdodol ag i wneuthur Efengylau ei flaenoriaid yn rhai y gellir eu hanwybyddu'n hollol. Y mae hwn yn ddywediad eithafol, canys y mae i bob un o'r Efengylau ei lle a'i swyddogaeth. Eithr ysgrifenna Ioan gyda hunanhyder ac annibyniaeth. Yn ychwanegol at yr enghreifftiau a nodwyd uchod sylwer ar iii. 24—"He sets St. Mark right with a stroke of his pen" (Nolloth). (Gwêl y nodiadau ar Ioan Fedyddiwr).

Addefwn yr ysgrifennwyd y Bedwaredd Efengyl gydag amcan—gyda thuedd neu ogwydd. Esgyn o'r gweithredol a'r unigol i'r cyffredinol. Gwna'r Rhagair yn eglur, drwy unoli'r Gair Tragwyddol â'r Iesu, y suddir yr unigol a'r neilltuol yn y cyffredinol trwy'r holl Efengyl. Arwain yr olygfa yn Sichar i'r ddysgeidiaeth am Ddwfr y Bywyd, a phorthi'r pum mil i'r anerchiad ar Fara'r Bywyd. Ysbrydolir ffaith a digwyddiad; dehonglir yr hanes yng ngoleuni tragwyddoldeb. Eithr ni olyga hyn, megis yr haera nifer o feirniaid, y dyfeisiwyd y ffeithiau i gyfleu gwirioneddau ysbrydol. Gwneir llawer gan rai o eiriau adnabyddus Clement o Alecsandria: "Ioan, yn olaf, wedi sylwi ohono fod y pethau corfforol (y ffeithiau hanesyddol) wedi eu gosod allan yn yr Efengylau eraill, ac yn cael ei annog gan ei gyfeillion, a gynhyrchodd Efengyl **ysbrydol**." "Wrth ysbrydol golygid, nid defosiynol, moesol, neu athronyddol, ond alegoriaidd fel yn wrthgyferbyniol i hanesyddol" (Inge). Pan gofiwn y defnydd cyffredin a wneid o'r dull alegoriaidd o esbonio, y mae llawer i'w ddywedyd yn ffafr Clement. Alegoreiddiai'r Alecsandriaid storïau Homer. Ac yn Philo ceir y dull hwn o esbonio wedi rhedeg yn wyllt. Gwelodd ef yn y Pumllyfr ddrych o Ddoethineb Ddwyfol, corfforiad o Air y Duw nis adweinir. Mewn gwirionedd, disgrifiad o egwyddorion anghyfnewidiol y byd moesol ac ysbrydol yw'r hyn a ymddengys yn hanes. Y Prif Rinweddau (4) yw Pedair Afon Paradwys, &c. Ond cymhelliad cenhadol a berodd i Philo fabwysiadu'r dull hwn o esbonio. Ei brif nodwedd oedd ei sêl dros y grefydd Iddewig. Ceisiodd ddangos nad oes dim yn holl ddoethineb y Groegiaid nas rhagwelwyd gan y proffwydi Iddewig, yn enwedig Moses. Hefyd, ceir amryw esiamplau o esboniadaeth alegoriaidd yn y Testament Newydd, e.e., 1 Cor. ix. 9, 10, x. 1, &c.; Gal. iv. 24. (Ac y mae alegoreiddio yn beth 'modern' hefyd). Pa gysylltiad sydd rhwng

hyn ac Efengyl Ioan? Dengys gosodiad Clement y credid, ryw gan mlynedd wedi ysgrifennu'r Efengyl, mai mewn ystyr alegoriaidd y mae i'w hesbonio, h.y., y cyflea wirionedd ysbrydol heb fod yn adroddiad o ffeithiau. Pair hyn inni ofyn ai ni themtid ysgrifennwr Alecsandriaidd i weled alegori ym mhopeth. Ni orfodir ni gan esboniadaeth Alecsandria i gymryd yn ganiataol fwriad alegoriaidd gwreiddiol yn y Bedwaredd Efengyl. Addefir er ys talm y ceir elfen esboniadol ynddi; ond gwelwn yn awr mai esboniadol yw'r Efengylau eraill hefyd. Gwahaniaeth mewn graddau, ac nid mewn math, yw'r gwahaniaeth rhyngddynt. Dyfynnir yn fynych eiriau Origen i brofi ystyr alegoriaidd yr Efengylau: "Cynnwys yr Efengylau lawer o bethau y dywedir ddigwydd ohonynt, ond na ddigwyddasant yn llythrennol." Eithr ni rydd Origen ond un enghraifft—y diafol yn cymryd yr Iesu i fynydd uchel, i ddangos iddo holl deyrnasoedd y byd a'u gogoniant. (Ond ymadrodd ffigurol yw hwn.) Ni ellir edrych ar y Tadau Alecsandriaidd fel tystion diduedd.

A chaniatáu y defnyddiodd Ioan y dull alegoriaidd, a ddefnyddiwyd ef ganddo mewn modd a'i gwnaeth yn ddiofal ynghylch ffeithiau? Gwna'r ystyriaethau a ganlyn hyn yn annhebygol: (a) Gwelir mai esiamplau yw'r enghreifftiau uchod o esboniadaeth alegoriaidd o lyfrau cysegredig oedd mewn bod eisoes. Y mae hyn yn beth gwahanol i ddyfeisio hanes yn fwriadol, e.e., cyfodiad Lazarus, i gyfleu gwirionedd ysbrydol. Ni phraw enghreifftiau o esboniadaeth alegoriaidd allan o lyfrau cysegredig fod ynddynt alegori wedi ei chyfansoddi, yr wreiddiol, mewn ffurf hanesyddol. Pan ddywaid Paul "yr hyn bethau ydynt mewn alegori" (Gal. iv. 24), nid awgryma nad hanes yw'r hyn a geir yn Genesis am Abraham, Sarah, ac Agar.

(b) Credir yn gyffredinol mai o Effesus y daeth yr Efengyl, mai'r un yw awdur yr Efengyl ag awdur Epistolau Ioan, ac y gadawodd y ddadl â Cherinthus ei hargraff ar yr Efengyl a'r Epistolau. (Am Gerinthus a Docetiaeth gwêl y bennod ar "Amcan ysgrifennu'r Efengyl" yn y Rhagarweiniad). Yn Ioan ii. 22 darllenwn, "Pwy yw'r celwyddog, ond yr hwn sydd yn gwadu nad Iesu yw'r Crist? Ef yw'r anghrist, yr hwn sydd yn gwadu'r Tad a'r Mab;" yn 2 Ioan 7, "Oblegid y mae twyllwyr lawer wedi dyfod i mewn i'r byd, y rhai nid ydynt yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd. Hwn yw'r twyllwr a'r anghrist;" ac yn niwedd yr Efengyl, "Y pethau hyn a ysgrifennwyd fel y credoch chwi mai'r Iesu yw'r Crist, Mab Duw." I Ioan, maen praw pob gwirionedd yw'r gyffes ddyfod Iesu Grist yn y cnawd. Yr amlygiad yn a thrwy'r cnawd yw'r hyn a haera ac a ailedrydd, yn wrthgyferbyniol i ddelfrydiaeth y Gnosticiaid. Y perygl yr ymladd yn ei erbyn yw **nid** syniadau materol am Grist, y rhai y cais eu codi i lefel uwch; eithr, i'r gwrthwyneb, syniadau y rhai a wad wir ddyndod yr Arglwydd. Nid o Ebioniaeth y cyfyd y perygl, ond o syniadau'r Gnosticiaid. Pan gofiwn hyn, a allwn ni dybied i'r awdur lunio sefyllfaoedd dychmygol? Na allwn, yn sicr.

Ni ŵyr Ioan ddim am y cyferbyniad a ragdybia geiriau Clement. Yr oedd y gwirionedd yn y ffeithiau, a chred y byddai eu cyflwyno'n ennyn ffydd a'i chadarnhau. Perthyn y pwyslais hwn ar ffeithiau i'r meddwl Iddewig yn reddfol. Pwysleisia'r meddwl Groegaidd y cyffredinol, ac nid yr unigol; y deddfau a amlygir mewn ffeithiau, ac nid y ffeithiau eu hunain. Dyna brif ddiddordeb rheswm (syniad sylfaenol y meddwl Groegaidd), ffurf naturiol ei weithrediad. Eithr ar bersonoliaeth neu ewyllys y rhydd y meddwl Iddewig y pwyslais, ac mewn gweithredoedd yr amlygir ewyllys. Po fwyaf y pwysleisir yr egwyddor, y cyffredinol, mwyaf y pwysleisir yr amlygiad o hynny; mewn ffaith ymdawdd yr egwyddor a'r ffaith yn un. Ysbrydolir ffaith a digwyddiad yn Ioan, ond erys y ffaith a'r digwyddiad, fel mynegiad o gymeriad personol. Dywaid Streeter: "Oherwydd i'r Gair ddyfod yn gnawd, rhaid yw i Ioan, i fod yn gyson â'i safbwynt, bwysleisio'r syniad ddarfod i'r pethau hyn ddigwydd **fel ffeithiau.**"

Cydnabyddwn mai crefydd ysbrydol yw'r grefydd Gristionogol, ond dylid cofio ei bod yn grefydd ffeithiau hefyd. Datguddiad mewn gair ac mewn gweithred yw'r datguddiad o Dduw yng Nghrist. Yn yr hyn a wnaethpwyd, yn yr amlygiad yn y cnawd, y ceir y datguddiad o'r ysbrydol a'r tragwyddol.

(c) "Gadawer inni gymryd enghraifft o alegori, gan wneuthur defnydd eto o'r Epistol Cyntaf. Yn Ioan xix. 34 darllenwn, "Ond un o'r milwyr a wanodd ei ystlys et â gwaywffon; ac yn y fan daeth allan waed a dwfr." Rhydd yr ysgrifennwr bwyslais ar y dywediad hwn, 'A'r hwn a'i gwelodd a dystiolaethodd; a gwir yw ei dystiolaeth: ac efe a ŵyr ei fod yn dywedyd gwir, fel y credoch chwi.' Cymharer 1 Ioan v. 6, 'Dyma'r hwn a ddaeth drwy ddwfr a gwaed; nid drwy'r dwfr yn unig, ond drwy'r dwfr a'r gwaed,' a v. 8, 'Ac y mae tri yn tystiolaethu ar y ddaear: yr ysbryd, y dwfr, a'r gwaed: a'r tri hyn yn un y maent yn **cytuno.**' Yr ydym yn iawn pan welwn yma gyfeiriad at y digwyddiad ar Galfaria y sylwir arno gyda'r fath ddifrifwch yn yr Efengyl. Eithr at fedydd a marwolaeth yr Iesu y mae'r cyfeiriad pennaf. Daeth drwy ddwfr, hynny yw, dechreuodd ei weinidogaeth pan fedyddiwyd Ef. Daeth drwy waed hefyd. Dioddefodd, a thywalltodd ei waed dros ein pechodau. Sylwa Ioan felly ar y ffaith o farwolaeth ein Harglwydd, a gwêl ynddi ystyr ddofn, arwyddluniol—y dwfr a ddechreuodd y weinidogaeth, a'r gwaed a'i diweddodd. Eithr ni ddyfeisiodd y ffaith, ond cymer ffaith a fodolai, a rhydd iddi arwyddocâd cyfriniol ac alegoriaidd. Felly, ymddengys yn annhebygol iawn mai fel alegoriau yr ysgrifennwyd hanesion fel hanes y briodas yng Nghana neu Atgyfodiad Lazarus. Pe ni cheid hanes porthi'r tyrfaoedd yn yr Efengylau eraill, barnwn yr edrychid ar hanes porthi'r pum mil fel alegori, a chyda rhesymau cryfach nag a roddir ynglŷn ag Atgyfodiad Lazarus" (Clarke). A phe ceid hanes **digwyddiad fel rhwygo llen y**

Deml yn Efengyl Ioan, ac nid yn yr Efengylau eraill, mor barod fyddai llawer beirniad i edrych arno fel alegori.

"Eithr," medd Nolloth, "tra y mae beirniadaeth wedi dyfnhau ein hargyhoeddiad o gywirdeb yr hanes am yr hyn a ddigwyddodd yn weithredol, ni ellir dywedyd yr un peth am y **geiriau** a briodolir gan yr Efengylwr i Grist. Yn wir y mae'r modd yr ymdrinir â hwynt gan ysgrifenwyr o duedd ddiweddar (modernist) yn un o nodweddion mwyaf arwyddocaol yr amser presennol. Gwna'r Bedwaredd Efengyl yn gyfrol o Hanes Eglwysig boreol—yn rhoddi safbwynt crefyddol diwedd y ganrif gyntaf—yn lle yn adroddiad o eiriau a lefarwyd gan ein Harglwydd. . . . . Pe byddai felly, rhaid fyddai newid ein syniad am werth ysbrydol yr Efengyl. Yn lle y Gair Ymgnawdoledig ni fyddai gennym ond golygiadau aelod neu aelodau duwiolfrydig o'r Eglwys yn Effesus ar y mwyaf o bob pwnc—peth hollol wahanol a chydag effeithiau gwahanol. Y mae'n wir y byddai i'r Efengyl barhau i ysbrydoli a dysgu; eithr ni feddai ei dywediadau y dylanwad a'r awdurdod a berthyn iddynt fel geiriau Crist ei Hun." Ai'r geiriau eu hunain fel y'u llefarwyd gan Grist a geir yn y Bedwaredd Efengyl? Sylwer mai prin y gellir penderfynu, mewn rhai anerchiadau ac ymddiddanion ymha le y diwedda geiriau Crist ac y dechrau geiriau'r Efengylwr. Ceir unrhywiaeth yn y syniadau a'r arddull a briodolir i eraill ac yn y rhai a briodolir i Grist. Yn wir, nodweddir yr Efengyl o'i dechrau i'w diwedd gan unrhywiaeth iaith ac arddull. Dywaid Nolloth, yr ymddengys hyn, o'i esbonio o safbwynt Meddyleg, fel dylanwad personoliaeth holl-lywodraethol ar feddwl un oedd yn ieuanc ar y pryd, ac yn eiddgar i dderbyn; dylanwad a barhaodd hyd ddiwedd bywyd hir, ac a gafodd fynegiad yn yr Efengyl. Lluniodd geiriau Crist ei arddull; hwy oedd y brif elfen yn ei ddysgeidiaeth. Pa fodd y gallasai Ioan gofio geiriau'r Iesu, yn arbennig yr anerchiad ar Fara'r Bywyd, a'r anerchiad i'w ddisgyblion yr hwyr cyn ei farw, ddeugain mlynedd o leiaf wedi'r amser y'u llefarwyd? Mewn ateb i hyn, dywedwn y dylid cofio y rhaid y gwnaeth y geiriau argraff annileadwy ar natur mor barod i dderbyn â'r eiddo Ioan; rhaid y myfyriodd arnynt, ac y galwodd hwynt i gof, yn fynych; rhaid yr adroddodd hwynt yn fynych yn ei ymddiddanion â'i ddisgyblion; efallai y rhoddes hwynt mewn ysgrifen flynyddoedd cyn ysgrifennu'r Efengyl. Ac heblaw hynny, dylem gofio'r addewid, "Y Diddanydd, yr Ysbryd Glân, yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i, efe a ddysg i chwi yr holl bethau, ac a ddwg ar gof i chwi yr holl bethau a ddywedais i chwi" (Ioan xiv. 26), addewid a gyflawnwyd yn Ioan i raddau mwy nag yn unrhyw un arall o'r cylch Apostolaidd. Ac ef yn siarad am yr anerchiad olaf yn yr oruwch-ystafell, dywaid Swete: "Cadarnha astudiaeth o'r penodau hyn (xiv.—xvii.) fy argyhoeddiad y deuant cyn agosed i'r geiriau a lefarwyd yn weithredol gan ein Harglwydd ag y gall cof un a'u clywsai ein dwyn." Pwy ond yr Iesu a allai eu llefaru? Diamau y cymhlethir profiad a myfyrdod yr Efengylwr â hwynt.

"Y mae'r cwbl yn bresennol yn ei feddwl, wedi ei lunio gan flynyddoedd o fyfyrdod, a'i oleuo gan brofiad oes. Adnebydd y Crist yn llawer gwell nag yr adwaenai Ef yng Ngalilea neu yn Jerusalem hanner can mlynedd yn flaenorol. . . . . Ac y mae'r wybodaeth fwy cyflawn wedi datguddio ystyr fewnol digwyddiadau fel na wyddai neb ond y Meistr hi yr amser hwnnw. . . . Dywaid yr hyn a welai yn awr yng ngoleuni bywyd o ddisgyblaeth" (Robinson).

"There where I once saw points, I now see stars."

VI.

NODWEDDION YR EFENGYL.

Efengyl Ioan yw Cysegr Sancteiddiolaf y meddwl a'r profiad Cristionogol. Galwyd hi yn "Efengyl Tragwyddoldeb." "Efengyl Cariad," "Calon Duw." Rhoddwn rai o'i nodweddion :—

i. **Efengyl ysbrydol ydyw**. Rhydd yr Efengylau Cyfolwg inni weithredoedd allanol Crist yn bennaf: rhydd Ioan inni gipdrem ar fywyd mewnol ac ysbryd Mab Duw. Yr elfen nefol a ffurfia'r cefndir i'r tair Efengyl gyntaf yw awyrgylch y Bedwaredd. "Efengyl yr Efengyl" ydyw.

ii. **Deilrydiaeth.** Gwêl Ioan y cyffredinol yn y neilltuol; gwêl yn yr ymddangosiadol yr hyn sydd y tu cefn iddo. Rhydd inni nid y ffeithiau yn unig ond eu hystyr; edrych arnynt yng ngoleuni tragwyddoldeb. Eithr byddai'r cyferbyniad a dynnwn ni rhwng "y cnewyllyn a'r plisgyn" yn anealladwy i Ioan. Iddo ef, rhydd yr arwyddocâd ysbrydol fwy o rym a gwirionedd i'r ffaith y corfforir ef ynddi.

iii. **Cyfriniaeth**. Eithr (a) cyfriniaeth y gydwybod oleuedig ydyw. Drwy ufudd-dod, cariad, a ffydd y deuir i wybod. (b) Nid cyfriniaeth wedi ei hysgar oddi wrth hanes ydyw.

iv. **Arwyddluniaeth.** Gwelir hyn nid yn unig yn y tair alegori fawr,—Corlan y Defaid, y Bugail Da, a'r Winwydden, ond hefyd yn y gwyrthiau a edrydd yr Efengylwr, sydd iddo ef nid yn gymaint yn wyrthiau ag yn "arwyddion." Y mae'r gwirionedd a eglurir yn y gweithredoedd yn bwysicach na'r gweithredoedd eu hunain. E.e., dengys iachâd y claf wrth y llyn yr Iesu fel yr Adferwr mawr; wedi porthi'r miloedd llefara'r Iesu amdano'i Hun fel Bara'r Bywyd; wedi iacháu'r dyn dall llefara am y rhai y mae Ef yn eu goleuo; a chyn galw Lazarus o'r bedd llefara amdano'i Hun fel yr Atgyfodiad a'r Bywyd.

v. Y mae wedi ei thrwytho â syniadau ac iaith yr Hen Destament.

vi. **Cynllun trefnus.** Cedwir un amcan mawr, sef ennyn ffydd, mewn golwg o'r dechrau i'r diwedd, a gwasanaetha popeth i gyrraedd yr amcan hwnnw.

vii. **Symlrwydd mawr a dyfnder mawr.** Y mae ynddi, medd Lock, benodau (e.e. 11, 14, 15) a ddarllenir yn fwy mynych mewn bwthynnod syml nag unrhyw rannau eraill o'r Beibl; eraill y dychwel yr athronydd a'r diwinydd atynt yn gyson.

viii. Nid oes dim sy'n fwy amlwg yn y Testament Newydd na'r arddull Iohannaidd. "Eithr peth i'w deimlo yn hytrach na'i ddiffinio yw hyn. Y mae'r darllenyddi mwyaf anllythrennog yn ymwybodol ohono; ni fedr y beirniad mwyaf galluog ei elfennu'n foddhaol." Un o nodweddion yr arddull yw symlrwydd.

ix. Ceir darluniau byw o unigolion a 'groups' yn yr Efengyl,—e.e., mam yr Iesu, Nicodemus, y wraig o Samaria, y dyn a aned yn ddall, Pedr, Andreas, Phylip, Thomas, Mair a Martha, Mair Magdalen, Caiaphas, a Philat: y disgyblion, ei frodyr, y Samariaid, yr Iddewon, y Phariseaid, a'r archoffeiriaid. Byddai dychmygu'r cymeriadau hyn yn beth na fedrai athrylith ddynol ei wneuthur.

VII.

Yr Athrawiaeth am Grist yn Efengyl Ioan, yr Efengylau eraill, ac Epistolau Paul.

Y prif gyferbyniad yr arferid ei dynnu rhwng Efengyl Ioan a'r Efengylau eraill oedd athrawiaeth Ioan am Grist. Golygid bod athrawiaeth Ioan yn wahanol iawn i eiddo'r Efengylwyr eraill. Eithr y mae astudiaeth fanylach wedi peri i'r argraff hon ddiflannu. Y mae'r honiadau a briodolir i'r Iesu yn Marc mor fawr ag unrhyw honiadau y gellid eu gwneuthur. Honna mai Ef oedd y Meseia; hawlia awdurdod i faddau pechodau (Marc ii. 10); ac yn Marc xiv. 62 dywaid, "Chwi a gewch weled Mab y dyn yn eistedd ar ddeheulaw'r gallu, ac yn dyfod yng nghymylau'r nef." A chymharer Ioan vi. 53 â Marc xiv. 24. Hefyd, ni cheir dysgeidiaeth ddyfnach am berthynas y Mab â'r Tad yn Ioan nag a geir yn Mt. xi. 27: "Pob peth a roddwyd i mi gan fy Nhad: ac nid edwyn neb y Mab ond y Tad; ac nid edwyn neb y Tad ond y Mab; a'r hwn yr ewyllysio y Mab ei ddatguddio iddo." Y mae yna wahaniaeth rhwng athrawiaeth yr Efengylwyr eraill am Grist ac athrawiaeth Ioan; ond nid y gwahaniaeth rhwng Iesu dynol yn unig a Christ Dwyfol ydyw. Gwneir yr hyn sydd yn guddiedig yn yr Efengylau cynharach yn amlwg yn Ioan. Mewn gair, nid oes y fath beth â gwrthgyferbyniad rhwng Efengyl Ioan a'r lleill. Ymhellach, ni cheir dim yn Ioan ond a ragdybir yn Epistolau Paul, a ysgrifennwyd ac a gyhoeddwyd o flaen yr Efengylau. E.e., cymharer a ganlyn: Ioan iii. 17, 1 Cor. xv.

28; Ioan iii. 16, Rhuf. viii. 3, Gal. iv. 4; Ioan i. 12, Rhuf. viii. 16, 17, 21; Ioan iii. 31, Rhuf. ix. 5; Ioan i. 17, Rhuf. iv. 16, vi. 14, 15, Gal. v. 4; Ioan xv. 4, 5, Rhuf. viii. 10, xvi. 7, &c. Gwêl ymhellach y nodiadau ar y Rhagair. Coron ac eithafbwynt y cyflwyniad o Grist a geir yn yr Efengylau eraill ac Epistolau Paul (a'r Epistol at yr Hebreaid hefyd) yw'r cyflwyniad ohono yn Efengyl Ioan.

VIII.

Dysgeidiaeth y Chweched Bennod.

Bu llawer o ddadlau ynghylch yr anerchiad ar Fara'r Bywyd, a pheru'r dadlau eto. Y cwestiwn yw, a oes cyfeiriad yn yr anerchiad at Swper yr Arglwydd. Tueddir ni i fabwysiadu'r golygiad a ganlyn: (a) Y mae'n anghredadwy na chyfeiria at yr Ordinhad honno. Yr oedd ei sefydliad ym meddwl yr Iesu ymhell cyn y gwnaethpwyd hynny: ac os felly, rhaid bod rhyw gyfeiriad yn "Oni fwytewch gnawd Mab y dyn, ac onid yfwch ei waed ef, nid oes gennych fywyd ynoch" at "Cymerwch, bwytewch, hwn yw fy nghorff," "Yfwch bawb o hwn, canys hwn yw fy ngwaed." Teimlwn nad oes fawr rym yn y ddadl na ddeallwyd geiriau Crist gan ei wrandawyr yng Nghapernaum. Llefarai nid yn gymaint wrthynt hwy ag wrth Gristionogion pob oes. Llefarodd yn fynych eiriau nas deellid hyd yn oed gan Apostolion.

(b) Y mae yr un mor anghredadwy mai at y Cymun Bendigaid y cyfeirir yn unig neu yn y lle cyntaf. Yn hytrach cyfeiria'r anerchiad at bob moddion o ras y cyfranna Crist ei Hun drwyddynt i'r enaid crediniol: ac ni ellir rhoddi terfyn ar nifer neu effeithiolrwydd y rhain.

Y mae i'r ddysgeidiaeth, medd Westcott, ystyr gyflawn a chyson mewn cysylltiad â'r amgylchiadau eu hunain, ac ymwna'n hanfodol â 'realities' ysbrydol â'r rhai ni all unrhyw weithred allanol fod yn gyfled. "Cred," medd Awstin, "a thi a fwyteaist." Ond, ar y llaw arall (Westcott), ni ellir amau gyflwyno'r gwirionedd a gyflwynir yma mewn ffurf annherfynol mewn gweithred neilltuol a ffurf benodol yn y Cymun Bendigaid; ac ymhellach eto mai'r Cymun Bendigaid yw'r cyfrwng dwyfol-apwyntiedig y medr dynion drwyddo sylweddoli'r gwirionedd.

"Lluniodd yr Iesu ei eiriau ar y pryd yn y fath fodd ag y gellid eu cymhwyso at y mwynhad ysbrydol a geir ynddo Ef; lluniodd hwynt yn y fath fodd ag y gallent mewn amser diweddarach fynegi'n gymwys ddirgelwch sanctaidd Swper yr Arglwydd, pan sefydlwyd ef" (Bengel). "Y mae'r anerchiad yn esboniad, a siarad felly, ar y Sacrament a sefydlwyd wedi hynny" (Westcott).

Ni ddywedir dim yn Efengyl Ioan am yr hyn a elwir yn 'sefydlu' y Sacramentau gan yr Iesu. Paham na rydd Ioan hanes sefydlu

Swper yr Arglwydd? Barna esbonwyr mai oherwydd y gwelai arwyddion yn yr Eglwys o duedd i fwyhau gwerth yr elfennau gweledig a materol yn y Sacrament ac i goledd syniadau ofergoelus ynglŷn â hwynt. Eithr er na rydd hanes sefydlu'r Sacramentau o Fedydd a Swper yr Arglwydd, yr ydym yn ddyledus iddo ef am yr hyn sydd mor bwysig i grefydd, sef yr egwyddorion sylfaenol y gorffwys y Sacramentau arnynt. Pwysleisia'r ysbrydol a'r hanfodol.

Bwyta cnawd ac yfed gwaed Crist yw cyfranogi o fendithion ei farwolaeth ac o'i ysbryd hunanaberthol—ymborthi arno Ef yn ein calonnau drwy ffydd. Megis y bwytawn fara fel y try ei rinwedd cynhaliol yn rhan o'n corff, felly y cyfranna Crist Ef ei Hunan. "Myfi yw bara'r bywyd; a thrwy hunanaberth yr Iesu yn unig y gallai ei fywyd dwyfol-ddynol ddyfod yn fara'r bywyd i ddynion.

> "I, the Peace that passeth knowledge,
> Dwell amid the daily strife,
> I, the Bread of Heaven, am broken,
> In the sacrament of life."

IX.

IOAN FEDYDDIWR YN EFENGYL IOAN.

Cyfeirir at Ioan Fedyddiwr yn Efengyl Ioan yn i. 6, 15, 19—35, iii. 22—30, iv. 1, v. 32—36, x. 40, 41. Eithr yr unig elfen yn ei ddysgeidiaeth a bwysleisir yw ei israddoldeb i'r Iesu, ei dystiolaeth am ei berson a'i waith. Rhoddir pwyslais yn i. 26, 29 ar y ffaith iddo gyfeirio'i ganlynwyr ymaith oddi wrtho ef ei hunan at yr Iesu. Yn iii. 24 y mae'n eglur y dymuna gywiro traddodiad yr Efengylau eraill (Mt. iv. 12, 17; Marc i. 14, 15), yr hwn y gellid edrych arno fel yn rhagdybied na ddechreuodd yr Iesu bregethu hyd wedi carcharu Ioan. Gallai hyn ymddangos fel yn awgrymu na wnaeth yr Iesu ddim ond dwyn ymlaen y gwaith a ddechreuwyd gan Ioan. Dengys Ioan weithio ohonynt ochr yn ochr am dymor (iii. 22, 23; cym. hefyd iii. 30). Ymddengys hyn fel ymdrech ar ran yr Efengylwr i gyfarfod â rhyw draddodiad a goleddid ym mysg y frawdoliaeth yn Effesus, bod y Bedyddiwr yn gymeriad mwy nodedig na'r Iesu.

Bernir yr ysgrifennwyd Efengyl Ioan yn Effesus. Yn awr darllenwn yn Act. xix. 1—7 am ryw "ddisgyblion," a gaed gan Paul yn Effesus, a fedyddiesid i fedydd Ioan yn unig. "A dywedodd Paul, Ioan yn ddiau a fedyddiodd â bedydd edifeirwch, gan ddywedyd wrth y bobl am gredu yn yr hwn oedd yn dyfod ar ei ol ef, sef yng Nghrist Iesu."

Cyfeiria'r darn hwn at bethau a ddigwyddodd cyn adeg ysgrifennu'r Efengyl, eithr, fel y dywaid Muirhead, y mae marw yn beth anodd i sectau.

Pair dywediad y Bedyddiwr yn i. 29, "Wele oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechod y byd," anhawster i esbonwyr. Y

mae yn ôl dull yr Efengylwr, medd Muirhead, i roddi yng ngenau Rhagbaratowr y ffordd erthygl sylfaenol y gred Gristionogol gyflawn, i'w ddisgrifio yn siarad am yr Iesu mewn termau a fyddai'n briodol yng ngenau diwinydd Cristionogol yn niwedd y ganrif gyntaf, ond na allesid ond o brin eu defnyddio gan hyd yn oed yr olaf a'r mwyaf o broffwydi'r Hen Destament.

Eithr, medd A. D. Mozley, dichon y gallwn, drwy ystyried bywyd a chymeriad Ioan Fedyddiwr, nodi'r modd y cyrhaeddodd y ffydd ryfeddol hon, a'r modd yr arweiniwyd ef i ganfod y gwirionedd y byddai i'n Harglwydd farw yn aberth dros bechodau dynolryw. Nodwyd ef allan o'r dechrau fel y rhagredegydd i Grist. Yr oedd yn fab i offeiriad, a byddai iddo beunydd weled offrymu aberthau, ac, o bosibl gymryd rhan yn hynny, a thrwy hynny paratoid ei feddwl i dderbyn y gwirionedd mawr am Aberth a dynnai ymaith bechod, yr hyn ni fedrai'r aberthau fel y cyfryw ei wneuthur. Hefyd, yr oedd yn bregethwr edifeirwch. Meddai ymdeimlad dwfn o bechod, yn ei euogrwydd a'i ddirgelwch hefyd. Eithr fel pob pregethwr edifeirwch credai'n gryf ym mhosibilrwydd maddeuant. Ymwnâi'n feunyddiol â'r pechod a gyffesid gan ddynion ar lan Iorddonen; a gwelai ef a hwythau mor analluog oedd y bedydd â dwfr i dynnu ymaith eu pechod; a pho ddyfnaf y gyffes mwyaf ymwybodol oedd Ioan o'i anallu i gynorthwyo. Rhaid wrth rywbeth mwy, os yw dyoliaeth byth i dalu ymaith ei phechod. Rhaid gwneuthur rhywbeth ar ei rhan. Pa beth a fydd y rhywbeth hwnnw? Yn sicr, drwy aberth, rywfodd, y gwneir ef: bydd i'r Hwn sydd yn dyfod at y Bedyddiwr ei wneuthur, drwy ei allu i **ddioddef** yn hytrach na'i allu mewn gweithred, ei **farwolaeth** yn hytrach na'i weinidogaeth. Addefwn ei fod yn beth a bair ddryswch a syndod y datganwyd marwolaeth aberthol ein Harglwydd gan y Bedyddiwr mor gynnar â hyn, pan gofiwn hwyrfrydigrwydd y disgyblion i gredu mewn Meseia dioddefus, a'u gofyniad yn Act. i. 6, wedi'r marw a'r atgyfodiad. Ac nid yw'n beth syn y gwedir cywirdeb yr Efengyl oherwydd hyn, ac yr edrychir ar y geiriau, "Wele oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechod y byd," fel rhai a ddyfeisiwyd gan ysgrifennwr diweddarach a hyddysg yn nysgeidiaeth yr Apostolion. Er hynny, credwn y llefarwyd hwynt gan y Bedyddiwr. Yr oedd y dyddiau a nodir yn y bennod gyntaf o'r Efengyl yn ddyddiau mor fawr fel yr arhosodd yr hyn a wnaethpwyd ac a ddywedwyd arnynt yng nghof yr Efengylwr trwy ei fywyd.

x.

DADLEOLIADAU O'R TESTUN.

Haena nifer o feirniaid y ceir dadleoliadau o destun gwreiddiol y Bedwaredd Efengyl, drwy ddadleoliad damweiniol o'r dalennau, neu waith golygwyr. Eithr ni cheir unfrydedd yn eu plith ynglŷn â'i threfn wreiddiol.

(a) Ad-drefna Bernard benodau i.—x. (ar wahan i'r Rhagair) fel hyn: i. 19—iii. 21; iii. 31—36. 22—30; iv.; vi.; v. vii. 15—24. 1—14. 25—52; viii, 12—59; ix.; x. 19—29. 1—18. 30—42.

(b) Warburton Lewis (pen. i.—x.): i.—ii. 12; iii. 22—30. ii. 13—iii. 21. 31—36; iv.; vi.; v.; vii. 15—24. viii. 12—20; vii. 1—14. 25—52. viii. 21—59; ix.; x.

(c) Moffatt (pen. i.—x.): i.—ii. 12; iii. 22—30. ii. 13—25. iii. 1—21. 31—36; iv.; v.; vii. 15—24; vi.; vii. 1—14. 25—52; viii. [1—11]. 12—59; ix.; x. 19—29. 1—18. 30—42.

Sylwer na newid Moffatt drefn pen. v. a vi.

Ni wnawn ond galw sylw at yr Ad-drefniadau hyn. Cymerai ormod o ofod i gyflwyno'r rhesymau a roddir dros eu mabwysiadu. Gwneled darllenwyr yr Esboniad hwn ymchwiliad iddynt.

XI.

FFURF ANERCHIADAU'R IESU.

Gelwir ein sylw gan nifer o feirniaid at ffurf yr anerchiadau ym mhenodau 3, 4, 6. (a) Dywediad o eiddo'r Iesu. (b) Camddealltwriaeth ohono. (c) Ail-adroddiad, helaethiad ac esboniad o'r dywediad. Cymerwn yr ymddiddan â Nicodemus fel enghraifft: Yn iii. 3 dywaid yr Iesu, "Oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw;" gofyn Nicodemus, "Pa fodd y dichon dyn ei eni, ac efe yn hen?" (adn. 4); yna ail-edrydd yr Iesu'r dywediad yn y ffurf: "Oddieithr geni dyn o ddwfr ac o'r Ysbryd, nid â efe i mewn i deyrnas Dduw" (adn. 5), gan ei esbonia ymhellach yn adn. 6, 7, 8. Ni ddeall Nicodemus y cwbl ar unwaith (adn. 9). Ceir yr un ffurf yn yr ymddiddan â'r wraig o Samaria, yr ymddiddan â'r disgyblion am gynhaliaeth ysbrydol yr Iesu (iv. 32—34), ac yn yr anerchiad (neu'r anerchiadau) ar Fara'r Bywyd. Eithr ni phraw hyn mai dyfais o eiddo'r Efengylwr yw'r ffurf hon.

George Philip & Son, Ltd.

EFENGYL IOAN.

Y Rhagair (adn. 1—18).

Disgrifir y Rhagair i'r Efengyl hon gan nifer o esbonwyr fel "Emyn i'r Gair," gyda'r ychwanegiad o ddau nodiad am dystiolaeth Ioan Fedyddiwr; y cyntaf (adn. 6—8) am y Goleuni oedd yn dyfod, a'r ail (adn. 15) am ei gynhanfodiad. Edrych Bernard ar adn. 12 a 13 a'r 16 a'r 17 hefyd fel nodiadau eglurhaol ychwanegol. Hebreig yw'r arddull, fel y gwelir yn y gyfochraeth a'i nodwedda. Ceir y mathau a ganlyn ar gyfochraeth mewn barddoniaeth Hebreig:—

1. Cyfochraeth gyfystyr. Yn hon, a ddefnyddir fynychaf, grymusir syniad y llinell gyntaf drwy ei ailadrodd mewn ffurf arall (gwêl Num. xxiii. 8). Neu, mynega'r ail llinell syniad cyfochrog neu debyg i syniad y gyntaf (gwêl Josh. x. 12).

2. Cyfochraeth wrthgyferbyniol. Yma, pwysleisir neu cadarnheir syniad y llinell gyntaf drwy syniad cyferbyniol yn yr ail (gwêl Diar. x. 1; Salm i. 6).

3. Cyfochraeth gyfosodiadol. Yma, ni chynnwys yr ail llinell na chyferbyniad nac ailadroddiad o'r gyntaf, ond ychwanega ati neu cyflawna hi (gwêl Salm ii. 6; Diar. xv. 17, xxvi. 4, xxvii. 8).

4. Cyfochraeth esgynebol. Yma, y mae'r llinell gyntaf yn anghyflawn, a chymer yr ail llinell i fyny eiriau ohoni a chyflawna hwynt (gwêl Salm xxix. 1, 5, 8; Ex. xv. 16b).

Ceisied darllenwyr yr Esboniad hwn benderfynu natur y gyfochraeth a geir yn y Rhagair, e.e. adn. 3, 4, 5, 11, 14, 17. Ceir gwahanol farnau ynglŷn â pherthynas y Rhagair â'r Efengyl: (a) Dadlau Wendt o blaid unoliaeth yr Efengyl am y rheswm na cheir, yn ei farn ef, gyfeiriad arbennig at athrawiaeth y Gair (Logos) yn y Rhagair. Nid enw priodol yw'r term "Gair," yn cyfeirio at bersonoliaeth hanfodol yr Iesu. Rhaid deall y term yn yr un ystyr yn y Rhagair ac yng nghorff yr Efengyl, lle y defnyddir ef i ddynodi cenadwri oddi wrth Dduw, y "Gair" a ddatguddiwyd i'r Iesu gan y Tad, y "Gair" a roes yr Iesu i'w ddisgyblion, ac a fynegwyd ganddynt hwy i'r byd (viii. 55, xiv. 24, xvii. 6, 17).

(b) Barna Weizsäcker mai'r athrawiaeth am y Gair yw'r elfen lywodraethol: penderfyna syniadau'r Efengyl yn hollol.

(c) Barna Harnack mai darn athronyddol, yn sefyll ar ei ben ei hun, yw'r Rhagair. Yn adn. 18 ceir y Mab Duw gweledig a chyraeddadwy yn lle'r Gair (Logos) anweledig ac anghyraeddadwy.

Y mae awdur a fedr roddi "uniganedig y Tad" yn lle syniad ansoddol, ac a ddywaid i'r Gair ddyfod yn gnawd, wedi gadael yr athrawiaeth Philonaidd ymhell ar ôl.

Credwn ni fod perthynas hanfodol rhwng y Rhagair a'r Efengyl o'i dechrau i'w diwedd. Pa un bynnag ai wedi ysgrifennu o Ioan ei Efengyl ai cyn hynny yr ysgrifennodd y Rhagair (mater hollol ddibwys), o'r amlygiad hanesyddol mawr y cadd y syniadau a geir ynddo. Trwy holl fywyd daearol yr Iesu tywynnodd goleuni uwchddynol, gogoniant oddi uchod. Ni chollir golwg ar syniadau'r Rhagair yn y penodau dilynol, am nad yw ond mynegiad o'r argraff a wnaeth y person hanesyddol ar feddwl a bywyd yr Efengylwr. Dywaid Charnwood fynegi o'r awdur ei feddwl yn y fath fodd yn y dechrau ag i'w wneuthur yn bresennol hyd y diwedd i'r darllenydd syml ac effro. Y mae'n debyg i'r hyn a geir mewn "symudiad" o eiddo Beethoven, yn yr hwn y cedwir un nodyn i seinio o'r dechrau i'r diwedd. Ac o'r amlygiad o'r Gair yn y cnawd y cad y nodyn hwn.

"Yn y Rhagair ceir crynodeb o gynnwys yr Efengyl. Yr hyn y dymuna Ioan ei ddangos yn ei Efengyl yw y cadd y Gair, yn yr Hwn yr oedd bywyd popeth, ei wneuthur yn gnawd a'i amlygu ymhlith dynion: y derbyniwyd Ef gan rai, tra y gwrthodwyd Ef gan eraill: a dyma'r hyn a ddywaid yn y darn rhagarweiniol cynhwysfawr" (Dods). Yr un yw'r Gair tragwyddol ag uniganedig Fab Duw, a'r un yw Mab Duw â Iesu Grist, y person hanesyddol. Dyna ddysgeidiaeth y Rhagair a'r Efengyl. Cyweiria Ioan linynnau aur ei delyn, a thery yn y *prelude* brif nodau'r *symphony* sy'n dilyn. "Byddai'n hawdd dangos," medd Inge, "yr ailadroddir yn yr Efengyl yr holl syniadau a geir yn y Rhagair. Am gynhanfodiad y Gair y tu hwnt i amser, mewn perthynas bersonol ac mewn undeb hanfodol â Duw, cym. vi. 62, viii. 58, xiv. 10, xvii. 5, 24. Am y Gair fel y cyfrwng mewn creadigaeth, a'i allu i roddi a chynnal bywyd, cym. v. 26, viii. 12, ix. 5. Am amlygiadau o'r Gair cyn yr Ymgnawdoliad, drwy ddatguddiadau a'i bresenoldeb mewnfodol, cym. viii. 56, ix. 5. Y mae felly bennod ac adnod yn yr Efengyl, a hynny yng ngeiriau Crist ei Hun, am bob gosodiad yn y Rhagair, ac er na eilw'r Iesu ei Hunan "y Gair" y mae'r cwbl o'r hanes wedi ei drwytho â'r syniad aruchel hwn am ei bersonoliaeth.

Pe dechreuasai'r Efengyl gydag adn. 19, buasai'r hanes a adroddir ynddi'n dlotach a llai argyhoeddiadol. Buasai fel teml heb borth,

fel tŷ heb breswylydd. Gallem ddisgwyl yr hyn a geir yn y Rhagair yn rhywle yn yr Efengyl, yn ei dechrau neu yn ei diwedd. Edrych Ioan ar yr hanes mawr yng ngoleuni tragwyddoldeb: symud ac anadla mewn elfen uwch-ddaearol, a chyfyd y rhai a wrandawant arno ag adanedd cryf ond eto tyner i lewyrch y Tragwyddol.

Gallwn dybied am Ioan yn dywedyd wrtho'i hun pan ysgrifennai'r Rhagair anghymharol,—"Dyma ystyr y cwbl a welsom ni." A gobeithiai y byddai iddo, drwy ddetholiad o'r aneirif bethau a welwyd ac a glywyd, ddwyn eraill i edrych ar yr Iesu o'r un safbwynt dwyfol. "Bwriadwyd y Rhagair i baratoi'r darllenydd ar gyfer yr hyn sy'n dilyn, yn fwyaf arbennig drwy roddi iddo syniad cywir a digonol am natur a haniaeth yr Hwn y mae ei fywyd a'i ddysgeidiaeth, a'r derbyniad a roddwyd iddo gan ddynion, i fod yn brif bwnc yr hanes."

Y Gair.

Y Gair: yn y gwreiddiol, y "Logos," term yn dynodi (a) Rheswm neu Hunan-ymwybyddiaeth; (b) Gair neu Ymadrodd (*speech*) fel y mynegiad o feddwl. Defnyddir ef gan yr Efengylwr fel petai'n air yr oedd ei ddarllenwyr yn gyfarwydd ag ef, eithr ychwanega ddisgrifiad byr ohono, fel petai'n bosibl y cysylltent ag ef syniadau anghydweddol â'r eiddo ef ei hun. Yr oedd i'r term hanes Groegaidd ac Iddewig. 1. Yn ôl y syniad Groegaidd, y Logos oedd yr egwyddor resymol neu'r ynni creadigol drwy'r hyn y lluniwyd byd trefnus. 2. Yn ôl y syniad Iddewig, cyfrwng gweithrediad y Bod Dwyfol ydoedd. Yn athroniaeth Alecsandria, o'r hon Philo oedd y cynrychiolydd cyntaf, ac nid y lleiaf enwog, cyfunwyd y ddwy elfen hyn. Unwyd damcaniaeth Roegaidd a dysgeidiaeth Hebreig i ddangos y cynhwysai'r Hen Destament y wir athrawiaeth am Dduw, tra ar yr un pryd y corfforai'r cwbl ag oedd uchaf a mwyaf gwerthfawr mewn syniadau Groegaidd. Yn y bennod gyntaf o Genesis gair Duw yw'r cyfrwng rhwng y Tragwyddol a'r byd. Yn Salm xxxiii. 6; cvii. 20, cxlvii. 15, etc., deuir yn agos at briodoli personoliaeth i air yr Arglwydd. Yn Niarhebion, pen. vii., viii., personolir Doethineb Duw mewn termau trawiadol iawn. Yn yr Apocrypha, gwneir hyn i raddau mwy cyflawn.

Yn y Targwmiau (Targwm = arall-eiriad yn yr Aramaeg o'r Hen Destament), ceir datblygiad pellach o hyn. Dylanwadwyd yn fawr arnynt gan y duedd gynyddol i wahanu'r hanfod Ddwyfol oddi wrth gyffyrddiad uniongyrchol â'r byd. Lle y sieryd yr Ysgrythur am ddatguddiad uniongyrchol oddi wrth Dduw i ddynion, rhydd y Targwmiau air Duw yn lle Duw: e.e. yn lle "clywsant lais yr Arglwydd Dduw" (Gen. iii. 8) rhoddant "clywsant lais gair yr Arglwydd Dduw." Hefyd, sonnir yn yr Hen Destament am "Angel yr Arglwydd," bod a ymddengys fel cynrychiolydd Duw, ac a siaredir

amdano weithiau mewn modd a'i gwna'n anodd ei wahaniaethu oddi wrth Dduw.

Cred nifer nid bychan o ysgolheigion mai yma y ceir ffynhonnell iaith yr Efengylwr. Y mae'r defnydd o'r term "Logos" yn y Rhagair hwn yn hanfodol wahanol i'r defnydd ohono gan Philo. Fel y dywedwyd yn barod, dylanwadwyd ar ei esboniadaeth ef o'r Hen Destament gan ddamcaniaethau Groegaidd, yn enwedig yr eiddo Plato a'r Stoiciaid. Enw arall am feddwl Duw oedd "Logos" Plato, fel trigle meddylddrychau tragwyddol; i'r Stoiciaid cynrychiolai resymoldeb y cread. Yn y defnydd a wneir yma o'r term "Logos" ceir gwrthodiad ymwybodol o'r syniadau Philonaidd, gwrthdystiad bwriadol yn eu herbyn. Ymestyn y gwahaniaeth rhwng yr Efengylwr a Philo hyd at yr holl syniad am berthynas Duw â'r byd a wnaeth Gristionogaeth yn allu newydd ymhlith dynion. Barddonol, medd Plummer, yw'r personoliad o'r gair Dwyfol yn yr Hen Destament, uwch-anianol yn Philo, hanesyddol yn Ioan. Pontir y gwagle rhwng yr Hen Destament a Philo gan yr Apocrypha a'r Targwmiau, a lleinw hanes y gwagle rhwng y cwbl ac Ioan. Gorwedd y ffaith hanesyddol o fywyd Iesu Grist, Ymgnawdoliad y Gair, rhwng barddoniaeth Hebreig a damcaniaethau Alecsandria ar un llaw, a'r bedwaredd Efengyl ar y llaw arall. Yn wahanol i Philo, symud Ioan ym myd bywyd a hanes. Unola'r Gair â Pherson byw, Iesu Grist, a fu farw ar y groes ac a gyfododd drachefn oddi wrth y meirw, i ddychwelyd at y Tad ac i ddyfod yn ffynhonnell bywyd tragwyddol i bwy bynnag a gredo ynddo Ef. Yn ysgrifeniadau Philo nid unolir y Logos hyd yn oed â'r Meseia. Bod canolradd yw Gair Philo, yr offeryn a ddefnyddir gan Dduw i lunio'r byd: eithr nid bod ailraddol yw Gair Ioan, ond un sydd yn gyfrannog o'r bywyd Dwyfol, ac fel y cyfryw nid yn offeryn, ond yn gydweithredydd â Duw ei Hun yn ei holl weithrediad. Y mae'r athrawiaeth am Bersonoliaeth y Logos yn amwys yn Philo, medd Bernard, ac ni cheir ganddo ddatganiad eglur o'i fodolaeth dragwyddol. Ac yr oedd Ymgnawdoliad yn amhosibl yn ôl ei ddysgeidiaeth ef. Eithr y mae personoliaeth y Logos, ei fodolaeth dragwyddol a'i Ymgnawdoliaeth yn rhan hanfodol o ddysgeidiaeth Ioan. Gan mai "ail" Fod yw Logos Philo ni allai ddatguddio Duw i ddynion. Y mae'r "Duw Cyntaf" yn un na ellir gwybod dim amdano na nesáu ato. Eithr amcan pennaf Ioan yw dangos y datguddiwyd Duw yng Nghrist, a bod y Gair yn amlygiad yn y cnawd o Dadolaeth Duw, ac yn ddatguddiad i ni ddynion o feddwl ac ewyllys y Tragwyddol.

Sylwa H. R. Mackintosh na ellir dal nad oes perthynas rhwng syniad Ioan am y Gair a syniad Philo. Eithr ymddengys, medd ef, y gweithredodd dylanwad Philo mewn dau gyfeiriad.

1. Yn y ffordd o wrthwynebiad. Defnyddia'r Efengylwr derm Philo i wadu syniad Philo. Ystyr "Logos" Ioan yw gair, ac nid rheswm mewnfodol.

2. Dichon y penderfynodd dylanwad Philo pa un o'r termau a ddefnyddir yn yr Hen Deşament a ddewisai Ioan i ateb ei bwrpas. Yr oedd amryw dermau'n agored iddo,—Doethineb, yr Ysbryd, Angel yr Arglwydd, y Gair. Boed a fynno, y mae rhy ychydig o le wedi ei roddi i'r Hen Destament ynglŷn â'r mater o benderfynu ffynhonnell iaith Ioan.

Ni wna'r rhai a edrych ar athrawiaeth Ioan am y Gair fel cangen o athroniaeth Alecsandria gyfiawnder â thystiolaeth yr Efengyl ei hun, â'r ddysgeidiaeth am Berson Crist mewn ysgrifeniadau Apostolaidd cynharach, ac â'r gwahaniaethau dwfn rhwng athrawiaeth Philo a'r eiddo Ioan. Ceir arwyddion yn yr Efengyl ei hun mai personoliaeth hanesyddol yr Iesu a'i ddysgeidiaeth oedd y brif ffynhonnell y cadd yr awdur ohoni ei gred yn Nwyfoldeb Crist a'i swyddogaeth gyfryngol. Hefyd, gosodasid allan eisoes Berson Crist gan Paul ac yn yr Epistol at yr Hebreaid, mewn termau a gynnwys bob elfen yn athrawiaeth Ioan, er bod y termau'n wahanol i'w dermau ef (Col. i. 13—20, ii. 9; Phil. ii. 5—11; Heb. i. 1—4). Nid damcaniaeth athronyddol mo athrawiaeth Ioan, ond gosodiad gofalus a chyflawn o gred a fodolai eisoes yn yr Eglwys Apostolaidd. Seilir hi ar ffeithiau ei brofiad Cristionogol ef ei hun. Ni wna ddim ond codi ffeithiau bywyd hanesyddol yr Iesu i oleuni tragwyddoldeb, a dangos ystyr ei ymddangosiad yn y byd i ffydd.

Od oedd athroniaeth ei ddydd ym meddwl Ioan o gwbl, gallwn dybied ei glywed yn siarad fel hyn: Clywaf ddynion yn sôn am y Dechreuad, am y Logos, am Fywyd, am Oleuni, am Gyflawnder, am Uniganedig, am Ras, am Wirionedd. Cyflawnir y cwbl o'r pethau hyn yng Nghrist. Yr oedd Ef yn y dechreuad gyda Duw: Ef oedd y Gair: drwyddo Ef y gwnaethpwyd popeth: ynddo Ef yr oedd Bywyd, a'r Bywyd oedd Oleuni dynion; ynddo Ef yr oedd y Cyflawnder: drwyddo Ef y daeth Gras a Gwirionedd: ni welsai neb erioed ddisgleirdeb gogoniant presenoldeb Duw, ond eglurodd yr Uniganedig y Tad: tynnodd ymaith y gorchudd oedd ar wyneb Duw.

PENNOD I.

1 Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyd â
2 Duw, a Duw oedd y Gair. Hwn oedd yn y dechreuad gyd â Duw.

Y Gair Dwyfol Cynhanfodol (Adn. 1, 2).

1. " Twrf taran oddi wrth Fab y Daran, llais o'r nef " (Bengel).

Yn y dechreuad yr oedd y Gair. Defnyddir y term " Gair " mewn ystyr bersonol yn i. 1—14; 1 Ioan i. 1; Dat. xix. 13. (Y mae'n bosibl mai mewn ystyr bersonol y defnyddir y term hwn yn Heb. iv. 12). Barna rhai nad y Gair personol a olygir yn 1 Ioan i. 1, eithr barna eraill yn wahanol, a chredwn y barnant yn gywir. Geilw " yn y dechreuad " i'n cof Gen. i. 1, " Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear." Drwy air Duw y daeth y greadigaeth gyntaf i fod, ac ymddangosiad y Gair yn y byd yw'r weithred gyntaf yn ail-greu'r hyn a ddinistriwyd gan bechod. Dibynna ystyr " yn y dechreuad " ar y cyd-destun, ac yma dynoda'r dechreuad diddechrau—tragwyddoldeb (Cym. Col. i. 16, 17). Beth bynnag am ffynhonnell y term Gair, ni ellid cael term mwy priodol i fynegi'r hyn a ddysgir yn yr Efengyl hon, sef y *datguddiv* Duw yng Nghrist. Meddwl un person wedi ei fynegi yn y fath fodd ag y medr person arall ei ddeall yw " gair." Drwy ei air y mynega dyn ei feddwl a'i deimlad, ac y rhydd effaith i'w ewyllys. A gair Duw yw gallu a meddwl ac ewyllys Duw mewn gweithrediad ymarferol, yn myned allan mewn ynni creadigol ac yn cyfrannu bywyd oddi wrth Dduw, ffynhonnell bywyd a bodolaeth.

A'r Gair oedd gyda Duw. " Tuag at " Dduw. Sylwa Macgregor y dynoda'r arddodiad a gyfeithir " gyda " yma y syniad o *agosrwydd* mewn cyfuniad â'r syniad o *symudiad tuag at* Dduw, a'i fod felly yn dynodi perthynas weithgarol (*active*). " Yn edrych tuag at Dduw " (Abbott). " Wyneb yn wyneb â Duw," neu " gartref gyda Duw " (Plummer). Eithr golyga Bernard na ellir cyfeithu'n well na " gyda " Duw. Nid yw'n debyg, medd ef, y bwriada'r Efengylwr wahaniaethu rhwng yr ymadrodd a gyfeithir " gyda thi " yn xvii. 5 a'r ymadrodd a gyfeithir " gyda Duw " yma, er mai arddodiad gwahanol a ddefnyddir yn xvii. 5.

Saif y Gair ar wahân i Dduw, ac eto mewn perthynas dragwyddol ag Ef. " Y mae'r Gair nid *yn* Nuw, ond *gyda* Duw," medd Chrysostom, " person gyda pherson, yn dragwyddol."

A Duw oedd y Gair. "Ac yr oedd y Gair yn Dduw." Nid oedd y Gair yr un yn bersonol á'r Duw yr oedd mewn cymeidthas ag Ef; eithr yr oedd yn Dduw fel Yntau: cyfranogai o hanfod a phriodoleddau Duw. Y mae hwn yn osodiad eglur a phendant o Dduwdod y Gair: caeir allan y syniad o israddoldeb. Ni fedr neb ddatguddio'n berffaith ond yr hwn *sydd* yr hyn a ddatguddia. Esgyn yr awdur o fodolaeth dragwyddol y Gair i'w bersonoliaeth gydraddol a'i Dduwdod sylweddol: Cynhanfodiad, Personoliaeth, Duwdod.

Gwnaed y sylw gan rywun mai'r tair elfen yn y berthynas Ddwyfol, ym meddwl yr awdur hwn, yw Hunaniaeth, Gwahaniaeth, Cymundeb.

Gwelir nad elfen ddiweddar, a dynol yn unig, yw cymdeithas, ond elfen dragwyddol a dwyfol. Ac y mae hunan-ddatguddiad yn dragwyddol. Yr oedd y "Gair" yn y dechreuad, ac yr oedd "gyda" Duw yn y dechreuad.

Dynoda "oedd," yn nhair rhan yr adnod, fodolaeth barhaol ddiamser. Prin y mae eisiau galw sylw at fawredd y datganiad a wneir ynddi.

2. **Hwn oedd yn y dechreuad gyda Duw.** "Ailadroddir yn yr adnod hon yr hyn a ddywedir yn adn. 1, gyda phwyslais ar y ffaith fod y berthynas â Duw a ragdybir yn yr ymadrodd "gyda Duw" yn dragwyddol; yr oedd hyn hefyd 'yn y dechreuad.' H.y., crynodeb yw'r adn. hon o'r tri gosodiad yn adn. 1, y rhai oeddynt, bob un ohonynt, yn wir, yn y 'dechreuad'" (Bernard). Yr oedd hwn (y Gair) yn y dechreuad; yr oedd gyda Duw yn y dechreuad; yr oedd yn Dduw yn y dechreuad. Y mae ailadroddiad o'r fath a geir yn yr adn. hon yn nodweddiadol o Ioan.

3 Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth; ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd.

Y GAIR CREADIGOL (adn. 3).

3. **Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth.** Popeth—"gair mawreddog" (Bengel). Drwyddo Ef y daeth popeth yn unigol i fod. Yr *oedd* y Gair, eithr *dyfod* i fod a wnaeth y greadigaeth. Cym. Heb. xi. 3. Ni wna'r modd y gwnaethpwyd y greadigaeth wahaniaeth—pa un ai drwy ddatblygiad ai drwy ryw fodd arall. *Drwyddo Ef.* Crëwyd y bydysawd gan Dduw drwy ei Air. Cym. 1 Cor. viii. 6; Col. i. 16; Heb. i. 2. Y Gair oedd y cyfrwng mewn creadigaeth; Ef a roes fynegiad i feddyliau Duw, mynegiad a bodolaeth ffeithiol. Credai rhai fod mater yn dragwyddol, eraill a gredent mewn cyfryngau israddol rhwng Duw a'r byd, ond yma dywedir ddarfod dwyn y cread i fod drwy'r Gair, y Gair tragwyddol, personol a dwyfol. Fel y dangoswyd uchod, ceir yr un ddysgeidiaeth yn Epis-

tolau Paul ac yn yr Epistol at yr Hebreaid. Ysguba Paul ymaith fel breuddwyd gwag bob cyfrwng rhwng Duw a'r byd ond Crist; dryllia ysgol faith y bodau israddol.

Ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim ar a wnaethpwyd. Hebddo Ef: ar wahan iddo Ef. Gosodiad nacaol yw hwn, yn cadarnhau'r gosodiad cadarnhaol blaenorol. Cym. adn. 20; iii. 16; vi. 50; 1 Ioan i. 5; ii. 4. Ceir y gyfochraeth hon yn fynych mewn barddoniaeth Hebreig. Gwêl Salm xviii. 36, 37, xxxix. 9, lxxxix. 30, 31, etc. (Gwêl y nodiadau ar y Rhagair).

4 Ynddo ef yr oedd bywyd; a'r bywyd oedd oleuni
5 dynion. A'r goleuni sydd yn llewyrchu yn y tywyll-
wch; a'r tywyllwch nid oedd yn ei amgyffred.

Y GAIR YN FYWYD A GOLEUNI (adn. 4, 5).

4. **Ynddo ef yr oedd bywyd.** Yn ôl atalnodiad arall perthyn geiriau olaf adn. 3 i'r adn. hon—"Yr hyn a wnaethpwyd (neu a ddaeth) oedd fywyd ynddo Ef." Ond ni newid hyn lawer ar yr ystyr, sef mai yn y Gair yr oedd bywyd—bywyd popeth yn ôl ei fesur. "Bywyd"—un o eiriau mawr Ioan.

A'r bywyd oedd oleuni dynion. Goleuni: un arall o eiriau mawr Ioan. Yma, arweinir ni o berthynas y Gair â'r cread i'w berthynas â dynolryw. Y mae'r bywyd yn oleuni mewn dynion, goleuni rheswm a chydwybod, y cyneddfau a'u gwahaniaetha oddi wrth y gweddill o'r greadigaeth. Daeth y bywyd i'w *flash point* ynom ni ddynion.

5. **A'r goleuni sydd yn llewyrchu yn y tywyllwch.** Sylwer ar yr amser presennol—"yn llewyrchu." Llewyrchai'r goleuni erioed: llewyrchodd cyn yr Ymgnawdoliad, a llewyrchai pan ysgrifennai Ioan,—"y gwir oleuni sydd yr awron yn tywynnu" (1 Ioan ii. 8). Y mae'n wir mai llewyrchu yn y tywyllwch a wna: daeth cysgod du dros hanes dynolryw: defnyddiwyd y rhoddion hynny a fwriadwyd i ddyrchafu ein natur i'w darostwng. "Yr hyn a gyfansodda ein nefoedd, hynny hefyd a gyfansodda ein huffern." Eithr llewyrcha'r goleuni.

A'r tywyllwch nid oedd yn ei amgyffred. Dysgir i ni fod dwy ystyr i'r ferf a gyfieithir "amgyffred" yma: (a) deall neu werthfawrogi; (b) gorchfygu. (Ystyr sylfaenol y ferf yw "cymryd gafael effeithiol ar"). (a) Deall neu werthfawrogi. Methodd y tywyllwch ag amgyffred y goleuni, drwy ddiffyg cydymdeimlad ag ef: nid oes cydnawsedd rhwng goleuni a thywyllwch (iii. 20). Yn ôl y cyfieithiad hwn, trewir ar unwaith y nodyn trychineb a drewir yn fynych yn yr Efengyl hon. (b) Gorchfygu. Ni orfu'r tywyllwch ar y goleuni.

Hwn yw golygiad Origen ac esbonwyr Groegaidd eraill. "Erlidiodd y tywyllwch y goleuni, ond cadd ei fod yn anorchfygol." Yn xii. 35, yr unig le arall yn yr Efengyl hon y ceir y gair, cyfieithir ef "dal," fel na ddalio'r tywyllwch chwi." Yn ôl y cyfieithiad "ni orfu'r tywyllwch ar y goleuni" nodyn buddugoliaeth, ac nid nodyn trychineb, a geir yma. Ni orchfygodd y tywyllwch y goleuni yn y dechrau, a llewyrcha'r goleuni o hyd. Gwna drygioni ei waethaf, ond ni all orchfygu daioni. Ni ellir diffoddi'r goleuni mwy nag y gellir diffoddi'r haul. A'r tywyllwch ni orfu arno: ni all y tywyllwch orchfygu'r Hen Ryfelwr hwn.

Sylwer y defnyddir goleuni a thywyllwch gan Ioan mewn ystyr ffigurol, i ddynodi goleuni a thywyllwch ysbrydol. Gwêl viii. 12, xii. 35, 46; 1 Ioan i. 5, ii. 8, 9, 11.

6 Yr ydoedd gwr wedi ei anfon oddi wrth Dduw, a'i enw
7 Ioan. Hwn a ddaeth yn dystiolaeth, fel y tystiolaethai am y Goleuni, fel y credai pawb trwyddo ef.
8 Nid efe oedd y Goleuni, eithr *efe a anfonasid* fel y
9 tystiolaethai am y Goleuni. Hwn ydoedd y gwir Oleuni, yr hwn sydd yn goleuo pob dyn a'r y sydd yn dyfod i'r byd.

NID IOAN FEDYDDIWR OEDD Y GOLEUNI (adn. 6—9).

6. **Yr ydoedd gŵr.** "Cyfododd neu daeth dyn." Sylwer ar y cyferbyniad rhwng yr adnod hon ag adn. 1. yr *oedd* y Gair, *cyfododd* dyn; yr oedd y *Gair,* cyfododd *dyn.*

Wedi ei anfon oddi wrth Dduw. Cym. Mal. iii. 1, iv. 5. Deillia'r gair am "anfon" o'r un gwreiddair â'r gair "apostol," a chymhwysir ef yn fynych gan yr Iesu ato'i Hun. Honnodd Ioan ei fod wedi ei anfon gan Dduw (iii. 28).

A'i enw Ioan. Ystyr yr enw hwn yw, "yr Arglwydd a rydd ras." Gelwir ef Ioan Fedyddiwr gan yr Efengylwyr eraill, i'w wahaniaethu oddi wrth Ioan yr Apostol, ond ni wneir hynny yn yr Efengyl hon, er yr enwir ef ugain o weithiau ynddi. I'r Efengylwr, hwn yw Ioan arall yr hanes Efengylaidd, ac oherwydd hynny y mae'n berffaith naturiol iddo feddwl am y Bedyddiwr, ar wahân iddo'i hun, fel Ioan yn unig. "Yr unig berson na feddyliai am wahaniaethu rhwng Ioan Fedyddiwr ag Ioan fab Sebedeus fyddai Ioan fab Sebedeus ei hun" (Bernard). (Am Ioan Fedyddiwr gwêl Rhagarweiniad).

7. **Hwn a ddaeth yn dystiolaeth.** "Er tystiolaeth,"—gyda'r pwrpas o dystiolaethu. Dyma nodwedd cenadwri'r Bedyddiwr. Y mae'r syn-

iad o ddwyn tystiolaeth yn un o syniadau sylfaenol yr Efengyl hon. Y tystion a enwir ynddi yw:—Ioan Fedyddiwr (i. 7, 15, 19, 32, 34; iii. 26, v. 33); y wraig o Samaria (iv. 39); gweithredoedd yr Iesu (v. 36, x. 25); y Tad (v. 37, viii. 18); yr Hen Destament (v. 39); yr Iesu ei Hun (viii. 14); y dyn a aned yn ddall (ix. 15, etc.); y dyrfa oedd yn bresennol pan alwodd yr Iesu Lazarus o'r bedd (xii. 17); y deuddeg (xv. 27); yr Ysbryd (xv. 26); y llygad-dyst o'r croeshoeliad—y Disgybl annwyl (xix. 35).

Fel y tystiolaethai am y goleuni: h.y. y goleuni y cyfeiriwyd ato'n barod.

Fel y credai pawb drwyddo ef: h.y. drwy Ioan—credu yng Nghrist drwy Ioan, ac nid credu yn Nuw drwy Grist. Siaredir yn y Testament Newydd am gredu yn Nuw drwy Grist (gwêl 1 Pedr i. 21), ond ni ddefnyddir yr ymadrodd "credu drwy'r Iesu" gan Ioan. Iddo ef, diwedd a gwrthrych ffydd yw'r Iesu, yn hytrach na'r cyfrwng y sicrheir hi drwyddo. Ni ddynodir gwrthrych ffydd yma, mwy nag y gwneir mewn llawer lle arall gan Ioan, ond y mae'n eglur pwy a olygir.

Defnyddir y ferf "credu" gan Ioan mor fynych, y mae'n debyg, ag y defnyddir hi yn y cwbl o lyfrau eraill y Testament Newydd gyda'i gilydd. Eithr ni ddefnyddir yr enw (*noun*) "ffydd" yn yr Efengyl hon. (Defnyddir ef yn 1 Ioan v. 4). Ymddengys, medd Muirhead, mai'r rheswm am hyn yw na fedr Ioan feddwl am ffydd yn yr Iesu fel profiad y gellir ei ddisgrifio yn y ffurf oddefol (*passive voice*). Nid cydsyniad hamddenol yw ffydd, ond gweithrediad dwys a chyfrifol y meddwl a'r ysbryd.

Gair pwysig arall a ddefnyddia'n fynych yw "bywyd," ac yn yr achos hwn defnyddia'n gyffredin nid y ferf "byw," ond yr enw "bywyd." Oherwydd hyn, dichon y gallwn ddefnyddio'r term bywyd i ddynodi'r *orffwysfa* yn yr Iesu a sicrheir drwy ffydd weithredol ynddo. Ond cofier nad ystâd o anweithgarwch yw'r orffwysfa sy'n fywyd. Yn hytrach, ystâd o weithgarwch yw gyda rhyddid a llawenydd. Gweithgarwch cariad yw.

8. **Nid efe oedd y goleuni.** "Nid hwnnw oedd y goleuni" (Pwyllgor Caerdydd). Nid Ioan oedd y goleuni: "Ilusern yn llosgi ac yn goleuo" oedd ef (v. 35). Goleuni a oleuwyd oedd Ioan.

Eithr efe a anfonasid fel y tystiolaethai am y goleuni. Gwelir bod y geiriau "efe a anfonasid" mewn llythrennau Italaidd, yn dynodi nad ydynt ran o'r testun gwreiddiol. Byddai "daeth" yn well nag "a anfonasid." Gwêl adn. 7. "Nid hwnnw oedd y goleuni, ond (daeth) fel y tystiolaethai am y goleuni."

9. **Y gwir oleuni.** Ni cheir y gair a gyfieithir "gwir" yn yr Efengylau eraill, ond defnyddir ef naw o weithiau yn yr Efengyl hon. Ystyr y gair yw "genuine," perffaith mewn cyferbyniad i'r amher-

ffaith (ac nid i'r gau). Crist yw'r gwir oleuni, y goleuni delfrydol berffaith. Ni ragdybir bod goleuadau eraill yn gamarweiniol. Cym. v. 35. Ond nid ydynt ond cysgodau o'r gwir oleuni, y goleuni perffaith, "yr haul ymhlith y sêr, a dderbyniant eu goleuni oddi wrtho ef."

Hwn ydoedd y gwir oleuni . . . . byd. Dichon y byddai'n well cyfeithu fel hyn: "Yr oedd y gwir oleuni, sydd yn goleuo pob dyn, yn dyfod i'r byd." Mabwysiadwyd y cyfeithiad a geir yma gan lawer fel tystiolaeth am y goleuni a rydd y Gair i ddynion ym mhob oes ac ym mhob gwlad; a sylwa Bernard y dywedwyd llawer gan ddiwinyddion Alecsandria, e.e. Clement, am weithrediad y Gair cynymgnawdoledig ar galonnau dynion, a'i bod yn ddiddorol sylwi na wnaethant apêl at yr adnod hon, canys nid oes a fynno hi â'r mater, am y sieryd hi yn unig am y goleuni cyffredinol a roddwyd i ddynolryw wedi'r Ymgnawdoliad. At yr amser hwnnw y cyfeirir yn y geiriau "sydd yn goleuo pob dyn"—yr oedd y gwir oleuni, sydd yn goleuo pob dyn (yn awr), yn dyfod i'r byd.

Yr oedd y gwir oleuni, sydd yn goleuo pob dyn, ar ei ffordd i'r byd. "Clywir swn traed Crist ar hyd yr holl ffordd."

> "Carai feddwl am y bore pan adawai'r nef ei hun,
> Pan ymgrymai'n ddigon isel i wneud ei babell gyda dyn;
> A chan gymaint oedd ei gariad, a chan gymaint oedd ei aidd,
> Awrlais y dragwyddol arfaeth droai yn rhy arat braidd.'

Sylwa rhai esbonwyr ei fod yn bosibl mai ystyr yr adnod yw bod y gwir oleuni ar ddyfod, a'i fod mewn bod yn y byd, pan dystiolaethai Ioan Fedyddiwr amdano.

Sydd yn goleuo pob dyn. Ar y syniad hwn y seiliodd y Crynwyr eu hathrawiaeth y rhydd Duw i bob dyn oleuni mewnol digonol: goleuir pob cydwybod gan y Goleuni Mewnol (The Inner Light). Galwodd rhai ohonynt y geiriau hyn yn "destun y Crynwyr."

10 Yn y byd yr oedd efe, a'r byd a wnaethpwyd trwyddo
11 ef; a'r byd nid adnabu ef. At ei eiddo ei hun y
12 daeth, a'r eiddo ei hun nis derbyniasant ef. Ond cynnifer ag a'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw, *sef* i'r sawl a gredant yn
13 ei enw ef: Y rhai ni aned o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gwr, eithr o Dduw.

CREDINIAETH AC ANGHREDINIAETH (adn. 10—13).

10. **Yn y byd yr oedd efe.** Defnyddir y term "byd" yn yr Efengyl hon i ddynodi (a) y ddaear (i. 9); (b) trigolion y ddaear (adn. 29, iv.

42); y gallu gwrthwynebol i Dduw a'i Eglwys (vii. 7, xiv. 17, xv. 9, xvii. 14. Gwêl ymhellach, y nodiadau ar viii. 23.

A'r byd a wnaethpwyd trwyddo ef. Cym. adnod 3.

A'r byd nid adnabu ef. Defnyddir y cysylltair "a" mewn ystyr wrthgyferbyniol yma—"ac eto." Y mae hyn yn nodweddiadol o'r Efengyl hon. Ceid esgyneb yn yr adnod hon,—"Yn y byd yr oedd efe" (am hynny dylasai'r byd ei adnabod); "a'r byd a wnaethpwyd trwyddo ef" (am hynny dylasai'r byd ei adnabod); ac eto, "y byd nid adnabu ef." Pair anallu'r byd i adnabod y Gair i Ioan ryfeddu. Amrywia esbonwyr yn eu barn am ystyr "yn y byd yr oedd efe." Cred rhai, e.e. Westcott, mai at fewnfodaeth barhaol y Gair yn y byd yn flaenorol i'r Ymgnawdoliad y cyfeirir, gan wahaniaethu rhwng "oedd" yr adnod hon a "daeth" yr adnod nesaf. Yr oedd y Gair bob amser yn y byd a grëwyd drwyddo, er nad adnabuwyd Ef gan y byd. Cym. Rhuf. i. 18, etc. Cred eraill mai'r dyfodiad mawr hanesyddol yw'r hyn y siaredir amdano yma. **A'r byd nid adnabu ef.** Gwelwyd y gorau, ond methwyd â'i adnabod. Yn rhannol yn unig yn y cylch hwn y mae hyn yn wir: "We needs must love the highest when we see it, not Launcelot nor another."

11. **At ei eiddo'i hun y daeth.** Yn y genedl ddi-ryw (*neuter gender*) y mae'r geiriau a gyfieithir "ei eiddo'i Hun." Daeth "i'w gartref ei Hun" (cym. xix. 27); daeth "at ei etifeddiaeth ei Hun" (Plumtner). Daeth i'r wlad ac at y bobl oedd yn eiddo Duw mewn ystyr arbennig. Gwêl Ex. xix. 5; Deut. vii. 6. Eiddo'r Gair yw'r byd ac a breswylia ynddo, ond am gylch llai o fewn cylch mwy y siaredir yma.

A'r eiddo'i hun. Defnyddir y genedl wrywaidd (*masculine gender*) yma—"ei bobl ef ei Hun."

Nis derbyniasant ef. Cym. Rhuf. ix.—xi. Nis derbyniasant Ef pan ddaeth atynt, ni roesant groeso iddo. Yn nameg y Llafurwyr Drygionus awgrymir y gwrthodwyd Ef ganddynt nid oherwydd nad adnabuant Ef, ond oherwydd iddynt ei adnabod. "Hwn yw'r etifedd; deuwch, lladdwn ef, a'r etifeddiaeth fydd eiddom ni." "Yn Agamemnon yn dychwelyd i'w balas wedi dengmlwydd o absenoldeb, ac yn syrthio drwy law ei wraig anffyddlon, y ceir prif drychineb hanes paganaidd. Ond beth yw'r trychineb hwnnw o'i gymharu â'r trychineb hwn? Daeth y Duw y galwyd amdano gan y genedl i'w deml, a chroeshoeliwyd Ef gan ei addolwyr ei Hun."

Ceir y nodyn trychineb a nodwedda'r Efengyl hon yn adnodau 10, 11. Cym. iii. 11, v. 43, a gwêl y nodiad ar v. 43. Teimlir grym y datganiadau blaenorol yn y diwedd rhyfedd hwn. Yn y dechreuad yr oedd y Gair . . . ., "a'r byd nid adnabu Ef." A pheth mwy rhyfedd na hynny, ni dderbyniwyd Ef gan ei bobl ei Hun, pan ddaeth

yn bersonol i'w gartref ei Hun. Ni roddwyd croeso iddo i'w dŷ ei Hun. "Rhydd Ioan y manylion ynglŷn â'r gwrthodiad hwn yn ei Efengyl. Sieryd am y datguddiad a roes yr Iesu o'i ogoniant, ac am y camddealltwriaeth a redodd ochr yn ochr â'r datguddiad hwnnw. Ceisiodd yr arweinwyr ei rwydo a'i feio; 'codasant gerrig i'w taflu ato;' ac yn y diwedd dygasant oddi amgylch ei groeshoeliad."

12. **Ond cynifer ag a'i derbyniasant ef.** Nid yr un gair a gyfieithir "derbyniasant" yma ag yn adn. 11: nid y fath groeso a ddylasai'r Iddewon ei roddi iddo pan ddaeth i'w gartref a olygir, ond y derbyniad personol ohono gan gredinwyr—Iddewon neu genedl-ddynion. Ni wna pwy ydynt wahaniaeth o gwbl: symudwyd ymaith bob terfyn: collir y berthynas genedlaethol yn yr un unigol. Gwrthodwyd yr Iesu gan y genedl, ond derbyniwyd Ef gan unigolion ynddi, a chan unigolion yn perthyn i genhedloedd eraill.

Efe a roddes allu iddynt. Neu, efallai, "awdurdod" neu "hawl." Cyfieithir y gair yn awdurdod yn v. 27, ac yn allu yn x. 18, xix. 10.

I fod yn feibion i Dduw. Yn gywir, yn "blant" i Dduw. Dysg Ioan, fel y gwna Paul hefyd, mai perthynas fabaidd yw'r berthynas rhwng credinwyr a Duw. Eithr rhaid gwahaniaethu rhwng "plant" Ioan a "meibion" Paul. Pwysleisia Paul fabwysiad, yr ochr gyfreithiol; Ioan, yr ochr naturiol. Rhagdybia "meibion" iawnderau; "plant" natur. Fel "meibion" yr ydym yn etifeddion, fel "plant" yr ydym yn gyfranogion o'r ddwyfol anian. (Defnyddir y term "plant" yn Rhuf. viii. 16, 17, 21; Phil. ii. 15). Oherwydd mai'r term plant a ddefnyddir yma (adn. 12), tueddir ni i farnu bod "gallu" yn well cyfieithiad na "hawl"—*gallu* i fod yn blentyn, *hawl* i fod yn fab.

Sef i'r sawl a gredant yn ei enw ef. A gredant "ar" ei enw Ef, ac a barhant i gredu. Y mae'r defnydd o "gredu arno Ef" yn nodweddiadol o Ioan, a defnyddia ef 35 o weithiau yn ei Efengyl, a theirgwaith yn ei Epistol cyntaf. Unwaith yn unig y defnyddir "credu ar" yn yr Efengylau eraill,—Mt. xviii. 6=Marc ix. 42. Y mae "credu ar" berson yn beth llawer mwy na chredu person neu osodiad,—credu yng ngeirwiredd y cyntaf ac yng ngwirionedd yr ail. Diffiniad pellach yw "i'r sawl a gredant yn ei enw Ef" o'r frawddeg yn nechrau'r adnod—"cynifer ag a'i derbyniasant Ef." Drwy gredu y deuwn yn blant i Dduw. Cym. 1 Ioan v. 1, 12.

Yn ei enw ef. Yn ei gymeriad datguddiedig.

13. Ceir yn yr adnod hon wadiad triphlyg o'r syniad bod a fynno haniad a dylanwad dynol a daearol ddim â'r ailenedigaeth ddwyfol. Nid effaith achosion naturiol a bwriadau dynol mo hon. Drwy ei

eni o Dduw y gwneir dyn yn blentyn i Dduw. Hawliai'r Iddewon eu bod yn blant i Dduw, yn rhinwedd eu haniaeth o Abraham, eithr y rhai a feddant ffydd Abraham yw plant Abraham. Ni chyfrif haniaeth a breintiau naturiol ddim. Cym. Mt. iii. 9. Gwneir dynion yn blant i Dduw yn rhinwedd y cyfraniad iddynt o'i natur Ef ei Hun drwy ei Fab a'i Ysbryd.

O waed. Yn llythyrennol, o "waedau." Ni ellir penderfynu paham y defnyddir y rhif lluosog. Edrychid ar y gwaed fel eisteddle'r bywyd anianol.

O ewyllys y cnawd: greddf naturiol.

Ewyllys gŵr: ewyllys ddynol.

O Dduw: gwaith Duw yw'r ailenedigaeth.

Â dysgeidiaeth yr adnod hon cym. iii. 3—8; 1 Ioan iii. 9, v. 1, 4. Adrodd ei brofiad ei hun ac eraill a wna Ioan yma.

[**Y rhai a aned.** Ceir un darlleniad anghywir yma—"yr hwn a aned," h.y. Crist, yn cyfeirio at yr Enedigaeth Forwynol. Gwna genedigaeth Crist o Dduw Ef yn alluog i wneuthur eraill yn blant i Dduw.]

14 A'r gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn
ein plith ni, (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant
megis yr Unig-anedig oddi wrth y Tad,) yn llawn gras
15 a gwirionedd. Ioan a dystiolaethodd am dano ef, ac
a lefodd, gan ddywedyd, Hwn oedd yr un y dywedais
am dano, Yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i, a aeth o'm
16 blaen i: canys yr oedd efe o'm blaen i. Ac o'i gyf-
17 lawnder ef y derbyniasom ni oll, a gras am ras. Canys
y gyfraith a roddwyd trwy Moses, ond y gras a'r
18 gwirionedd a ddaeth trwy Iesu Grist. Ni welodd
neb Dduw erioed: yr unig-anedig Fab, yr hwn sydd
ym mynwes y Tad, hwnnw a'*i* hysbysodd *ef*.

YR YMGNAWDOLIAD A'I EFFEITHIAU YSBRYDOL (adn. 14—18).

"Daeth yr amser terfynedig, amser ei ddyfodiad ddaeth,
Ni bu'n ôl i'w addewidion, ei ryfedd ymddangosiad wnaeth;
Y Tragwyddol Fab a roddwyd, ganwyd yn dywysog hedd,
Er ei ddod yn ddyn, mae hynod fawredd Duwdod yn ei wedd."

14. **A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd.** Dyma eithafbwynt datguddiad, dirgelwch dyfnaf y ffydd Gristionogol, a'i chenadwri ganolog. Byddai'n amhosibl i'r hilo wneuthur y gosodiad hwn, ac os cerddodd Ioan ryw ran o'r ffordd hyd yma yn ei gwmni (credwn na wnaeth), rhoddir ffarwel dragwyddol iddo'n awr. Gwna Ioan y Gair yn un â'r person hanesyddol.

Yn gnawd. Dynoda cnawd yma'r natur ddynol gyflawn. Nid at dlodi'r Ymgnawdoliad y cyfeirir, ond at ei *reality*, a'i wirfoddolrwydd hefyd—gwnaethpwyd (daeth) y Gair yn ddyn. Eithr caeir allan y syniad beidio o'r Gair â bod yn ddwyfol pan ddaeth yn gnawd. Er ei wisgo â chnawd, a thrigo ohono ymhlith dynion, parha'r Gair i fod yn ddwyfol, a cheidw, hyd yn oed yn null dyn, gymeriad y Tragwyddol.

Daeth i'r cnawd, ac nid ohono: nid cynnyrch natur yw Crist, neu hyd yn oed flodeuyn yr hil ddynol. Disgynnodd Ef oddi uchod, ac ni all neb esgyn ond drwyddo Ef. Nid oes y fath beth a Christionogaeth ddiwyrthiol.

Yn amser ysgrifennu'r Efengyl hon, credai rhai fod mater a'r corff dynol yn hanfodol ddrwg, ac, oherwydd hynny, nad oedd dynoliaeth Crist ond ffurf ffugiol: dyn mewn ymddangosiad yn unig oedd. I Ioan dinistriai'r syniad hwn yr efengyl. Gwêl 1 Ioan iv. 2, 3; 2 Ioan 7. Y mae'r heresi hon mewn golwg ganddo yn y pwyslais a rydd ar wir ddyndod yr Iesu, "Yr Iesu gan hynny yn ddiffygiol gan y daith, a eisteddodd felly ar y ffynnon" (iv. 6); "Y mae syched arnaf" (xix. 28); "Yr Iesu a wylodd" (xi. 35); "Ond un o'r milwyr a wanodd ei ystlys ef â gwaywffon; ac yn y fan daeth allan waed a dwfr" (xix. 34).

Ac a drigodd yn ein plith ni. Neu a "dabernaclodd" yn ein plith ni. Y Tabernacl oedd eisteddle'r Presenoldeb Dwyfol yn yr anialwch, ac felly yr oedd hwn yn air naturiol i'w ddefnyddio am breswyliad Duw yn y cnawd.

Ac ni a welsom. Dynoda "ni" Ioan a'i gyd-ddisgyblion. Cym. 1 Ioan 1—3. Nid am ganfyddiad ysbrydol y siaredir yma, ond am ganfyddiad â llygaid y corff (ni ddefnyddir y gair a gyfieithir "gweled" am weledigaeth ysbrydol yn y Testament Newydd). Y mae'n wir bod yn rhaid wrth lygaid y tu ôl i'r llygaid naturiol cyn y gellid gweled y gogoniant, eithr nid y gweledigaeth hwnnw a olygir yma.

Ei ogoniant ef: yr amlygiad o'r hyn ydoedd. "Un o'r geiriau na fedrir eu diffinio yw'r gair 'gogoniant.' Nid yw'n bosibl dywedyd beth a olyga, a hynny nid am y cynnwys rhy fach, ond am y cynnwys ormod. Y mae'n un o'r geiriau a ddefnyddir pan balla iaith ddynol, fel ymdrech i fynegi'r anhraethadwy" (Studdert Kennedy).

Barna rhai ei bod yn debygol y ceir yma gyfeiriad arbennig at y Gweddnewidiad, o'r hyn yr oedd Ioan, Pedr, ac Iago yn llygad-dystion. Barnwn ni mai am y cwbl o amlygiad y Gair yn y cnawd y siaredir. Ac o gymharu un rhan o'r amlygiad hwnnw ag arall, yr oedd Calfaria fryn cyn uched, onid yn wir yn uwch, ym meddwl Ioan na Mynydd y Gweddnewidiad. Ar y groes yn ôl ei dystiolaeth Ef, y cyrhaeddodd y gogoniant ei hanner dydd.

"Sieryd St. Ioan am fywyd daearol yr Iesu fel amlygiad o'r Tad drwy'r Gair; ond edrych Paul arno'n hytrach fel ymwacâd y Mab. Cym. Ioan i. 14; Phil. ii. 6, 7. Eithr siaredir gan y ddau am ailddyfodiad Crist fel amlygiad o'r hyn sydd yn awr yn guddiedig" (T. C. Edwards).

Gogoniant megis yr uniganedig oddi wrth y Tad. Disgrifiad o'r gogoniant a welwyd: "Y fath ogoniant ag a dderbyn unig Fab oddi wrth ei Dad." Defnyddir "uniganedig" am fab y weddw o Nain (Luc vii. 12); merch Jairus (Luc viii. 42); y bachgen lloerig (Luc ix. 38); ac Isaac (Heb. xi. 17). Ni ddefnyddir ef am Grist ond gan Ioan (i. 14, 18, iii. 16, 18; 1 Ioan iv. 9).

Yn llawn gras a gwirionedd. Ni wna wahaniaeth â pha beth y mae "llawn" i'w gysylltu. Ceir gwahanol farnau am hyn, ond yr un yw'r gwirionedd, sef mai gras a gwirionedd yw priodoleddau nodweddiadol y Gair ymgnawdoledig.

Gras. Ni ddefnyddir y gair hwn gan Ioan ond yn i. 14, 16, 17. Gair Paul yw "gras," "cariad" yw gair Ioan. Dywaid Paul, "wedi ein cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras Ef;" dywaid Ioan, "Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd Efe ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo Ef, ond caffael ohono fywyd tragwyddol." Cariad yn ymostwng at yr annheilwng, yn ymaflyd mewn dyn ar y llawr, yw gras; y ffafr ddwyfol na wna gyfrif o deilyngdod neu annheilyngdod: cariad rhad, maddeuol Duw ydyw. Rhaid oedd i gariad gymryd y ffurf o ras mewn perthynas â dyn pechadurus.

Yn yr Hen Destament, defnyddir "trugaredd a gwirionedd" yn fynych, eithr defnyddia Ioan y term "gras" yn lle "trugaredd," ac felly pwysleisia'r ffaith nad yn unig arbed dynion yn ei dosturi a wna Duw, ond eu caru'n weithredol a'u bendithio.

Gwirionedd. Ar y llaw arall, y mae "gwirionedd" yn un o allweddeiriau'r bedwaredd Efengyl. "Y mae cwestiwn Pilat, 'Beth yw gwirionedd?' wedi ei ateb" (Bernard). Y datguddiad perffaith o Dduw yng Nghrist yw'r "gwirionedd." Y mae'r gwirionedd yn ras, a'r gras yn wirionedd. Sylwa Strachan y gellid ymron aralleirio "gras a gwirionedd" yn "ras, yr hwn hefyd sydd yn *reality*." Cariad Duw yn yr Iesu yw ffaith derfynol bywyd, egwyddor derfynol y bydysawd. Saif Cristionogaeth ar seiliau na ellir eu symud: nid dychymyg yw gras, ond gwirionedd, y gwirionedd.

Fel y dywedasom, gras a gwirionedd yw priodoleddau nodweddiadol y Gair ymgnawdoledig, a'r priodoleddau hynny yw ei ogoniant. Yn y greadigaeth faterol gallu Duw a amlygir yn bennaf, a'i ddoethineb yn ei waith yn rhoddi i ddynion o'r bywyd sy'n oleuni. Ond pan ddyry inni ei Fab dadorchuddir hanfod fewnol y Duwdod: amlyga'r Gair o fewn cylch bywyd dynol briodoleddau penna'r Duwdod—gras a gwirionedd. Y priodoleddau hyn yw gogoniant y Gair ymgnawdoledig a welwyd gan Ioan a'i gyd-ddisgyblion. Pan ofynnodd Moses i'r Arglwydd ddangos ei ogoniant iddo, dywedwyd wrtho, "Gwnaf i'm holl ddaioni fyned heibio o flaen dy wyneb." Gogoniant Duw yw ei ddaioni.

Gwelsom yr elfeniad a ganlyn o'r Rhagair: 1. Perthynas y Gair â Duw. (2) Perthynas y Gair â'r byd: (a) Creadigaeth; (b) Ysbrydoliaeth; (c) Amlygiad. "Yr oedd, ac y mae Gair Duw, a ddaeth yn ddyn yn Iesu Grist, yn bresennol hefyd yn ei holl greadigaeth a'i holl greaduriaid. Yr oedd yn y byd bob amser ac ym mhob lle. Fe'i hamlyga'i Hun yn wastadol yn natur, yng nghydwybodau dynion, yn symudiadau cymdeithas, yn ysbrydoliaeth proffwydi. Yr oedd ei hyfrydwch yn wastadol gyda meibion dynion. Ac felly nid peth diberthynas, peth ar ei ben ei hun, mo'r Ymgnawdoliad, ond coron ac eithafbwynt y cwbl a fu cyn hynny. Fe'i gwnaethai y Gair ei Hun yn raddol yn fwy a mwy presennol. Yr oedd yn fwy presennol mewn dyn nag yn natur; yn fwy presennol mewn proffwydi nag mewn dynion cyffredin, ac yn bresennol yn bennaf oll pan gymerth yn bersonol natur dyn i'w amlygu ei Hun ynddi." Cyfeirir gan esbonwyr at y gyfatebiaeth rhwng adn. 1 a 14, a gosodir hi allan gan Westcott fel y canlyn: 'Yr oedd (y Gair) yn Dduw,' a 'daeth yn gnawd': cyferfydd tragwyddoldeb ac amser, y dwyfol a'r dynol ynddo Ef. 'Yr oedd gyda Duw, a 'thabernaclodd yn ein plith ni': dygir y fodolaeth ddwyfol i gysylltiad bywydol a hanesyddol â bywyd dynol. 'Yr oedd yn y dechreuad,' ac 'ni a welsom ei ogoniant Ef': datguddiwyd yr hyn oedd y tu hwnt i amser i sylwadaeth dynion am dymor.

15. **Ioan a dystiolaethodd amdano ef.** Yn gywir, "sydd yn tystiolaethu." Dengys y defnydd o'r amser presennol barhad a phwysigrwydd tystiolaeth Ioan. Yn niweddi bywyd hir erys y dystiolaeth hon o eiddo'r Bedyddiwr yng nghalon yr Apostol. Cym. adn. 27 a 30.

A lefodd: a lefodd yn uchel, a waeddodd. Gwêl y nodiadau ar vii. 28. "Adseiniai ei lais pan ysgrifennid y bedwaredd Efengyl." Arhosodd ei waedd yng nghlustiau a chalon yr Efengylwr: ni allodd anghofio'r geiriau a wnaeth y fath gyfnewidiad yn ei fywyd, pan oedd yn ymofynnydd ieuanc am iechydwriaeth.

Yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i, a aeth o'm blaen i: canys yr oedd efe o'm blaen i: "Yn dyfod ar fy ol i," yn ei enedigaeth a'i weinidogaeth, "a aeth o'm blaen i," mewn anrhydedd, "canys yr oedd efe o'm blaen i," yn rhinwedd ei gynhanfodiad.

16. **Ac o'i gyflawnder ef.** Dysgir i ni mai'r darlleniad cywir yw "canys o'i gyflawnder Ef." Y mae'r adnod hon i'w chysylltu â geiriau olaf adn. 14, "yn llawn gras a gwirionedd." Y mae "cyflawnder" yn un o eiriau Paul. Gwêl Eph. iv. 13; Col. i. 19.

Y derbyniasom ni oll. Dynoda "ni" bob gwir gredadun, ac nid yn unig y rhai a welodd ei ogoniant yn y cnawd. Cyfunir yma'r syniad o'r cyflawnder a drig yng Nghrist a'r syniad y cyflawnir yr Eglwys â'i gyflawnder Ef. Cym. Eph. i. 23.

A gras am ras. Rhoddwn wahanol farnau am ystyr yr ymadrodd hwn: (a) Rhadlonrwydd gras: drwy ras y rhoddir gras. (b) Cyflawnder o ras: un gras ar ôl y llall, gras ar ras, ton ar don o ras, gras yn cael ei adnewyddu'n ddibaid. (c) Gras yn lle gras: gwneir i fyny am bob gras a ddefnyddiwyd drwy roddi rhagor o ras yn ei le. (d) Gras yn cyfateb i'r gras sydd yng Nghrist. Ond beth bynnag yw ystyr yr ymadrodd, clywir sŵn môr ynddo.

17. Dwg y gair gras ar gof i Ioan y gwahaniaeth rhwng yr Oruchwyliaeth newydd a'r hen: dan y ddeddf yr oedd dynion yn yr hen, ond o dan ras y maent yn y newydd.

Canys y gyfraith a roddwyd drwy Moses. Cym. vii. 19. A **roddwyd** drwy Moses: nid oedd Moses ond y cyfryngwr y rhoddes Duw y gyfraith drwyddo. Nid ef a roddes y gyfraith, mwy nag y rhoddes ef y manna (vi. 32).

Ond y gras a'r gwirionedd a ddaeth drwy Iesu Grist. Yn gywir, "y gras a'r gwirionedd a ddaeth drwy Iesu Grist." "Rhoddwyd" y gyfraith drwy Moses, "daeth" y gras a'r gwirionedd drwy Iesu Grist. Drwyddo Ef y daethant i fod; ei eiddo Ef ydynt; Ef yw eu ffynhonnell. Cyflawnodd y ddeddf wasanaeth gwerthfawr, eithr gofyn a wnai'r ddeddf; ond rhoddi a wna gras. Amlygu a chondemnio pechod a wna deddf; ei faddau a'i dynnu ymaith a wna gras. "Rhwng 'cyfraith' a 'gras' y mae'r cyferbyniad, ond ychwanegwyd 'a'r gwirionedd' gan Ioan ar ôl 'gras' am y cyfunir hwynt yn adn. 14. Ymddengys y syniad o'r rhyddid a rydd y gwirionedd eto yn viii. 32, ac y mae 'gwirionedd' yn briodol iawn yma. Yr ychwanegiad ohono at ras yw cyfraniad Ioan i gyferbyniad Paul rhwng deddf a gras. Nid nad oedd deddf Moses yn wir, cyn belled ag yr oedd yn myned, eithr rhyddha gwirionedd Crist y credadun oddi wrth gaethiwed y ddeddf" (Bernard).

Iesu Grist. Dyma'r enghraifft gyntaf yn yr Efengyl hon o'r defnydd o'r enw hanesyddol llawn. Ceir yr unig enghraifft arall yn xvii. 3. Efallai nad ydym yn orgywrain, medd Reith, pan farnwn y saif "Iesu" am ras, a "Christ" am wirionedd.

Iesu Grist: "O! Enw annwyl iawn, Anwylaf un yn bod."

18. **Ni welodd neb Dduw erioed.** Â'r llygad naturiol. Ni roddwyd hyn hyd yn oed i Moses (Ex. xxxiii. 20).

Yr uniganedig Fab. Y mae'n debyg mai'r darlleniad cywir yma yw, "uniganedig Dduw." Atalnoda Bernard fel hyn: uniganedig, Duw.

Yr hwn sydd ym mynwes y Tad. Dynoda hyn y berthynas agosaf a thyneraf. (Cym. xiii. 23; Num. xi. 12; Deut. xiii. 6). Y mae'r hwn a eglura Dduw yn ei fynwes, ac oherwydd hynny gŵyr holl ddirgelion y Duwdod. Dynoda "sydd" ystâd dragwyddol, ac nid bod y Mab ym mynwes y Tad pan ysgrifennai Ioan, h.y. nid at yr Esgyniad y cyfeirir.

Hwnnw a'i hysbysodd ei. "Hwnnw a eglurodd." Ni cheir gwrthrych y ferf (eglurodd) yn y gwreiddiol, ond y mae'n eglur mai'r Tad a olygir. Crist yw'r Esboniad terfynol o Dduw—o Dduw fel Tad. Eglurodd Ef Dduw unwaith am byth yn nyddiau ei gnawd—yn iaith frodorol y byd. Ni bydd eisiau ychwanegu cymaint â'r nodiad lleiaf at yr Esboniad hwn i dragwyddoldeb: yr un peth angenrheidiol yw ei ddarllen a'i ddeall.

Dyma ystyr yr athrawiaeth am y Gair, a phwnc mawr yr Efengyl hon,—"Hwnnw a eglurodd y Tad." Cym. Mt. xi. 27. A phwy a fedrai wneuthur hynny ond "yr hwn sydd ym mynwes y Tad"? A fynno wybodaeth am Dduw, darllened Grist.

19 A hon yw tystiolaeth Ioan, pan anfonodd yr Iuddewon
o Jerusalem offeiriaid a Lefiaid i ofyn iddo, Pwy wyt
20 ti? Ac efe a gyffesodd, ac ni wadodd; a chyffesodd,
21 Nid myfi yw y Crist. A hwy a ofynasant iddo, Beth
ynte? Ai Elias wyt ti? Yntau a ddywedodd, Nag ê.
Ai y Prophwyd wyt ti? Ac efe a attebodd, Nag ê.
22 Yna y dywedasant wrtho, Pwy wyt ti? fel y rhoddom
atteb i'r rhai a'n danfonodd. Beth yr wyt ti yn ei
23 ddywedyd am danat dy hun? Eb efe, Myfi *yw* llef
un yn gwaeddi yn y diffaethwch, Uniawnwch ffordd yr
24 Arglwydd, fel y dywedodd Esaias y prophwyd. A'r
25 rhai a anfonasid oedd o'r Phariseaid. A hwy o ofynasant iddo, ac a ddywedasant wrtho, Paham gan hynny yr wyt ti yn bedyddio, onid ydwyt ti na'r Crist,

26 nac Elïas, na'r prophwyd? Ioan a attebodd iddynt,
gan ddywedyd, Myfi sydd yn bedyddio â dwfr; ond
y mae un yn sefyll yn eich plith chwi, yr hwn nid ad-
27 waenoch chwi: Efe yw yr hwn sydd yn dyfod ar fy
ol i, yr hwn a aeth o'm blaen i; yr hwn nid ydwyf fi
28 deilwng i ddattod carrai ei esgid. Y pethau hyn a
wnaethpwyd yn Bethabara, y tu hwnt i'r Iorddonen,
lle yr oedd Ioan yn bedyddio.

TYSTIOLAETH Y BEDYDDIWR I'R DDIRPRWYAETH O JERUSALEM (adn. 19—28).

19. **A hon yw tystiolaeth Ioan.** Cyfeiria "a" yn ôl at adnodau 6—8 a 15.

Pan anfonodd yr Iddewon o Jerusalem. Yn wreiddiol, dynodai'r term "Iddewon" aelodau llwyth Juda, eithr er y dychweliad o'r caethiwed arferwyd ef i ddynodi'r genedl yn gyffredinol. Defnyddir ef yn yr Efengyl hon dros 70 o weithiau. Pan gyfeiria Ioan at arferion crefyddol a chymdeithasol "yr Iddewon" cynhwysir y Galileaid yn y term hwn. Eithr defnyddia'r term yn gyffredin i ddynodi gwrthwynebwyr Crist, yn enwedig fel y cynrychiolid hwynt gan y Sanhedrin, prif lys eglwysig y wlad.

Anfonodd: fel dirprwyaeth oddi wrth y Sanhedrin.

Offeiriaid a Lefiaid: y ddau dosbarth a gynrychiolai'r genedl ar ei hochr grefyddol. Gan mai mab i offeiriad oedd Ioan Fedyddiwr (Luc i. 5), yr oedd ei waith o ddiddordeb arbennig i'r cylch offeiriadol.

Tynasai gwaith Ioan gymaint o sylw fel ag i beri i'r Sanhedrin anfon dirprwyaeth i wneuthur ymchwiliad swyddogol i'r mater. Yr oedd profi proffwydi yn un o swyddogaethau'r Sanhedrin. Ni ddefnyddia Ioan y term "offeiriaid" yn un lle arall yn ei Efengyl, er y defnyddia'r term "archoffeiriaid" yn fynych; ac oddieithr yn nameg y Samariad trugarog nid enwir y Lefiaid yn un lle arall yn yr Efengylau, nac ychwaith yn y Testament Newydd oddieithr yn Act. iv. 36.

Pwy wyt ti? Pwy yr honni dy fod?

20. **Ac efe a gyffesodd, ac ni wadodd: a chyffesodd.** Cyfochraeth wrthgyferbyniol. Gwêl ar adn. 3.

Nid myfi yw y Crist. Nid **myfi** yw'r Crist. Awgryma Ioan fod y Meseia gerllaw, ond nad **efe** yw hwnnw.

21. **Beth ynte?** Beth gan hynny? **Ai Elias wyt ti?** Disgwylid y dychwelai Elias i'r byd i baratoi'r ffordd i'r Meseia. Seilid y disgwyliad hwn ar **Mal. iv. 5.**

Ai'r proffwyd wyt ti? Credai'r Iddewon y dychwelai nid yn unig Elias, ond eraill hefyd o'r proffwydi mawr i'r byd cyn ymddangosiad y Meseia. Gwêl Mt. xvi. 14. Ond disgwylient yn arbennig am **y** proffwyd, y proffwyd a ragfynegir yn Deut. xviii. 15. Ymddengys y gwahaniaethid rhwng "y proffwyd" a'r Meseia, eithr unolir hwynt yn Act. iii. 32, vii. 37.

22. Gwesgir gan y ddirprwyaeth am esboniad o safle'r Bedyddiwr. Rhoddes ateb nacaol i'w syniadau hwynt amdano, ac **yn** awr ceisiant osodiad pendant oddi wrtho ef ei hun, fel y gallant roddi ateb i'r rhai a'u hanfonodd.

23 Dyfyniad o Esaia (xl. 3). Nodir hyn, megis y gwneir yma, gan yr Efengylwyr eraill (Mt. iii. 3; Marc i. 3; Luc iii. 4); eithr gan Ioan yn unig y rhoddir y geiriau yng ngenau'r Bedyddiwr.

Myfi yw llef un yn llefain. Ni fynnai Ioan hawlio personoliaeth gwerth gwneuthur ymchwiliad iddi: cyll hi ym mhresenoldeb y Meseia. "Y llais oedd Ioan, ac nid y Gair." Yn y cysylltiad hwn dyfynna Westcott yn briodol o gân Wordsworth i'r gog: "Thou art to me no bird, but an invisible thing, a voice, a mystery." Cymharer yr amlygiad hwn o ostyngeiddrwydd Ioan Fedyddiwr â'r **hyn a** ddywaid amdano'i hun yn iii. **25—30.**

Unionwch ffordd yr Arglwydd. Megis y paratoir ffordd pan groesa brenin le anial, felly yr oedd y Bedyddiwr i baratoi **ffordd** i'r Meseia trwy'r diffeithwch ysbrydol yr oedd y genedl ynddo. Ni ddywedir dim ganddo yma am edifeirwch, ond rhagdybir hynny, canys edrychid ar edifeirwch fel y paratoad i'r Meseia: "Os edifarha Israel am yn unig un dydd, daw'r Meseia." Y galon ddrylliog gystuddiedig yw'r ffordd union i'r Gwaredwr.

24. **A'r rhai a anfonasid oedd o'r Phariseaid.** Neu "o blith" y Phariseaid.

Nid sylw dibwys yw mai o'r Phariseaid yr oedd y rhai a anfonasid, canys ceidwadwyr oeddynt hwy mewn athrawiaeth a defod. Cydnabyddid bedydd proselytiaid oddi wrth baganiaeth, ond paham y bedyddid *Iddewon*? A pha hawl oedd gan y Bedyddiwr i gyflawni'r ddefod honno, ac yntau'n cyffesu nad y Meseia ydoedd ef, nac **hyd** yn oed Elias neu **y** proffwyd? (Am y Phariseaid gwêl y nodiad yn iii. 1).

26. Ni rydd Ioan ateb uniongyrchol i'r gofyniad yn adn. 25. Ei swyddogaeth ef yw cyhoeddi Crist, eithr cyn cyfeirio ato cyfaddef ei fod yn bedyddio, ond â dwfr **yn unig.**

Myfi sydd yn bedyddio â dwfr. Yn llythrennol, "mewn" dwfr.

Eithr y mae un yn sefyll yn eich plith chwi, yr hwn nid adwaenoch chwi. Gall hyn olygu (a) bod yr Iesu'n bresennol pan lefarai Ioan, neu (b) bod yr hwn a ddisgwylient eisoes yn y byd.

Adwaenoch. Dysgir ni y dynoda'r ferf a ddefnyddir yma yn y gwreiddiol wybodaeth gyflawn a hollol. Defnyddir hi'n fynych gan Ioan. Dynoda berf arall a ddefnyddir yn fynych ganddo wybodaeth berthnasol, gwybodaeth a gyrhaeddir, a berffeithir yn raddol. Ond dywedir y safwn ar dir ansicr pan wahaniaethwn yn fanwl rhyngddynt.

27. Gwêl ar adn. 15 am y rhan gyntaf o'r adn. hon.

Yr hwn nid ydwyf fi deilwng i ddatod carrai ei esgid. Dyledswydd mor isel fel yr oedd yn ddywediad o eiddo'r Iddewon: "Pob gwasanaeth a wna gwas i'w feistr, hynny a wna disgybl i'w Rabbi, oddieithr datod carrai ei esgid."

28. **Bethabara.** Y darlleniadl cywir yma yw "Bethania." (a) Newidiwyd Bethania i Bethabara drwy ddylanwad Origen, a ddywaid mai Bethania oedd yn y cwbl ymron o'r hen Lawysgrifau, ond na fedrai ef ddyfod o hyd i le "y tu hwnt i Iorddonen" o'r enw hwn, tra y dangoswyd iddo le a elwid "Bethabara." (b) Y mae'n bosibl yr ychwanegir "y tu hwnt i Iorddonen" i wahaniaethu rhwng y lle hwn a Bethania yn agos i Jerusalem.

Perthynai cysylltiadau hanesyddol nodedig i Iorddonen, a dichon y meddyliai Ioan am y genedl edifeiriol yn mynedl trwyddi eto i feddiannu'r wlad.

29 Trannoeth Ioan a ganfu yr Iesu yn dyfod atto; ac *efe*
a ddywedodd, Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu
30 ymaith bechodau y byd. Hwn yw efe am yr hwn y
dywedais i, Ar fy ol i y mae gwr yn dyfod, yr hwn a
31 aeth o'm blaen i: canys yr oedd efe o'm blaen i. Ac
myfi nid adwaenwn ef: eithr fel yr amlygid ef i Israel,
32 i hynny y deuthum i, gan fedyddio â dwfr. Ac Ioan
a dystiolaethodd, gan ddywedyd, Mi a welais yr Yspryd yn disgyn megis colomen, o'r nef, ac efe a ar-
33 hosodd arno ef. A myfi nid adwaenwn ef; eithr yr
hwn a'm hanfonodd i fedyddio â dwfr, efe a ddywedodd wrthyf, Ar yr hwn y gwelych yr Yspryd yn disgyn, ac yn aros arno, hwnnw yw yr un sydd yn bed-

34 yddio â'r Yspryd Glân. A mi a welais, ac a dystiolaethais mai hwn yw Mab Duw.

TYSTIOLAETH GYHOEDDUS GYNTAF Y BEDYDDIWR (adn. 29—34).

29. **Trannoeth.** Y dydd ar ôl ymofyniad y ddirprwyaeth. Nodir dyddiadau yn fanwl gan Ioan. Gwêl y nodiad ar adn. 43.

Ioan a ganfu'r Iesu yn dyfod ato. Ar ddychweliad yr Iesu o'r temtiad, o bosibl. Dyfod ato yma, myned oddi wrtho yn adn. 36.

Wele Oen Duw. "Yr" oen Duw. Bernir gan rai esbonwyr mai'r ystyr yw, "oen a ddarparwyd gan Dduw," a chyfeiria Bernard at vi. 33, "bara Duw," h.y. y bara a ddarparwyd gan Dduw. Barna eraill mai oen o feddiant Duw a olygir—ei oen ei Hun. Dynoda'r ymadrodd berthynas neilltuol â Duw, a chyferbyniad i ŵyn eraill,—Wele **yr** oen **Duw** o'r diwedd!

Ymddengys i ni mai yn Esaia liii. y ceir ffynhonnell y term a gymhwysir yma at yr Iesu, yn rhagdybied cyfeiriad at Oen y Pasg (cym. 1 Pedr ii. 24). Yn Esaia liii. ailadroddir y ffaith mai oherwydd pechodau dynion y dioddefai Gwas yr Arglwydd, a bod ei ddioddefiadau yn foddion i'w dwyn ymaith (adn. 4, 5, 6, 8, 10, 12). Sylwer y dyfynnir o Esaia (xl. 3) gan y Bedyddiwr yn adn. 23. Y mae golygiad Seeley y ceir yr esboniad cyflawn ar y term "oen Duw" yn Salm xxiii. yn hollol annigonol. Disgrifia Seeley'r Salm hon fel y darlun mwyaf perffaith a dynnwyd erioed o hapusrwydd dynol (y mae hyn yn wir), a dywaid mai talu gwrogaeth i frenhiniaeth hapusrwydd mewnol a wna Ioan yn yr ymadrodd "oen Duw."

Sydd yn tynnu ymaith. Er mai "tynnu ymaith" a ddywedir, barnwn y rhagdybir tynnu ymaith drwy "ddwyn." Dywaid Muirhead fel hyn: "*Codi i fyny* fel ag i *ddwyn* ac felly *dynnu ymaith*." Defnyddir yr un gair yn 1 Ioan iii. 5, "fel y dileai (tynnai ymaith) ein pechodau ni."

Bechodau'r byd. Yn gywir, "bechod" y byd,—un baich mawr. Y mae "pechod y byd" yn staen ddyfnach na phechodau personau unigol.

Y byd. Syniad mawr. Cym. iii. 16; 1 Ioan ii. 2. Sylwa T. R. Glover fod y gosodiad mawr, "Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechod y byd," wedi ei gyfiawnhau mewn hanes. Y mae cyflawnder o bechod yn y byd heddiw, eithr nid oes eisiau ond darllen hanes i sylweddoli diflaniad llawer pechod, cyhoeddus a dirgel, a diflanna pechodau eraill. Felly, nid yw'n beth dieithr y disgrifia'r Datguddiad y Crist buddugoliaethus fel yr Oen a laddwyd, ac y cysyllta dracheſn a thrachefn ei fuddugoliaeth ar bechod a drygioni â'i farwolaeth, ac y priodola i'w farwolaeth burdeb a harddwch tyrfa'r gynau gwynion.

30. Gwêl y nodiadau ar adn. 15.

31. **A myfi nid adwaenwn ef.** Ni olyga'r geiriau hyn na wyddai Ioan ddim amdano, eithr nad adwaenai Ef fel y Meseia. Ni wrthddywaid hyn Mt. iii. 14, "Eithr Ioan a warafunodd iddo ef, gan ddywedyd, Y mae arnaf fi eisiau fy medyddio gennyt ti, ac a ddeui di ataf fi?" Gwyddai Ioan fod yr Iesu'n uwchraddol iddo ef, eithr ni wyddai mai'r Meseia ydoedd cyn iddo gael yr arwydd addawedig (adn. 32—34), sef disgyniad yr Ysbryd arno. Hyd hynny, "Myfi hefyd nid adwaenwn ef" (cym. adn. 26), h.y. fel y Meseia.

Eithr fel yr amlygid ef i Israel. "Dyma'r ail ran o'r pwrpas dwyfol yng ngweinidogaeth Ioan. 1. Yr oedd i baratoi'r ffordd i'r Meseia. 2. Yr oedd i'w nodi allan."

Amlygid. Un o'r geiriau a hoffir gan Ioan. Gwêl ii. 11, iii. 21, vii. 4, ix. 3, xvii. 6, xxi. 1—14; 1 Ioan i. 2, ii. 19, 28, iii. 5, 8, 9.

I Israel. "Cylch cyntaf cyflawniad yr addewidion, a therfyn gweinidogaeth Ioan.

I fedyddio â dwfr. Trefn y geiriau yn y gwreiddiol yw, "â (mewn) dwfr i fedyddio (gan fedyddio)," er mwyn pwyslais. Bedyddio â dwfr a wnâi Ioan, mewn cyferbyniad i'r "un sydd yn bedyddio ag (mewn) Ysbryd Glân."

32. Eglura Ioan y modd a'r adeg y daeth i adnabod yr Iesu fel y Crist.

Myfi a welais yr Ysbryd yn disgyn megis colomen, o'r nef. Nid gweledigaeth ysbrydol a olygir yma, ond gweled â'r llygaid corfforol. Arferir y ferf a ddefnyddir yma am 'weled' bob amser yn y Testament Newydd am weled â'r llygaid corfforol. Defnyddir yr un ferf yn adn. 14, "ac ni a welsom ei ogoniant ef." Dywaid Mt. (iii. 16), "Y nefoedd a agorwyd iddo (yr Iesu), ac efe a welodd Ysbryd Duw yn disgyn megis colomen, ac yn dyfod arno ef. Dywaid Marc (i. 10), "Efe (yr Iesu) a welodd y nefoedd yn agored, a'r Ysbryd yn disgyn arno megis colomen." Ni ddywaid Luc (iii. 22) gan bwy y gwelwyd yr Ysbryd yn disgyn, — "a disgyn o'r Ysbryd Glân mewn rhith corfforol, megis colomen, arno ef." Sylwer y cytuna'r pedwar Efengylwr y gwelwyd colomen yn disgyn ar yr Iesu pan fedyddiwyd Ef, a sylwa Bernard y rhydd Luc bwyslais ar natur wrthrychol yr hyn a welwyd,—"mewn rhith corfforol." Eithr beth bynnag oedd natur y weledigaeth, ei hystyr i Ioan oedd ei bod yn arwyddlun o ddisgyniad yr Ysbryd. Pwysleisir dwy ffaith: (a) Gwelodd Ioan yr Ysbryd yn disgyn o'r nef; (b) arhosodd yr Ysbryd ar yr Iesu.

Colomen: arwyddlun o addfwynder, tangnefedd, cariad. "Ni waedda, ac ni ddyrchafa, ac ni phair glywed ei lef yn yr heol" (Esaia

xlii. 2). Edrychid ar y golomen fel aderyn cysegredig, ac fel arwyddlun o'r Ysbryd.

Ac efe a arhosodd arno ef. *Ymwelcd* â dynion a wnâi'r Ysbryd mewn amseroedd blaenorol, deuai ac ymadawai (Num. iii. 15), ond yr oedd yn feddiant parhaol i'r Iesu, oblegid nid wrth fesur y rhydd Duw *iddo Ef* **yr Ysbryd.**

33. **A myfi nid adwaenwn ef.** "Ail-edrydd Ioan na wyddai, ar wahân i ddatguddiad neilltuol, mai'r Iesu oedd y Meseia. Felly, nid ei farn ei hun am yr Iesu a rydd, ond tystiolaeth arwydd o'r nef." Gwêl ar adnod 31.

Yr hwn a'm hanfonodd i. Cym. adn. 6. Eithr nid yr un gair a ddefnyddir yno am "anfon." Oddi wrth Dduw y derbyniodd Ioan ei genhadaeth i fedyddio.

Hwnnw yw'r un sydd yn bedyddio â'r Ysbryd Glân. "Yn y pedair Efengyl y cyferbyniad pennaf rhwng gweinidogaeth Ioan a gweinidogaeth yr Iesu yw bod y gyntaf "â dwfr," a'r ail "â'r Ysbryd Glân." Nacaol oedd bedydd Ioan, eithr cadarnhaol yw'r bedydd â'r Ysbryd Glân. "Nid am wneuthur drwg y'n demnir; ond am beidio â gwneuthur da. Ni fynnai Crist glywed am foesoldeb nacaol. 'Gwna' oedd ei air Ef yn wastadol, drwy'r hwn y gwnaeth ymaith â 'Na wna'" (R. L. Stevenson). Ychwanega Luc "ac â thân." "Golyga bedydd lanhad, a golyga tân gynhesrwydd. Pa fodd y medr cynhesrwydd lanhau? Yr ateb yw y glanha cynhesrwydd moesol. Nid oes galon bur ond a fo'n llawn o deimlad; nid oes un rhinwedd yn ddiogel ond a fo'n frwdfrydig. A'r cyfryw rinwedd brwdfrydig yr oedd yr Iesu i'w ddwyn i mewn" (Seeley). "Nid ydych chwi, Phariseaid a Saduceaid, ond colofnau balch o gerrig na fedr dim ond tân eich gorchfygu, gan na wna dwfr ddim ond yn unig llifo drosoch a'ch gadael yn sych" (Papini).

34. Yn yr adnod hon ceir coron cenhadaeth Ioan. **Ac mi a welais.** Cyferbyniad llawen i "myfi nid adwaenwn ef." Dynoda'r amser perffaith fod effeithiau'r weledigaeth yn aros. **Ac a dystiolaethais.** Yr amser perffaith eto, yn dynodi bod ei dystiolaeth mai Mab Duw oedd yr Iesu wedi ei pharhau hyd amser llefariad y geiriau hyn.

Mab Duw. Sylwer ar y gwahanol ddisgrifiadau o'r Iesu: adn. 29 a 36, "oen Duw;" adn. 33, "Yr un sydd yn bedyddio â'r Ysbryd Glân;" yma, "Mab Duw."

Mab Duw. Teitl Mesiannaidd, ac yn yr ystyr hon ceir ei ffynonellau yn yr Hen Destament: 2 Sam. vii. 14; Salm ii. 7, lxxxix. 27; Dan. iii. 25. Hwn yw'r teitl a roddwyd gan y Tad i'r Iesu adeg ei fedydd (Mt. iii. 17; Marc i. 11; Luc iii. 22), ac a ddyfynnwyd gan y temtiwr yn yr anialwch.

35 Trannoeth drachefn y safodd Ioan, a dau o'i ddisgybl-
36 ion: A chan edrych ar yr Iesu yn rhodio, efe a ddy-
37 wedodd, Wele Oen Duw. A'r ddau ddisgybl a'i
38 clywsant ef yn llefaru, ac a ganlynasant yr Iesu. Yna
yr Iesu a droes; a phan welodd hwynt yn canlyn,
efe a ddywedodd wrthynt, Beth yr ydych chwi yn ei
geisio? A hwy a ddywedasant wrtho ef, Rabbi, (yr
hyn o'i gyfieithu yw, Athraw,) pa le yr wyt ti yn trigo?
39 Efe a ddywedodd wrthynt, Deuwch, a gwelwch. A
hwy a ddaethant, ac a welsant lle yr oedd efe yn
trigo, ac a arhosasant gyd âg ef y diwrnod hwnnw:
ac yr oedd hi ynghylch y ddegfed awr.

Disgyblion cyntaf yr Iesu (adn. 35—39).

35. **Trannoeth.** Yn y gwreiddiol, "trannoeth drachefn,"—cyfeiriad at adnod 29. "Dyddiau mawr," medd un esboniwr; "Dyddiadur rheolaidd," medd un arall.

Y safodd Ioan, a dau o'i ddisgyblion. Andreas oedd un o'r rhain (adn. 40).

Nid enwir y llall, eithr bernir mai Ioan yr Apostol ydoedd, yr hwn, yn ôl ei arfer, nid enwa ei hun. Os rhywun arall ydoedd, y mae'n anodd deall paham y gadewir ei enw allan yn fwriadol.

36. **A chan edrych ar yr Iesu'n rhodio.** Gwêl ar "yn dyfod ato" (adn. 29). Dynoda "edrych" edrychiad sefydlog, ystyriol a threiddgar.

Wele oen Duw. Gwêl ar adn. 29. Y mae'n debyg fod y disgyblion hyn yn bresennol y dydd blaenorol, ac felly nid oedd eisiau dywedyd rhagor.

37. **A'r ddau ddisgybl a'i clywsant ef yn llefaru.** A glywsant gyda gwerthfawrogiad.

Ac a ganlynasant yr Iesu. Heb unrhyw archiad penodol o eiddo'r Bedyddiwr. Nid oedd eisiau hynny. Deallasant ei eiriau'n gywir, ufuddhasant i arweiniad yr Ysbryd, a chanlynasant Ef; ac felly daethant yn aelodau cyntaf o Eglwys Iesu Grist, canys dyma'i dechreuad, dydd ei genedigaeth. Ni olygir benderfynu ohonynt ddilyn yr Iesu trwy ei weinidogaeth gyhoeddus: wedi hyn y cawsant yr alwad i wneuthur hynny.

38. **Yr Iesu a droes.** Cym. xx. 14, 16. Gallwn dybied y troes i'w cefnogi. Yr Iesu a droes, a gwna hyn o hyd ynglŷn â'r rhai a'i ceisiant.

Beth yr ydych chwi yn ei geisio? Nid "pwy" ond "beth."

Rabbi. Rhydd Ioan gyfieithiad i'r Groeg o'r teitl hwn. Gwna hyn i'w wineuthur yn ddealladwy i ddarllenwyr Groegaidd, fel y gwna ynglŷn ag amryw dermau eraill ac arferion Iddewig.

Pa le yr wyt ti yn lletya? Yn aros. Rhoddai gwahoddiad i'r lle yr arhosai'r Iesu gyfle iddynt gael cymundeb personol ag Ef, ymddiddan nes nag oedd yn bosibl yn yr awyr agored.

39. **Deuwch a gwelwch.** Nid drwy ymresymiad, er bod i hynny ei le, y diwellir ymchwil yr enaid, ond drwy ddyfod a gweled.

"Dyma'r drefn a gymeradwyir i'w ymofynwyr cyntaf gan yr Iesu, a dyma'r modd y datguddir Ef o hyd." "Syml oedd y geiriau,—'deuwch a gwelwch,' er y ceir hwynt mewn lleoedd llawn o arwyddocâd (Ioan xi. 34; Dat. vi. 1, 3, 5, 7; Salm lxvi. 5, etc.). Eithr ni chynyrchasant erioed effaith fwy nodedig nag yn awr. Daethant a gwelsant, a chyn cysgu ohonynt y noson honno gwyddent yn eu calonnau fod teyrnas Dduw wedi dyfod, gobeithion y canrifoedd hir wedi eu cyflawni."

Ac yr oedd hi ynghylch y ddegfed awr. Ynghylch pedwar o'r gloch y prynhawn. Dyma *red-letter day* yng Nghalendr ysbrydol y ddau ddisgybl hyn, dydd argyfwng mawr eu bywyd, dydd y cofiai Ioan yn dda amdano wedi treiglad hanner can mlynedd. Penderfynodd y cyfarfyddiad hwn bopeth i'r disgyblion hyn i dragwyddoldeb.

40 Andreas, brawd Simon Petr, oedd un o'r ddau a
41 glywsent *hynny* gan Ioan, ac a'i dilynasent ef. Hwn yn gyntaf a gafodd ei frawd ei hun Simon, ac a ddywedodd wrtho, Nyni a gawsom y Messias; yr hyn o'i
42 ddehongl yw, Y Crist. Ac efe a'i dug ef at yr Iesu. A'r Iesu wedi edrych arno ef, a ddywedodd, Ti yw Simon mab Jona: ti a elwir Cephas, yr hwn a gyfieithir Carreg.

GALWAD PEDR (adn. 40—42).

40. **Andreas, brawd Simon Pedr, oedd un o'r ddau.** Ni ddywedir pwy oedd y llall. Gwêl ar adnod 35.

Andreas. Ystyr yr enw hwn yw "gwrol." Brodor o Fethsaida oedd Andreas (adn. 44), ond yn ddiweddarach ceir ef yn byw yng Nghapernaum, yn yr un tŷ â'i frawd Simon Pedr (Marc i. 29, "tŷ Simon ac Andreas"). Pysgotwr oedd wrth ei alwedigaeth (Mt. iv. 18). Cyflwynir ef yma fel "brawd Simon Pedr" am mai ef oedd y lleiaf adnabyddus o'r ddau (cym. vi. 8; Mt. iv. 18, x. 2; Marc i. 16). Ceir hanes ei alwad i ganlyn yr Iesu yn Mt. iv. 18—20 = Marc i. 16—18. Dewiswyd ef yn un o'r deuddeg, a cheir ei enw bob amser ymhlith y fintai gyntaf o bedwar yn y rhestrau o'r Apostolion. Cysylltir ef â Phylip yn hanes porthi'r pum mil (Ioan vi. 5, etc.), ac yn hanes dyfodiad y Groegiaid a ewyllysient weled yr Iesu (Ioan xii. 20, etc.). Nid enwir ef ar ôl hyn yn yr Efengylau oddieithr yn Marc xiii. 3, nac yn yr Ysgrythur oddieithr yn Act. i. 13.

Gellir casglu oddi wrth yr hanes a roddir amdano ei fod yn ddyn syml a charedig. Ni feddai'r talentau a wnaeth Bedr, Iago ac Ioan yn amlwg, eithr nodweddid ef gan barodrwydd ac anhunanoldeb a wnaeth ei wasanaeth yn werthfawr yn y cylch apostolaidd. Yr oedd yn un o'r rhai y gellir dywedyd amdanynt fod eu gras yn fwy na'u gallu. Yr oedd yn awyddus i gyfrannu i eraill y breintiau a fwynheid ganddo ef, fel y gwelir yn y sôl a'r cariad a berodd iddo brysuro i ddwyn ei frawd at yr Iesu, ac yn ei ymddygiad at y Groegiaid.

Yn ôl traddodiad croeshoeliwyd ef yn Achaia. Dangosir rhan o'i groes yn awr yn Rhufain i'r rhai a fedr gredu mai dyna ydyw'r hyn a ddangosir. Dywaid traddodiad fod darn o'i fraich yn yr Alban, ac ef yw nawdd-sant y wlad honno.

41. **Hwn yn gyntaf a gafodd ei frawd ei hun Simon.** Ceir tri darlleniad yma: (a) "Hwn yn gyntaf a gafodd ei frawd Simon," yn rhagdybied yr aethai'r disgybl na roddir ei enw i geisio yntau ei frawd. (b) "Hwn a gafodd ei frawd Simon yn gyntaf." Simon oedd y cyntaf, ond nid yr olaf o ddychweledigion Andreas. (c) "Hwn yn y bore a gafodd ei frawd Simon."

Nyni a gawsom y Meseias. "Ar wefusau Iddew, dyma'r cael mwyaf o bob cael" (Dods). "Y darganfyddiad mawr" (Bernard). Credai Andreas y cyflawnid ei ddymuniadau a'i obeithion yng Nghrist. Yma ac yn iv. 25 yn unig y ceir y teitl "Meseias" yn y Testament Newydd. Daeth y teitl hwn i'w gymhwyso'n unig at y brenin addawedig a waredai Israel rhag pob gelyn a phob gofid, ac a deyrnasai mewn cyfiawnder a heddwch yn dragywydd. Ystyr "Crist" yw "Eneiniog."

42. **Ac efe a'i dug ef at yr Iesu.** Gwelir mai Andreas oedd y cenhadwr cartrefol cyntaf; ac ef a Phylip oedd y cenhadon tramor cyntaf (xii. 20—22). Dug Andreas ŵr mwy nag ef ei hun at yr Iesu, a gŵr anos i'w drin hefyd.

Wedi edrych arno ef. Am "edrych" gwêl ar adn. 36. Ni ddefnyddir y gair hwn am edrych yn yr Efengyl hon ond yma ac yn adn. 36. Defnyddir ef yn yr Efengylau eraill am edrychiad treiddgar yr Iesu, ac amdano'n edrych ar Bedr wedi iddo'i wadu. A ddug yr edrychiad hwnnw'r edrychiad hwn i'w gof?

Ti yw Simon, mab Jona. Ymddengys mai'r darlleniad cywir yma yw mab "Ioan." Y mae'n debygol y rhoddes Andreas ei enw ac enw'i dad i'r Iesu. Gallwn dybied y dywedodd lawer amdano wrtho.

Ti a elwir Cephas. Fel y sylwir gan yr Efengylwr, ystyr yr enw yw "Carreg"—darn o graig. "Y mae'r enw'n arwyddluniol o gryfder garw'r cymeriad yr oedd yr hwn y'i rhoddwyd iddo i'w amlygu fel Apostol, ac a oedd i'w wneuthur yn golofn yn yr Eglwys. Bu llawer o driniaeth arno i'w wneuthur yn garreg, ac nid amlygodd y cryfder hwn bob amser, ond deil yr Iesu yma ei ddelfryd o'i flaen, fel y byddo iddo geisio'i sylweddoli, a chredu ynddo'i hun fel y credai'r Iesu ynddo. Rhoddid pwys mawr ar enwau gan yr Hebreaid; cym. Gen. xvii. 5, xxxii. 28. Yr oedd yr enw newydd yn arwydd o'r bywyd dyfodol. Felly, golygai'r enw newydd hwn wybodaeth gyflawn o'r dyn: gallu i roddi'r cymeriad a'r berthynas a ddynodai'r enw." Cyfeirir eto yn yr Efengyl hon at allu'r Iesu i ddarllen calonnau dynion: adn. 48, ii. 24, 25, iv. 19, 29, etc.

43 Trannoeth yr ewyllysiodd yr Iesu fyned allan i Galilea;
ac efe a gafodd Phylip, ac a ddywedodd wrtho, Dilyn
44 fi. A Phylip oedd o Bethsaida, o ddinas Andreas a
45 Phetr. Phylip a gafodd Nathanäel, ac a ddywedodd
wrtho, Cawsom yr hwn yr ysgrifenodd Moses yn y
gyfraith, a'r prophwydi, am dano, Iesu o Nazareth,
46 mab Joseph. A Nathanäel a ddywedodd wrtho, A
ddichon dim da ddyfod o Nazareth? Phylip a ddywed-
47 odd wrtho, Tyred, a gwel. Iesu a ganfu Nathanäel
yn dyfod atto; ac a ddywedodd am dano, Wele Israel-
48 iad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll. Nathanäel a
ddywedodd wrtho, Pa fodd y'm hadwaenost? Iesu a
attebodd ac a ddywedodd wrtho, Cyn i Phylip dy
alw di, pan oeddit tan y ffigysbren, mi a'th welais di.
49 Nathanäel a attebodd ac a ddywedodd wrtho ef,
50 Rabbi, ti yw Mab Duw; ti yw Brenin Israel. Iesu a
attebodd ac a ddywedodd wrtho ef, O herwydd i mi

ddywedyd i ti, Myfi a'th welais di dan y ffigysbren, a ydwyt ti yn credu? ti a gei weled pethau mwy na'r
51 rhai hyn. Ac efe a ddywedodd wrtho, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Ar ol hyn y gwelwch y nef yn agored, ac angelion Duw yn esgyn ac yn disgyn ar Fab y dyn.

GALWAD PHYLIP A NATHANAEL (adn. 43—51).

43. **Trannoeth.** Y pumed dydd, medd Bernard, o'r wythnos y digwyddodd cymaint ynddi. Trefna ef y dyddiau fel hyn: 1. Tystiolaeth y Bedyddiwr am yr Hwn oedd i ddyfod (adn. 19—28). 2. Y Bedyddiwr yn galw'r Iesu'n oen Duw (adn. 40-42). 3. Cyfarfyddiad yr Iesu â'r ddau ddisgybl cyntaf (adn. 34—39). 4. Galwad Pedr (adn. 40-42). 5. Galwad Phylip a Nathanael (adn. 43—51). Ni ddywedir dim am y chweched dydd, eithr dydd y briodas yng Nghana yw'r seithfed. Pa un o'r dyddiau hyn oedd y Sabbath? Yn fwyaf tebygol dydd galwad Andreas ac Ioan. Os yw hyn felly, ceir cyd-drawiad diddorol, canys yna'r pedwerydd dydd o'r wythnos fyddai dydd y briodas yng Nghana, ac ordeinid yn y Talmwd fod priodas gwyrf i'w dathlu ar y pedwerydd dydd, ein Mercher ni.

Ac efe a gafodd Phylip. Cyfeirir ymhellach yn yr Efengyl hon at Phylip yn vi. 5, xii. 21, xiv. 8. Yr oedd, medd Reith, yn ŵr o ewyllys araf (i. 43), gochelgar (xii. 22), *matter-of-fact,* amddifad o ddychymyg ysbrydol (xiv. 8). Ymddengys mai ei arwyddair oedd "credu yw gweled." Gŵr o'r teip rhyddieithiol oedd, medd Muirhead, yn amddifad o feddyliau gwreiddiol, ond yn ffyddlon, ac yn barod i ufuddhau. Ac y mae eisiau dynion felly. Ei enw ef yw'r cyntaf yn yr ail fintai o bedwar yn rhestrau'r Apostolion. Dyma'r disgybl cyntaf a "gad" gan yr Iesu ei Hun.

Dilyn fi. Geiriau syml, ond ag ystyr ddofn iddynt, ac ystyr a barhaodd am oes. Ni ellir eu cyfyngu i orchymyn i ddilyn yr Iesu ar ei daith y diwrnod hwnnw.

44. **Bethsaida.** Bernir gan rai fod dau le o'r enw hwn: barna eraill nad oedd ond un Bethsaida.

45. **Phylip a gafodd Nathanael.** Enw Hebreig yw'r enw hwn, a'i ystyr yw "Duw a roddes." (Enwau Groegaidd yw Andreas a Phylip). Oherwydd y rhesymau a ganlyn bernir mai'r un oedd Nathanael â Bartholomeus yr apostol: 1. Yn y rhestrau o'r disgyblion yn yr Efengylau eraill cysylltir Phylip â Bartholomeus megis y cysylltir ef â Nathanael yma. 2. Tra na cheir yr enw Nathanael yn

yr Efengylau eraill ni cheir Bartholomeus yn Ioan. 3, Tad-enw'n unig yw Bartholomeus = mab Talmai, ac y mae'n matriol credu y meddai enw arall. 4. Daeth y disgyblion eraill a enwir yn y bennod hon i gyd yn apostolion, ac ni roddir canmoliaeth uwch i neb ohonynt nag i Nathanael. 5. Yn xxi. 2 ceir Nathanael yng nghwmni'r apostolion. Gwrthodwn y golygiadau a ganlyn am Nathanael: 1. Cyfeiriad arwyddluniol at yr Apostol Paul yw ei hanes. 2. Y Disgybl Anwyl yw. 3. Adroddiad arall o hanes Saccheus yw ei hanes. 4. Cymeriad delfrydol yw.

Cawsom yr hwn yr ysgrifennwyd . . . . Joseph. H.y. cawsom y Meseias.

Moses yn y gyfraith. Cyfeiriad at Deut. xviii. 15 o leiaf.

Y gyfraith a'r proffwydi. Disgrifiad cyffredin o'r Hen Destament, er y rhennid ef yn dair rhan: y Gyfraith, y Proffwydi, a'r Salmau (Luc xxiv. 44).

Iesu o Nazareth, mab Joseph. Ni chywira'r Efengylwr gyffes Phylip, mwy nag y dywaid ddim am y gofyniad yn vi. 42, "Onid hwn yw Iesu mab Joseph?" "Nid oedd Ioan heb wybod am yr enedigaeth ym Methlehem, a'i natur wyrthiol. Yn hytrach, hanesydd gonest yw, yn adrodd yn gywir yr hyn a ddywedwyd." Dywaid Godet yr ymddengys y cymer yr Efengylwr bleser mewn galw i gof wrthwynebiadau i fawredd Mesiannaidd yr Iesu, gan eu gadael heb eu hateb, am ddarfod i bob un oedd yn gyfarwydd â'r hanes efengylaidd wneuthur byr waith arnynt ar unwaith. Cym. vii. 27, 35, 42, xix. 19.

Nazareth. Tref yn Rhan Isaf Galilea, $5\frac{1}{2}$ milltir i'r gorllewin o Fynydd Tabor, ac oddeutu'r un pellter i'r de-orllewin o Gana yng Ngalilea. Saif y naill du i'r priffyrdd trafnidiol, er ymron yn eu golwg. Saif y pentref presennol, En-nâzira, wrth droed un o fryniau Libanus, ac oddi ar ael y bryn ceir un o'r golygfeydd prydferthaf ym Mhalestina. Ymddengys yr ymestynnai'r dref yn amser y Testament Newydd i fyny i'r bryn (Luc iv. 29). Dibynna'r pentref presennol, gyda'i boblogaeth o saith i wyth mil, am ei lwyddiant tymhorol ar yr ymwelwyr a'r pererinion a ddeuant iddo. Gwêl y cyfeiriadau a ganlyn at Nazareth: Mt. ii. 23; Marc i. 9; Luc i. 26, ii. 4, 39, 51, iv. 16, 30. Ym Mt. xxi. 11; Ioan i. 45; Act. x. 38, rhoddir yr enw Iesu o Nazareth i'r Iesu.

46. **A ddichon dim da ddyfod o Nazareth?** Rhoddwn wahanol farnau am ystyr y gofyniad hwn: 1. Nid enwir Nazareth yn yr Hen Destament, ac felly nid oedd yna ddim i gysylltu'r lle â'r proffwydoliaethau am y Meseia. 2. Yr oedd Nathanael o le cyfagos (Cana), a nodweddir lleoedd agos i'w gilydd gan eiddigedd tuag at ei gilydd—yn enwedig lleoedd bach. 3. Ni ddaw dynion mawr o leoedd bach.

"Camgymeriad cyffredin." O bentrefi dinod a rhannau gwledig y daw dynion o nôd y rhan fynychaf. 4. Rhai anwybodus a digymeriad oedd pobl Nazareth. Ar wahan i'r Efengylau ni wyddom ddim am Nazareth, ond drwg, gan mwyaf, yw'r hyn a ddywedir am ei thrigolion yno.

Tyred a gwêl. Cym. adn. 39. "Y feddyginiaeth orau at symud ymaith farnau a ffurfiwyd yn flaenorol" (Bengel). "Y wir ffordd i symud ymaith amheuon crefyddol" (Westcott). Amlygir nodwedd ymarferol Phylip yn y geiriau hyn. Cryfhau rhagfarn, ac nid ei gwanychu, a wna ymresymiad yn fynych.

47. **Iesu a ganfu Nathanael yn dyfod ato.** Er ei ragfarn, cydsynia Nathanael â chais Phylip, a daw at yr Iesu, a thrwy hynny teilynga'r ganmoliaeth a roddes Crist iddo.

Wele Israeliaid yn wir. Cym. Rhuf. ii. 29. Mewn cymeriad yn ogystal a thrwy enedigaeth. Rhoddwyd yr enw "Israel" (gorchfygwr Duw) i Jacob wedi ymdrech gŵr ag ef nes codi o'r wawr. Gorchfygodd Jacob yn yr ymdrech fawr, ac ni alwyd ef Jacob,—"disodlwr" neu "dwyllwr" (Gen. xxvii. 35, 36) mwyach, ond "Israel," oblegid cafodd nerth gyda Duw fel tywysog, a chyda dynion, ac a orchfygodd (Gen. xxxii. 28). Cym. Hos. xii. 4. "Mor falch yw'r Iesu pan wêl ynom rywbeth y gall ei ganmol" (A. Maclaren). "Gwna cywirdeb calon gerbron Duw ac iawnder tuag at ddynion Gristion" (Calfin). Y mae diddylledd yn rhinwedd sylfaenol. Â'r geiriau "yn yr hwn nid oes dwyll" cym. Salm xxxii. 2; Esaia liii. 9; 1 Pedr ii. 22; Dat. xiv. 5.

48. **Pa fodd y'm hadwaenost?** Mynega Nathanael syndod yn wyneb adnabyddiaeth yr Iesu ohono. Amlygir ei ddiddylledd yn ei dderbyniad o ganmoliaeth yr Iesu: yr oedd yn rhydd oddi wrth ostyngeiddrwydd gau.

Pan oeddit ti tan y ffigysbren, mi a'th welais di. Y mae'n debyg y golyga hyn "gartref,"—yn neilltuedd ei ardd ei hun. Dywaid Awstin mai pan eisteddai dan ffigysbren y clywodd y geiriau nodedig, "Cyfod, darllen." Yr oedd ffigysbren yn ffafr-le i fyfyrio oherwydd y cysgod a rydd ei dail.

49. **Ti yw Mab Duw; ti yw Brenin Israel.** Yr esboniad gorau ar yr argraff ddofn a wnaeth ateb yr Iesu ar Nathanael, yr ateb a gynhyrchodd y gyffes fawr hon, yw tybied bod ynddo amlygiad o'r gallu dwyfol i ddarllen calonnau dynion a hawlir gan yr Efengylwr i'r Iesu.

Ti yw Mab Duw. Cym. vi. 69, xi. 27. Sylwa Bernard y gwêl Nathanael yn yr Iesu un a amlygodd wybodaeth ryfeddol am ei fywyd gorffennol (cym. iv. 19, 29), ac felly unola Ef â'r Meseia y disgwylid amdano.

Ti yw Brenin Israel. Cyfunir y teitlau "Mab" a "Brenin" yn Salm ii. 6, 7.

"Dyma'r cyfarchiad a gorona'r cwbl i Nathanael, cyfarchiad y mae'n amhosibl myned y tu hwnt iddo. Erbyn yr amser yr ysgrifennwyd yr Efengyl hon byddai'r drefn hon — Mab Duw a Brenin Israel—yn wrthesgyneb amhosibl" (Scott Holland).

"Cân clychau enaid Nathanael pan wna'r gyffes fawr hon."

50. **Oherwydd . . . . a ydwyt ti yn credu?** Pair crediniaeth yr Israeliad didwyll o Gana syndod llawen i'r Iesu.

Ti a gei weled pethau mwy na'r rhai hyn. Y pethau mwy yw'r pethau a geir yn yr adnod nesaf.

51. **Yn wir, yn wir.** Yn y gwreiddiol, "Amen, Amen." Ceir "Amen, Amen" bump ar hugain o weithiau yn yr Efengyl hon, a defnyddir ef gan yr Iesu yn unig, ac i gyflwyno gwirionedd o bwysigrwydd arbennig. Nid ailadroddir "Amen" yn yr Efengylau eraill. Gelwir yr Iesu "yr Amen" yn Dat. iii. 14, oherwydd ei ddefnydd o "Amen." Dysgir i ni mai ystyr y term yw gwir, ffyddlon, sicr, teilwng o ymddiriedaeth. Yn 2 Cor. i. 20 dywedir, "oblegid holl addewidion Duw ynddo ef **ydynt** ie, ac ynddo ef amen," h.y. yn sicr a diamodol.

Meddaf i chwi. Anerchwyd Nathanael yn unig yn yr adnod flaenorol, eithr anerchir eraill yma.

Ar ôl hyn y gwelwch y nefoedd yn agored . . . . dyn. Cyfeiriad at hanes Jacob ym Methel: "Ac efe a freuddwydiodd; ac wele ysgol ar y ddaear, a'i phen yn cyrhaeddyd i'r nefoedd; ac wele, angelion Duw yn dringo ac yn disgyn ar hyd-ddi. Ac wele, yr Arglwydd yn sefyll arni" (Gen. xxviii. 12, 13).

Y nefoedd yn agored. Yr amser perffaith: "Wedi ei hagor, ac yn aros yn agored." Cyfieitha Moffat, "open wide."

Ac angelion Duw yn esgyn ac yn disgyn. Yr un drefn ag a geir yn Gen. xxviii. 12, "yn dringo ac yn esgyn." Y mae'r angylion wrth ochr dynion ar y ddaear yn wastadol, ac felly "dygant yn gyntaf y weddi i fyny at Dduw cyn y dygant i lawr yr ateb oddi wrtho Ef" (Westcott). Caiff y disgyblion weled sylweddoliad o'r hyn a welodd Jacob mewn breuddwyd.

Ar Fab y dyn. Y mae ystyr fanol yr ymadrodd hwn yn beth na phenderfynwyd eto gyda sicrwydd, a byddai ymdriniaeth lawn arno allan o le yma, am y byddai'n ofynnol gwneuthur ymchwiliad i'r defnydd ohono yn yr Efengylau eraill. Ni cheir mohono yn y Testament Newydd y tu allan i'r Efengylau oddieithr yn Act. vii. 56,

"Ac efe (Steffan) a ddywedodd, Wele mi a welaf y nefoedd yn agored, a Mab y dyn yn eistedd ar ddeheulaw Duw. Defnyddir ef oddeutu 80 o weithiau yn yr Efengylau—69 ym Mt., Marc a Luc, ac 11 neu 12 yn Ioan (gwêl ar ix. 35), a phriodolir y defnydd ohono yn ddynt bob amser i'r Iesu ei Hun. Nid yw Ioan xii. 34 yn eithriad, canys defnyddir ef yno gan y bobl fel ailadroddiad o eiriau'r Iesu. Ac yn Dat. i. 13, xiv. 14 ceir "mab dyn," ac nid "mab y dyn." Defnyddir ef am y waith gyntaf yn Mt. yn viii. 20 (cym. Luc ix. 58); yn Marc yn ii. 10 (cym. Mt. ix. 6; Luc v. 24; ac yn Ioan yn i. 51).

Barnwn mai cyfeiriad at ei wir ddyndod a geir yn nefnydd yr Iesu o'r teitl yn yr Efengyl hon. Er mai'r Gair oedd, yn bod yn dragwyddol gyda Duw, eto'r Gair a ddaeth yn gnawd oedd, yn ei amlygu ei Hun o dan amodau bywyd dynol, er y ceir yn ddiamau fwy nag awgrym o ddirgelwch a mawredd arbennig. Felly rhagdybia'r adnod hon gyferbyniad rhwng dynoliaeth bresennol yr Iesu a gwir ogoniant ei natur ddwyfol a ddatguddir ryw ddydd. Cym. vi. 62, xii. 23, xiii. 31, etc.

Ni fedrai Nathanael wisgo'r syniad Mesiannaidd ond mewn teitlau Iddewig, 'Mab Duw,' 'Brenin Israel.' Yr oedd y gwir fynegiad o'r syniad nid yn Hebreig, ond yn ddynol, 'Mab y dyn,' 'Y Gair wedi dyfod yn gnawd.'" O'i ddeall yn iawn, medd Bernard, cynnwys y cwbl a ddynoda "Crist"; ond, yn wahanol i'r teitl "y Meseia," nid awgryma neilltuolrwydd Iddewig. Perthyn Mab y dyn i ddynoliaeth ac nid i un hil. Esgyn a disgyn yr angylion "hyd ysgol faith Jehofa'n ddyn."

Gwrthodwn y golygiad mai at yr angylion a ymddangosodd wedi'r temtiad, yr ing yn yr ardd, a'r esgyniad y cyfeirir yma (adn. 51). "Wrth gerdded trwy benodau'r Efengyl hon dymunwn gadw'n agos at Nathanael, canys tybiaf mai wrth ei ochr ef y gallaf orau obeithio cael cipolwg o leiaf ar yr angylion yn esgyn ac yn disgyn ar Fab y dyn."

"Felly y diwedda'r Dyddiadur. Y mae pump (neu efallai chwech) wedi eu dwyn at ei gilydd i ffurfio cnewyllyn y gymdeithas newydd. Y mae'r deyrnas yn awr ar droed. Y mae dynion wedi dechrau credu" (Scott Holland).

NODIADAU YCHWANEGOL AR ADN. 35—51.

Y mae Andreas, Pedr, Phylip a Nathanael yn esiamplau o'r rhai a ddaw at Grist: y rhai a geisiant, y rhai a ddygir, y rhai a geisir, a'r rhai sydd a'u meddwl yn naturiol Gristionogol, nad oes angen eu trawsnewid o Jacob i Israel

Daeth Andreas (ac Ioan ni a gredwn) at yr Iesu drwy dystiolaeth Ioan Fedyddiwr; Pedr drwy dystiolaeth Andreas; a Nathanael drwy dystiolaeth Phylip. "Gwasanaetha un ffagl oleuedig i oleuo ffagl arall." "Rhydd un galon gariadus galon arall ar dân." "Heaven

doth with us as we with torches do; not light them for ourselves." Bendithir ni i fendithio eraill. Andreas a gafodd Simon, yr Iesu a gafodd Phylip, Phylip a gafodd Nathanael—sŵn "cael" mawr sydd yn yr adnodau hyn.

Galwyd hon "y Genhadaeth Gartrefol" gyntaf. 1. Ffynhonnell y genhadaeth: meddai Andreas ei hun adnabyddiaeth o'r Iesu. 2. Amcan y genhadaeth: "ac efe a'i dug ef at yr Iesu." 3. Lle'r genhadaeth: cenhadaeth gartrefol oedd. 4. Amser y genhadaeth: dechreuodd Andreas yn ddiymdroi. 5. Ceisiodd ei frawd am ei fod yn ei galon. Dyma'r ysbryd y rhaid i ninnau wrtho pan elom at ein cyd-ddynion. 6. Llwyddiant y genhadaeth: i Andreas yr ydym yn ddyledus am Bedr a'r cwbl a wnaeth.

Dychmygodd rhywun fel hyn: Wedi gorffen ohono waith pryn-edigaeth dyn a dychwelyd i'r nefoedd, rhodiai'r Gwaredwr yr heol aur un dydd (os gellir arfer "dydd" yn y cysylltiad hwn) yng nghwmni'r angel Gabriel. Medd yr angel, "Dywedir y dioddefaist lawer yn y byd." "Do," medd y Gwaredwr. "Ac mai dros ddynion y dioddefaist y cwbl." "Ie." "A ydynt i gyd wedi clywed am hynny?" "Nac ydynt." "Pa fodd y rhoddir gwybod iddynt?" "Gofynnais i Bedr, Iago, Ioan, ac Andreas wneuthur rhoddi gwybod am hynny i eraill yn waith mawr eu bywyd." "Beth os methant?" "Os methant hwy, nid oes gennyf gynllun arall; yr wyf yn pwyso arnynt hwy." Ac y mae'n ymddiried ynom ninnau. Y mae'r elfen genhadol yn rhan hanfodol o'r Efengyl. Nid yw dywedyd am Gristion ei fod yn genhadwr ond rhywbeth fel dywedyd y llysg tân: pe ni losgai ni byddai dân. *Painted fire* yw llawer ohonom ni.

Bydded inni ofalu na thorrir cadwyn y "cael."

PENNOD II.

1 A'r trydydd dydd yr oedd priodas yn Cana Galilea:
2 a mam yr Iesu oedd yno. A galwyd yr Iesu hefyd a'i
3 ddisgyblion i'r briodas. A phan ballodd y gwin,
mam yr Iesu a ddywedodd wrtho ef, Nid oes ganddynt
4 mo'r gwin. Iesu a ddywedodd wrthi, Beth sydd i mi
5 a *wnelwyf* â thi, wraig? ni ddaeth fy awr i etto. Ei
fam ef a ddywedodd wrth y gwasanaethwyr, Beth
6 bynnag a ddywedo efe wrthych, gwnewch. Ac yr
oedd yno chwech o ddyfr-lestri meini wedi eu gosod,
yn ol defod puredigaeth yr Iuddewon, y rhai a ddal-
7 ient bob un ddau ffircyn neu dri. Iesu a ddywedodd
wrthynt, Llenwch y dyfr-lestri o ddwfr. A hwy a'u
8 llanwasant hyd yr ymyl. Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Gollyngwch yn awr, a dygwch at lywodraethwr y
9 wledd. A hwy a ddygasant. A phan brofodd
llywodraethwr y wledd y dwfr a wnaethid yn win, (ac
ni wyddai o ba le yr ydoedd, eithr y gwasanaethwyr,
y rhai a ollyngasent y dwfr, a wyddent,) llywodraeth-
10 wr y wledd a alwodd ar y priod-fab, Ac a ddywedodd
wrtho, Pob dyn a esyd y gwin da yn gyntaf; ac wedi
iddynt yfed yn dda, yna un a fo gwaeth: tithau a
11 gedwaist y gwin da hyd yr awrhon. Hyn o ddechreu
gwyrthiau a wnaeth yr Iesu yn Cana Galilea, ac a
eglurodd ei ogoniant; a'i ddisgyblion a gredasant
ynddo.

Yr Arwydd Gyntaf: Troi Dwfr yn Win yn y Briodas yng Nghana. Y Briodas fwyaf nodedig yn hanes y byd (adn. 1—11).

1. **A'r trydydd dydd.** Y trydydd dydd wedi galwad Phylip a Nathanael.

Cana Galilea. Enwir y lle hwn mewn dau fan arall yn yr Efengyl hon (iv. 46, xxi. 2), ond ni wneir mewn unrhyw fan arall yn

y Testament Newydd. Enwir ef gan Josephus. Ni ellir penderfynu ei safle gyda sicrwydd. Y lle traddodiadol yw Kefr Kenna, tair milltir a hanner i'r Gogledd-ddwyrain o Nazareth. Y farn fwyaf cyffredin yn awr yw mai Kana el Jelil, naw milltir i'r Gogledd-orllewin o Nazareth, yw Cana Galilea yr Efengyl hon.

Cana Galilea oedd cartref Nathanael (xxi. 2).

A mam yr Iesu oedd yno. Ni rydd Ioan ei henw i fam yr Iesu. Gan nad oes yn yr adnod hon gyfeiriad at Joseph tybir iddo farw yn yr ysbaid rhwng yr hyn a gofnodir yn Luc ii. 51 a'r briodas hon. Ni olyga presenoldeb Mair o angenrheidrwydd mai Cana oedd ei chartref sefydlog yn awr. Yn adn. 12 ymâd gyda'r Iesu. Credwn iddi ddyfod i'r briodas o Nazareth, neu, fe ddichon, o Gapernaum. Yn ôl adnodau 3 a 5 ymddengys bod ganddi *interest* arbennig ynddi. Dichon mai priodas perthynas iddi oedd, yr hyn a roddai gyfrif am alw'r Iesu iddi. Y mae hen draddodiad mai Ioan ei hun oedd y priodfab, ond nid oes llawer i'w ddywedyd o blaid y dychymyg hwn.

2. **A galwyd yr Iesu hefyd a'i ddisgyblion i'r briodas.** Disgrifir canlynwyr yr Iesu fel "disgyblion" yn y pedair Efengyl. Defnyddir y term weithiau i ddynodi'r cylch Apostolaidd neu aelodau ohono, ac weithiau ceir ef mewn ystyr ehangach. Ceir enghreifftiau yn yr Efengyl hon o'r defnydd o'r term yn yr ystyr olaf a nodwyd yn vi. 60, 61, 66, xx. 30. Ar y cyntaf galwyd canlynwyr yr Iesu "ei ddisgyblion." Gwahaniaethid hwy felly oddi wrth ddisgyblion dysgodron eraill. Ond fel yr aeth amser ymlaen dechreuwyd eu disgrifio fel "y disgyblion." Deellid at bwy y cyfeirid yn y term Cristionogol hwn. Ni sonia Ioan am ddewisiad y Deuddeg, er y geilw hwynt "y Deuddeg" mewn ystyr wahaniaethol (vi. 67, 70, 71, xx. 24). Ni rydd y teitl "Apostolion" i'r Deuddeg.

Un yn dysgu yng nghymdeithas dysgawdr a berchir yw disgybl, ac un anfonedig yn cyhoeddi'r hyn a ddysgodd yw apostol.

Ai fel cyfeillion i'r briodasferch a'r priodfab, neu fel cymdeithion newydd yr Iesu, neu am ryw reswm arall, y gwahoddwyd hwynt, ni wyddom. Yr oeddynt yn awr yn bump neu chwech: Andreas, Ioan, Petr, Phylip, Nathanael, ac yn debygol, Iago. Ni ellir penderfynu a oeddynt oll yn bresennol.

3. **A phan ballodd y gwin.** Amgylchiad anffodus. Byddai darpar gwin yn beth arferol ar achlysuron o lawenydd, ac yr oedd dywediad Iddewig, "Heb win nid oes llawenydd." Ni wyddom paham y pallodd y gwin. Gallai gwledd priodas barhau am wythnos (Gen. xxix. 17), ac y mae'n bosibl bod nifer mwy yno nag a ddisgwylid.

Mam yr Iesu a ddywedodd wrtho ef, Nid oes ganddynt mo'r gwin. Yn wyneb yr anhawster trodd y fam at yr Iesu. Yr oedd hyn yn naturiol, gan iddi ei gael yn gynghorwr doeth a chariadus yng ngofalon y cartref. Y mae'r ffaith iddi ddywedyd wrth yr Iesu, yn hytrach nag wrth lywodraethwr y wledd, fod y gwin wedi pallu, yn dangos bod ganddi ymddiried yn ei allu i gyfarfod ag amgylchiad o'r fath. Ni ellir penderfynu a ddisgwyliai wyrth, ond y mae ei gwaith yn apelio at yr Iesu yn ein tueddu i feddwl y credai fod yr amser wedi dyfod iddo ei amlygu ei Hun fel yr hwn y gwyddai hi ei fod. Gwelai ei fod yn awr wedi casglu disgyblion o'i gylch, a gallwn dybied y clywsai am dystiolaeth y Bedyddiwr iddo. Ac yr oedd wedi cadw yn ei chalon amgylchiadau ei enedigaeth, ei eiriau a'r gnasusau a nodweddai ei fywyd hardd. "A gras Duw oedd arno ef." Pan ystyriwn y pethau hyn tybiwn y credai Mair fod yr Iesu ar fedr cyflawni yr hyn a ragddywedwyd amdano.

4. **Beth sydd i mi a wnelwyf â thi, wraig?** Nid oes amarch yn nefnydd yr Iesu o'r gair "gwraig." Dyma'r gair a arferodd hyd yn oed pan anerchodd ei fam o'r groes mewn munud o dynerwch anhraethol (xix. 26).

Ond y mae'r frawddeg, "Beth sydd i mi a wnelwyf â thi?" yn awgrymu cerydd, fel y gwelwn pan ystyriwn y cysylltiadau eraill y ceir hi ynddynt,—Barn. xi. 12; 2 Sam. xvi. 10; 1 Bren. xvii. 18; Mt. viii. 29; Marc i. 24, v. 7; Luc viii. 28. Y mae yna eithriad,—2 Cron. xxxv. 21.

"Beth sydd i mi a wnelwyf â thi?" Y mae'r amser i Mair arfer ei hawdurdod fel mam wedi myned heibio. Y mae byd o wahaniaeth rhwng meddyliau'r Iesu a'i meddyliau hi. Gweithreda Ef yn ôl egwyddorion sydd tu hwnt i'w deall hi. Y mae yn awr yn annibynnol ar bob dylanwad dynol. Collir rhwymau cartref a pherthynasau daearol mewn rhwymau uwch—rhwymau cenhadaeth ddwyfol. Defnyddiwyd geiriau cyffelyb ganddo ar achlysuron eraill,—"Oni wyddech fod yn rhaid i mi fod ynghylch y pethau a berthyn i'm Tad?" "Pwy yw fy mam?" Profodd Mair wirionedd geiriau Simeon—trywanwyd ei chalon.

Ni ddaeth fy awr i eto. Priodolir geiriau cyffelyb i'r Iesu amryw weithiau yn yr Efengyl hon (vii. 6, 8, xii. 23, 27, xvii. 1); a sieryd Ioan ei hun am "ei awr" (vii. 30, viii. 20, xiii. 1).

Y mae dwy ystyr i "Ni ddaeth fy awr i eto." (a) Yr ystyr i Mair —yr awr i gyfryngu yn yr achos hwn. (b) Ysgrifennwyd yr Efengyl hon o safbwynt tragwyddoldeb; gwelir y diwedd arfaethedig o'r dechrau. Pair hyn inni feddwl mai awr hunanamlygiad cyhoeddus yr Iesu fel y Meseia yw'r awr hon.

Yr oedd "ei awr" i'r Iesu. Rhoddir pwyslais gan Ioan ar ei anewyllysgarwch i weithredu'n frysiog, yn arbennig ar gais y rhai a garai (vii. 3, 6, xi. 5, 6). Ni phenderfynwyd cwrs ei fywyd gan

unrhyw nerth allanol. Dewisodd ei amser ei hun, ac yn y diwedd rhoes ei fywyd i lawr ohono'i hun. Cyflawnodd ewyllys Duw ac nid ewyllys dyn.

Dywaid Burkitt y gellir rhoddi i "Beth sydd i mi a wnelwyf â thi?" yr ystyr, "Paid â gofalu." Pe gwneid hyn, ac y cymerid y geiriau a gyfeithir "Ni ddaeth fy awr i eto?" fel gofyniad—fel y gwneir gan rai—ceid yr ystyr yma: "Paid â gofalu; oni ddaeth fy awr i?" Gwelwn felly paham y dywedodd Mair wrth y gweision, "Beth bynnag a ddywedo Ef wrthych, gwnewch." Barna rhai mai awgrymu iddynt ymneilltuo, ac felly achub eu perthynasau neu eu cyfeillion rhag anhawster a wnaeth Mair pan ddywedodd, "Nid oes ganddynt mo'r gwin." Atebodd yr Iesu, "Nid wyf yn cydweled â thi, nid yw fy awr i ymadael wedi dyfod eto." Ei fam, gan hynny, yn teimlo yn hyderus y bwriadai wneud rhywbeth—beth, ni wyddai—a ddywedodd wrth y gweision, "Beth bynnag a ddywedo Ef wrthych, gwnewch."

5. **Ei fam ef a ddywedodd wrth y gweision, Beth bynnag a ddywedo efe wrthych, gwnewch.** Ymddengys Mair fel pe wedi dal ar y gair "eto." Atgofia'r geiriau hyn ni o Gen. xli. 55: "A Pharaoh a ddywedodd wrth yr holl Eiphtiaid, Ewch at Joseph; yr hyn a ddywedo efe wrthych, gwnewch."

Sieryd profiad blynyddoedd yn y geiriau hyn, profiad y blynyddoedd distaw yn y cartref. Adwaenir dyn gartref, od adwaenir ef yn unman.

6. **Ac yr oedd yno chwech o ddyfr-lestri meini wedi eu gosod, y rhai a ddalient bob un ddau ffircyn neu dri.** Ffircyn = oddeutu $8\frac{1}{2}$ galwyn; felly cynhwysai y chwe llestr oddeutu 120 galwyn.

Yn ôl defod puredigaeth yr Iddewon. Y ddefod o olchi'r dwylaw a'r llestri ar ôl bwyta—un o ddefodau cymdeithasol yr Iddewon. Marc vii. 3, 4: "Canys y Phariseaid, a'r holl Iddewon, oni bydd iddynt olchi eu dwylaw yn fynych, ni fwytant; gan ddal traddodiad yr hynafiaid. A phan ddelont o'r farchnad, oni bydd iddynt ymolchi ni fwytânt. A llawer o bethau eraill y sydd, y rhai a gymerasant i'w cadw; megis golchi cwpanau, ac ystenau, ac efyddynnau, a byrddau."

Cedwid y dwfr yn ystafell y wledd neu yn agos iddi.

7. **A hwy a'u llanwasant hyd yr ymyl.** Dywedir hyn i ddangos nad oedd lle i ychwanegu dim at y dwfr yn y llestri, ac felly sicrheir dilysrwydd y wyrth. Y mae bod cymaint o win wedi ei roddi at wasanaeth y cwmni wedi achosi beirniadaeth. (Rhoddir sylw i hyn yn y nodiadau ychwanegol ar y wyrth).

8. **Gollyngwch yn awr.** Gorchmynnodd yr Iesu i'r gweision dynnu dwfr o'r llestri mawr a'i ddwyn i lywodraethwr y wledd. Dadlau Westcott mai yr ystyr yn hytrach yw, "Tynnwch yn awr o'r ffynnon," h.y., y ffynnon o'r hon y llanwyd y llestri hyd yr ymyl. Ond gwna hyn y cyfeiriad at y llestri yn afreidiol.

Llywodraethwr y wledd. Ni cheir y gair a gyfeithir "llywodraethwr y wledd" yn un man arall yn y Testament Newydd, na'r geiriau am "ddwfr-lestri" a "gollwng" (tynnu) ond yn yr Efengyl hon (iv. 7, 28).

Ceir gwahanol farnau ynghylch swyddogaeth y gŵr hwn: (a) y 'llywydd" yn y wledd; (b) "head-waiter," yr hwn a drefnai'r wledd ac a brofiai'r bwyd a'r ddiod.

A hwy a'u dygasant. "A hwy a'u llanwasant." "A hwy a'u dygasant." Gwelir y gwnaeth geiriau Mair eu gwaith—"Beth bynnag a ddywedo Efe wrthych, gwnewch."

Y dwfr a wnaethid yn win. "Gwridodd o wel'd ei Greawdwr." Ni wyddom pa bryd y daeth y cyfnewidiad gwyrthiol i mewn. Cred rhai mai y dwfr a ddygwyd i'r bwrdd yn unig a drowyd yn win. Cred eraill mai yr holl ddwfr yn y dyfr-lestri. Buasai troi ychydig o ddwfr yn win mor oruwchnaturiol a throi llawer.

Cofiwn am amser a dreuliwyd i ystyried y mater hwn, ac mor sicr oedd pob un yn ei farn ei hun.

9. **Ac ni wyddai o ba le yr ydoedd.** Dengys hyn fod ei farn am yr hyn a ddygwyd iddo yn ddiduedd.

10. **Ac wedi iddynt yfed yn dda, yna un a fo gwaeth.** Sylw dichwaeth. Y mae'r geiriau yn gryfach yn y gwreiddiol—"wedi iddynt feddwi." Cyfeithiad Tyndale a Cranmer yw, "when men be dronke." Ni olygir y bu yfed i ormodedd ar yr achlysur hwn; cyfeiriad at arfer sydd yn y dywediad.

Ti a gedwaist y gwin da hyd yr awr hon. Gwnaed defnydd mawr o'r geiriau hyn i ddangos rhagoriaeth rhoddion Crist ar roddion y byd.

11. **Hyn o ddechrau gwyrthiau a wnaeth yr Iesu yn Cana Galilea.** "Arwyddion" yw'r cyfeithiad cywir. Y gyntaf o holl arwyddion yr Iesu—nid y gyntaf o'r ddwy a gyflawnodd yng Nghana Galilea. Dywaid Origen mai y gyntaf mewn "arwyddocâd" ac nid y gyntaf o ran amser a olygir wrth y gair "dechrau."

Ceir yr "arwyddion" a ganlyn yn yr Efengyl hon:—

1. Troi dwfr yn win (ii. 1—11).
2. Iachâu mab y pendefig (iv. 46—54).
3. Iachâu y claf wrth y llyn (v. 1—15).
4. Porthi'r pum mil (vi. 1—15).
5. Rhodio ar y môr (vi. 16—21).
6. Rhoddi ei olwg i ddyn dall o'i enedigaeth (ix. 1—12).
7. Cyfodi Lazarus (xi. 1—44).
8. Y ddalfa fawr o bysgod (xxi. 1—11).

Y prif dermau a ddefnyddir yn yr Efengylau i ddynodi gwyrthiau Crist yw,—"gweithredoedd nerthol," "gweithredoedd," ac "arwyddion." Ni cheir y term "gweithredoedd nerthol" yn yr Efengyl hon. Y gair arferol a ddefnyddir ynddi gan yr Iesu yw "gweithredoedd"—fel pe ffurfient ran o weithrediad rheolaidd (normal) ei allu—ond "y gair mwyaf cydweddol â safbwynt yr Efengylwr yw "arwyddion," a defnyddir ef 17 o weithiau ynddi.

O ba beth yr oedd y gwyrthiau yn arwyddion? Yr oeddynt yn arwyddion y gallai dynion drwyddynt ddysgu mai'r Iesu yw'r Crist a chredu ynddo (xx. 31), arwyddion o ddwyfoldeb ei haniaeth a'i genhadaeth, o'i waith ar eneidiau dynion, ac amlygiadau o'i allu a'i ewyllys rasol. Yn ôl yr Efengylau eraill cyflawnodd yr Iesu ei wyrthiau oherwydd ei gariad at ddynion a'i gydymdeimlad â hwynt yn eu dioddefiadau. Porthodd y pum mil, gostegodd wyntoedd ystormus, am yr awyddai achub dynion mewn sefyllfa anodd neu beryglus (Marc i. 41, viii. 2). Ond nid yw'r elfen o dosturi yn absennol yn yr Efengyl hon, er mai gwerth tystiolaethol y gwyrthiau a bwysleisir. Ac nid yw'r elfen dystiolaethol yn absennol yn yr Efengylau eraill. Perant inni ofyn, "Pwy yw hwn?"

Dywedir gan esbonwyr fod Ioan, oherwydd yr edrych ar y gwyrthiau fel amlygiadau o allu dwyfol yn ennyn ffydd yn honiadau'r Iesu, yn fwriadol yn mwyhau'r elfen wyrthiol ynddynt. Iacheir mab y pendefig o bellter â gair, rhoddir ei olwg i ddyn dall o'i enedigaeth, a chyfodir Lazarus ar ôl gorwedd ohono bedwar diwrnod yn y bedd.

Yn ddiau, dewisodd Ioan yr enghreifftiau a ystyriai ef y rhai mwyaf trawiadol, ond gwrthodwn y golygiad ei fod yn fwriadol yn mwyhau'r elfen wyrthiol. Hanes a geir ganddo.

Ac a eglurodd ei ogoniant. Cyflawnodd yr Iesu wyrthiau, nid i brofi ei fod yn ogoneddus, ond am ei fod yn ogoneddus; nid i brofi ei ddwyfoldeb, ond am ei fod yn ddwyfol. Nid i brofi ei fod yn fardd yr ysgrifenna bardd farddoniaeth. Nid i brofi ei fod yn hael y cyfranna dyn hael roddion caredig. Cyfryngau datguddiad, rhan ohono, yw gwyrthiau Crist yn flaenaf ac yn bennaf, ac nid pethau wedi eu hychwanegu ato i brofi ei wirionedd. Y maent yn gydweddol â'r datguddiad, y "gras a'r gwirionedd" a ddaeth drwy Iesu Grist.

Y mae'r gwaith mawr wedi ei ddechrau. Llewyrchodd pelydryn o'r gogoniant ddydd y briodas yng Nghana Galilea, ac aeth rhagddo hyd ei hanner dydd disglair ar y groes, o'r fan y llewyrcha i gonglau pella'r byd.

A'i ddisgyblion a gredasant ynddo. Ynddo: "arno" neu "iddo" (into). Y mae hwn yn sylw dieithr am rai a gredent ynddo eisoes, ond y mae yn nodweddiadol o Efengyl Ioan, yr hon a ddengys gynnydd ffydd (ac anghrediniaeth) yn wyneb amlygiadau rhyfeddol yr Iesu o'i ogoniant. Credent ynddo yn flaenorol, ond yn awr cadarnhawyd a dyfnhawyd eu ffydd. Credasant ymhellach "iddo"—y

mae digon o le ynddo i ffydd fyned ymlaen am byth. Ar ystyr yr hanes mawr y rhydd Ioan bwyslais—"credasant iddo."

Yn yr Efengylau eraill portreadir ffydd, yn ei pherthynas â'r gwyrthiau, fel peth blaenorol ac amodol. "A phan welodd efe eu ffydd hwynt." "Ac ni wnaeth efe nemawr o weithredoedd nerthol yno, oblegid eu hanghrediniaeth hwynt." Ond yn hon canlyniad gwyrthiau yw ffydd. Nid awgrymir mai'r ffydd a ddaw drwy weled cyflawniad gweithredoedd nerthol yw'r math uchaf ar ffydd. Yn wir, dibrisir y ffydd honno. "Credwch fi,"—dyna'r credu gwirioneddol. Ond y mae i "arwyddion" neu "weithredoedd" eu lle. (a) Gwasanaethant i gondemnio anghrediniaeth. "Credwch fi er mwyn y gweithredoedd yn unig." "Oni bai wneuthur ohonof yn eu plith y gweithredoedd ni wnaeth neb arall, ni fuasai arnynt bechod. (b) Datguddiant i ffydd gyfoeth ei gwrthrych.

NODIADAU YCHWANEGOL AR Y WYRTH YNG NGHANA.

Dadleuir gan lawer o esbonwyr mai dyfais lenyddol yw'r wyrth hon i fynegi gwirionedd ysbrydol. Alegori yw, ac nid hanes. (Ceir nodiad yn y Rhagarweiniad ar "Efengyl Ioan fel hanes"). Y gwironedd a gyfleir yw rhagoriaeth yr oruchwyliaeth newydd ar yr hen, yr Efengyl ar y Ddeddf.

Ceir y golygiadau a ganlyn (ymhlith eraill) ynglŷn â *frame-work* yr alegori:—

(a) Awgrymwyd hi gan ddywediadau damegol o eiddo Crist. Yn Efengyl Marc ii. 19—22, cyfunir yr arwyddluniau "gwin" a "phriodas," a chredir mai beirniaid yr awgrymwyd holl "scenery" y wyrth yng Nghana gan y paragraff hwn.

(b) Y mae'n bosibl yr esboniwyd ymadrodd ffigurol o eiddo'r apostol —"troes yr Iesu ddwfr puredigaeth seremoniol yn win llawenydd priodas"—fel adroddiad am droedigaeth weithredol y cyfryw ddwfr yn win priodas. (Rhagdybia'r golygiad hwn nad Ioan yr Apostol yw awdur yr Efengyl hon).

Nid ydym i ddeall bod pob esboniwr a rydd ystyr alegoriaidd i elfennau yn yr hanes yn dal mai alegori ydyw. Gwêl Origen chwe dydd creadigaeth y byd yn y chwe dwfrlestr, ond ni ddywaid ei fod yn gwadu'r hanes. Ni phraw y ffaith yr ymdrinir â digwyddiad mewn modd alegoriaidd gan esboniwr na chred mai hanes ydyw, a llai na hynny y praw y dyfeisiwyd ef i wasanaethu amcan ysbrydol.

Gellir rhoddi ystyron alegoriaidd i hanes y briodas yng Nghana, ond nid oes yna ddim a ddengys eu bod ym meddwl yr Efengylwr, neu iddo ddyfeisio'r hanes i'w dysgu.

Cyflwynwn rai o'r ystyron a'r gwersi a nodir gan esbonwyr:—

i. Yr oedd yr hen oruchwyliaeth yn ddi-flas fel dwfr: yr oedd bywyd yn amddifad o ddiddordeb a lliw. Cynrychiola'r gwin, ar y

llaw arall, y cyfnewidiad a effeithiwyd yn y peth di-flas a di-liw hwnnw drwy allu Mab Duw. Troes Ef ddwfr yn win. Gallai bywyd o dan y ddeddf fod yn gywir, ond nid awyrgylch priodas oedd iddo. Gellid parchu'r ddeddf a roddwyd trwy Moses, ond prin y gellid ei charu. Eithr daeth gras a gwirionedd trwy Iesu Grist. Gwna Ef fywyd yn win sy'n ymweithio. Gweinidogaeth lawen oedd y weinidogaeth yng Ngalilea.

"Yn yr anialwch, cyn y Cyhoeddiad, nid oedd eisiau dim ond dwfr. Eithr yn awr, y mae'r Newyddion Da wedi eu cyhoeddi, y mae'r Deyrnas yn agos, ac y mae hapusrwydd yn nesáu. Y mae dynoliaeth ar fin myned o orthrymder i lawenydd; o weddwdod yr hen Ddeddf i briodas â'r Ddeddf newydd. Y mae'r priodfab eisoes yn ein plith. Nid amser i fod yn bruddglwyfus yw hwn, ond i fod yn frwdfrydig; nid i ymprydio, ond i lawenhau; nid i ddwfr, ond i win" (Papini).

ii. Y mae perthynas rhwng y newydd a'r hen—o'r dyfrlestri y caed y gwin, er mor uwchraddol oedd ei rinwedd i'r hyn oedd ynddynt yn flaenorol.

iii. Llanwyd y dyfrlestri hyd yr ymyl. Os trowyd eu holl gynnwys yn win, cawn arwyddlun yma o'r cyflawnder sydd yng Nghrist.

iv. Rhydd yr Iesu ei gwmpeini i ddynion yn holl brofiadau bywyd, os rhoddir gwahoddiad iddo. Cymer ran yn y llawenydd yng Nghana, ac yn y galar ym Methania. "Mab y dyn" ydyw Ef, ac felly ni chyfrif ein hamgylchiadau yn bethau dieithr iddo.

v. Achub Crist nid *rhag* llwybrau cyffredin bywyd ond *ynddynt* peth mwy anodd a mwy pwysig. Nid yma neu acw y mae nefoedd a sancteiddrwydd, ond lle y mae'r Iesu: a cherdda Ef levels cyffredin bywyd.

vi. Yr arfer oedd, gosod "y gwin da yn gyntaf; ac wedi iddynt yfed yn dda, yna un a fo gwaeth." Y mae cadw'r gwin da hyd yr awr hon yn nodweddiadol o grefydd Crist. Ar ôl y da rhydd hi y gwell. Metha a derfydd rhoddion natur: try pethau'r byd yn wael a gwyw. Eithr yng Nghrist y diwedd yw bywyd tragwyddol. Rhydd Ef y gwin da, a cheidw'r gorau "hyd yr awr hon." "Mae'n llawer gwell ymlaen."

". . . . the best is yet to be,
The last of life for which the first was made."

"Plant ydym eto dan ein hoed,
Yn disgwyl am y stad;
Mae'r etifeddiaeth inni'n dod
Wrth destament ein Tad."

12 Wedi hyn efe a aeth i waered i Capernaum, efe, a'i fam, a'i frodyr, a'i ddisgyblion: ac yno nid arhosasant nemmawr o ddyddiau.

YNG NGHAPERNAUM (adn. 12).

12. **Capernaum.** Tell Hum, neu yn llai tebygol, Khan Minyeh. Y mae'r lleoedd hyn oddeutu tair milltir oddi wrth ei gilydd, ar ran ogleddol Môr Galilea. Disgrifir Capernaum ym Mt. ix. 1 fel dinas yr Iesu ei Hun.

I waered. I waered o wlad fryniog Galilea. Y mae Môr Galilea oddeutu 700 troedfedd islaw arwynebedd y môr.

A'i frodyr. Gyda'r eithriad o Ioan vii. 3 cyfeirir at "ei frodyr" bob amser mewn cysylltiad â Mair; a phortreadir hwynt fel rhai nad oeddynt yn credu ynddo. Wedi'r Esgyniad ceir hwynt yng nghymdeithas Mair a'r disgyblion yn yr oruwchystafell (Act. i. 14). Eu henwau oedd Iago, Joses, Simon a Judas (Mt. xiii. 55; Marc vi. 3).

Pwy a olygir wrth "ei frodyr"? Yr unig olygiadau pwysig yw: (a) Plant Joseph a Mair, a aned ar ôl genedigaeth yr Iesu—golygiad Helvidius; (b) plant Joseph drwy briodas flaenorol—golygiad Epiphanius; (c) cefndyr i'r Iesu—golygiad Jerome. Yr ail olygiad yw'r un a fabwysiedir gan Lightfoot a Hort, ar seiliau hanesyddol a beirniadol. Ymdrinir â'r mater yn helaeth a manwl yn "Dictionary of Christ and the Gospels" (Hastings), a rhoddir y casgliadau a ganlyn: Y mae golygiad Jerome yn sicr o fod yn anghywir. Ac o'r ddau arall try'r fantol yn ffafr golygiad Epiphanius.

Ac nid arhosasant yno nemawr o ddyddiau. Am fod gŵyl y Pasg yn agos.

13 A phasc yr Iuddewon oedd yn agos: a'r Iesu a aeth
14 i fynu i Jerusalem; Ac a gafodd yn y deml rai yn gwerthu ychain, a defaid, a cholommennod, a'r
15 newidwyr arian yn eistedd. Ac wedi gwneuthur fflangell o fân reffynnau, efe a'u gyrrodd hwynt oll allan o'r deml, y defaid hefyd a'r ychain; ac a dywalltodd allan arian y newidwyr, ac a ddymchwelodd
16 y byrddau: Ac a ddywedodd wrth y rhai oedd yn gwerthu colommennod, Dygwch y rhai hyn oddi yma;
17 na wnewch dŷ fy Nhad i yn dŷ marchnad. A'i ddisgyblion a gofiasant fod yn ysgrifenedig, Zêl dy dŷ

18 di a'm hysodd i. Yna yr Iuddewon a attebasant ac
a ddywedasant wrtho ef, Pa arwydd yr wyt ti yn ei
ddangos i ni, gan dy fod yn gwneuthur y pethau hyn?
19 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Dinystr-
20 iwch y deml hon, ac mewn tridiau y cyfodaf hi. Yna
yr Iddewon a ddywedasant, Chwe blynedd a deugain
y buwyd yn adeiladu y deml hon; ac a gyfodi di hi
21 mewn tridiau? Ond efe a ddywedasai am deml ei
22 gorph. Am hynny pan gyfododd efe o feirw, ei ddis-
gyblion ef a gofiasant iddo ddywedyd hyn wrthynt
hwy: a hwy a gredasant yr ysgrythyr, a'r gair a ddy-
wedasai yr Iesu.

GLANHAU'R DEML (adn. 13—22).

Troes yr Iesu ddwfr yn win mewn gwledd gymdeithasol: glanhaodd y Deml mewn gŵyl grefyddol -y gyntaf yn weithred hanner-preifat, a'r ail yn un gyhoeddus. Geilw Muirhead y gyntaf yn drawsnewidiad (*transformation*), a'r ail yn ddiwygiad (*reformation*).

13. **A Phasg yr Iddewon oedd yn agos.** Yn ôl yr Efengyl hon bu'r Iesu mewn tair o ŵyliau'r Pasg yn ystod ei weinidogaeth gyhoeddus (ii. 1—13, vi. 4, xi. 55).

Rhoddir hanes sefydliad y Pasg a'r gwahanol reolau ynglŷn â'i gadwraeth yn Ex. xii. 1—13. Geilw Ioan Wyl y Pasg a Gŵyl y Pebyll yn ŵyliau "yr Iddewon."

Rhoddir gwahanol resymau am hyn gan esbonwyr: (a) Geilw Ioan y Pasg yn Basg "yr Iddewon" i'w wahaniaethu oddi wrth y Pasg Cristionogol. Ond nid esbonia hyn y disgrifiad, "yr Iddewon," yn vii. 3, canys nid oedd Gŵyl y Pebyll Gristionogol. (b) Ychwanegir "yr Iddewon" er mwyn darllenwyr Groegaidd.

Trefna Ioan ei Efengyl o amgylch y Gŵyliau Iddewig—Gŵyl y Pasg, ii. 13, vi. 4, xi. 55; Gŵyl y Pebyll, vii. 2; y Gysegr-ŵyl, x. 22. Coleddir gwahanol farnau ynghylch Gŵyl v. 1. Gwêl y nodiad yno.

14. **Y deml.** Y cyntedd allanol, cyntedd y cenhedloedd, lle yr oedd marchnad wedi ei sefydlu yn yr hon y prynid yr anifeiliaid angenrheidiol ynglŷn â'r aberthau. Yr oedd hyn yn beth cyfleus i rai a ddeuent i'r ŵyl o bell. Tueddai'r farchnad hon i feithrin cybyddod a hunanoldeb, a gofynnid prisiau afresymol am yr hyn a werthid i'r addolwyr. Sonia Edersheim am achlysur pan ostyngwyd pris pâr o golomennod o 15s. 3c. i 4c. drwy ymyriad swyddogol. Yr oedd y

newidwyr arian yn anhepgorol, canys yr oedd rhaid talu treth flynyddol y deml—hanner sicl—mewn arian Iddewig; a byddai eisiau newid siclau Iddewig i'hanner-siclau. Gwneid elw o hyn.

15, 16. Enynnodd y fasnach hon wrthwynebiad anghymodlawn yr Iesu—y fasnach ynddi ei hun. Ffynnai awydd am elw, ac elw anonest, ynglŷn â hi. Addolid y mwyaf o'r eilunod—cybydd-dod. A rhaid glanhau addoliad oddi wrth bob meddwl am elw. Ond ar wahân i'r elw a wneid, yr oedd y fasnach ynddi ei hun yn llygriad ar dŷ Dduw.

Y mae'r disgrifiad a geir yma o ymddygiad yr Iesu yn un grymus iawn. Gwelwn ei bwrpas di-ildio. Gwelwn Ef yn symud yn gyflym a di-ofn, sêl tŷ ei Dad yn ei ysu, a'i eiriau yn dyfod o'i enau fel tân o'r nefoedd. Gallu moesol a amlygir yma, mawredd ymddangosiad a theimlad angerddol yr Iesu, a'u cydwybodau eu hunain yn gwneuthur y gwerthwyr yn llwfriaid.

16. **Dygwch y rhai hyn oddi yma.** Gyrrodd yr ychen a'r defaid allan o'r deml. Ni ellid gyrru allan y colomennod fel y gyrrwyd yr anifeiliaid, ond y mae'r gorchymyn i'w dwyn allan yr un mor awdurdodol.

Tŷ fy Nhad i. Llefarodd yr Iesu eiriau cyffelyb yn yr un lle pan yn ddeuddeng mlwydd oed—"Oni wyddech fod yn rhaid i mi fod yng-hylch y pethau a berthyn i'm Tad" (Luc ii. 49). Disgrifir y deml yn ami yn yr Hen Destament fel "tŷ Dduw," a disgrifir hi felly gan yr Iesu (Mt. xii. 4, Marc ii. 26, Luc vi. 4). Yma dywaid, "tŷ fy Nhad i." "Fy Nhad," nid "Ein Tad." Honnir yn yr ymadrodd hwn mai Ef yw'r Meseia. Dynoda berthynas â Duw nad yw neb arall yn gyfrannog ohoni.

17. **A'i ddisgyblion a gofiasant.** Yn y lle a'r awr. Yn yr effaith ar y disgyblion a gofnodir yma gwêl Sanday hunangofiant ar ran yr Efengylwr.

Sêl dy dŷ di am hysodd i. Yr amser dyfodol—a'm "hysa" i, a'm bwyty i fyny, a'm difa'n llwyr. Yn Salm lxix. 9 y mae'r geiriau hyn yn ysgrifenedig. Ar yr amgylchiad hwn cyflawnwyd proffwydoliaeth Malachi: ". . . . ac yn ddisymwth y daw yr Arglwydd . . . . i'w deml . . . ." (Malachi iii. 1—3).

18. Cafodd gweithred yr Iesu effaith wahanol ar yr Iddewon i'r effaith a gafodd ar y disgyblion. Cadarnhaodd ffydd y disgyblion, ond deffrodd ysbryd hunanamddiffynnol yn yr Iddewon. Nid amheuent ei chyfiawnder: gwyddent yn eu calonnau fod rhywbeth allan o le yn eu sefydliadau crefyddol, ond dymunent wybod drwy ba awdurdod yr oedd yr Iesu yn ymddwyn fel diwygiwr, a gofynasant am arwydd. Ni welent fod y weithred yn arwydd ynddi ei hun.

19, 21. Y mae'r ateb yn "sydyn fel fflachiad mellten." Ni roes yr Iesu braw uniongyrchol ar y pryd, mwy nag y gwnaeth ar achlysuron eraill pan ofynnwyd iddo, "ond rhoes," medd Muirhead, "arwydd mewn gair proffwydol, a'i ystyr yn guddiedig hyd yn oed oddi wrth y disgyblion hyd ar ôl yr Atgyfodiad—"Dinistriwch y deml hon, ac mewn tridiau y cyfodaf hi."

Y deml. Y "cysegr" yn adn. 19, 20, 21; y "cyntedd allanol" yn adn. 14.

Yn adn. 21 ceir enghraifft o'r sylwadau eglurhaol a nodwedda yr Efengyl hon.

(a) Y dywediad. "Dinistriwch y deml hon, ac mewn tridiau y cyfodaf hi" (adn. 19).

Y mae'n eglur y llefarwyd geiriau o'r fath gan yr Iesu. Yn ôl Marc (xiv. 58), dygwyd yn erbyn yr Iesu pan oedd o flaen yr archoffeiriad, y cyhuddiad o ddywedyd ohono: "Mi a ddinistriaf y deml hon o waith dwylaw, ac mewn tridiau yr adeiladaf arall heb fod o waith llaw." Dywaid Mt. (xxvi. 61), "Mi a allaf ddinistrio teml Dduw, a'i hadeiladu mewn tri diwrnod."

Ond dywedir mai gaudystion wedi eu ceisio a'u dwyn gan yr awdurdodau a ddug y cyhuddiad yn y ffurfiau hyn.

Rhydd Ioan yr achlysur, ond ni rydd y cyhuddiad, a rhydd Mt. a Marc y cyhuddiad, ond ni roddant yr achlysur. Edrydd Marc (xiii. 2), Mt. (xxiv. 2), a Luc (xxi. 6) i'r Iesu ar achlysur arall ragfynegi cwymp y Deml.

(b) Yr esboniad. Esboniad Ioan yw, "Ond efe a ddywedasai am deml ei gorff" (adn. 21). Am ei atgyfodiad y dywedodd yr Iesu, "Dinistriwch y deml hon, ac mewn tridiau y cyfodaf hi." Ni wyddai'r disgyblon ar y pryd mai am ei atgyfodiad y dywedasai, ond pan gyfododd Ef o feirw, cofiasant iddo ddywedyd hyn wrthynt hwy, a chredasant yr Ysgrythur, a'r gair a ddywedasai.

Crist yw gwir gysegr Duw. Sieryd Paul yn fynych am y corff dynol fel "teml." "Oni wyddoch chwi fod eich corff yn deml i'r Ysbryd Glân sydd ynoch?" (1 Cor. vi. 19).

Dadleuir mai i Dduw y Tad y priodolir atgyfodiad Crist bob amser yn y Testament Newydd. Yma y gweithredydd yw Crist ei Hun. Awgryma hyn nad at yr atgyfodiad y cyfeirir. Ond priodolir atgyfodiad Crist yn yr Efengyl hon i'w allu Ef ei Hun (x. 17, 18).

Bernir gan lawer o esbonwyr mai yr hyn a olygir yn adn. 19 yw cyfodiad crefydd newydd ac ysbrydol ar adfeilion yr hen mewn amser byr. "Dygwch ymlaen eich gweithrediadau drygionus, y rhai o angenrheidrwydd a arweiniant i lygriad a dinistr y lle fel teml Duw, ac wedi i chwi gwblhau eich gwaith marwol, cyfodaf "Deml" newydd yn fuan, yng nghalonnau gwir ddisgyblion y deyrnas, lle y medr Duw breswylio" (Brooke).

Ond onid yr un deml a gyfodir ag a ddinistrir ("cyfodaf hi")? Atebir nad ei dinistrio ond ei gweddnewid a gafodd yr hen Eglwys.

Symia Bernard i fyny ei ymdriniaeth â'r mater fel y canlyn:—"Datganodd yr Iesu (a) y byddai i'r deml, balchder a gogoniant Jerusalem, gael ei dinistrio heb fod yn hir, ac y diflannai ei haddoliad; (b) y cyfodai Ef Deml ysbrydol yn ei lle; (c) na chymerai gwneuthur hyn fwy na "thridiau."

20. Cymerwyd y geiriau gan ei wrandawyr digllon ac anghrediniol fel bygythiad, a rhoddasant ystyr lythrennol i'r ymadrodd, "Mi a'i cyfodaf hi."

Dechreuwyd adeiladu teml Herod yn 20—19 C.C., a chwblhawyd y gwaith o dan Herod Agrippa 64 O.C. Nid yw "chwe blynedd a deugain y buwyd yn adeiladu y deml hon" yn golygu bod y gwaith wedi ei orffen, ond fod yr adeiladu wedi ei ddwyn ymlaen am chwe blynedd a deugain.

22. **Ei ddisgyblion ef a gofiasant.** Hunangofiant eto. Yn adn. 17 dywedir iddynt gofio ar y pryd, pan welsant sêl Crist; yma dywedir iddynt gofio a chredu ar ôl yr atgyfodiad.

A hwy a gredasant yr Ysgrythur, a'r gair a ddywedasai yr Iesu. Yn y T.N. dynoda "yr ysgrythur" ryw ran neilltuol o'r Ysgrythur, a dynoda "yr ysgrythurau" yr Ysgrythur yn gyffredinol. Y mae'n debyg mai Salm xvi. 10 yw "ysgrythur" yr adn. hon,—"Canys ni adewi fy enaid yn uffern; ac ni oddefi i'th Sanct weled llygredigaeth."

NODIAD AR LANHAU'R DEML.

Rhydd Ioan lanhad y Deml yn nechrau gweinidogaeth yr Iesu, tra y rhydd yr Efengylwyr eraill ef yn ei diwedd. Gwêl Marc xi. 15—17, Mt. xxi. 12, 13, Luc xix. 45, 46.

A fu dau lanhad? Oni fu, ai Efengyl Ioan ai'r Efengylau eraill sydd yn hanesyddol gywir? Nid oes anhawster mawr ynglŷn â chredu y bu dan lanhad—"very slight," medd Plummer—ac y mae'r gwahaniaethu rhwng hanes y glanhad yn Efengyl Ioan a hanes y glanhad yn yr Efengylau eraill yn ffafr y golygiad hwn. Y gwahaniaeth mawr yw y lle pwysig a roddir i'r glanhad gan Marc, Mt. a Luc. Arweiniodd i'r diwedd.

23 Ac fel yr oedd efe yn Jerusalem ar y pasc yn yr
wyl, llawer a gredasant yn ei enw ef, wrth weled ei
24 arwyddion a wnaethai efe. Ond nid ymddiriedodd
yr Iesu iddynt am dano ei hun, am yr adwaenai

25 efe hwynt oll; Ac nad oedd raid iddo dystiolaethu o neb *iddo* am ddyn: o herwydd yr oedd efe yn gwybod beth oedd mewn dyn.

FFYDD ARWYNEBOL, YN SEILIEDIG AR WYRTHIAU (adn. 23—25).

23. **Llawer a gredasant yn ei enw ef, wrth weled ei arwyddion a wnaethai efe.** Hyd yn hyn nid yw Ioan wedi cofnodi unrhyw arwydd yn Jerusalem, ond gwelir oddi wrth yr adnod hon fod nifer o arwyddion wedi eu cyflawni ganddo yno (cym. iii. 2).

Gallwn gasglu, medd Muirhead, na olyga "enw" yma ond ychydig mwy nag "enwogrwydd." "A gredasant . . . . wrth weled." "Awgrymir yma nad oedd ffydd y bobl ond ychydig yn fwy parhaol na golwg" (Godet). Nid yw'r ffydd sydd yn seiliedig ar arwyddion yn unig yn ddigon. Un peth yw rhoddi parch i un a wna'r fath weithredoedd; peth arall, a pheth mwy, yw profi'r gallu a'r cariad a amlygir ynddynt.

24. Yr un gair a gyfieithir "ymddiried" yn yr adn. hon ag a gyfieithir "credu" yn adn. 2.

Ond nid ymddiriedodd yr Iesu ei hun iddynt hwy. Nid oedd ganddo ffydd yn eu ffydd hwy." Y mae'r modd y cred llawer yng Nghrist yn peri na fedr Ef gredu ynddynt hwy" (Fosdick).

25. **Yr oedd efe yn gwybod beth oedd mewn dyn.** Y mae "gwybod" yn yr amser amherffaith, yn dynodi ystâd meddwl arferol. Er mai'r gair am wybodaeth a gyrhaeddir—"dyfod i wybod"—a ddefnyddir yma, credwn mai gwybodaeth ddwyfol a olygir. Geilw'r geiriau i'n cof yr adnabyddiaeth o gymeriadau unigol yn i. 42—47, ac arweiniant i fyny i'r ymddiddan â Nicodemus yn y bennod nesaf, a'r wraig o Samaria yn y bedwaredd bennod.

PENNOD III.

1 Ac yr oedd dyn o'r Phariseaid, a'i enw Nicodemus,
2 pennaeth yr Iuddewon: Hwn a ddaeth at yr Iesu liw nos, ac a ddywedodd wrtho, Rabbi, nyni a wyddom mai dysgawdwr ydwyt ti wedi dyfod oddi wrth Dduw: canys ni allai neb wneuthur y gwyrthiau hyn yr wyt
3 ti yn eu gwneuthur, oni bai fod Duw gyd âg ef. Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Oddi eithr geni dyn drachefn, ni ddichon
4 efe weled teyrnas Dduw. Nicodemus a ddywedodd wrtho, Pa fodd y dichon dyn ei eni, ac efe yn hen? a ddichon efe fyned i groth ei fam eilwaith, a'i eni?
5 Iesu a attebodd ac a ddywedodd, Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Oddi eithr geni dyn o ddwfr ac *o*'r Yspryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw.
6 Yr hyn a aned o'r cnawd, sydd gnawd; a'r hyn a
7 aned *o*'r Yspryd, sydd yspryd. Na ryfedda ddywedyd o honof fi wrthyt, Y mae yn rhaid eich geni chwi
8 drachefn. Y mae y gwynt yn chwythu lle y mynno; a thi a glywi ei swn ef, ond ni wyddost o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned: felly
9 mae pob un a'r aned o'r Yspryd. Nicodemus a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Pa fodd y dichon y
10 pethau hyn fod? Iesu a attebodd ac a ddywedodd A wyt ti yn ddysgawdwr yn Israel, ac ni wyddost y
11 pethau hyn? Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Mai yr hyn a wyddom yr ydym yn ei lefaru, a'r hyn a welsom yr ydym yn ei dystiolaethu; a'n tystiolaeth ni nid
12 ydych yn ei derbyn. Os dywedais i chwi bethau daearol, a chwithau nid ydych yn credu; pa fodd,
13 os dywedaf i chwi bethau nefol, y credwch? Ac ni esgynodd neb i'r nef, oddi eithr yr hwn a ddisgynodd o'r nef, *sef* Mab y dyn, yr hwn sydd yn y nef.

14 Ac megis y dyrchafodd Moses y sarph yn
y diffaethwch, felly y mae yn rhaid dyrchafu Mab y
15 dyn; Fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef,
16 ond caffael o hono fywyd tragwyddol. Canys felly
y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-
anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo
17 ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol. Oblegid
ni ddanfonodd Duw ei Fab i'r byd i ddamnio y byd,
18 ond fel yr achubid y byd trwyddo ef. Yr hwn sydd
yn credu ynddo ef, ni ddemnir: eithr yr hwn nid yw
yn credu, a ddamniwyd eisoes; o herwydd na chred-
19 odd yn enw unig-anedig Fab Duw. A hon yw y
ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd, a charu o
ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni; canys yr
20 oedd eu gweithredoedd hwy yn ddrwg. O herwydd
pob un a'r sydd yn gwneuthur drwg, sydd yn casâu y
goleuni, ac nid yw yn dyfod i'r goleuni, fel nad ar-
21 gyhoedder ei weithredoedd ef. Ond yr hwn sydd
yn gwneuthur gwirionedd, sydd yn dyfod i'r goleuni,
fel yr eglurhâer ei weithredoedd ef, mai yn Nuw y
gwnaed hwynt.

YR YMDDIDDAN A NICODEMUS (adn. 1—21)

Barna rhai mai enghraifft o'r hyn a ddywedir yn ii. 24 yw ymddygiad yr Iesu at Nicodemus; barna eraill mai eithriad i hynny ydyw. Pair y cyfeiriad at wyrthiau yn adn. 2 inni feddwl mai ymdrin â'r credu hanner-crediniol a geir yn ii. 23 y mae Ioan. Hefyd, dywedir **ac** yr oedd dyn—un o'r llawer yn ii. 23. A ymddiriedodd yr Iesu ei Hun i Nicodemus cyn diwedd yr ymddiddan? Y mae'r hanes yn enghraifft o'r hyn a ddywedir yn ii. 25.

1. **Nicodemus.** Ystyr yr enw Nicodemus yw "gorchfygwr y bobl." Ymddengys Nicodemus deirgwaith yn yr Efengyl hon—yma, vii. 45—52, a xix. 38—42, ond nid enwir ef gan unrhyw Efengylwr arall. Portreadir ei gymeriad yn ddeheuig a chlir. (Saif cymeriadau unigol Ioan yn fyw o'n blaen). Nodweddir ef gan awydd am wirionedd, ac ofn dyn. Geilw A. T. Robertson ef "yr ysgolhaig ofnus."

Phariseaid. Un o bleidiau crefyddol yr Iddewon. Yn niwedd y rhyfeloedd Macabeaidd y clywir gyntaf amdanynt fel plaid bendant. Ond ni ddaw golygiadau'a delfrydau sefydlog i fod yn sydyn; felly rhaid eu bod yn gweithredu cyn hynny. Ni cheir unfrydedd ynghylch ystyr yr enw, ond bernir gan y rhan fwyaf o ysgolheigion mai "rhai gwahanedig" yw ei ystyr.

i. Cadwent, yn ychwanegol at y gyfraith ysgrifenedig, y gyfraith lafaredig—traddodiadau eu dysgodron.

ii. Gwrthwynebent ddylanwadau tramor. Yn y ganrif olaf cyn Crist hwynt-hwy a gadwodd y genedl a'r grefydd Iddewig rhag llygredigaeth baganaidd. Cadwasant ffydd yn adferiad y mawredd cenedlaethol yn fyw. Ac felly hwy oedd y blaid boblogaidd, plaid y werin.

iii. Er eu beiau—cariad at ffurfiau ac ymddangosiad, a rhoddi pwys ar fân bethau—nodweddid llawer ohonynt gan dduwiolfrydedd dwfn. Nid enwir y Saduceaid yn yr Efengyl hon.

Pennaeth yr Iddewon. Aelod o'r Sanhedrin, y Cyngor Iddewig, cyfansoddedig o archoffeiriaid, henuriaid, a Phariseaid neu ysgrifenyddion neu gyfreithwyr. Y llywydd oedd yr archoffeiriad—Saducead y rhan amlaf, eithr nid yn ddieithriad.

2. **Hwn a ddaeth at yr Iesu liw nos.** Atgofir ni o hyn yn xix. 39. Yr oedd eisiau rhyw gymaint o ddewrder i wneud hyn, gan fod yr Iddewon yn swyddogol wrthwynebol i'r Iesu. Ond daeth at yr Iesu, i'w babell ar Fynydd yr Olewydd mae'n debyg. Daeth liw nos rhag ofn yr Iddewon (xix. 38), er y dichon ddyfod ohono liw nos i gael ymddiddan preifat. Daeth liw nos, ond daeth. A lliw nos oedd hi ar ei enaid pan ddaeth.

Rabbi. Gwêl ar i. 38.

Ni a wyddom mai dysgawdwr . . . . ef. Ni a wyddom. Noder y rhif lluosog, yn dynodi Nicodemus ac eraill o'i ddosbarth. Gwelant yn y gwyrthiau arwyddion o genhadaeth ddwyfol o leiaf—"dysgawdwr wyt ti wedi dyfod oddi wrth Dduw" — er na chredant mai'r Meseia yw'r Iesu.

3. Yn yr ymddiddan hwn yn unig—adn. 3 a 5—y ceir y term "teyrnas Dduw" yn Efengyl Ioan. Ceir "fy mrenhiniaeth (teyrnas) i" yn xviii. 36. Yn yr Efengyl hon defnyddir "bywyd tragwyddol" yn lle "teyrnas Dduw" neu "deyrnas nefoedd." Teyrnas Dduw yw teyrnasiad "sway," Duw. Etyb yr Iesu feddwl Nicodemus yn hytrach na'i eiriau—"Medri di, os medr rhywun, ddangos imi'r ffordd i deyrnas Dduw."

Cyfetyb Nicodemus i'r llywodraethwr ieuanc cyfoethog yn yr Efengylau eraill. Yn y ddau achos, y pwynt yw'r anhawster i fyned i mewn i'r deyrnas, a datgenir yr angenrheidrwydd am ailenedigaeth yn yr adnodau blaenorol i hanes y llywodraethwr cyfoethog. Yma defnyddir gair yr Efengylwyr eraill gan Ioan, ond yn hanes y llywodraethwr defnyddiant hwy ei air ef—"bywyd."

Drachefn. Gall y gair yn y gwreiddiol olygu "oddi uchod" neu "drachefn." Penderfynir yr ystyr gan y cyd-destun. "Oddi uchod" yw'r ystyr yn yr Efengyl hon yn iii. 31, xix. 11, 23. (Cym. Marc xv. 38, Iago i. 17, iii. 15, 17). Y mae'r cyd-destun yma yn ffafrio'r cyfeithiad "oddi uchod," ond y mae ateb Nicodemus yn ffafrio "drachefn." A gawn ni ddywedyd y golygai'r gair "drachefn" i Nicodemus, ac "oddi uchod" i'r Iesu, a'r Efengylwr hefyd? Ond beth bynnag yw ystyr y gair yr un yw'r meddwl. Natur ddwyfol yw'r natur newydd. Genedigaeth o Dduw ydyw. "O'r nef y daeth i lawr."

Ni ddichon efe weled. Gweled teyrnas Dduw yw cael rhan ynddi, profiad ohoni. Nid ydym i olygu bod cyferbyniad rhwng "gweled" teyrnas Dduw a "myned i mewn i deyrnas Dduw" (adn. 5). Gweled y deyrnas yw myned i mewn iddi. Defnyddir y gair a gyfieithir "gweled," i ddynodi profi—Heb. ii. 27 "gweled llygredigaeth," Luc ii. 26, Ioan viii. 51 "gweled marwolaeth," Dat. xviii. 7 "gweled galar."

Teyrnas ysbrydol yw teyrnas Dduw (nid o'r byd hwn), a rhaid wrth gyfnewidiad moesol a phersonol cyn y gellir myned i mewn iddi—genedigaeth oddi uchod. Ni fedrai gwerthfawrogiad o wyrthiau ddwyn dyn gam yn nes at ei deall. Rhaid cael cynneddf newydd o ganfyddiad ysbrydol cyn y gellir ei gweled. Dynoda "ni ddichon" anallu moesol. "Canys dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Dduw: canys ffolineb ydynt ganddo ef; ac ni all eu gwybod, oblegid yn ysbrydol y bernir hwynt" (1 Cor. ii. 14). Cyfetyb dysgeidiaeth yr adnod hon (3) i'r hyn a geir yn Marc x. 15; Mt. xviii. 3; Luc xviii. 17.

4. Camddeallodd Nicodemus natur yr ailenedigaeth y siaradai Crist amdani. Methwn â gwneud dim arall o'i gwestiynau. Ac at y camddealltwriaeth hwn y cyfeirir yr ateb a geir yn yr adnod nesaf.

5. **O ddwfr ac o'r Ysbryd.** Am ailenedigaeth foesol ac ysbrydol y llefarai'r Iesu, ac nid am enedigaeth o'r groth.

Golygwn mai'r Bedydd a olygir wrth "ddwfr." O ddwfr ac o'r ysbryd—cyfuniad o'r allanol a'r mewnol, y nacaol a'r cadarnhaol, yr arwyddluniol a'r ysbrydol.

Derbyn y bywyd newydd sydd yng Nghrist yw yr enedigaeth o'r Ysbryd, a chydymffurfio â'r arwydd arferol o gymdeithas ag Ef yw'r enedigaeth o ddwfr.

Cawn enghraifft yn yr ymddiddan hŵn o'r hyn a elwir yn "ffurf" yr ymddiddanion a'r anerchiadau a geir yn y rhan gyntaf o Efengyl Ioan: (a) Ceir dywediad dwfn ei ystyr o eiddo'r Iesu; (b) camddeellir y dywediad gan ei wrandawyr, mewn modd a ymddengys yn ffol; (c) Ail-edrydd yr Iesu'r dywediad mewn ffurf ychydig yn wahanol cyn yr esbonia ef. (Ceir nodiad ar yr elfen hon yn yr Efengyl yn y Rhagarweiniad).

6. Wrth y gair "cnawd" golygir y natur ddynol fel y cyfryw. Yn ysgrifeniadau Paul dynoda'r natur ddynol ar ei hochr bechadurus, "er na chynnwys ynddo ei hun y syniad o bechadurusrwydd" (Westcott).

Y rheswm paham y mae ailenedigaeth neu enedigaeth oddi uchod yn angenrheidiol yw na all y naturiol ddatblygu i'r ysbrydol, mwy nag y gall dwfr godi yn uwch na'i lefel. "Yr hyn a aned o'r cnawd sydd gnawd." Gellir ei ddiwygio a'i addurno, ond ni ellir ei newid. Cyferbynnir "ysbryd" a "chnawd" yn vi. 63—"Yr ysbryd yw yr hwn sydd yn bywhau; y cnawd nid yn yw llesáu dim." "Priodolir bywhau i ysbryd, tra na pherthyn hyn i gnawd, lle y mae bywyd tragwyddol yn y cwestiwn" (Bernard). Perthynant i ddau fyd gwahanol, i "orders" gwahanol o fod. Nid ychwanegiad, a dim ond hynny, at fywyd yn bod eisoes yw bywyd ysbrydol, ond bywyd hanfodol newydd. Nid yw unrhyw ofal am ymddygiad yn ddigon; rhaid cael bywyd newydd. Ni fedr "swing" natur ddwyn dyn i deyrnas Dduw. Dwg genedigaeth naturiol ni i un byd; dwg genedigaeth o'r Ysbryd ni i fyd arall, byd na wŷr "cnawd" ddim amdano.

Peth anodd i'w gredu a'i sylweddoli yw mai cnawd yw yr hyn a aned o'r cnawd.

7. **Y mae yn rhaid eich geni chwi drachefn.** Y mae'r gair "chwi" yn bwysleisiol—chwi'r bobl etholedig, chwi'r Phariseaid, chwi'r penaethiaid, cynrychiolwyr blaenaf y grefydd Iddewig. Gwelwn yma nad drwy unrhyw deilyngdod personol y ceir mynediad i mewn i'r deyrnas, ac yn hanes y wraig o Samaria nad yw unrhyw annheilyngdod personol yn cau neb allan. "A minnau'n gweiddi, Gras i gyd."

8. **Y gwynt.** Yr un gair yn yr iaith Roeg ag am ysbryd. Ceir cyfieithiadau eraill o'r rhan gyntaf o'r adnod hon: (a) Y mae'r Ysbryd yn anadlu lle y mynno, a thi a glywi ei lais ef. (b) Y mae'r gwynt yn chwythu lle y mynno, a thi a glywi ei lais ef. Ond yn ein barn ni ni rydd "y mae'r Ysbryd" gystal ystyr â "y mae'r gwynt," canys dengys yr ail ran o'r adnod fod yma gymhariaeth,—"felly y mae pob un ar a aned o'r Ysbryd."

Elfen rydd, anweledig, a dirgel yn ei gweithrediad yw'r gwynt. Chwythai, o bosibl, ar y babell ar Fynydd yr Olewydd yn ystod yr ymddiddan mawr hwn, a chlywid ei sŵn, ond ni wyddai Nicodemus o ba le yr oedd yn dyfod, nac i ba le yr oedd yn myned. Gwyddom ni fwy

am ffyrdd y gwynt nag a wyddid pan ddaeth y llywodraethwr Iddewig hwn at yr Iesu liw nos. Eithr y mae dirgelwch ynddo o hyd, er bod gennym ni ein "weather-charts" a'n "fore-casts." I fesur mawr, elfen anghyfrifol (incalculable) ydyw hyd yn oed i wyddonwyr ein dyddiau ni. Ond er na ddeallwn ef, nid amheuwn ei fodolaeth na'i weithrediad—tyner weithiau, ac weithiau grymus. Ni welir ef, ond gwelir a theimlir ei effeithiau. Y mae yn anesboniadwy, ond y mae yn bod. Er ei ddirgelwch, y mae'r gwynt yn reality.

Felly y mae pob un a'r a aned o'r Ysbryd. Fel y gwynt y mae'r gallu a weithreda yn y geni "drachefn" neu "oddi uchod" yn anolrheiniadwy. Ond gwelir ef yn ei effeithiau. Y mae yn anfesurol, anghyfrifol, anweledig, ond y mae yn "real." Gweithreda yn ôl ei ddeddfau ei hun, ac nid yw yn gyfrifol i neb na dim ond iddo'i hun. "Ni wyddom beth a wna nesaf." Gallu rhydd a dirgel yw, ond adwaenir ef wrth ei waith.

9. **Pa fodd y gall y pethau hyn fod?** Gwêl Nicodemus yn awr mai at beth goruwchnaturiol y cyfeiria'r Iesu.

Y pethau hyn. Y cyferbyniad rhwng "cnawd" ac "ysbryd," a gallu creadigol a rhydd yr Ysbryd. "Gwrthwyneba 'paham' a 'pha fodd' ffydd yn barhaus" (Bengel).

10. **A wyt ti yn ddysgawdwr yn Israel, ac ni wyddost y pethau hyn?** Yn gywir, y dysgawdr, yr Israel. Dysgawdr, ac ni wyddost. "Expert" anwybodus — nid peth anghyffredin. Dyma ddysgawdr na wyddai mo'i lyfr. Dylasai wybod y pethau hyn, canys siaredir amdanynt gan Jeremia (xxxi. 33) ac Ezekiel (xxxvi. 26—28). Eithr hyd yn hyn ni wyddai hwynt.

11. **Yn wir, yn wir.** Gwêl ar i. 51. Sylwer ar y rhif lluosog yn yr adnod hon. Gwahaniaetha esbonwyr yn eu barn am y rheswm amdano. (a) Y mae yn bosibl mai'r lluosog areithyddol a geir yma. (b) Crist a'r Bedyddiwr. (c) Tri pherson y Drindod—barn rhai o'r hen esbonwyr. (d) Crist a'r Ysbryd (Bengel). (e) Yr Eglwys. Rhagdybia hyn mai'r Efengylwr ei hun sydd yn gyfrifol amdano. (f) Crist a'i ddisgyblion. Er na chysylltir tystiolaeth Crist a thystiolaeth ei ddisgyblion yn un man arall, credwn mai hwn yw'r golygiad cywir.

A'n tystiolaeth ni nid ydych yn ei derbyn. Yma ceir y nodyn "tragic" a geir yn fynych yn yr Efengyl hon. (Cym. i. 11, v. 43, xii. 37).

12. **Pethau daearol a phethau nefol.** Sylwa Bernard yr ymddengys y cyferbyniad rhwng pethau nefol a phethau daearol eto. 1 Cor. xv. 40, 2 Cor. v. 1, Phil. ii. 10, iii. 19, Iago iii. 15; ac yn y mannau hyn yn unig yn y Beibl Groeg y ceir y gair a gyfieithir "daearol" yma.

Pethau daearol: Teyrnas Dduw ar y ddaear, ac felly yr angen am edifeirwch ac ailenedigaeth—pethau anodd i Nicodemus i'w deall a'u derbyn. Pethau mawr, ond ar y ddaear, yn gorwedd o fewn cylch profiad dynol.

Teimlwn nad oes grym yn y ddadl mai peth oddi uchod yw'r geni drachefn.

Pethau nefol: Pethau uwchlaw'r ddaear—"y llawer o drigfannau" yn nhŷ y Tad, dirgelion dwfn y natur ddwyfol (cym. penodau xiv.—xvi). Pe buasai Nicodemus yn bresennol yn yr oruwchystafell teimlasai rym y cwestiwn hwn.

"Oni wyddoch chwi y ddameg hon? A pha fodd y gwybyddwch yr holl ddamhegion?"

13. Pwy a fedr ddywedyd "pethau nefol"? Ni fedr dyn wneuthur hynny, am nad esgynnodd neb i'r nef i ddysgu dirgelion nefol. Ond bu Mab y dyn yn y nef, a disgynnodd oddi yno—yn yr Ymgnawdoliad. Am hynny, medr Ef ddywedyd pethau nefol.

Nid yw'n debyg fod yma gyfeiriad uniongyrchol at yr Esgyniad.

Yr hwn sydd yn y nef. Y mae'r frawddeg hon yn eisiau yn y Llawysgrifau gorau, "ac nid ychwanega ddim at yr ymresymiad, yr hwn sydd yn gyflawn ynddo'i hun, a diweddu o'r adnod gyda 'Mab y dyn.' Os mabwysiadwn hi fel rhan o'r testun, rhaid ei hesbonio fel cyfeiriad at fodolaeth dragwyddol y Mab yn y nefolion leoedd, tra yr oedd hefyd yn amlygedig ar y ddaear" (Bernard).

Cred rhai mai sylw o eiddo'r Efengylwr yw—"yr hwn yn awr sydd wedi dychwelyd i'r nef ac sydd yno."

Ceir esboniad arall o'r adnod hon: Disgynnodd Mab y dyn o'r nef, eithr yr oedd mewn cymundeb cyfriniol â'r nef o hyd—esgynnodd i'r nef.

14. Esboniad newydd ar hen hanes—Num. xxi. 8, 9, "A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Gwna i ti sarff danllyd, a gosod hi ar drostan; a phawb a frather, ac a edrycho ar honno, fydd byw. A gwnaeth Moses sarff bres, ac a'i gosododd ar drostan: yna os brathai sarff ŵr, ac edrych ohono ef ar y sarff bres, byw fyddai."

Felly y mae yn rhaid dyrchafu Mab y dyn. Proffwydoliaeth am farwolaeth Crist yw'r geiriau hyn. Y ffaith a'r modd hefyd. Rhagfynegir yn yr Efengylau eraill y lleddid Ef (Marc viii. 31, ix. 31, Luc xviii. 33); ond yn Mt. xx. 19 yn unig y rhagfynegir marwolaeth trwy groeshoeliad. (Dywedodd "dau ŵr mewn gwisg ddisglair" wrth y gwragedd oedd wrth y bedd, "Cofiwch pa fodd y dywedodd efe wrthych, ac efe eto yn Galilea, gan ddywedyd, Rhaid yw rhoi Mab y dyn yn nwylaw dynion pechadurus, a'i groeshoelio, a'r trydydd dydd atgyfodi." "A hwy a gofiasant ei eiriau ef"—Luc xxiv. 6—8). Ond y mae rhagfynegiad o'r croeshoeliad yn y gair "dyrchafu" (cym.

xviii. 28, xii. 32). Bu Nicodemus fyw i weled cyflawni y broffwydoliaeth. Golygwn nad oes cyfeiriad yma at yr Esgyniad. I ddyrchafiad y sarff bres y cyffelybir dyrchafiad Crist. "Ar y groes dyrchafwyd Iesu, fel y sarff ar drostan hir." Dyrchafiad Mesiannaidd gogoneddus a ddisgwylid.

Rhaid dyrchafu Mab y dyn. Ceir y rheidrwydd hwn mewn mannau eraill yn yr Efengyl hon (ix. 4, x. 16, xii.34).

Ynglŷn ag esbonio cysgodau a damhegion y peth diogelaf yw cadw at y prif elfennau. Credwn mai'r elfennau a ganlyn yw'r prif rai yn y gymhariaeth a ddefnyddir yma (mynegir hwynt yn adn. 14 a 15):—

(a) Dyrchafwyd y sarff bres. Dyrchafwyd yr Iesu.

(b) Caed bywyd drwy edrych ar y sarff bres. Ceir bywyd drwy gredu yng Nghrist. "Y mae bywyd drwy edrych ar aberth y groes." "Dug edrychiad bechod i'r byd; dwg edrychiad ef ymaith" (Reith).

Ni allwn beidio ag ychwanegu hyn: Yr oedd y sarff bres yn **weledig** i bawb. Y mae Crist ar y groes yn weledig i gyrrau pella'r byd.

15. **Ynddo.** Mewn rhai Llawysgrifau ceir adroddiad gwahanol. Yn ôl hynny, dylid darllen, "Fel na choller pwy bynnag a gredo, ond caffael ohono Ef fywyd tragwyddol."

Fel: yn dynodi pwrpas y rheidrwydd dwyfol—bywyd tragwyddol i bwy bynnag a gredo ynddo Ef.

Bywyd tragwyddol. Un o'r ymadroddion a hoffir gan Ioan. Ceir ef 17 o weithiau yn yr Efengyl a 6 o weithiau yn 1 Ioan. Ni chymhwysir y gair "tragwyddol" at ddim ond bywyd gan Ioan. Nid parhad y bywyd a ddynoda'r ymadrodd, ond ei ansawdd. Syniad ansoddol (qualitative) ac nid mesurol (quantitative) yw "tragwyddol." Cyfeiria at natur y bywyd. Bywyd Duw ydyw (v. 26), a bywyd Crist (i. 4), bywyd yn perthyn i'r "eternal order," yn y nef neu ar y llawr. Nid bywyd diddiwedd, ar wahân i'w ansawdd. "Ni ddeuai bywyd fel bywyd y gŵr goludog (yn y ddameg) fodfedd yn nes i'r bywyd tragwyddol, hyd yn oed pe dilledid ef â lliain main, ac y caffai fyd da yn helaethwych i oesoedd diddiwedd" (Law).

Ni olyga hyn na chymhwysir y syniad o dragwyddol barhad. Ond parha'r bywyd yn dragywydd am mai'r bywyd dwyfol ydyw. Rhan o Dduw ydyw, ac felly mae yn anniflanedig. Pery byth am ei fod uwchlaw amser. Ond nid ei ddyfodol, ond y meddiant presennol ohono, a bwysleisir gan Ioan.

16. **Canys felly y carodd Duw y byd.** Crynodeb o'r "Efengyl" yn ôl Ioan. Y byd: dynolryw (gwêl nodiad ar i. 9). Pwysleisir cyffredinolrwydd Cristionogaeth yn yr Efengyl hon.

Fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab. Nid "anfonodd," ond cryfach, "rhoddodd,"—"i fyny" i farwolaeth. Cym. Rhuf. viii. 32, "Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd ef trosom ni oll." Atgofia'r geiriau hyn ni o Gen. xxii. 2.

Dynoda'r "unig-anedig Fab" fawredd y cariad dwyfol. Rhoddi mawr, a rhoddi'r cwbl. Yn y rhodd hon rhoddir holl feddiannau cariad Duw. Nid oes gan Dduw ddim rhagor i'w roddi, ac nid oes arnom ninnau eisiau rhagor. Cynhwysir pob rodd yn y rhodd hon.

Sylwa Reith y ceir y gwirioneddau a ganlyn yn yr adnod hon:—

i. Yr angen am iechydwriaeth—byd colledig, yn analluog i'w achub ei hun.

ii. Ffynhonnell iechydwriaeth—cariad Duw. Rhagflaena cariad Duw bob symudiad yn enaid dyn ato Ef. "Yr ydym ni yn ei garu ef am iddo ef yn gyntaf ein caru ni." Paham y carodd Duw ni? Yr ateb yw, "Duw, cariad yw." Pan ddywedwn na wyddom paham y meddyliodd Duw amdanom dangoswn ein bod yn dechrau deall y pwnc.

iii. Moddion iechydwriaeth—rhoddi'r unig-anedig Fab.

iv. Natur yr iechydwriaeth ddwyfol—bywyd tragwyddol.

v. Y derbyniad personol o'r rhodd—pwy bynnag a gredo ynddo Ef

Dyma fôr "heb waelod, terfyn byth na glan."

17. **I ddamnio'r byd.** I farnu'r byd.

Danfonodd. Deillia'r gair a gyfeithir "danfonodd" o'r un gwreiddair â'r gair "apostol." Yn yr adnod hon, fel yn yr un flaenorol, y mae pwrpas Duw yn gyfeiriedig at y byd, nid Iddewon yn unig, neu genhedloedd neu bersonau unigol etholedig. Gall dyn rwystro pwrpas Duw; er hynny, y pwrpas hwnnw yw achubiaeth y byd. Y mae Crist yn Iachawdwr y byd (iv. 42). Y syniad Iddewig oedd mai fel barnwr y deuai'r Meseia.

Mewn amryw fannau yn yr Efengyl hon, hawlia Crist yr awdurdod i wneuthur barn (v. 22, 27, ix. 39, xii. 31). Pa fodd y gellir cysoni hynny â'r adnod hon? Yr ateb yw nad pwrpas dyfodiad Crist yw barnu, ond ei ganlyniad anocheladwy. Ni ddaeth i'r byd i farnu, "mwy nag y daw'r haul i daflu cysgod, ond fel y cysgod y mae barn yn ganlyniad naturiol cyfansoddiad ac amgylchiadau'r byd" (Holtzmann). Gorfydd ymddangosiad Crist ddynion i basio barn arnynt eu hunain; ond y gwaith y danfonwyd Ef i'w wneuthur yw achub y byd. Gwrthodir Ef gan ddynion, ond nid yw hynny yn rhan o ewyllys y Tad, a phan wrthodant Ef, pasiant farn arnynt eu hunain.

18. Saif y sawl nid yw yn credu ynddo Ef yn gondemniedig—"a farnwyd eisoes," drwy ei anghrediniaeth, ac ni wna'r Farn Olaf ddim ond cadarnháu a selio hon. "Process" sydd yn myned ymlaen yn

awr yw'r farn. Yr ydym "wrth y fainc" yn barhaus. Dechrau'r gwahaniaeth anocheladwy rhwng dyn a dyn yn y bywyd presennol. Megis y mae'r sawl a ddibrisia weithiau Shakespeare neu Beethoven yn condemnio, nid y campweithiau hynny, ond ei hunan, felly y mae'r hwn "na chredodd yn enw unig-anedig Fab Duw" yn hunan-gondemniedig.

19. **A hon yw'r ddamnedigaeth.** Y farnedigaeth. Hon yw'r farnedigaeth: yn hyn y cynhwysir hi. Nid dedfryd barn a olygir, ond y ffordd y dygir barn oddi amgylch drwyddi—y "process." Nid peth mympwyol ydyw ond gweithrediad allan ddeddf foesol. Drwy ymddygiad dynion at y goleuni y sicrheir barn. Y goleuni (Crist) yw maen-praw cymeriad.

Dyfod goleuni i'r byd. Dyfodiad goleuni oedd dyfodiad Crist (i. 4, 5, 9). Ef yw goleuni'r byd (viii. 12).

A charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni. Y nodyn "tragic" eto. Daeth goleuni i'r byd, a rhydd hyn achlysur i ddynion amlygu yr hyn sydd ynddynt i'w gosod eu hunain ar y naill ochr neu'r llall.

Daeth "goleuni gwybodaeth gogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist" i'r byd, ond carodd dynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni, a gwnant hynny o hyd. Gwelwyd y gorau, ond gwrthodwyd ef, a gwneir hynny o hyd. Paham y câr dynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni? Am fod eu gweithredoedd hwy yn ddrwg.

20. Ac y mae yn ddeddf gyffredinol fod yr hwn sydd yn gwneuthur drwg yn casáu'r goleuni, ac nid yw yn dyfod i'r goleuni, fel nad argyhoedder ei weithredoedd ef—fel na phrofer hwynt yr hyn ydynt mewn gwirionedd—yn ddrwg. Casâ'r goleuni am yr amlyga ei wir gymeriad. A defnyddio un o eiriau ein dyddiau ni, dyna *psychology* casineb dynion at Oleuni'r byd.

21. Yma, ceir yr ochr arall i'r mater. **Gwneuthur gwirionedd** (cym. 1 Ioan i. 6); nid peth i'r deall yn unig yw gwirionedd, ond peth i'r ewyllys hefyd. Rhaid inni ymddwyn yn onest at y goleuni sydd gennym—bod yn "real."

Sydd yn dyfod i'r goleuni. Yn dyfod—yn araf yn aml, ond yn sicr. **Yn Nuw.** Ymadrodd i'w nodi. Yr ymadrodd nesaf iddo yw "yn yr Arglwydd." Nid ofna'r dyn cywir—y dyn a groesawa'r goleuni, ac a ŵyr ei fod yn ffyddlon iddo—i'w weithredoedd gael eu hegluro. Y mae yn ymwybodol eu bod yn gydweddol â'r goleuni. Pan lewyrcha goleuni ar wirionedd, ni wna ddim ond ei ddwyn i eglurder. Ceir gweddi y dyn cyfiawn, y dyn nid ofna ymchwiliad i'w fywyd, yn Salm cxxxix. 23, 24.

Yn yr adnodau hyn, 18—21, olrheinir dallineb meddwl i lygredd calon—"gwneuthur drwg," a goleuni i "reality" moesol ac ysbrydol

—"gwneuthur gwirionedd." O'n bywyd y daw ein diwinyddiaeth. Cyfyd anghrediniaeth o achosion moesol. Soniwn am ein "hanawsterau meddyliol." Ond ai nid ofn iau Crist, gofynion Crist, yw achos y rhan fwyaf ohonynt? Rhaid ewyllysio gwneuthur y gwirioneddd cyn y gellir ei ddeall. "Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys ef, efe a gaiff wybod y gwirionedd." "The key to a great faith is a pure heart: a great creed and a stained life cannot go together."

22 Wedi y pethau hyn, daeth yr Iesu a'i ddisgyblion i
wlad Judea; ac a arhosodd yno gyd â hwynt, ac a fed-
23 yddiodd. Ac yr oedd Ioan hefyd yn bedyddio yn
Ainon, yn agos i Salim; canys dyfroedd lawer oedd
24 yno: a hwy a ddaethant, ac a'u bedyddiwyd; Canys
25 ni fwriasid Ioan etto y'ngharchar. Yna y bu ym-
ofyn rhwng *rhai* o ddisgyblion Ioan a'r Iuddewon,
26 ynghylch puredigaeth. A hwy a ddaethant at Ioan,
ac a ddywedasant wrtho, Rabbi, yr hwn oedd gyd â
thi y tu hwnt i'r Iorddonen, am yr hwn y tystiolaeth-
aist ti, wele, y mae hwnnw yn bedyddio, a phawb yn
27 dyfod atto ef. Ioan a attebodd ac a ddywedodd, Ni
ddichon dyn dderbyn dim, oni bydd wedi ei roddi iddo
28 o'r nef. Chwychwi eich hunain ydych dystion i mi,
ddywedyd o honof fi, Nid myfi yw y Crist, eithr fy
29 mod wedi fy anfon o'i flaen ef. Yr hwn sydd ganddo
y briod-ferch, yw y priod-fab: ond cyfaill y
priod-fab yr hwn sydd yn sefyll ac yn ei
glywed ef, sydd yn llawenychu yn ddirfawr
oblegid llef y priod-fab: y llawenydd hwn mau fi gan
30 hynny a gyflawnwyd. Rhaid ydyw iddo ef gynyddu,
31 ac i minnau leihâu. Yr hwn a ddaeth oddi uchod,
sydd goruwch pawb oll: yr hwn sydd o'r ddaear,
sydd o'r ddaear, ac am y ddaear y mae yn llefaru: yr
32 hwn sydd yn dyfod o'r nef, sydd goruwch pawb. A'r
hyn a welodd efe ac a glywodd, hynny y mae efe yn ei
dystiolaethu: ond nid oes neb yn derbyn ei dystiol-

33 aeth ef. Yr hwn a dderbyniodd ei dystiolaeth ef a
34 seliodd mai geirwir yw Duw. Canys yr hwn a anfonodd Duw, sydd yn llefaru geiriau Duw; oblegid nid wrth fesur y mae Duw yn rhoddi *iddo ef* yr
35 Ysbryd. Y mae y Tad yn caru y Mab, ac efe a rodd-
36 odd bob peth yn ei law ef. Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragwyddol: a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd: eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef.

YMOFYN YNGHYLCH PUREDIGAETH, AC AIL DYSTIOLAETH IOAN (adn. 22—36).

22. **Wedi y pethau hyn.** Ymadrodd na ddynoda gysylltiad amseryddol agos. Wedi gweinidogaeth yr Iesu yn Jerusalem ar Wyl y Pasg a'r ymddiddan â Nicodemus.

I wlad Judea. Yma'n unig yn y T.N. y ceir yr ymadrodd disgrifiadol hwn. Nid oes eisiau golygu iddynt ddyfod o ryw le y tu allan i Judea: daethant o'r brifddinas i'r wlad.

Ac a arhosodd yno gyda hwynt, ac a fedyddiodd. "Yr oedd yn aros yno, ac yn bedyddio." Dyma'r unig fan yn y T.N. y priodolir bedyddio i'r Iesu. (Gwêl ar iv. 1, 2). Nid bedydd Cristionogol eto —bedydd yn enw'r Drindod (Mt. xxviii. 19)—ond parhad o fedydd Ioan.

23. **Ac yr oedd Ioan hefyd yn bedyddio.** Nid fel gwrthymgeisydd i'r Meseia, ond fel rhagredegydd iddo o hyd. Oherwydd y credai nad oedd ar ben, gaeth Ioan ymlaen â'i waith. Bedyddiodd yr Iesu ac Ioan ochr yn ochr am dymor. Oblegid nad oedd y genedl yn barod i'w dderbyn ymdaflodd yr Iesu, ynghyda'i ddisgyblion, i'r gwaith o baratoi yng ngwlad Judea, "a daeth mewn ffordd yn rhagredegydd iddo'i Hun" (Godet).

Ainon, yn agos i Salim. Ainon—"ffynhonnau"; Salim—"heddwch." Ni ellir penderfynu safle'r lleoedd gyda sicrwydd. Y mae yna Salim i'r dwyrain o Shechem, ac 'Ainun i'r gogledd-ddwyrain, a'r farn gyffredin yw mai dyna Ainon yr adnod hon. Rhydd Bernard resymau yn erbyn y golygiad hwn, ond gan nad yw'r mater yn bwysig, ni roddwn hwynt. Bodlonwn ar ddywedyd bod hen draddodiad mai lle a saif oddeutu 7 milltir i'r de o Beisan, yn nyffryn Iorddonen, yw Ainon, ac y bernir gan esbonwyr fod y traddodiad yn gywir. Ceir yno saith ffynnon.

24. Dynoda'r adnod hon yr amser y digwyddodd hyn, a symud ymaith ganddealltwriaeth posibl o Marc i. 14. Digwyddodd y cyfan a gofnodwyd hyd yn hyn yn yr Efengyl hon cyn y weinidogaeth fawr y rhoddir ei hanes ym Marc i. 14—vi. 6. Ni chofnodir y weinidogaeth hon o eiddo'r Iesu yn Judea yn yr Efengylau eraill. Ynddynt hwy, dechrau gweinidogaeth Crist ar ôl carchariad Ioan Fedyddiwr. Cymer Ioan yn ganiataol y gwyddai ei ddarllenwyr am garchariad a merthyrdod Ioan.

25. **Yna y bu ymofyn rhwng rhai o ddisgyblion Ioan a'r Iddewon.** Yn y gwreiddiol, golyga'r frawddeg mai disgyblion Ioan a ddechreuodd yr ymofyn hwn.

Ynghylch puredigaeth. Ynghylch y ddau fedydd, sef bedydd Ioan a bedydd yr Iesu. Yr oedd yn naturiol i eiddigedd gael ei ennyn, ac i'r ddau fedydd fod yn destun dadl. Cyfeiriasai Ioan at un llawer mwy nag ef ei hun. Gweinidogaeth ragbaratoawl oedd ei weinidogaeth ef. Paham, gan hynny, yr oedd gweinidogaeth yr Iesu yn allanol yn debyg i weinidogaeth Ioan, ac yn tynnu, drwy hynny, ddisgyblion oddi wrth eu Meistr eu hun?

26. Dangosir eiddigedd, chwerwder a siom yn yr adnod hon. Yr oedd yr Hwn oedd yn ddyledus i Ioan am ei le yn cystadlu ag ef, ac yn fwy llwyddiannus nag ef—"a phawb sydd yn dyfod ato Ef."

27. Dengys ateb Ioan ei fawrfrydigrwydd, mewn cyferbyniad i gulni ei ddisgyblion. Nid yw yn beth anghyffredin i ddisgyblion gamddeall cenadwri eu meistr, a dangos mwy o sêl na gwybodaeth.

Ni ddichon dyn dderbyn dim, oni bydd wedi ei roddi iddo o'r nef. Egwyddor fawr ym mywyd dynion. O Dduw y daw llwyddiant mewn gwaith ysbrydol. I ewyllys Duw yr oedd llwyddiant yr Iesu i'w briodoli. Arwydd o ffafr Duw ydoedd. Y mae ei le i bob un yn y drefn ddwyfol. "Canys nid o'r dwyrain, nac o'r gorllewin, nac o'r dehau, y daw goruchafiaeth. Ond Duw sydd yn barnu: ac efe a ostwng y naill, ac a gyfyd y llall" (Salm lxxv. 6, 7). "Pwy sydd yn gwneuthur rhagor rhyngot ti ac arall? a pha beth sydd gennyt ti a'r nas derbyniaist? ac os derbyniaist, paham yr wyt ti yn gorfoleddu, megis pe bait heb dderbyn?" (1 Cor. iv. 7).

28. Yma, atgofia Ioan ei ddisgyblion o'i dystiolaeth ei hun. Y mae'r cyfeiriad at i. 19—28, yn arbennig adn. 20 a 23.

29. Defnyddir yr arwyddlun a geir yma yn aml yn yr Ysgrythur; yn yr Hen Destament am y berthynas rhwng Duw a'i bobl etholedig—Esa. liv. 5; Hosea ii. 19, 20; ac yn y Testament Newydd am y berthynas rhwng Crist a'r Eglwys—2 Cor. xi. 2; Eph. v. 32; Dat. xix. 7, xxi. 29. Cym. Marc ii. 19, 20.

Yma'n unig yn yr Efengyl hon y portreadir Crist fel priodfab yr Eglwys. Y mae'r gymhariaeth a ddefnyddir yma yn neilltuol o gymwys er dangos y berthynas rhwng Crist ac Ioan.

Cyfaill y priodfab. Gwaith cyfaill y priodfab oedd gwneuthur y trefniadau rhagbaratoawl ynglŷn â'r briodas, a gweithredu fel llywydd ynddi—yn cyfateb i waith ein "gwas-priodas" ni, ond ei fod yn fwy helaeth.

Llawenycha y priodfab yn ddirfawr oblegid llef y priodfab. A dyna lawenydd Ioan. Cyflawnwyd ei lawenydd ac arhosai yn gyflawn. Arwydd o'i lwyddiant oedd dyfodiad y bobl at y priodfab, sef Crist. Ei swyddogaeth ef oedd trefnu'r briodas. Y priodfab yw'r hwn y mae'r briodasferch ganddo. A chan yr Iesu yr oedd y briodasferch yn yr achos hwn. Teimlai disgyblion Ioan yn eiddigeddus pan welsant hi yn ei adael ac yn dewis yr Iesu, ond llawenychai Ioan, canys gwelai yn y briodas hon orffeniad ei waith. Gwyddai ef ei le a'i swyddogaeth, ac ni wnaeth ddim i geisio dwyn serch y briodasferch oddiar y priodfab er pan welodd Ef. I'r gwrthwyneb, galwodd ei sylw at ragoriaethau a swyn anghymharol y Priodfab, a gwnaeth ei orau i'w gwneuthur yn deilwng ohono. Llawenychodd yn y garwriaeth, a llawenychodd yn ddirfawr ddydd y briodas, pan gafodd y Priodfab y briodasferch. Hwn yw llawenydd pennaf y 'cyfaill' bob amser. Ynglŷn â "llef y priodfab," cym. Jer. vii. 34, xvi. 9, Dat xviii. 23.

30. Y mae gwaith yr "herald" drosodd, canys daeth yr Hwn a gyhoeddwyd ganddo.

Rhaid: yn dynodi trefniad dwyfol. Rhaid oedd i Ioan ymneilltuo pan oedd pawb yn dyfod at yr Iesu (adn. 26). "Rhaid yw iddo ef gynyddu, ac i minnau leihau." "Ymhlith plant gwragedd, ni chododd neb mwy nag Ioan Fedyddiwr; er hynny yr hwn sydd leiaf yn nheyrnas nefoedd sydd fwy nag ef" (Mt. xi. 11).

At y gorllewin yr oedd wyneb Ioan, ond symudai haul Crist at yr "anterth" tragwyddol. Diffydd goleuni seren y bore o flaen dyfodiad yr haul.

"Gyda chân fel cân alarch cyflawna Ioan ei dystiolaeth cyn diflannu ohono allan o hanes" (Meyer).

31—36. Cred llawer o esbonwyr nad tystiolaeth Ioan yw'r hyn a roddir yn adn. 31—36, ond bod yr Efengylwr wedi ychwanegu syniadau o'i eiddo'i hun, neu wedi ail-lunio syniadau Ioan. Y prif resymau a roddir o blaid y golygiad hwn yw: (a) Ceir ymadroddion nodweddiadol o'r Efengylwr yn y paragraff. (b) Nid yw'r hyn a ddywedir yn adn. 32—"ond nid oes neb yn derbyn ei dystiolaeth ef"—yn gyson â'r hyn a ddywedir yn adn. 26—"a phawb sydd yn dyfod ato ef." Ond byddai yn ddisgrifiad priodol o bethau fel yr oeddynt

yn ystod blynyddoedd olaf bywyd yr Apostol Ioan. (c) Dengys y gosodiadau athrawiaethol wybodaeth aeddfetach a llawnach nag a feddiennid gan y Bedyddiwr. Eithr y maent yn gydweddol â diwinyddiaeth yr Apostol.

Ceir y golygiad fod dadleoliadau (drwy ddadleoliad damweiniol o'r tudalennau, neu drwy waith golygwyr) o'r testun gwreiddiol mewn amryw fannau yn Efengyl Ioan, a bod enghraifft o hynny yn y rhan hon. Dywaid rhai y dylid gosod adn. 31—36 yn union ar ôl adn. 21, ac adn. 22—30 ar ôl adn. 36. Dywaid eraill mai rhwng adn. 12 a 13 o'r ail bennod y dylid gosod adn. 22—30 o'r bennod hon. (Gwêl Rhagarweiniad).

31. **Yr hwn a ddaeth oddi uchod.** Yr un gair a gyfieithir "oddi uchod" yma ag a gyfieithir "drachefn" yn adn. 3 a 7. Cym. viii. 23, "minnau sydd oddi uchod." (Eithr gair gwahanol a gyfieithir "oddi uchod" yno).

Goruwch pawb oll. Cym. Act. x. 36; Rhuf. ix. 5.

Yr hwn sydd o'r ddaear, sydd o'r ddaear, ac am y ddaear y mae yn llefaru. Yn 1 Ioan iv. 5 dywedir, "Hwynt-hwy o'r byd y maent: am hynny y llefarant am y byd, a'r byd a wrendy arnynt." Y gwahaniaeth rhwng "o'r ddaear" ac "o'r byd" yw hyn: Cyfeirir at wrthwynebiad moesol y byd i Dduw yn "o'r byd," eithr ni wneir hynny yn "o'r ddaear" — golyga yn unig y "ddaear." Am y ddaear y llefara'r hwn sydd o'r ddaear, neu, "o'r ddaear y llefara." O ffynhonnell ddaearol y tardd ei wybodaeth, o'r ddaear y caiff ei syniadau a'i brofiad. Y ddaear yw'r gwraidd, am hynny daearol yw'r ffrwyth. Ni ddaw geiriau yr hwn sydd o'r ddaear gyda mwy o awdurdod nag a roddir iddynt gan ffynhonnell ddaearol.

Daeth Crist oddi uchod, o'r nef, a llefara gydag awdurdod sydd goruwch pawb oll. Llefara "awdurdodol eiriau'r nef."

32. **A'r hyn a welodd efe, ac a glywodd, hynny y mae efe yn ei dystiolaethu.** Nid gwybodaeth ail-law yw gwybodaeth Crist; llefara am bethau a welodd ac a glywodd. Dysg yr Efengyl hon mai'r pethau a glywodd gan y Tad a lefarodd yr Iesu (viii. 40, xv. 15). Rhydd Ioan le mawr i dystiolaeth.

Ond nid oes neb yn derbyn ei dystiolaeth ef. Y nodyn "tragic" eto.

33. Eithr nid oedd y gwrthodiad yn gyffredinol—derbyniwyd y dystiolaeth gan rai.

A seliodd mai geirwir yw Duw. Cynrychiola Crist Dduw. Am hynny, seliodd yr hwn a dderbyniodd ei dystiolaeth Ef am bethau dwyfol fod y datguddiad o Dduw a roddir ynddo Ef yn wir. Ym-

ddiriedir yn Nuw pan ymddiriedir yn yr Iesu. Llefaru yr hyn a glywodd gan Dduw a wna Crist, a phan dderbyniwn ei dystiolaeth Ef, seliwn mai geirwir yw Duw. Datguddiad o Dduw yw tystiolaeth Crist. Rhydd yr hwn a gred yng Nghrist ei sêl wrth y "document" dwyfol. Drwy dderbyn tystiolaeth Crist ceir profiad a selia mai geirwir yw Duw. Drwy gredu yng Nghrist, ceir profiad sydd yn sêl i wirionedd y datguddiad. Gwyddom drwy dystiolaeth yr Ysbryd o'n mewn fod y dystiolaeth allanol yn wir. Cyflawnir holl addewidion Duw a sylweddolir holl obeithion ein calon yng Nghrist.

Sylwer ar yr hyn a ddywedir yn 1 Ioan v. 10 am wrthod tystiolaeth Duw am ei Fab—"a'i gwnaeth ef yn gelwyddog."

34. Llefara Crist holl gyngor Duw, "canys nid wrth fesur y mae Duw yn rhoddi iddo Ef yr Ysbryd."

Nid wrth fesur. Gwna'r lle a roddir iddo yn y frawddeg yr ymadrodd hwn yn bwysleisiol. Mewn rhai Llawysgrifau y mae'r gair "Duw" yn eisiau, ac nid yw "iddo Ef" yn rhan o'r gwreiddiol. Credwn ei fod yn eglur mai "Duw" yw'r gweithredydd, er y cred rhai mai Crist yw, ac mai yr ystyr yw nad wrth fesur y rhydd Crist yr Ysbryd i'r rhai a gredant ynddo Ef. Dinistria hyn ymresymiad y paragraff. Ac ymhellach, a fyddai dywedyd hyn yn gywir?

Rhoddwyd yr Ysbryd i Grist "nid wrth fesur." Yn rhannol y rhoddwyd ac y rhoddir yr Ysbryd i eraill (1 Cor. xii.). Fel yr adlewyrchir gwahanol liwiau gan wahanol wrthrychau, felly ceir gwahanol amlygiadau o'r Ysbryd mewn dynion. Ond yr oedd holl liwiau'r "spectrum" dwyfol yng Nghrist. Daeth Ef i gyflawni gwaith anfesurol, ac "nid wrth fesur" y rhoddwyd iddo yr Ysbryd.

35. **Y mae y Tad yn caru y Mab.** Clywir yn y geiriau hyn adlais y llef a ddaeth o'r nefoedd, "Hwn yw fy annwyl Fab" (Mt. iii. 17).

Ac efe a roddodd bob peth yn ei law ef. Rhoddes y Tad bob peth yn llaw'r Mab oherwydd ei fod yn ei garu. Dywaid Ioan lawer am roddion y Tad i'r Mab; e.e. fod ganddo fywyd ynddo ei Hun (v. 26), barn (v. 22, 27), ei ddisgyblion (vi. 39), ei orchmynion (xii. 49, xiv. 31, xvii. 4), pob peth (xiii. 3), awdurdod ar bob cnawd (xvii. 2), ei enw (xvii. 11), ei ogoniant (xvii. 24).

Dyna ymddygiad Duw at ei Fab—ei garu a rhoddi pob peth yn ei law. A dylai dynion efelychu Duw. Da fyddai iddynt pe gwnaent.

36. **Yr hwn sydd yn credu**: yn parhau i gredu.

Y mae ganddo fywyd tragwyddol: meddiant personol o fywyd Duw, y bywyd a bery byth.

Yr hwn sydd heb gredu: yr hwn sydd yn anufudd, yn parhau i anufuddhau. Anghrediniaeth yn ei gweithrediad a geir yma.

Ni wêl fywyd. Ni wêl fywyd hyd yn oed pe disgwyliai amdano i dragwyddoldeb.

Eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef. Yn aros: nid yn unig yn y byd a ddaw, ond yn y byd hwn hefyd, erys digofaint Duw ar y rhai a barhant i anufuddhau.

Yn "y mae ganddo" ac "yn aros" ceir enghreifftiau o bresennol diamser Ioan.

Yn yr Efengyl hon, yma'n unig y ceir yr ymadrodd "digofaint Duw." Defnyddir ef yn Epistolau Paul, a llefarodd Ioan Fedyddiwr am "y llid a fydd." Gwêl rhai yn y ffaith mai yma'n unig y defnyddir yr ymadrodd yn yr Efengyl hon gadarnhad i'r golygiad mai tystiolaeth Ioan ac nid sylwadau o eiddo'r Efengylwr yw adn. 31—36.

Gwrth-weithiad y natur ddwyfol yn erbyn pechod yw "digofaint Duw." Y mae Duw yn hanfodol yn fod moesol; am hynny, y mae ynddo gasineb at bechod.

Erys digofaint Duw ar ddynion cyn iddynt wrthod credu yng Nghrist. Erys arnynt fel y maent yn bechaduriaid. Ond gwna gwrthod yr iechydwriaeth sydd yng Nghrist eu heuogrwydd yn fwy.

PENNOD IV.

1 Pan wybu yr Arglwydd gan hynny glywed o'r Phar-
iseaid fod yr Iesu yn gwneuthur ac yn bedyddio mwy
2 o ddisgyblion nag Ioan, (Er na fedyddiasai yr Iesu
3 ei hun, eithr ei ddisgyblion ef,) Efe a adawodd Judea,
4 ac a aeth drachefn i Galilea. Ac yr oedd yn rhaid

YR IESU YN GADAEL JUDEA AC YN MYNED I GALILEA TRWY SAMARIA. (adn. 1—4).

1. **Yr Arglwydd: yr Iesu.** Defnyddir y teitl, "yr Arglwydd," gan yr Efengylwr, yn siarad yn ei enw'i hun: rhoddir y teitl, "yr Iesu," fel pwnc yr adroddiad ymhlith y Phariseaid.

Glywed o'r Phariseaid fod yr Iesu yn gwneuthur ac yn bedyddio mwy o ddisgyblion nag Ioan: yr adroddiad yn y ffurf y rhoddwyd ef —"Y mae'r Iesu yn bedyddio . . . ." Yn gynnar fel hyn cysylltir "gwneuthur disgyblion" â "bedyddio," ymhell cyn y rhoddwyd i'r Apostolion y gorchymyn, ". . . . dysgwch . . . . gan eu bedyddio."

2. Sylw eglurhaol gan yr Efengylwr, a chywiriad o'r adroddiad i'r Phariseaid. Cym. iii. 22. Cred rhai mai sylw a ychwanegwyd mewn adolygiad o'r testun yw'r adnod hon.

3. Yr oedd y Phariseaid wedi dechrau gwneuthur sylw o'r Iesu, ac efallai eu bod yn fwy drwgdybus ohono Ef nag o Ioan. Yr oedd ganddynt lai o wrthwynebiad i lwyddiant Ioan. Ofnent Grist yn fwy nag yr ofnent ef.

Dymunai yr Iesu ochel gwrthdrawiad â'r Phariseaid ar hyn o bryd. Am hynny gadawodd Judea, ac aeth drachefn i Galilea. Cyfeiria "drachefn" at i. 43 a ii. 12. Cred rhai mai amcan y paragraff yw dangos nad oedd yr Iesu yn cystadlu ag Ioan.

4. **Ac yr oedd yn rhaid iddo fyned trwy Samaria.** Am mai dyna'r ffordd, oddieithr iddo groesi Iorddonen a myned trwy Berea. **Samaria.** Rhoddwyd yr enw ar y cyntaf i'r ddinas a adeiladwyd gan Omri, brenin Israel, ar fynydd a brynasai gan Semer (1 Bren. xvi. 23, 24). Ailadeiladwyd hi gan Herod, yr hwn a roddes iddi'r enw Sebaste. Ceir hanes y modd y poblogwyd Samaria ar ôl gorchfygiad a chaethgludiad y deg llwyth gan yr Assyriaid yn 2 Bren. xvii. Gwêl ymhellach y nodiad ar adn. 9.

iddo fyned trwy Samaria. Efe a ddaeth gan hynny i
ddinas yn Samaria a elwid Sichar, ger llaw y rhandir
a roddasai Jacob i'w fab Joseph: Ac yno yr oedd
ffynnon Jacob. Yr Iesu gan hynny yn ddiffygiol
gan y daith, a eisteddodd felly ar y ffynnon: ac yng-
hylch y chweched awr ydoedd hi. Daeth gwraig o
Samaria i dynnu dwfr: a'r Iesu a ddywedodd wrthi,
Dyro i mi i yfed. (Canys ei ddisgyblion ef a aethent
i'r ddinas i brynu bwyd.). Yna y wraig o Samaria a
ddywedodd wrtho ef, Pa fodd yr ydwyt ti, a thi yn
Iuddew, yn gofyn diod gennyf fi, a myfi yn wraig o
Samaria? oblegid nid yw yr Iuddewon yn ymgyf-
eillach â'r Samariaid. Yr Iesu a attebodd ac a ddy-
wedodd wrthi, Ped adwaenit ti ddawn Duw, a phwy
yw yr hwn sydd yn dywedyd wrthyt, Dyro i mi i yfed;
tydi o ofynasit iddo ef, ac efe a roddasai i ti ddwfr
bywiol. Y wraig a ddywedodd wrtho, Arglwydd, nid
oes gennyt ti ddim i godi *dwfr*, a'r pydew sydd ddwfn:
o ba le gan hynny y mae gennyt ti y dwfr bywiol
hwnnw? Ai mwy wyt ti na'n tad Jacob, yr hwn a
roddodd i ni y pydew, ac efe ei hun a yfodd o hono,
a'i feibion, a'i anifeiliaid? Iesu a attebodd ac a ddy-
wedodd wrthi, Pwy bynnag sydd yn yfed o'r dwfr
hwn, efe a sycheda drachefn: Ond pwy bynnag a yfo
o'r dwfr a roddwyf fi iddo, ni sycheda yn dragywydd;
eithr y dwfr a roddwyf iddo, a fydd ynddo yn ffynnon
o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol. Y wraig a
ddywedodd wrtho, Arglwydd, dyro i mi y dwfr hwn,
fel na sychedwyf, ac na ddelwyf yma i godi *dwfr*.
Iesu a ddywedodd wrthi, Dos, galw dy wr, a thyred
yma. Y wraig a attebodd ac a ddywedodd, Nid oes
gennyf wr. Iesu a ddywedodd wrthi, Da y dywedaist,
Nid oes gennyf wr: Canys pump o wŷr a fu i ti; a'r
hwn sydd gennyt yr awrhon, nid yw wr i ti: hyn a

19 ddywedaist yn wir. Y wraig a ddywedodd wrtho ef,
20 Arglwydd, mi a welaf mai prophwyd wyt ti. Ein
tadau a addolasant yn y mynydd hwn; ac yr ydych
chwi yn dywedyd mai yn Jerusalem y mae y man lle
21 y mae yn rhaid addoli. Iesu a ddywedodd wrthi hi,
O wraig, cred fi, y mae yr awr yn dyfod, pryd nad
addoloch y Tad, nac yn y mynydd hwn, nac yn
22 Jerusalem. Chwychwi ydych yn addoli y peth ni
wyddoch: ninnau ydym yn addoli y peth a wyddom:
23 canys iachawdwriaeth sydd o'r Iuddewon. Ond dy-
fod y mae yr awr, ac yn awr y mae hi, pan addolo y
gwir addolwyr y Tad mewn yspryd a gwirionedd:
canys y cyfryw y mae y Tad yn eu ceisio i'w addoli
24 ef. Yspryd *yw* Duw: a rhaid i'r rhai a'i haddolant ef,
25 addoli mewn yspryd a gwirionedd. Y wraig a ddy-
wedodd wrtho, Mi a wn fod y Messïas yn dyfod, yr
hwn a elwir Crist: pan ddelo hwnnw, efe a fynega i
26 ni bob peth. Iesu a ddywedodd wrthi hi, Myfi, yr
27 yr hwn wyf yn ymddiddan â thi, yw *hwnnw*. Ac ar
hyn y daeth ei ddisgyblion; a bu ryfedd ganddynt ei
fod ef yn ymddiddan â gwraig: er hynny ni ddywed-
odd neb, Beth a geisi? neu, Paham yr ydwyt yn ymddi-
28 ddan â hi? Yna y wraig a adawodd ei dwfr-lestr, ac
a aeth i'r ddinas, ac a ddywedodd wrth y dynion,
29 Deuwch, gwelwch ddyn yr hwn a ddywedodd i mi yr
30 hyn oll a wneuthum: onid hwn yw y Crist? Yna
hwy a aethant allan o'r ddinas, ac a ddaethant atto ef.
31 Yn y cyfamser y disgyblion a attolygasant iddo, gan
32 ddywedyd, Rabbi, bwytta. Ac efe a ddywedodd
wrthynt, Y mae gennyf fi fwyd i'w fwytta yr hwn ni
33 wyddoch chwi oddi wrtho. Am hynny y disgyblion
a ddywedasant wrth eu gilydd, A ddug neb iddo *ddim*
34 i'*w* fwytta? Iesu a ddywedodd wrthynt, Fy mwyd i
yw gwneuthur ewyllys yr hwn a'm hanfonodd, a gor-

35 phen ei waith ef. Onid ydych chwi yn dywedyd, Y
mae etto bedwar mis, ac *yna* y daw y cynhauaf? Wele,
yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych, Dyrchefwch eich
llygaid, ac edrychwch ar y meusydd; canys gwynion
36 ydynt eisoes *i*'r cynhauaf. A'r hwn sydd yn medi,
sydd yn derbyn cyflog, ac yn casglu ffrwyth i fywyd
tragwyddol: fel y byddo i'r hwn sydd yn hau, ac i'r
37 hwn sydd yn medi, lawenychu ynghyd. Canys yn hyn
y mae y gair yn wir, Mai arall yw yr hwn sydd yn
38 hau, ac arall yr hwn sydd yn medi. Myfi a'ch anfon-
ais chwi i fedi yr hyn ni lafuriasoch: eraill a lafurias-
ant, a chwithau a aethoch i mewn i'w llafur hwynt.
39 A llawer o'r Samariaid o'r ddinas honno a gredasant
ynddo, o herwydd gair y wraig, yr hon oedd yn tyst-
iolaethu, Efe a ddywedodd i mi yr hyn oll a wneuthum.
40 Am hynny pan ddaeth y Samariaid atto ef, hwy a
attolygasant iddo aros gyd â hwynt. Ac efe a arhos-
41 odd yno ddeuddydd. A mwy o lawer a gredasant
42 ynddo ef, oblegid ei air ei hun. A *hwy* a ddywedasant
wrth y wraig, Nid ydym ni weithian yn credu oblegid
dy ymadrodd di: canys ni a'*i* clywsom *ef* ein hunain,
ac a wyddom mai hwn yn ddïau yw y Crist, Iach-
awdwr y byd.

YR YMDDIDDAN A'R WRAIG O SAMARIA WRTH FFYNNON JACOB, A'R SAMARIAID YN CREDU YNG NGHRIST (adn. 5—42).

Ni chofnodir yr hanes hwn yn yr Efengylau eraill, ac ymddengys yn anghyson â (1) Mt. x. 5, "Y deuddeg hyn a anfonodd yr Iesu, ac a orchmynnodd iddynt, gan ddywedyd, 'Nac ewch i ffordd y cenhedloedd, ac i ddinas y Samariaid nac ewch i mewn;" (2) Act. viii. 5, "Yna Phylip a aeth i waered i ddinas Samaria, ac a bregethodd Grist iddynt;" (3) Luc ix. 52. Oherwydd y rhesymau hyn amheuwyd yr hanes.

Eithr cenhadaeth am dymor a waherddir yn Mt. x. 5, ac esbonir yr hyn a geir yn Luc ix. 52 gan y ffaith fod yr Iesu ar ei ffordd i Jerusalem. Ac nid ydym i olygu bod troedigaeth y Samariaid mor gyflawn a chyffredinol fel nad oedd eisiau pregethu Crist iddynt.

Y prif wirioneddau yn yr ymddiddan, medd Lock, yw: (a) Bydd addoliad newydd, addoliad ysbrydol, gwirioneddol, i bawb. (b) Er iddo godi o Iddewiaeth derbynir ef gan y Samariaid; (c) a chan wragedd yn ogystal â gŵyr. (d) Medr Crist ddiwallu anghenion ysbrydol; y bwyd a geir mewn gwneuthur ewyllys Duw; y dwfr a rydd fywyd tragwyddol.

Y mae'r hanes yn enghraifft arall o'r hyn a ddywedir am yr Iesu yn ii. 25.

(Ynglŷn â "ffurf" yr ymddiddan gwêl Rhagarweiniad).

5. **Sichar.** Y farn gyffredin yw mai'r lle a elwir yn awr Askar yw Sichar. Saif oddeutu hanner milltir i'r Gogledd-ddwyrain o Ffynnon Jacob.

Y rhandir a roddasai Jacob i'w fab Joseph. Gwêl Gen. xxxiii. 19, xlviii. 22, Jos. xxiv. 32.

6. **Ac yno yr oedd ffynnon Jacob.** Ni cheir cyfeiriad at ffynnon Jacob yn yr Hen Destament. Erys hyd heddiw, ond heb ddwfr tardd. Y mae oddeutu 100 troedfedd o ddyfnder.

Gair gwahanol yw'r gair a gyfieithir "pydew" yn adn. 11 a 12. Paham y cloddiwyd pydew lle yr oedd digonedd o ddwfr? Ai er osgoi ymddadlau â'i gymdogion ynghylch hawl dwfr y gwnaeth Jacob hyn, ac ef yn bererin yn y tir? Ni wyddom, ac ni wyddom paham y deuai gwraig hanner milltir i gyrchu yr hyn yr oedd cyflawnder ohono yn Sichar, ond oherwydd ei hymlyniad wrth draddodiad.

Pe rhoddem ystyr alegoriaidd i waith y wraig yn cyrchu dwfr o ffynnon Jacob ac nid o le y ceid mwy ohono, dywedem yr erys dynion gyda defodau yn lle dyfod at Grist.

Yn ddiffygiol gan y daith. Pwysleisia Ioan wir ddyndod Crist. Ni welai, medd Bernard, mewn dywedyd bod yr Iesu "yn flinedig gan y daith" ddim oedd yn anghyson â'i undod â'r Hwn y dywedodd y proffwyd amdano, "Ni ddiffygia ac ni flina Duw tragwyddoldeb, yr Arglwydd, Creawdwr cyrrau y ddaear" (Esa. xl. 28). Gwêl ar i. 14.

A eisteddodd felly wrth y ffynnon. Felly: fel yr oedd, yn flinedig; neu, fel yr oedd, heb aros i ddewis lle. "Nid ar orsedd, nid ar glustog, ond ar y ddaear, fel yr oedd" (Chrysostom).

Y chweched awr. Hanner dydd. Gwêl ar i. 39. Cofia yr hanesydd yn dda y lle a'r awr.

7. **Daeth gwraig o Samaria i dynnu dwfr.** O Samaria: o dalaith Samaria. Yr amser arferol i dynnu dwfr oedd yr hwyr; ond hanner dydd, yr amser i orffwys ac i ymguddio rhag y gwres, y daeth y wraig hon. Paham? Ai am y dymunai fod heb gwmpeini, oherwydd ei bywyd pechadurus?

Cad llawer rhamant wrth ffynhonnau. Dywaid Matthew Henry yr atgofia cyfarfyddiad y wraig hon â Christ wrth y ffynnon ni o'r hanesion am Rebecah, Rahel, a Sephorah, a gyfarfuant â gwŷr wrth ffynhonnau, gwŷr da, sef Isaac, Jacob a Moses. Ond cyfarfu'r wraig hon â rhamant mwy wrth ffynnon Jacob, canys cyfarfu â Phriod ei henaid, a chadd yfed o'r "dyfroedd tragwyddol eu tarddiad, Y dyfroedd sy' heb waelod na thrai." Tro bythgofiadwy oedd y tro hwn y daeth i dynnu dwfr. Ni wyddai am y darganfyddiad mawr a wnâi cyn dychwelyd i'w chartref.

Dyro i mi i yfed. Cais syml, ond yn arwain i bethau mawr—y cam cyntaf yn y drafodaeth. "Gwyddai'r Iesu mai'r ffordd yn aml i ennill enaid yw gofyn gwasanaeth ganddo" (Godet).

8. Dyma'r rheswm am y cais. Aethai'r disgyblion i'r dref, gan ddwyn gyda hwynt y rhaff a'r dwfrlestr a ddygid ar deithiau ym Mhalestina, fel na allai yr Iesu dynnu dwfr iddo'i Hun, fel y sylwodd y wraig (11) (Brooke).

9. **Oblegid nid yw** (yr) **Iddewon yn ymgyfeillach a** ('r) **Samariaid.** Sylw eglurhaol o eiddo'r Efengylwr. Ymdriniwn ag ef cyn ymdrin â'r cwestiwn a ofynnir yn yr adnod hon.

Gwrthododd yr Iddewon unrhyw ran i'r Samariaid yn y gwaith o ailadeiladu'r deml. Ni faddeuodd y Samariaid iddynt am hyn, ac ni faddeuodd yr Iddewon iddynt hwythau am rwystro'r gwaith. Ychwanegwyd at chwerwder eu teimlad at ei gilydd pan adeiladodd y Samariaid deml ar Fynydd Gerizim fel cydymgeisydd i'r deml yn Jerusalem.

O Ysgrythurau'r Hen Destament pum llyfr Moses yn unig a gydnabyddid gan y Samariaid. Gwrthodent y rhannau proffwydol, ac felly yr oeddynt heb y wybodaeth honno am Dduw a ddatguddiwyd gan y proffwydi ac yn hanes ei bobl etholedig. Dirmygid hwynt gan yr Iddewon fel pobl gymysg (os oeddynt hyd yn oed felly), gydag addoliad na wyddai neb beth oedd. Yn viii. 48 dywaid yr Iddewon wrth yr Iesu, "Onid da yr ydym ni yn ddywedyd, mai Samaritan wyt ti, a bod gennyt gythraul?" A dywaid Luc am dref y Samariaid, "Ac nis derbyniasant hwy ef (yr Iesu), oblegid fod ei wyneb ef yn tueddu tu a Jerusalem." Gwelir y coleddai Iddewon a Samariaid deimladau chwerw tuag at ei gilydd.

Yr oedd yr Iesu yn rhydd oddi wrth ragfarn o'r fath, fel y gwelwn oddi wrth ddameg y Samariad trugarog a glanhad y deg gwahanglwyfus.

Nid ydym i olygu nad oedd unrhyw drafnidiaeth fasnachol rhwng yr Iddewon a'r Samariaid, oblegid dywedir yn adn. 8 yr aethai'r disgyblion i'r ddinas i brynu bwyd. Yr oedd yna orchymyn Rabbinaidd yn gwahardd i Iddewon fwyta bara ac yfed gwin y Samariaid. "Ond byddai Iddewon yn teithio'n barhaus trwy Samaria—o Galilea

i Jerusalem, ac o Jerusalem i Galilea—ac nid yw'n debygol y byddai teithiwr newynog mor ofalus am reolau o'r fath fel na phrynai fwyd gan bentrefwyr yn Samaria, neu y gofalai'r pentrefwr beidio â'i werthu, oddieithr mewn amseroedd o gynnwrf diwinyddol mawr" (Bernard).

Pa fodd yr wyt ti, a thi yn Iddew, yn gofyn diod gennyf fi, a myfi yn wraig o Samaria? Deallai'r wraig mai Iddew oedd, efallai oddi wrth ei wisg, neu efallai oddi wrth ei leferydd (cym. Mt. xxvi. 73). Yn wraig, ac o Samaria—dau rwystr. "Tyr yr Iesu ragfarn rhyw a chenedl i lawr" (Westcott). Apelia'r Iesu yma at garedigrwydd dynol cyffredin, peth dyfnach na rhagfarnau crefyddol a moesol. "Os dy elyn a newyna, portha ef â bara; ac os sycheda, dod iddo ddiod i'w hyfed" (Diar. xxv. 21). Rhoddi ffrwyn i'w ffraethineb a wna'r wraig: nid oedd yr elyniaeth rhwng Iddewon a Samariaid yn cau allan roddi dwfr i'r sychedig.

10. **Ped adwaenit ti ddawn Duw.** Dawn: rhodd rad. Dynoda rodd ddwyfol yn Llyfr yr Actau a'r Epistolau. Yma, dawn Duw yw'r dwfr bywiol y dywaid Crist amdano yn y frawddeg nesaf.

A phwy yw yr hwn sydd yn dywedyd wrthyt. Yr un yw "dawn Duw" â'r "hwn sydd yn dywedyd." Yr un yw y rhodd â'r rhoddwr. Eithr nid awgrymai ymddangosiad y rhoddwr hynny.

Tydi a ofynasit iddo ef. Ped adwaenai y wraig ddawn Duw, a phwy oedd yn gofyn dwfr ganddi, **hi** fuasai yn gofyn, a'r Iesu a roddasai.

Dwfr bywiol. Dwfr tardd, dwfr rhedegog (Gen. xxvi. 19, Lev. xiv. 5, Num. xix. 17), ac nid dwfr mewn pydew, fel y dwfr yn Ffynnon Jacob.

Y mae arwyddocâd arwyddluniol i ddwfr yn yr Hen Destament. "Cyfraith y doeth sydd ffynnon bywyd" (Diar. xiii. 14). "Ofn yr Arglwydd yw ffynnon bywyd" (Diar. xiv. 27). "Hwy a'm gadawsant i, ffynnon y dyfroedd byw" (Jer. ii. 13). "Am hynny mewn llawen ydd y tynnwch ddwfr o ffynhonnau iachawdwriaeth" (Esa. xii. 3), "A bydd y dwthwn hwnnw, y daw allan o Jerusalem ddyfroedd bywiol" (Zech. xiv. 8); cym. Ezek. xlvii. 1, Joel iii. 18).

11. **Arglwydd.** Dechrau'r wraig siarad yn barchus â'r Iesu. Byddai "Syr" yn fwy priodol nag "Arglwydd," er mai y gair am "Arglwydd" a ddefnyddir.

Nid oedd ganddo Ef ddwfrlestr. Pa fodd gan hynny y gallai dynnu dwfr bywiol neu ddwfr o unrhyw fath?

12. **Ai mwy wyt ti na'n tad Jacob?** Olrheiniai'r Samariaid eu hanaeth i Jacob, drwy Ephraim a Manasseh.

Ymresyma'r wraig fel hyn: Ni elli gael dwfr o'r pydew, oblegid nid oes gennyt ddim i godi dwfr, a'r pydew sydd ddwfn. Eto y mae gennyt ddwfr arall a gwell, dwfr bywiol. Felly yr wyt ti yn dy osod dy hun uwchlaw ein tad Jacob, i'r hwn, a'i feibion, a'i anifeiliaid yr oedd y pydew hwn yn ddigon da i yfed ohono. Os oedd yn ddigon da iddo ef, y mae yn ddigon da i ni.

13, 14. Eglura'r Iesu nad am ddwfr ffynnon naturiol y sieryd.

Yn yr adnodau hyn mynegir effeithiau yfed o'r dwfr a rydd yr Iesu: (a) "Pwy bynnag a yfo o'r dwfr a roddwyf fi iddo, ni sycheda yn dragywydd." Y mae'r rhodd ddwyfol yn berffaith ddigonol. Y mae'r cyflawnder yn ddigon i gyfarfod â'r gofyn. "Lle y mae eisiau, o du dyn y mae'r diffyg, ac nid yn y dwfr" (Bengel). Diwellir y rhai sydd â newyn a syched arnynt am gyflawnder. Ni olygir nad oes syched am ragor o'r dwfr o hyd. Nid drwy ddifodi ei syched y diwalla Crist ddyn, ond drwy roddi o'i fewn ffynnon a gyferfydd â phob angen. Pe na bai arnom newyn a syched tlawd fyddem. Gwna'r Iesu inni deimlo syched, a rhydd inni'r dwfr a'i tyr. Sycheda'r dyn newydd yn barhaus am y dwfr a rydd Crist. Ond y mae un ddracht ohono yn ddigon i brofi mai dwfr y bywyd yw, y dwfr a dyr ein syched mawr. Y mae yn cyfarfod ag angen dyn, er y sychedir am fwy ohono. "Syched yw bywyd," eithr diwellir ein syched yng Nghrist. Ni fedr pethau'r byd dorri syched dyn.

> "The waters of this earth have failed,
> And I am thirsting still."

(b) **Y dwfr a roddwyf fi iddo, a fydd ynddo yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragwyddol."** Yr effaith hon yw achos yr effaith gyntaf. "A fydd ynddo yn ffynnon." Duw yw ffynnon bywyd, ond drwy gredu yng Nghrist cawn ffynnon ynom ein hunain. "Ti a fyddi megis ffynnon ddwfr, yr hon ni phalla ei dyfroedd" (Esa. lviii. 11). Y mae ffynhonnell bywyd ysbrydol oddi mewn; ni ddibynna'r bywyd hwn ar ddim oddi wrth yr hyn y gellir ei wahanu. Dyn ei hun, mewn cymundeb â Christ yw'r ffynnon. "A fydd ynddo yn ffynnon;" am hynny" ni sycheda yn dragywydd." "Nid oes syched ar ffynnon" (Bengel).

"Yn tarddu i fywyd tragwyddol." Yn tarddu: yn "neidio" (gwêl Act. iii. 9). Bywyd tragwyddol yw'r ffynnon, a thardd nes cyrraedd bywyd tragwyddol. Gorchfyga'r ffynnon hon ddeddf atyniad. Naid ffynnon gyffredin i fyny a disgyn drachefn. Ond naid hon i fyny ac ni ddisgyn drachefn—tardd i fywyd tragwyddol. Tardd nes cyrraedd y lle y daeth allan ohono—gorseddfainc Duw.

> "Spring Thou up within my heart,
> Rise to all eternity."

> "Mae'n tynnu ar i fyny,
> O'r nef y daeth i lawr."

"Y fath ddarlun o'r hyn oedd yn bosibl i galon ddynol oedd ar y pryd yn fwy tebyg i lyn rhewedig" (Strachan). Gwêl ymhellach y nodiadau ar vii. 37.

15. Eto ni ddeall y wraig. Eithr teimla fod y dwfr yn werth ei gael—dwfr na fyddai eisiau teithio i'w dynnu.

16. Teimlwn mai dyma drobwynt yr ymddiddan mawr hwn. Eithr y mae'n anodd penderfynu ei ystyr, a cheir gwahanol farnau yn ei gylch: (a) Y mae'r wraig yn ymadael ar ôl y dywediad a geir yn yr adnod flaenorol, a gofyn yr Iesu iddi ddychwelyd gyda'i gŵr, oherwydd y dymunai gario ymlaen ei weinidogaeth yn Sichar. (b) Tuedda'r wraig i fod yn ffraeth, a chais yr Iesu ei difrifoli drwy ei dwyn wyneb yn wyneb â'i sefyllfa druenus er mwyn agor y ffordd i gyflwyniad llawnach o'i genadwri. Yr oedd rhaid agor ffynnon o edifeirwch yn ei chalon cyn y gallai dderbyn dawn Duw. Gelwir ei sylw at ffeithiau ei bywyd gyda'r amcan o'i hargyhoeddi o'i phechod a'i hangen. "Dyro i mi y dwfr hwn." Nid oedd modd iddi ddeall natur y dwfr cyn deall a theimlo ei hangen. I'r hwn a sychedo amdano yn unig y gellir rhoddi'r "dwfr hwn."

17. **Nid oes gennyf ŵr.** Rhoddwn ddau olygiad ynghylch y geiriau hyn: (a) Cais y wraig mewn ychydig eiriau atal ymdriniaeth ar y mater peryglus hwn. (b) Gwêl ei bod ym mhresenoldeb un a ŵyr ei hanes, a chyffesa nad oes ganddi ŵr.

18. Rhydd Ioan bwyslais yn fynych ar adnabyddiaeth Crist o ddynion. Amlygir gwybodaeth oruwchnaturiol yma.

Oherwydd y dywediad hwn (yn bennaf) bernir gan rai mai alegori yw'r "hanes" hwn o'i ddechrau i'w ddiwedd. Cynrychiola'r wraig y Samariaid. Arwyddlun o'u perthynas hwy â chrefydd yw ei phriodas. Cyfetyb ei phum gŵr i'r addoliad o'r pum duw a ddygwyd gan yr Assyriaid i Samaria (2 Bren. xvii. 24—34). (Saith y cyfrifir hwynt yno, ond pump y cyfrif Josephus hwynt). Cyfetyb y gŵr presennol, yr hwn nid yw ŵr, i'r grefydd Iddewig oedd yn gyfuniad o addoliad Jehofa ac addoliad duwiau paganaidd, neu i Simon Magus (Act. viii. 9—11). Arwain hyn yn naturiol i'r dyrysbwnc crefyddol, ac y mae'r cwbl yn alegori o droedigaeth y Samariaid.

Gwrthodwn ni'r golygiad alegoriaidd. Credwn mai hanes a roddir yma. Dywaid Bernard na allasai awdur Cristionogol yn y ganrif gyntaf, nac mewn unrhyw ganrif, gyfansoddi alegori sydd mor gableddus pan ddeellir yr hyn a olyga.

19. **Arglwydd.** Gwêl y nodiad ar adn. 11.

Proffwyd. Un yn gweled i mewn yn ogystal ac ymlaen. "Pe bai hwn broffwyd, efe a wybuasai pwy, a pha fath wraig yw hon sydd yn cyffwrdd ag ef: canys pechadures yw hi" (Luc vii. 39). Y mae

ateb y wraig mewn effaith yn gyfaddefiad o wirionedd yr hyn a ddywedasai yr Iesu. Sylwer ar y cyfnewidiad yn ei hymddygiad at yr Iesu—adn. 9, 11, 15, 19.

20. **Y mynydd hwn.** Gerizim, wrth droed yr hwn y mae'r ffynnon. Adeiladwyd teml ar Fynydd Gerizim gan Manasseh, a yrrwyd o Jerusalem gan Nehemiah (xiii. 28). Dinistriwyd hi gan Ioan Hyrcanus 130 C.C. Addola cwmni bychan o Samariaid ar Fynydd Gerizim hyd y dydd hwn.

Ein tadau a addolasant yn y mynydd hwn. (1) Sylwa Macgregor mai Gerizim (ac nid Ebal) a geir yn y Testun Samaritannaidd yn Deut. xxvii. 4, ac oblegid hyn y gall "ein tadau" olygu'r Israeliaid yn nyddiau Joshua. (2) Er y dyddiau yr adeiladwyd y deml ar Fynydd Gerizim. (3) Y patriarchiaid. Adeiladwyd allorau yn Shechem gan Abraham (Gen. xii. 7) a Jacob (Gen. xxxiii. 20).

Eithr yr ydych chwi yn dywedyd mai yn Jerusalem y mae y lle y mae yn rhaid addoli. Chwi: yr Iddewon. Y lle: ceir "y lle" yn Deut. xii. 5, xvi. 2, xxvi. 3, eithr ni enwir y lle yn Llyfrau y Ddeddf. Yn 2 Cron. vi. 6, vii. 12, a Salm lxxviii. 68 enwir y lle, ond awdurdod y Pumllyfr yn unig a gydnabyddid gan y Samariaid.

Paham y cyfeiria'r wraig at y mater hwn? Rhoddwn wahanol olygiadau: (a) Dymuna droi cwrs yr ymddiddan oddi wrth yr elfen bersonol. Gŵyr am y gwahanol "enwadau," y ddadl hir-barhaol rhwng Iddewon a Samariaid, a medr siarad am faterion crefyddol cyhyd ag y cedwir hwynt oddi wrth ei bywyd hi ei hun. Cred y bydd i ddiddordeb y ddadl i broffwyd beri iddo beidio ag ymdrin â'r hyn y dymuna hi ei gadw o'r golwg. (b) Nid yw'r wraig yn newid y pwnc. Y mae ei chydwybod wedi ei chyffwrdd, ac y mae o ddifrif. Eithr drysir hi gan raniadau allanol crefydd. Pwy sydd yn iawn, ai'r Iddewon ai'r Samariaid? Y mae'r hwn sydd yn ymddiddan â hi yn broffwyd, a medr ef benderfynu'r mater. Dywaid Marcus Dods ei bod yn bosibl y meddyliai ar adegau fod ei holl drueni yn codi o'r ffaith mai Samariad oedd. Gwyddai beth a ddywedai'r Iddewon am yr addoliad Samaritannaidd, a phan deimlodd mor ychydig o gymorth a roddasai ei chrefydd iddi y mae'n bosibl ei bod wedi dechrau tybied bod gwirionedd yn yr hyn a ddywedent. Dywaid Dods ymhellach y dengys ateb yr Iesu fod y wraig o ddifrif yn ei mynegiad o'r anhawster hwn, ac yn dymuno gwybod pa le y ceid Duw.

21—24. Ateb yr Iesu. Dyma adnodau mawr,—breinlen addoliad cyffredinol. Dywaid Sanday "ein bod yn sicr o fod yn iawn pan briodolwn y geiriau rhyfedd hyn i un mwy hyd yn oed na'r Apostol Ioan. Anadlant ysbryd bydoedd gwahanol i'n byd ni, lle nid oes eisiau cyfryngau, ac yr edwyn yr enaid megis ei hadwaenir. Nid oes dim sydd mor debyg iddynt yn annherfynolrwydd aruchel eu cynnwys, a'u cyrhaeddiad hyd at wreiddiau dyfnaf pethau, â rhai o ddywediad-

au'r Bregeth ar y Mynydd (Mt. v. 45, vi. 6). Geiriau fel hyn sydd yn cyrraedd adref i galonnau dynion, fel geiriau sydd yn yr ystyr fwyaf llythrennol yn ddwyfol."

21. **Cred fi.** Yma'n unig y ceir yr ymadrodd hwn. **Yr** ymadrodd arferol yw, "Yn wir, yn wir."

Nac yn y mynydd hwn, nac yn Jerusalem. Nid (yn unig) yn Ngerizim, nid (yn unig) yn Jerusalem. Pan ysgrifennwyd y geiriau hyn yr oedd y deml ar Fynydd Gerizim a'r deml yn Jerusalem yn adfeilion.

Y Tad. Y gair "Tad" yw'r agoriad i'r adnod hon. Pan sylweddolir ysbrydolrwydd gwir grefydd diflanna'r gwahaniaethau hyn. Nid y **lle** yr addolir ynddo sydd yn bwysig, ond **pwy** a addolir.

22. **Chwychwi sydd yn addoli y peth ni wyddoch.** "Chwychwi," h.y., y Samariaid. Derbynient Jehofa fel y gwir Dduw, ond ychydig a wyddent amdano, oherwydd na dderbyniasant ddysgeidiaeth y proffwydi ac na chymerasant ran yn hanes Israel. Fe'u caeasant eu hunain allan oddi wrth bob datguddiad oddieithr yr hyn a gynhwysid yn y Pumllyfr.

Ninnau ydym yn addoli y peth a wyddom. "Ninnau," h.y., yr Iddewon. Sylwer fel ei gwna'r Iesu ei hun yn un â'r Iddewon. Addolai'r Iddewon yr un Duw â'r Samariaid, eithr adwaenai'r Iddewon ei gymeriad yn well na'r Samariaid. Cym. Salm cxlvii. 19, 20, "Y mae efe yn mynegi ei eiriau i Jacob, ei ddeddfau a'i farnedigaethau i Israel. Ni wnaeth efe felly ag un genedl: ac nid adnabuant ei farnedigaethau ef." Er bod gwahaniaethau fel y rhai a fodolent rhwng yr Iddewon a'r Samariaid ar fin cael eu difodi yng Nghrist hawlia'r Iesu ragoriaeth i'r grefydd Iddewig. Yr oedd gan yr Iddewon yn eu Hysgrythurau, o'u deall yn iawn, y wir wybodaeth am Dduw.

Canys iachawdwriaeth sydd o'r Iddewon. Yr iechydwriaeth, yr iechydwriaeth ddisgwyliedig. O'r Iddewon: yn dyfod ohonynt. O'r Iddewon y mae iechydwriaeth. O dir Iddewiaeth y cyfododd Cristionogaeth. Iddewiaeth oedd yr unig grefydd hyd yn hyn a feddai hyd yn oed ddatguddiad rhannol o Dduw. Daeth y syniad am ddeddf i'r byd drwy'r meddwl Rhufeinig, athroniaeth drwy'r meddwl Groegaidd, a'r wybodaeth am Dduw drwy'r Iddew.

23. **Ond dyfod y mae yr awr, ac yn awr y mae.** Daw yr awr pan addola'r gwir addolwyr y Tad mewn ysbryd a gwirionedd. Ond fel hynny yr addola gwir addolwyr yn awr.

Gwir addolwyr. Addolwyr "genuine."

Mewn ysbryd. Yn wrthgyferbyniol i'r hyn sydd faterol neu gnawdol. Bydd yr addoliad o fewn cylch yr ysbryd, ym mywyd mewnol dyn, yn wrthgyferbyniol i addoliad cyfyngedig i le. Yr ysbryd yw'r peth uchaf mewn dyn, canys drwy'r ysbryd y cymdeithasa â

Duw, yr hwn sydd Ysbryd. Nid ffurfioldeb yw addoliad y gwir addolwr.

Ac mewn gwirionedd. Bydd yr addoliad yn seiliedig ar syniad cywir am natur Duw. Nid yw addoliad y gwir addolwr heb wybodaeth. Nid ydyw hyd yn oed didwylledd yn ddigon, rhaid meddu syniadau cywir.

Addoli mewn "ysbryd," medd Strachan, yw addoli mewn cylch lle y mae Duw a'i enaid mewn cyffyrddiad â'i gilydd, fel tad a phlentyn. Ac ynglŷn ag addoli mewn "gwirionedd" dywaid fod yn rhaid mynegi ymddiried mabaidd ac ufudd-dod nid mewn gair neu brofiad mewnol yn unig, ond mewn gweithred. Rhaid inni fod yn ffyddlon yn ein bywyd beunyddiol i'r hyn a ddysgasom am Dduw. Dylai ein bywyd fod yn fwy tebyg i'n gweddïau.

Canys y cyfryw y mae y Tad yn eu ceisio i'w addoli ef. Y pwyslais ar "y cyfryw" neu ar "yn eu ceisio;" neu ar y ddau. Y mae "y cyfryw" yn dderbyniol gan y Tad, a "chais" y Tad y cyfryw. Duw yn ceisio yw'r cam cyntaf yn nesâd dyn at Dduw. Cais Duw wir addolwyr a gweithia er eu cael.

24. **Ysbryd yw Duw.** Cym. 1 Ioan i. 5, "Goleuni yw Duw," a 1 Ioan iv. 8, "Duw, cariad yw." Natur Duw, ac nid ei bersonoliaeth a ddynodir yma,—nid "God is a Spirit," eithr "God is Spirit."

Yr oedd ysbrydolrwydd Duw yn un o ddaliadau hanfodol Iddewiaeth, er na ddeellid ei ystyr yn gyflawn. Gwêl Esa. xxxi. 3, 1 Bren. viii. 27.

Ysbryd yw Duw. Dyna'r rheswm paham y cais Duw addoliad mewn ysbryd. Y mae addoliad mewn ysbryd mewn cytgord â'r Ysbryd dwyfol.

NODIADAU YCHWANEGOL AR ADN. 21—24.

Addoli'r Tad: Ysbryd yw Duw. Tad, Duw, Ysbryd. Tadolaeth ac Ysbrydolrwydd Duw. Duw yn Dad yw'r datguddiad olaf a mwyaf. Ni ellir myned y tu hwnt iddo. Gwna'r Dadolaeth, medd Reith, yr Ysbryd yn bersonol a "real," a diogela'r Ysbryd y Dadolaeth. Dibynna addoliad o Dduw ar y Duw a addolir. Ysbryd yw, a Thad yn ceisio dynion i fod yn blant iddo â chariad anhraethol. Penderfyna natur Duw natur, ffurf, a lle addoliad.

Ni chondemnia'r paragraff hwn ffurfiau allanol mewn addoliad. Eithr nid yw gwir grefydd yn ddarostyngedig i ddeddfau amser a lle a ffurf. Collir amser a lle yn y datguddiad o grefydd gyffredinol. Sail cyffredinolrwydd (ac undeb) yw ysbrydolrwydd. Lle mae calon plentyn yno y mae cysegr y Tad. Heb yr addoliad mewnol nid oes ystyr i'r addoliad allanol.

Ceisiai'r wraig oleuni ar y ddadl rhwng yr Iddewon a'r Samariaid. Ond rhaid penderfynu natur Duw cyn y gellir penderfynu natur Eglwys ac addoliad.

Pan gofiwn yr hyn oedd Jerusalem i'r Iddew teimlwn mai peth mawr oedd dywedyd "nac yn Jerusalem."

Anodd gan rai gredu y rhoddwyd datguddiad mor aruchel i wraig fel hon, y datguddiad o natur addoliad. Derbyniwyd hi, medd Bengel, i "citadel" y ffydd. Ond credwn fod y greadures dlawd yn teimlo ei hangen, ac i'r Iesu ddatguddio pethau cuddiedig rhag y doethion a'r deallus i'r un fechan hon.

25. Teimla'r wraig fod y gwirioneddau hyn o'i chyrraedd, ac edrych i'r dyfodol am oleuni ar ei hanawsterau. "Hiraetha am y golau llawn a ddygir gan y Meseia" (Godet).

Gwyddom y coleddai'r Samariaid obeithion Mesiannaidd, ond ychydig a wyddom ynghylch eu syniadau am y Meseia. Sonia Josephus am derfysg yn Samaria a gynhyrfwyd gan ddisgwyliadau Mesiannaidd, ac a ddarostyngwyd gan Pilat. Syniai'r wraig am y Meseia fel proffwyd, canys seiliai'r Samariaid eu gobeithion Mesiannaid ar Deut. xviii. 18. Proffwyd a ddisgwylient ac nid brenin daearol neu arweinydd gwleidyddol. Yr enw a roddent i'r Gwaredwr a ddisgwylient oedd "y Tröwr" (the Converter), neu "yr Arweinydd."

Y mae'n amhosibl penderfynu pa faint o'r ymddiddan hwn sydd yn gyfieithiad o'r geiriau a ddefnyddiwyd, a pha faint sydd yn unig yn sylwedd yr hyn a ddywedwyd. O ba le y cafodd Ioan ei wybodaeth am yr ymddiddan? Ai oddi wrth yr Iesu ai oddi wrth y wraig? Dywaid Plummer fod adn. 8 a 27 yn erbyn y golygiad fod Ioan ei hun yn bresennol ac iddo glywed yr ymddiddan.

Yr hwn a elwir Crist. Sylw eglurhaol gan yr Efengylwr mae'n debyg. Nid yr hyn o'i gyfieithu yw "y Crist," ond yr hwn a elwir "y Crist." Gwêl ar i. 41.

26. Geilw Macgregor hon y funud fwyaf dwys a mwyaf dramatig yn y Testament Newydd. Ond cym. ix. 37, "Ti a'i gwelaist ef; a'r hwn sydd yn ymddiddan â thi, hwnnw yw efe." Y mae'r Meseia a gwaredigaeth gerbron y wraig. Gellir dadrys ei hanawsterau'r funud hon. Rhaid iddi benderfynu yn awr. "Wele, yn awr ddydd yr iachawdwriaeth."

Rhyfeddwn at y datganiad hwn o eiddo Crist amdano'i Hun fel y Meseia pan gofiwn Mt. xvi. 20, xvii. 9, a Marc viii. 30. Ac yn x. 24 cawn i'r Iesu wrthod dywedyd yn eglur mai Ef oedd y Crist pan ofynnodd yr Iddewon iddo wneuthur hynny. Eithr brenin daearol a ddisgwyliai'r Iddewon, tra y syniai'r Samariaid am y Gwaredwr disgwyliedig fel proffwyd. Nid syniadau politicaidd a goleddai'r wraig hon.

27. **Bu ryfedd ganddynt ei fod ef yn ymddiddan â gwraig.** Yr oedd hyn yn groes i reolau'r Rabbiniaid. Yr oedd yna orchymyn Rabbinaidd,—"Na fydded i neb siarad â gwraig, hyd yn oed ei wraig ei hun, yn yr heol. Gwell fyddai llosgi geiriau'r gyfraith na'u dysgu i wraig."

Ni ddywedodd neb, Beth a geisi? neu, Paham yr ydwyt yn ymddiddan â hi? Ni wnaethant hyn oherwydd eu parch iddo. "Atgof rhywun a berthynai i'r cwmni," medd Bernard, yw **na** ofynasant y cwestiynau y temtiwyd hwy i'w gofyn.

Dywaid Calfin y dysg hyn i ni y dylem arfer distawrwydd ynglŷn â'n profiad o unrhyw waith neu air o eiddo Duw a bair rwystr inni.

28. Sylw gan un oedd yn bresennol yn ddiau yw **hwn hefyd.** Gadawodd y wraig ei dwfrlestr oherwydd y bwriada ddychwelyd yn fuan. Hefyd, nid oedd tynnu dwfr o'r ffynnon o unrhyw bwys o'i gymharu â'r hyn oedd yn awr o'i blaen.

Y mae'n debyg, medd Bernard, nad oedd eto wedi ei lanw, oherwydd y diddordeb a gymerasai yn yr ymddiddan (cym. adn. 7), a gwaith ofer fyddai ei ddwyn yn ôl a blaen. Gwel Macgregor yn y geiriau yr unig ddisgrifiad byw o'r brys â'r hwn yr aeth i'r pentref i gyhoeddi ei newydd ac i ddwyn ei chymdogion allan i brofi'r Meseia hwn.

29. **Deuwch, gwelwch ddyn yr hwn a ddywedodd i mi yr hyn oll a wneuthum.** "Mor naturiol yw'r gormodiaeth hwn!" (Plummer). "Gormodiaeth gwraig ddi-ddysg" (Bernard). Eithr onid oedd yn argyhoeddedig y gallasai ddywedyd wrthi yr hyn oll a wnaethai? Ac onid yw dywedyd un peth yn ddywedyd y cwbl? Y mae'r fath unoliaeth mewn bywyd ag sydd yn gwneuthur dywedyd un peth yn ddywedyd y cyfan. Ac ymhellach, dywedasai'r Iesu bopeth oedd o bwys yn awr.

Onid hwn yw y Crist? Ateb nacaol a ddisgwylir i gwestiwn a ofynnir yn y ffurf hon. A all hwn fod y Crist? Dywaid Bernard i'r cwestiwn gael ei ofyn gyda chysgod o obaith y byddai i'r ateb droi allan i fod yn y cadarnhaol, a chyfieitha, "Ai hwn, efallai, yw y Crist?" Er ei ffurf, credwn y mynegir mwy o grediniaeth nag o amheuaeth yn y cwestiwn. Yr hyn sydd yn gwneuthur credu yn anodd yw yr ymddengys y peth yn rhy dda i fod yn wir.

30. **Yna hwy a aethant allan o'r ddinas, ac a ddaethant ato ef.** Y mae'r ferf a gyfieithir "ddaethant" yn yr amser amherffaith—"oeddynt yn dyfod." Gwelwn hwynt, â'u cywreinrwydd wedi ei ddeffro, yn croesi'r meysydd yn ystod yr ymddiddan sydd yn dilyn. Rhwydd hynt i'r orymdaith!

YMDDIDDAN A'R DISGYBLION (adn. 31—38).

31. **Yn y cyfamser.** Yr amser rhwng ymadawiad y wraig a dyfodiad y Samariaid.

Y disgyblion a ddaethant ato, ac a atolygasant iddo, gan ddywedyd, Rabbi, bwyta. Yr oedd y disgyblion yn bryderus yn ei gylch. Ofnent y llethid ef gan newyn a syched. Cofier yr hyn a

ddywedir yn adn. 6, "Yr Iesu gan hynny yn ddiffygiol gan y daith, a eisteddodd felly ar y ffynnon."

32. **Y mae gennyf fi fwyd i'w fwyta yr hwn ni wyddoch chwi oddi wrtho.** Y mae "fi" a "chwi" yn bwysleisiol. Nid "na wyddoch chwi amdano," ond "na wyddoch chwi." Nid bod gan yr Iesu fwyd naturiol na wyddai y disgyblion amdano, ond fod ganddo fwyd nad oedd ganddynt hwy syniad amdano. Yr oedd gan y disgyblion eu bwyd; yr oedd gan yr Iesu ei fwyd hefyd.

33. (Ynglŷn â ffurf yr ymddiddan hwn â'r disgyblion gwêl Rhagarweiniad).

A ddug neb iddo ddim i'w fwyta? Golyga ffurf y gofyniad hwn y disgwylir ateb nacaol. Y mae'r gofyniad yn braw nad oedd gan y disgyblion syniad am natur y bwyd y cyfeirir ato yn yr adnod flaenorol. Yr unig beth a welant hwy yn y geiriau yw'r posibilrwydd y dygwyd bwyd iddo gan rywun pan oeddynt hwy yn absennol. Methodd yr Iddewon â deall ii. 20, methodd Nicodemus â deall iii. 4, methodd y wraig â deall adn. 11, ac yn awr metha'r disgyblion â deall adn. 32. "Pa syndod na ddeallodd y wraig y dwfr? Ni ddeall y disgyblion y bwyd!" (Awstin). Cym. xi. 12, xiv. 5.

34. **Fy mwyd i yw gwneuthur ewyllys yr hwn a'm hanfonodd, a gorffen ei waith ef.** Dyma'r bwyd oedd gan yr Iesu i'w fwyta na wyddai y disgyblion. Cofier ei ateb i'r temtiwr, "Nid trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw," a'i eiriau i'w rieni, "Oni wyddech fod yn rhaid i mi fod ynghylch y pethau a berthyn i'm Tad?" Ynddo Ef y cyflawnwyd yn llawn eiriau'r Salm (xl. 8), "Da gennyf wneuthur dy ewyllys, O fy Nuw: a'th gyfraith sydd o fewn fy nghalon." Cynhelid Ef gan atgyfnerthiad ysbrydol na wyddai'r disgyblion. Anghofiodd ei newyn a'i flinder yn y gwaith o ddiwallu angen eraill. Collodd ei syched naturiol yn nhorri syched ysbrydol y wraig.

Ni theimlodd newyn yn yr anialwch nes ennill ohono'r fuddugoliaeth ar Satan (Mt. iv. 2). Cawn gysgod o hyn yn ein profiad ein hunain pan bair angerdd teimlad inni anghofio popeth oddieithr yr hyn y mae'n bryd arno.

Mynegir cydymffurfiad cyflawn Crist ag ewyllys Duw mewn amryw fannau yn yr Efengyl hon: v. 30, vi. 38, xi. 4, xii. 49, 50, xiv. 31, xv. 10, xvii. 4.

A gorffen ei waith ef. Yr Iesu yn unig a orffennodd ei waith. "Mi a orffennais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur" (xvii. 4). "Gorffennwyd" (xix. 30).

Y bywyd ysbrydol yw'r gwir fywyd, a chael cynhaliaeth i hwn yw'r peth pwysig. Bywoliaeth ysbrydol yw'r unig wir fywoliaeth. Nid oes ystyr i'n bodolaeth a moddion ei gynhaliaeth ond fel cyfryngau

i ddatblygiad yr ysbrydol, cyfleusterau i wneuthur ewyllys Duw. Gwneuthur ei ewyllys Ef yw dyletswydd dyn bob munud awr, a'i fnaint. Hyn a ddylai fod ei unig neges dan y rhod.

Am y wobr a geir o wneuthur ewyllys Duw gwêl vii. 17, ix. 31.

35. **Onid ydych chwi yn dywedyd, Y mae eto bedwar mis, ac yna y daw y cynhaeaf?** Rhoddwn y golygiadau a ganlyn am ystyr y geiriau hyn: (a) Ymadrodd diarhebol ydynt, yn dynodi'r amser rhwng hau a medi—pedwar mis. (b) Sylw ydynt a wnaed gan y disgyblion ynghylch stad y cnydau ar y pryd. Rhoddai hyn Ragfyr neu Ionawr fel amser yr ymweliad hwn â Samaria. Yn erbyn yr ail olygiad dywedir y rhoddai hyn yr ymweliad yn nhymor glaw, tra yr awgryma adn. 6, 7, dymor gwres.

Dyrchefwch eich llygaid, ac edrychwch ar y meysydd; canys gwynion ydynt eisoes i'r cynhaeaf. Y meysydd ysbrydol, ac nid y meysydd naturiol yw'r meysydd hyn.

Y mae hyn yn groes i'r drefn naturiol. Gofyn honno i'r hwn a ddymuna fedi ddisgwyl yn amyneddgar. Eithr ni fu cyfwng rhwng hau a medi yn Sichar. "Gwynion ydynt eisoes i'r cynhaeaf." Ni ffynna deddfau naturiol yn y byd ysbrydol bob amser. Cad oriau o dywydd y nefoedd yn Samaria. Heuwyd hanner dydd a medwyd y prynhawn.

36. Yn y frawddeg "canys gwynion ydynt eisoes i'r cynhaeaf" rhoddir "eisoes" ar ôl "cynhaeaf" yn y gwreiddiol, a chysyllta rhai ef â'r adnod hon—"Eisoes yr hwn . . . ."

A'r hwn sydd yn medi, sydd yn derbyn cyflog, ac yn casglu ffrwyth i fywyd tragwyddol. Yma'n unig yn yr Efengyl hon y defnyddir y gair a gyfieithir "cyflog," ond gwneir defnydd helaeth o'r gair a gyfieithir "ffrwyth"—xv. 2, 4, 5, 8, 16. Defnyddir y gair gan yr Apostol Paul i ddynodi'r rhai y bu ef yn gyfrwng troedigaeth iddynt (Rhuf. i. 13). Y gyflog yw'r medi ei hun, oherwydd y llawenydd a rydd. Y ffrwyth yw cynhaeaf gwyn eneidiau yn Samaria, yr hwn a gesglir i fywyd tragwyddol.

"Edrychir ar fywyd tragwyddol fel yr ydlan i'r hon y cesglir y ffrwyth" (Plummer).

Fel y byddo i'r hwn sydd yn hau ac i'r hwn sydd yn medi, lawenychu ynghyd. Medir yn y byd naturiol, ond ar ôl amser hir (adn. 35). "Y rhai sydd yn hau mewn dagrau, a fedant mewn gorfoledd. Yr hwn sydd yn myned rhagddo, ac yn wylo, gan ddwyn had gwerthfawr, gan ddyfod a ddaw mewn gorfoledd, dan gludo ei ysgubau" (Salm cxxvi. 5, 6). "Wele, y mae y llafurwr yn disgwyl am werthfawr ffrwyth y ddaear, ac yn dda ei amynedd amdano, nes iddo dderbyn y glaw cynnar a diweddar" (Iago v. 7). Heuir mewn dagrau, a

rhaid wrth amynedd cyn y ceir medi mewn gorfoledd. Yma, y mae'r hwn sydd yn hau, a'r hwn sydd yn medi, yn llawenychu ynghyd. Proffwydodd Amos (ix. 13) am "y dyddiau y goddiweddai yr arddwr y medelwr, a sathrydd y grawnwin yr heuwr had." Cad peth tebyg yn Sichar.

37. **Yn hyn y mae y gair yn wir.** Yn yr achos hwn, pan fedwyd gan y disgyblion heb iddynt hau.

Arall yw yr hwn sydd yn hau, ac arall yr hwn sydd yn medi. Peth croes i brofiad cyffredin yw nad yr un yw'r heuwr a'r medelwr, y llafurwr a'r hwn a gasgl y ffrwyth. Y llafurwr ddylai yn gyntaf dderbyn y ffrwythau (2 Tim. ii. 6). Peth anymunol yw hau a pheidio â chael medi (Job xxxi. 8). Ac yn Deut. xxviii. 30 a Mic. vi. 15 edrychir arno fel cosb am bechod. "Ac eto," medd Bernard, "digwydd hyn yn fynych, nid oherwydd pechod ond oherwydd anhunanoldeb yr heuwr neu amodau anocheladwy ei waith. Felly yma, yr Iesu oedd yr heuwr, ond caniataodd i'w ddisgyblion fedi. A rhaid i'r llafurwr ym maes yr ysbryd fod yn barod i gydnabod y gall "Un a heua, arall a fed," fod yn amod ei ddefnyddioldeb uchaf.

Eithr cynhwysir mwy yma, a gwrthdyb fwy nag a awgrymir gan y ffaith fod yr heuwr a'r medelwr yn bersonau gwahanol. Y mae bod un yn medi lle nis heuodd yn gyffredin yn destun llawenydd iddo (Deut. vi. 11; Josh. xxiv. 13); ond hawlfraint naturiol arglwydd y meysydd yw hyn, yr hwn a fed lle nis heuodd, ac a gasgl lle nis gwasgarodd. Eithr yma, caniatâ'r Iesu, Arglwydd y cynhaeaf, yr hwn ei Hun a gyflawnodd y gwaith o hau, i'w weision gasglu'r ffrwythau.

38. Ni lafuriodd y disgyblion yn Sichar; heuwyd yr had yno gan yr Iesu ei Hun, ac i ryw fesur gan y wraig o Samaria. "Yr Iesu a'r wraig, yn bennaf, oedd yr 'eraill' yr aethai'r disgyblion i mewn i'w llafur, heb sôn am bob proffwyd a dysgawdr duwiolfrydig a baratodd y ffordd yn Samaria i genadwri Crist" Bernard). Barna Plummer mai'r Iesu ei Hun yw'r heuwr yn y paragraff hwn, er y defnyddir y rhif lluosog.

Cred esbonwyr mai geiriau'r Efengylwr i'r Eglwys fel yr oedd yn ei ddyddiau ef ei hun yw adn. 35—38, ac y golygai wrth "eraill a lafuriasant," y cenhadon Cristionogol cyntaf, y rhai yr aethai ef ac eraill i mewn i'w llafur. Gwêl rhai gyfeiriad at Phylip yr Efengylwr, neu Paul, yr hwn "a lafuriodd yn helaethach na hwynt oll."

Nodiad ymarferol ar "Arall yw yr hwn sydd yn hau, ac arall yr hwn sydd yn medi. Dyna fel y mae pethau yn aml ym maes yr ysbryd, "oblegid amodau anocheladwy'r gwaith neu anhunanoldeb yr heuwr." Eithr y mae cysur yn hyn,—oni fedir gan yr heuwr medir gan rywun. Arall yw yr hwn sydd yn medi, ond medir. Treulia llawer eu

hoes i hau mewn dagrau, heb weled hyd yn oed egin grawn, ond bydd crymanau miniog a disglair ar y maes ryw ddydd. Nid â unrhyw waith i Dduw yn ofer yn y pen draw. Medwn ni'r hyn a heuwyd gan eraill a gorfoleddwn, a bydd i rywrai fedi mewn gorfoledd yr hyn a heuir gennym ni. A chofiwn y medr rhai hau yn well nag y medrant fedi, a rhai fedi yn well nag y medrant hau.

Y mae eisiau amynedd ym myd hau a medi naturiol: y mae eisiau mwy o amynedd ym myd hau a medi ysbrydol. Canys nid yw'r diwedd eto. "Y cynhaeaf yw diwedd y byd, a'r medelwyr yw yr angelion," a disgyn llawer cawod a llawer llygedyn cynnes o heulwen ar y maes cyn yr ymddengys yr angylion arno.

A chofied yr heuwr ym maes yr ysbryd mai peth o'r golwg yn bennaf ac ym mlaenaf yw'r grawn. Gall fod yna er yn anweledig.

Y Samariaid yn credu (adn. 39—42).

Y mae ymddygiad y Samariaid at Grist yma yn wahanol i'r hyn a ddywedir amdanynt yn Luc ix. 53. Yno dywedir na dderbyniasant Ef oblegid bod ei wyneb Ef yn tueddu tu a Jerusalem. A chofier y Samariad gwahanglwyfus diolchgar (Luc xvii. 16, 17).

Nid drwy arwyddion yr enillwyd y Samariaid, ond (a) credasant air y wraig, yr hon oedd "yn tystiolaethu"—yn dal ati i dystiolaethu. Dyna'r modd arferol y dygir dynion at Grist ar y cyntaf. "Ac nid wyf yn gweddio dros y rhai hyn yn unig, eithr dros y rhai hefyd a gredant ynof fi trwy eu hymadrodd hwynt" (xvii. 20). "Ffydd sydd trwy glywed, a chlywed trwy air Duw" (Rhuf. x. 17).

Atolygodd y Samariaid i'r Iesu—parhasant i atolygu iddo—"aros gyda hwynt." "Ac efe a arhosodd yno ddeuddydd." Cenhadaeth fer â fu, eithr un lwyddiannus iawn.

(b) Credasant oherwydd iddynt glywed yr Iesu eu hunain, ac nid weithian oherwydd ymadrodd y wraig. Drwy gyffyrddiad personol â'r Iesu cawsant yr un datguddiad ag a gawsai'r wraig (adn. 26). Meddent yn awr ffydd uniongyrchol ac nid anuniongyrchol. Cynhyrchir graddau dechreuol ffydd drwy adroddiad eraill, ond drwy brofiad personol y ceir llawn sicrwydd ffydd. "Tyred a gwêl." Yn wir, heb hyn nid yw ffydd yn ffydd wirioneddol. Y mae'n dyled i eglwys a chartref ac ysgol yn fawr, oblegid dywedwyd wrthym am yr Iesu ganddynt. Ond rhaid inni feddu profiad personol o'i ras. Ni wna profiad eraill y tro yn lle ein profiad ni ein hunain. Pan gred dyn yn wirioneddol yng Nghrist, y mae ganddo ei resymau ei hun dros hynny—"ni a'i clywsom ef ein hunain, ac a wyddom mai hwn yn ddïau yw y Crist, Iachawdwr y byd." Ac ni fedr dim ddirymu awdurdod profiad personol. Credwn i'r wraig lawenhau pan welodd fod ei chyfeillion yn awr yn annibynnol arni hi, megis y gwna pob gwir gennad.

Sylwer: (1) Teimla'r hwn a gredodd yng Nghrist y rhaid iddo ei gyffesu. Ni all beidio â gwneuthur hynny; mae'n llawn o awydd dweud wrth eraill.

(2) Dwg dywedyd am Grist wrth eraill fendith i'r hwn a wna hynny. Dyfnheir argraffiad drwy fynegiad. A chadarnheir ein ffydd ni gan y ffydd a gynhyrchir mewn eraill drwy ein tystiolaeth ni. Ceisiodd y wraig gymorth yng nghydweithrediad ei chyfeillion i brofi gwirionedd ei phrofiad (29), ac nid oes amheuaeth na chadarnhawyd ei ffydd pan welodd ffydd eraill.

(3) Cyffesa'r hwn sydd yn credu, oherwydd dymuna i eraill gael eu hachub. Y mae'r gwir ddisgybl yn troi yn apostol heb aros i'w ordeinio.

Iachawdwr y byd. Yma ac yn 1 Ioan iv. 14 yn unig y ceir y teitl rhyfedd, "Iachawdwr y byd." Ai y Samariaid ai yr Efengylwr ei hun a roddes y teitl hwn i Grist? Y mae yn deitl priodol iawn i ddynodi'r agwedd gyffredinol yn yr hon y datguddiwyd Crist i'r Samariaid, ac ni welwn ddim a'i gwna yn amhosibl credu mai hwy a'i defnyddiodd. Teimlent y gallai'r Hwn a'u hachubodd hwy achub pawb.

43 Ac ym mhen y ddeuddydd efe a aeth ymaith oddi yno,
44 ac a aeth i Galilea. Canys yr Iesu ei hun a dystiol-
aethodd, nad ydyw prophwyd yn cael anrhydedd yn
45 ei wlad ei hun. Yna pan ddaeth efe i Galilea, y Galile-
a'i derbyniasant ef, wedi iddynt weled yr holl bethau
a wnaeth efe yn Jerusalem ar yr wyl: canys hwythau
a ddaethant i'r wyl.

MYNED O SICHAR I GALILEA (adn. 43—45).

43. **Ac ymhen deuddydd.** Y deuddydd a enwir yn adn. 40.

44. Y mae'r adnod hon wedi peri anhawster i esbonwyr, a cheir gwahanol farnau ynghylch ei hystyr. Ni ddywedir yma pryd y dyfynnodd yr Iesu'r ddihareb adnabyddus, "Nid yw proffwyd yn cael anrhydedd yn ei wlad ei hun." Yr unig beth a ddywedir yw iddo wneuthur hyn. Priodolir y dywediad i'r Iesu yn Mt. xiii. 57, Marc vi. 4, a Luc iv. 24. Yn y lleoedd hyn, "ei wlad ei hun" yw Nazareth, lle y rhoddwyd croeso gwael iddo. At ba le y cyfeirir yn "ei wlad ei hun" yma?

Rhoddwn wahanol olygiadau: (1) Y farn fwyaf cyffredin yw bod yr Iesu yn gadael gwlad lle na chawsai anrhydedd am wlad lle yr an-

rhydeddid Ef. Yn ôl y golygiad hwn Jerusalem neu Judea yw "ei wlad ei hun." Rhoddir y rhesymau a ganlyn yn erbyn y golygiad hwn: (a) Yr oedd gan yr Iesu lawer o ddisgyblion yn Judea (ii. 23), a dengys iv. 1 mai ei lwyddiant yno a achosodd ddrwgdybiaeth y Phariseaid. (b) Gwyddai'r Efengylwr mai am Nazareth y llefarwyd y geiriau a ddyfynnir yma ac mai "o Galilea" yr oedd yr Iesu.

(2) Yr oedd yr Iesu wedi tynnu sylw yn Judea. Dymuna ymneilltuo i'r wlad lle ni roid cymaint o anrhydedd iddo. Nid am y wlad a adawsai y dywedodd "nad yw proffwyd yn cael anrhydedd yn ei wlad ei hun," eithr am y wlad yr oedd yn myned iddi. Golyga'r esboniad hwn i'r Iesu yn fwriadol fyned i wlad lle y disgwyliai na fyddai i'w genhadaeth ennyn diddordeb cyhoeddus,—peth a fyddai yn beryglus ar hyn o bryd. Ond yn ôl adn. 45 fel arall y trodd allan.

(3) Awgryma rhai y dylai adn. 44 gael ei gosod ar ôl adn. 46, a gwelant yn y dywediad y rheswm paham yr aeth yr Iesu i Gana ac nid i Nazareth.

(4) Dychwel yr Iesu i Galilea gydag anrhydedd a enillodd yn Judea, gyda'r gobaith y gorchfygid yn awr y rhagfarn a fynegir yn y ddihareb.

Barn Origen yw mai Jerusalem neu Judea yw "ei wlad ei hun." Dywaid mai Jerusalem oedd "gwlad" yr holl broffwydi a'r Iesu hefyd.

45. **Yr ŵyl.** Gŵyl y Pasg. Gwêl ii. 23. Derbyniodd y Galileaid yr Iesu wedi iddynt weled yr holl bethau a wnaeth yn Jerusalem ar yr Wyl. Yr oedd ei air yn unig yn ddigon i argyhoeddi'r Samariaid.

46 Felly yr Iesu a ddaeth drachefn i Cana yn Galilea, lle y gwnaeth efe y dwfr yn win. Ac yr oedd rhyw bendefig, yr hwn yr oedd ei fab yn glaf yn Capernaum.
47 Pan glybu hwn ddyfod o'r Iesu o Judea i Galilea, efe a aeth atto ef, ac a attolygodd iddo ddyfod i waered, a iachâu ei fab ef: canys yr oedd efe ym
48 mron marw. Yna Iesu a ddywedodd wrtho ef, Oni welwch chwi arwyddion a rhyfeddodau, ni chred-
49 wch. Y pendefig a ddywedodd wrtho ef, O Arglwydd,
50 tyred i waered cyn marw fy machgen. Iesu a ddywedodd wrtho ef, Dos ymaith; y mae dy fab yn fyw. A'r gwr a gredodd y gair a ddywedasai Iesu

51 wrtho, ac efe a aeth ymaith. Ac fel yr oedd efe yr
awrhon yn myned i waered, ei weision a gyfarfuant
âg ef, ac a fynegasant, gan ddywedyd, Y mae dy
52 fachgen yn fyw. Yna efe a ofynodd iddynt yr awr y
gwellhasai arno. A hwy a ddywedasant wrtho, Doe,
53 y seithfed awr, y gadawodd y cryd ef. Yna y gwybu
y tad mai yr awr honno *oedd*, yn yr hon y dywedasai
54 Iesu wrtho ef, Y mae dy fab yn fyw. Ac efe a gred-
54 odd, a'i holl dŷ. Yr ail arwydd yma drachefn a wnaeth
yr Iesu, wedi dyfod o Judea i Galilea.

IACHAU MAB Y PENDEFIG (adn. 46—54).

46. **Lle y gwnaeth efe y dwfr yn win.** Nodiad eglurhaol.

Pendefig. Swyddog brenin, yn llys Herod Antipas, i'r hwn y rhoddwyd y teitl "brenin" er mai tetrarch yn unig oedd.

47. Y mae mab y swyddog yn glaf, ac yn ei dristwch daw'r tad at yr Iesu. "Atolygodd iddo ddyfod i waered"—i waered o wlad fryniog Cana i lan Môr Galilea—"a iacháu ei fab ef; canys yr oedd efe ym mron marw." Gallwn gredu, medd Muirhead, y perodd gweled gŵr fel hwn i "ddagrau sefyll" yn llygaid yr Iesu, gŵr a geiriau heb lawer o oleuni, ond yn benderfynol, am beth oedd iddo ef yn fwy na'r byd.

48. Gofyn yr Iesu am rywbeth mwy mewn ffydd nag a amlygwyd gan y pendefig, a dywaid, "Oni welwch chwi arwyddion a rhyfeddodau, ni chredwch." Gellir cymryd y geiriau hyn yn y modd gofynnol neu yn y modd mynegol. Defnyddir y rhif lluosog oblegid y cynhwysir y dosbarth o bobl y perthynai'r pendefig iddo, er mai wrth berson unigol y llefara'r Iesu. Gofynnai'r Iddewon am arwyddion (1 Cor. i. 22) yng Nghana fel yn Jerusalem. Sylwer ar y gwahaniaeth rhwng y Galileaid a'r Samariaid, a gredasant heb arwyddion. Yr ystyr yw, "Oni chyflawnaf weithredoedd allanol a rhyfedd ni chredwch ynof."

Ergyd meddyg a phroffwyd sydd yma, medd Muirhead, at y pethau gau a dyfasant tros galon y grefydd Iddewig.

49. Er yr hyn a ddywedir yn yr adnod flaenorol deil y tad i geisio. Ac nid yw'r Iesu wedi gwrthod ei gais yn bendant. Dywaid "O Arglwydd, tyred i waered cyn marw fy machgen"—"fy machgen bach." "Fy machgen bach," meddai'r tad yn ei ing; "mab," meddai'r Efengylwr; "bachgen," meddai'r gweision. Dywaid Bengel fod dau wendid yn y ffydd a amlygir yma—rhaid i'r Iesu fod

yn bresennol yn bersonol i iachâu, ac ni all roddi iachâd wedi i'r clâf farw. Cym. yr hyn a ddywedir am Mair a Martha yn xi. 21—32.

50. Rhoddes ateb yr Iesu braw llym ar ffydd y tad—"Dos ymaith; y mae dy fab yn fyw." "Gwyrth o hollbresenoldeb neu o hollwybodaeth, neu'r ddau" (Reith). Pan adawodd y tŷ, yr oedd ei fab ym mron marw. Eithr credodd y gair a ddywedasai'r Iesu, ac aeth ymaith. Cyf. ffydd y Galileaid (45), a chym. ffydd y Samariaid (41).

51. Gwelwyd y cyfnewidiad yng nghyflwr y clâf, ac aeth y gweision i gyfarfod y tad i'w hysbysu ei fod yn fyw. Eithr gwyddai ef hynny, oblegid credasai air yr Iesu.

53. Gwelodd y tad mai pan ddywedasai yr Iesu wrtho ef, "Y mae dy fab yn fyw," y daeth y tro yn y clefyd—y seithfed awr, un o'r gloch y prynhawn yn ôl ein dull ni o gyfrif amser.

Oddeutu ugain milltir yw'r pellter rhwng Cana a Chapernaum, a gwêl rhai anhawster yn y ffaith na chyrhaeddodd y tad adref hyd y diwrnod nesaf, er iddo gael gair yr Iesu fod ei fab yn fyw am un o'r gloch y prynhawn. I gyfarfod â'r anhawster digon yw dywedyd y cyfrifai yr Iddewon un diwrnod o fachlud haul i fachlud haul. Felly ni byddai'r diwrnod nesaf ond ychydig oriau o'r awr a nodir yma.

Credwn y gwnaeth tad "y bachgen bach" gymaint o frys ag a wnâi'r esbonwyr a boenir gan yr anhawster hwn.

54. **Ac efe a gredodd, a'i holl dŷ.** Dyma'r enghraifft gyntaf o amryw a geir yn y Testament Newydd o grefydd deuluaidd yn cael ei hachosi drwy droedigaeth y penteulu. Cym. Act. xvi. 15, &c. Byddai yn dda pe dygai pob gwaredigaeth deuluaidd gymaint o fendith ag a ddug hon.

Hoffa Ioan bwysleisio'r modd yr ymlêd ffydd drwy dystiolaeth.

Y mae'r hanes a roddir yn 51—53 yn un byw iawn. Gwna ei naturioldeb inni deimlo'n sicr mai hanes yw. Gofyn y tad, "Pa bryd y daeth y tro?" Etyb y gweision, "Doe, y seithfed awr." Dywaid y tad, "Dyna'r awr y dywedodd yr Iesu, 'Y mae dy fab yn fyw.'" Mor ffyddlon i natur yw siarad fel hyn ynghylch gwaredigaeth o'r fath: mor debyg yw i'n profiad ni ein hunain. Amgylchiad bythgofiadwy oedd hwn.

Sylwer ar y graddau mewn ffydd yn y paragraff hwn,—adn 49, 50, 53. (1) Credu oherwydd arwyddion a rhyfeddodau; (b) credu gair yr Iesu; (c) credu yn yr Iesu ei Hun.

Dywaid Holtzmann fod y swyddog hwn a gredodd air yr Iesu yn deip o wir gredinwyr dyddiau diweddarach—darllenwyr yr Efengyl—y rhai a barhant i ymddiried er bod pellter amser rhyngddynt a'r wyrth, megis ag yr oedd pellter ffordd rhyngddo ef a hi.

Golyga rhai esbonwyr mai adroddiad am yr un ffaith a geir yma ag yn Mt. viii. 5—13 a Luc vii. 1—10. Y mae'r gwahaniaethau rhwng

yr hanes a roddir yma a'r hanes a rydd Mt. a Luc yn erbyn y golygiad hwn. Nodwn nifer ohonynt:—

1. Swyddog brenin a geir yma; canwriad yn Mt. a Luc.
2. Y mae yn debyg mai Iddew oedd y swyddog hwn; cenedlddyn oedd y canwriad.
3. Gan y cryd y dioddefai'r claf yma; gan y parlys yn Mt. a Luc.
4. Yma, gofynnir i'r Iesu fyned i waered a iacháu y claf; yno, gofynnir iddo yn unig ddywedyd y gair, a pheidio â myned i dŷ'r canwriad.
5. Yma, yng Nghana y dywedwyd y gair; yno, yng Nghapernaum.
6. Yma, mab a iachawyd; yno, gwas.
7. Yma, ffydd egwan a amlygir; perodd ffydd y canwriad syndod i'r Iesu.

NODIADAU YCHWANEGOL.

Yr Addoliad Newydd. "Ymddiddan dwfn a thrawiadol â gwraig gyffredin nad oedd ond prin wedi ei gweled. Ni chyfrannodd ddysgeidiaeth uwch hyd yn oed i'r ddisgyblion" (Bengel).

"O chwili am ryw le uchel, rhyw le santaidd, gwna i ti deml i Dduw o'th fewn. 'Canys santaidd yw teml Duw, yr hwn ydych chwi.' A fynnech di addoli mewn teml? Gweddia o'th fewn dy hun. Yn unig bydd di'n gyntaf yn deml i Dduw, canys clyw Ef yn ei deml yr hwn a weddia" (Awstin).

Iachâd mab y pendefig. "Enghraifft nodedig o'r Iesu yn peidio â 'diffoddi llin yn mygu,' megis nad oedd ei gerydd i'r wraig o Samaria yn 'dryllio corsen ysig.' Chwythodd y wreichionen o ffydd ym mynwes y pendefig yn fflam glir a pharhaol i roddi goleuni a chysur iddo ef a'i deulu" (Alford).

"Drwy ddywedyd un gair, iachaodd enaid y tad a chorff y mab" (Cyril).

"Gwêl nid yn unig ei wyrthiau, ond ei athrawiaeth" (Chrysostom).

Adn. 1—42. Rhydd J. A. Robertson yr elfeniad a ganlyn o adn. 1—42: Y deml hollbresennol a ffynnon fewnol yr ysbryd. Y mae'r deml yn hollbresennol am mai oddi mewn y mae. Ac oddi mewn y mae'r ffynnon. Arbed hyn inni dreuliau teithio.

PENNOD V.

1 Wedi hynny yr oedd gwyl yr Iuddewon; a'r Iesu a aeth i fynu i Jerusalem.

YR IESU YN MYNED I FYNY I JERUSALEM I ŴYL YR IDDEWON (adn. 1).

1. **Wedi hynny.** Wedi'r pethau hyn. Yn yr Efengyl hon dynoda'r rhif unigol olyniaeth amseryddol agos, a'r rhif lluosog olyniaeth amhenodol—cyfnod newydd yn yr hanes.

Gŵyl yr Iddewon. Ceir y fannod o flaen "gŵyl" mewn rhai Llawysgrifau—**yr** ŵyl: ond y mae'n debyg y dylid ei gadael allan.

Ni fedrwn benderfynu pa ŵyl y cyfeirir ati, a rhydd esbonwyr wahanol olygiadau: Gŵyl y Purim (ym Mawrth), Gŵyl y Pasg (yn Ebrill), Gŵyl y Pentecost (ym Mai), Gŵyl y Pebyll (yn Hydref), y Gysegr-ŵyl (yn Rhagfyr). Rhoddir y rhesymau a ganlyn yn ffafr y farn mai Gŵyl y Purim yw yr ŵyl hon: (a) Y cyfeiriad ymddangosiadol at y gwanwyn yn iv. 35a, "Y mae eto bedwar mis, ac yna y daw'r cynhaeaf;" (b) agosrwydd Gŵyl y Pasg (vi. 4). Os cymerir iv. 35a fel dywediad diarhebol, megis y gwna esbonwyr, ni phenderfyna'r adeg o'r flwyddyn yr ymwelodd yr Iesu a'i ddisgyblion â Samaria.

Bernir gan esbonwyr fod dadleoliad yn y rhan hon o'r Efengyl, ac y dylid gosod y bennod hon ar ôl y chweched (gwêl Rhagarweiniad): eithr ni cheir unrhywiaeth barn ynghylch yr ŵyl ymhlith yr esbonwyr a wna hyn. Barna rhai ohonynt mai Gŵyl y Pasg a enwir yn vi. 4 ydyw, tra y barna eraill mai Gŵyl y Pentecost ydyw, y nesaf o'r Gŵyliau Iddewig ar ôl Gŵyl y Pasg.

Am Wyl y Purim gwêl Esth. ix. 21, 26.

2 Ac y mae yn Jerusalem, wrth *farchnad* y defaid, lyn
a elwir yn Hebraeg, Bethesda, ac iddo bùm porth;
3 Yn y rhai y gorweddai lliaws mawr o rai cleifion,
deillion, cloffion, gwywedigion, yn disgwyl am gyn-
4 hyrfiad y dwfr. Canys angel oedd ar amserau yn
disgyn i'r llyn, ac yn cynhyrfu y dwfr: yna yr hwn
a elai i mewn yn gyntaf ar ol cynhyrfu y dwfr, a âi
5 yn iach o ba glefyd bynnag a fyddai arno. Ac yr
oedd rhyw ddyn yno, yr hwn a fuasai glaf namyn dwy

6 flynedd deugain. Yr Iesu, pan welodd hwn yn gorwedd, a gwybod ei fod ef *felly* yn hir o amser bellach, a ddywedodd wrtho, A fynni di dy wneuthur yn iach?
7 Y claf a attebodd iddo, Arglwydd, nid oes gennyf ddyn i'm bwrw i'r llyn, pan gynhyrfer y dwfr: ond tra fyddwyf fi yn dyfod, arall a ddisgyn o'm blaen i.
8 Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Cyfod, cymmer dy wely i
9 fynu, a rhodia. Ac yn ebrwydd y gwnaed y dyn yn iach; ac *efe* a gododd ei wely, ac a rodiodd. A'r Sabbath oedd y diwrnod hwnnw.

IACHAU Y CLAF WRTH LYN BETHESDA (adn. 2—9).

"Ni bydd diwedd byth ar rinwedd
Sylwedd mawr Bethesda lyn."

2. **Ac y mae yn Jerusalem.** Nid yw'r defnydd o'r amser presennol yma yn profi nad oedd Jerusalem wedi ei dinistrio pan ysgrifennwyd yr Efengyl hon. "Byddai yn naturiol i hen ŵr yn edrych yn ôl ar y ddinas fel yr adwaenid hi ganddo ef, ddywedyd "y mae," yn arbennig pan sonia am lyn neu ffynnon" (Bernard).

Marchnad y defaid. Sylwer bod "marchnad" mewn llythrennau Italaidd. Ansoddair yn unig a geir yma—yr oedd y llyn wrth rywbeth cysylltiedig â defaid. Eithr wrth ba beth? Rhoddwn wahanol olygiadau: (a) "porth" y defaid. Gwyddom oddi wrth Neh. iii. 1, 32, xii. 39, fod yna borth y defaid yn Jerusalem. Dywaid Watkins fod y ffaith mai yma'n unig yn y Testament Newydd y ceir yr ansoddair Groeg am "ddefaid," ac yn yr Hen Destament yn unig yn y mannau y cyfeiriwyd atynt uchod, yn penderfynu yr ystyr uwchlaw amheuaeth—"porth" y defaid; (b) "marchnad" y defaid; (c) "llyn" y defaid. Dywaid Josephus fod Jerusalem yn gyfoethog mewn llynnoedd.

Llyn a elwir yn Hebraeg, Bethesda. Hebraeg: Aramaeg, yr iaith a arferid yn gyffredin, ac nid hen Hebraeg yr Ysgrythurau.

Bethesda. Y mae yn amhosibl penderfynu safle'r llyn. Y mae amheuaeth hyd yn oed ynghylch yr enw, canys ceir cefnogaeth yn y Llawysgrifau i Bethesda, Bethsaida, a Bethzatha. Barna Robinson mai Ffynnon y Forwyn, i'r de o'r deml, yw llyn Bethesda. Ystyr Bethesda yw "tŷ trugaredd," a gall hyn olygu mai sefydliad dyngarol ydoedd.

Ac iddo bum porth. I roddi cysgod i'r cleifion.

3, 4. **Deillion, cloffion, gwywedigion** : y gwahanol fathau ar "rai cleifion" a orweddai yn y pyrth. Meddai y llyn rinwedd meddyginiaethol, ac yr oedd iddo mae'n debyg ffynnon a darddai ar amserau (intermittent).

Y mae'r ail ran o adn. 3, "yn disgwyl am gynhyrfiad y dwfr," ac adn. 4, yn eisiau yn y Llawysgrifau hynaf. Y mae'r ychwanegiad hwn yn hen, canys yr oedd yn wybyddus i Tertullian. Gwnaed ef fel esboniad ar adn. 7. Teimlid y gofynnai am eglurhad, a dyma'r eglurhad a roddwyd. "Nid yw priodoli ffeithiau naturiol i achos goruwchnaturiol yn gweithredu yn anweledig nac yn afresymol nac yn anysgrythurol" (Reith). Gwell fyddai anwybyddu ail-achosion na'r achos cyntaf.

5. Parhasai y clefyd y dioddefai'r dyn ganddo namyn dwy flynedd deugain. Ni ddywedir mai dyna oedd oed y dyn, na'i fod wedi disgwyl wrth y llyn yr holl amser hyn. Nodir yr amser i ddangos nad peth byr-barhaol oedd y clefyd. Cym. Luc xiii. 11; Act. iv. 22, ix. 33.

6. Daeth yr Iesu at y llyn a gwelodd hwn yn gorwedd yno.

A gwybod ei fod ef felly yn hir o amser bellach : mewn modd goruwchnaturiol, efallai, fel y gwyddai hanes y wraig o Samaria; neu drwy glywed y rhai a safent gerllaw yn siarad. Yr oedd cyflwr y dyn yn adnabyddus. Dewisodd yr Iesu yr achos gwaethaf.

Awgryma Abbott y dylid edrych ar weithred yr Iesu yng ngoleuni ei esboniad Ef ei Hun yn adn. 19. "Gwelodd" y weithred yn cael ei chyflawni gan y Tad yn y nefoedd, ac am hynny wedi ei phenodi i'w chyflawni gan y Mab ar y ddaear. Methwn â gweled y rhydd yr esboniad cywrain hwn unrhyw oleuni ar y mater.

A fynni di dy wneuthur yn iach? Ymddengys y cwestiwn yn ddianghenraid, ond ar ôl ysbaid mor hir o ddioddef anobeithiol y mae hyd yn oed y dymuniad am wellhad yn marw. Gwanychir yr ewyllys. Gofyn yr Iesu y cwestiwn i ddeffro diddordeb a gobaith yn y claf. A wna y dieithrddyn hwn iddo yr hyn na wnaeth neb arall?

7. **Nid oes gennyf ddyn i'm bwrw i'r llyn.** Yr oedd y claf yn ddigyfaill. Gwelsai ddydd ar ôl dydd gynhyrfiad y dwfr, ond y cyntaf a ddisgynnai i'r llyn pan gynhyrfid y dwfr yn unig a iacheid (felly y credid), a methasai ef, oherwydd ei wendid, ac am nad oedd ganddo ddyn i'w fwrw i'r llyn yr amser hwnnw, â sicrhau'r fantais o fod y cyntaf.

Arall a ddisgyn o'm blaen i : arall, nid eraill. Awgryma hyn nad oedd lle ond i un.

8. **Cyfod, cymer dy wely i fyny, a rhodia.** Gwely: "pallet" neu "mattress."

Ni ofyn yr Iesu mewn geiriau am ffydd, ac ni ddywedir mewn geiriau i'r claf amlygu ffydd. "Y mae dynion wedi rhyfeddu yn aml at hyn. Os mynegiad mewn geiriau neu rywbeth y tu allan i ddyn yw ffydd, y mae achos i ryfeddu: eithr os egwyddor fywiol yw, "gweled yr anweledig," yn ofer y ceisiwn am enghraifft fwy trawiadol o'i gallu nag a geir yn y dyn hwn, yr hwn, trwy y cwbl ac er gwaetha'r cwbl, a ymddiriedodd yn nhrugaredd Duw, a ddisgwyliodd amdani, ac a feddai ffydd i'w iacháu. Gwêl yr Iesu ynddo'r gallu hwn i dderbyn, y gallu oedd yn gryfder i'r claf yn ei wendid, a geilw ef allan. Gorchymyn i'r hwn na fedrai ond prin symud gyfodi, ac i'r hwn a orweddasai ar ei wely ddeunaw mlynedd ar hugain ddwyn y gwely hwnnw a rhodio!" (Watkins).

Dywaid Bernard na ddangosir bod unrhyw berthynas rhwng yr iachâd a ffydd o du'r hwn a iachawyd.

Cym. yr hanes hwn â hanes iachâd y claf o'r parlys yn Mt. ix., Marc ii., a Luc v.

9. **Ac yn ebrwydd.** Cym. Marc ii. 12. Cerddodd allan i'r heol fel pe na buasai ei afiechyd blin ond breuddwyd.

A'r Sabbath oedd y diwrnod hwnnw. Dyma bwynt yr hanes i Ioan. Cym. ix. 14.

10 Am hynny yr Iuddewon a ddywedasant wrth yr hwn
a wnaethid yn iach, Y Sabbath yw hi: nid cyfreith-
11 lawn i ti godi *dy* wely. Efe a attebodd iddynt, Yr
hwn a'm gwnaeth i yn iach, efe a ddywedodd wrthyf,
12 Cyfod dy wely, a rhodia. Yna hwy a ofynasant iddo,
Pwy yw y dyn a ddywedodd wrthyt ti, Cyfod dy wely,
13 a rhodia? A'r hwn a iachasid ni wyddai pwy oedd
efe: canys yr Iesu a giliasai o'r dyrfa oedd yn y fan
14 *honno*. Wedi hynny yr Iesu a'i cafodd ef yn y deml,
ac a ddywedodd wrtho, Wele, ti a wnaethpwyd yn
iach: na phecha mwyach, rhag digwydd i ti beth a
15 fyddo gwaeth. Y dyn a aeth ymaith, ac a fyneg-
odd i'r Iuddewon, mai yr Iesu oedd yr hwn a'i
16 gwnaethai ef yn iach. Ac am hynny yr Iuddewon a
erlidiasant yr Iesu, ac a geisiasant ei ladd ef, oblegid
17 iddo wneuthur y pethau hyn ar y Sabbath. Ond yr
Iesu a'u hattebodd hwynt, Y mae fy Nhad yn gweithio

18 hyd yn hyn, ac yr ydwyf finnau yn gweithio. Am hyn gan hynny yr Iuddewon a geisiasant yn fwy ei ladd ef, oblegid nid yn unig iddo dorri y Sabbath, ond hefyd iddo ddywedyd fod Duw yn Dad iddo, gan ei wneuthur ei hun yn gystal â Duw.

GWRTHWYNEBIAD YR IDDEWON I WAITH YR IESU YN IACHAU AR Y SABBATH, A'I HUNANAMDDIFFYNIAD YNTAU (adn. 10—18).

10. Yr Iddewon. Gwêl ar i. 19.

Y Sabbath yw hi: nid cyfreithlawn i ti godi dy wely. Yr oedd llythyren y gyfraith yn ffafr yr Iddewon: cym. Jer. xvii. 21; Neh. xiii. 5. Eithr torrodd yr Iesu trwy eu deddfau mân a phoenus i amddiffyn gwir ddeddf y Sabbath. Yr oeddynt hwy wedi gŵyrdroi amcan daionus y Sabbath ac wedi ei wneuthur yn ddiwrnod o gaethiwed annioddefol. Defnyddient ef fel y prif achlysur i amlygu eu parch allanol i ddeddf Duw. Yr oedd eu ffurfioldeb wedi lladd eu crefydd, a'u duwiolfrydedd eu duwioldeb.

"Gwnawn eilunod o'n heglwysi, o'n credoau, o'n trefniadau, o'n Sabbathau, o'n Beiblau o bosibl, pan ddiffydd sêl fel hon ein cariad at Dduw a dyn er mwyn Crist. Dieithr yw'r tân" (Reith).

11. Rhydd y dyn reswm da am ei waith yn dwyn ei wely ar y Sabbath. Ufuddhau a wna i ewyllys yr Hwn a'i hiachaodd—peth na ellid ei feio am ei wneuthur. Medd y Crist a rydd fywyd newydd awdurdod i ryddhau dynion oddi wrth gaethiwed yr hen ddeddf.

Efe: "that very man." Amlyga'r dyn ysbryd herfeiddiol (Meyer).

12. Defnyddir "dyn" yma mewn ystyr ddirmygus—"the fellow." Ni chymer yr Iddewon sylw o'r ffaith i'r dyn ddywedyd ei fod wedi ei iacháu, eithr o doriad deddf y Sabbath: nid o iachâd y claf, ond o'r gorchymyn iddo gyfodi ei wely. Yr oeddynt yn fwy parod i weled troseddu deddf nag i lawenhau yn adferiad dyn fuasai glaf namyn dwy flynedd deugain.

Dengys vii. 23 mai gwaith yr Iesu yn iacháu ar y Sabbath oedd cyhuddiad yr Iddewon yn ei erbyn mewn gwirionedd, er eu bod yma yn dewis yn hytrach bwysleisio'r trosedd o ddwyn baich ar y dydd hwnnw.

13. **Ni wyddai pwy oedd efe.** Nid oedd yr Iesu yn adnabyddus i bawb yn Jerusalem.

Canys yr Iesu a giliasai o'r dyrfa oedd yn y fan honno. Gall hyn olygu i'r Iesu gilio oherwydd bod tyrfa yn y fan honno, neu iddo allu cilio'n rhwydd oherwydd bod tyrfa yno. Oherwydd iddo gilio o'r dyrfa ni chafodd yr hwn a iachawyd gyfle i ofyn iddo pwy ydoedd.

14. **Wedi hynny**: wedi'r pethau hyn, eithr nid yn uniongyrchol.

A'i cafodd ef yn y deml. Lle yr aethai i ddiolch am ei adferiad o bosibl. "Deuaf i'th dŷ ag offrymau poeth; talaf i ti fy addunedau" (Salm lxvi. 13). Collasai olwg ar yr Iesu; er hynny, yr oedd yn wrthrych anymwybodol ei ofal.

Na phecha mwyach. Gellir yn rhesymol gasglu oddi wrth hyn mai oherwydd ei bechod y dioddefasai. Cym. Marc ii. 5—12. Y mae'r ferf yn y modd gorchmynnol presennol, yn dynodi sefyllfa barhaol—"na fydd bechadur mwyach."

Rhag digwydd i ti beth a fyddo gwaeth. Ceir gwahanol olygiadau ar hyn (a) colledigaeth dragwyddol; (b) yr oedd peth gwaeth yn bosibl iddo yn y byd hwn na deunaw mlynedd ar hugain o wendid parlysol. Cym. Mt. xii. 45; 2 Pedr ii. 20.

Ni chyfeiriodd Crist at ei bechod wrth ei iachâu, yr hyn a wnaeth yn achos y claf o'r parlys a ddygwyd ato gan bedwar (gwêl Mt. ix 2; Marc ii. 5; Luc v. 20). Y mae'n bosibl na fedrai dim ond gwaredigaeth allanol ddeffro ei feddwl. Ond yr oedd mewn perygl yn awr, y perygl o ddefnyddio ei nerth newydd i bechu. Byddai hynny yn beth gwaeth na'r afiechyd blin a hirbarhaol y dioddefasai oddi wrtho. Dylem wylied rhag defnyddio trugareddau Duw i bechu i'w erbyn (Gal. v. 13). Gwell fyddai gorwedd yn ddiymadferth na defnyddio iechyd i wasanaethu pechod. Y mae yna aelodau y buasai yn well pe na symudasent. Da fuasai i rai pe nas ganesid hwy (Mt. xxvi. 24). Rhodd fawr ydyw bywyd yn y byd, eithr y mae hefyd yn rhodd a ddwg gyda hi gyfrifoldeb mawr. "Ti a wnaethpwyd yn iach"—cymer ofal, paid â defnyddio dy aelodau i bechu; y mae gennyt fantais i hynny yn awr nad oedd yn dy feddiant o'r blaen. Nid oes gennym gopi o "Mary Magdalene" (Maeterlinck) wrth law, ond cofiwn fod yna rywbeth i'r perwyl hwn ynddo: "Pe na buasai yr Iesu wedi rhoddi traed i gloffion ni fuasent yn alluog i redeg ymaith mor gyflym pan welsant y perygl o fod yn agos ato." Gwell yw bod heb fendith na'i cham-ddefnyddio. Ynglŷn ag iachâd un byddar dywedir am yr Iesu, "A chan edrych tu a'r nef, efe a ocheneidiodd, ac a ddywedodd wrtho, Ephphatha, hynny yw, Ymagor." Y mae'n bosibl mai wrth feddwl am y cyfrifoldeb a ddygai'r gallu i glywed i'r byddar yr ocheneidiodd yr Iesu oedd fawr ei allu a'i ras.

1. Cyn gynted ag y gwybu y dyn pwy a'i gwnaethai yn iach, aeth ymaith a dywedodd wrth yr Iddewon mai yr Iesu a wnaethai hynny. Nid oes sail i dybied ei fod yn anniolchgar neu yn bwriadu bradychu ei gymwynaswr. Haws yw credu mai ei gyfiawnhau ei hun oedd mewn golwg ganddo, heb amcanu gwneuthur niwed i'r Iesu. Ni wyddai ef am amcanion maleisus yr Iddewon.

Ā'r hanes hwn cym. hanes iachâd y dyn dall yn y nawfed bennod. Ac am berthynas dioddef â phechod gwêl y nodiad ar y drydedd adnod o'r un bennod.

16. Oherwydd ei bod yn eisiau yn y Llawysgrifau gorau, gadawer allan o'r adnod hon y frawddeg, "ac a geisiasant ei ladd ef." Rhoddwyd hi i mewn i egluro'r frawddeg gyntaf yn adn. 18.

Y mae'r berfau yn yr adnod hon yn yr amser amherffaith—yr oedd yr Iddewon yn parhau i erlid yr Iesu am ei fod yn arfer gwneuthur y pethau hyn ar y Sabbath. Rhydd Benardi yr ystyr fel hyn: Dechreuodd yr Iddewon ei erlid am iddo ddechrau gwneuthur y pethau hyn ar y Sabbath. Dyma'r amlygiad agored cyntaf o wrthwynebiad i'r Iesu gan Phariseaid Jerusalem, a'r achos uniongyrchol oedd y troseddau agored cyntaf hwn o ddeddf y Sabbath.

Ym Marc iii. 6, rhoddir yr un rheswm am yr amlygiad cyntaf o elyniaeth yn erbyn yr Iesu yng Ngalilea.

17. **Y mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn.** Gorffwysodd Duw y seithfed dydd oddi wrth ei holl waith, ac yr oedd y rheolau ynglŷn â chadwraeth y Sabbath yn seiliedig ar hynny. Eithr pa beth a olygir pan ddywedir i Dduw orffwys? Nid segurdod llythrennol yw'r gorffwys hwn, ond peth a gyfyd o weithgarwch o'r math uchaf a mwyaf cymwynasgar. Ni orffennodd gwaith y Tad yng nghreadigaeth y byd. Cynnal y byd yn barhaus, rhydd ac adnewydda fywyd. Ni phaid â gwneuthur daioni i ddynion nac yn ysbrydol na thymhorol. Pair i'w haul godi ar y Sabbath. Cyfeiriodd yr Iesu y rhai a garent ddeddf at ddeddf uwch na deddf y Sabbath, deddf gofal Tad, na orffwys na Sabbath na Jubili, na haf na gaeaf, na dydd na nos. "Hyd yn hyn" ni pheidiodd y Tad â gweithio. Yr oedd yr Iddewon, pan gyhuddent Ef o dorri'r Sabbath, yn gŵyrdroi nid yn unig ddeddf y Sabbath, ond cymeriad Duw hefyd. Os rhaid atal yr ymarferiad o drugaredd ar y Sabbath, er mwyn ei gadw, yna rhaid i Dduw atal ei ddaioni am yr un rheswm—"syniad annioddefol!" (Reith). Pe na buasai wedi gweithio "hyd yn hyn" ni fuasai'r Iddewon hyn yn fyw i ddwyn y cyhuddiad hwn yn erbyn yr Iesu. Yr oeddynt yn fyw i feio am na phalla tosturiaethau Duw ar y Sabbath. Y mae Duw uwchlaw deddf y Sabbath—ni rwymir Ef ganddi.

Dywed Philo: "Ni phaid Duw â gweithio: canys megis mai priodoledd tân yw llosgi, a phriodoledd eira yw oeri, felly priodoledd Duw yw gweithio."

Ac yr ydwyf finnau yn gweithio. Yn yr un modd. Yr un yw perthynas yr Iesu a'r Sabbath â pherthynas Duw. Hawlia'r rhyddid a berthyn i Dduw mewn cysylltiad ag ef. Rhoddwyd awdurdod i'r Mab i ddwyn ymlaen waith y Tad.

Yr un yw'r ymresymiad a geir yma ynglŷn â'r Sabbath, medd Burkitt, ag a geir yn yr Efengylau eraill, er bod y mynegiad ohono'n wahanol, sef, yr hyn sydd yn iawn a'r hyn nad yw yn iawn, yn wrthgyferbyniol i draddodiadau'r ysgrifenyddion. Y gwahaniaeth rhwng crefydd yr Iesu a chrefydd ei wrthwynebwyr oedd yr honnai Ef feddu gwybodaeth uniongyrchol o ewyllys Duw, tra y dibynnent

hwy ar draddodiadau'r henuriaid. Am hynny, yr oedd Ef yn rhydd i farnu crefydd yr Hen Destament yng ngoleuni gweithredoedd ei Dad.

18. **Am hyn**: am yr hyn sydd yn dilyn.

A geisiasant yn fwy ei ladd ef. Ceir yr ymadrodd "ceisiasant ei ladd ef" yn vii. 1, 19, 25, viii. 37, 40.

Achos cyntaf gelyniaeth yr Iddewon yn erbyn yr Iesu oedd ei waith yn torri deddf y Sabbath; ond yr oedd yn drosedd mwy difrifol ei fod yn galw Duw yn Dad iddo, "ei Dad ei Hun," ei Dad mewn ystyr arbennig. Cym. Rhuf. viii. 32, "ei Fab ei hun." Deallent ei fod drwy ei waith yn galw Duw "ei Dad ei Hun" yn ei wneuthur ei Hun yn gystal â Duw, mewn natur a gwaith. "Deallodd yr Iddewon yr Iesu yn well nag y deallodd yr Ariaid Ef." Cym. x. 33, xix. 7. Sylwer ar yr amser amherffaith—"yr oedd yn torri," "yr oedd yn galw."

19 Yna yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Yn
wir, yn wir, meddaf i chwi, Ni ddichon y Mab wneu-
thur dim o hono ei hunan, eithr yr hyn a welo efe y
Tad yn ei wneuthur: canys beth bynnag y mae efe
yn ei wneuthur, hynny hefyd y mae y Mab yr un
20 ffunud yn ei wneuthur. Canys y Tad sydd yn caru y
Mab, ac yn dangos iddo yr hyn oll y mae efe yn ei
wneuthur: ac efe a ddengys iddo ef weithredoedd
21 mwy na'r rhai hyn, fel y rhyfeddoch chwi. Oblegid
megis y mae y Tad yn cyfodi y rhai meirw, ac yn *eu*
bywhâu; felly hefyd y mae y Mab yn bywhâu y rhai
22 a fynno. Canys y Tad nid yw yn barnu neb; eithr
23 efe a roddes bob barn i'r Mab: Fel yr anrhydeddai
pawb y Mab, fel y maent yn anrhydeddu y Tad. Yr
hwn nid yw yn anrhydeddu y Mab, nid yw yn an-
24 rhydeddu y Tad yr hwn a'i hanfonodd ef. Yn wir
yn wir, meddaf i chwi, Y neb sydd yn gwrando
fy ngair i, ac yn credu i'r hwn a'm hanfonodd
i, a gaiff fywyd tragywyddol, ac ni ddaw i
farn; eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd.
25 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Y mae yr awr yn
dyfod, ac yn awr y mae, pan glywo y meirw lef Mab

26 Duw: a'r rhai a glywant, a fyddant byw. Canys
megis y mae gan y Tad fywyd ynddo ei hunan, felly
y rhoddes efe i'r Mab hefyd fod ganddo fywyd ynddo
27 ei hun; Ac a roddes awdurdod iddo i wneuthur barn
28 hefyd, o herwydd ei fod yn Fab dyn. Na ryfedd-
wch am hyn: canys y mae yr awr yn dyfod, yn yr
hon y caiff pawb a'r sydd yn y beddau glywed ei
29 leferydd ef: A *hwy* a ddeuant allan: y rhai a wnaeth-
ant dda, i adgyfodiad bywyd; ond y rhai a wnaeth-
30 ant ddrwg, i adgyfodiad barn. Ni allaf fi wneuthur
dim o honof fy hunan: fel yr ydwyf yn clywed, yr yd-
wyf yn barnu: a'm barn i sydd gyfiawn; canys nid
ydwyf yn ceisio fy ewyllys fy hunan, ond ewyllys y
Tad yr hwn a'm hanfonodd i.

Y BERTHYNAS RHWNG Y TAD A'R MAB (adn. 19—30).

Bernir gan esbonwyr y dichon mai sylwadau esboniadol o eiddo'r Efengylwr yw adnodau 21—23, 26, 27.

19. Helaethiad yw hyn o'r datganiad mawr yn adn. 17.

Ni ddichon y Mab wneuthur dim o hono'i hunan. Cym. adn. 30, a vii. 28, viii. 28, xiv. 10. "Y mae yn wir am bob dyn na fedr wneuthur dim ohono'i hunan, eithr yn unig yr hyn y galluoga Duw ef i'w wneuthur" (Bernard). "Great men," medd Ruskin, "have a curious undersense of powerlessness." "Gwyddant y medrant wneuthur pethau, ond gwyddant hefyd nad ynddynt, ond drwyddynt, y mae'r gallu." Dywedodd Haydn am ei "oratorio" fawr, "Nid ohonof fi, ond oddi uchod y daeth." Oddi uchod y mae'r nerth; cyfryngau'n unig yw dynion.

Ond y mae'r syniad a geir yma yn ddyfnach. Angenrheidrwydd moesol yw'r rheswm am y cytgord rhwng gweithredoedd y Tad a gweithredoedd y Mab, yn codi o agosrwydd y berthynas rhwng y Tad a'r Mab.

Portreadir y Mab fel yn gweled ar y ddaear yr hyn a wna'r Tad yn y nefoedd. Gweithredoedd anweledig y Tad (eithr gweledig i'r Mab) yw gweithredoedd gweledig y Mab. Medd y Mab wybodaeth uniongyrchol o ewyllys y Tad, a'r ewyllys honno yw cynllun ei waith. Dywedodd yr Iddewon fod yr Iesu yn ei wneuthur ei Hun yn gystal â Duw. Yn lle cadarnhau hynny, dywaid yr Iesu na ddichon Ef wneuthur dim ar wahân i'r Tad. Ei uchelgais yw cynrychioli'r Tad, ac nid bod yn annibynnol arno.

20. Nid yr un gair a gyfieithir "caru" yma ag yn iii. 35 a x. 17; gair yn dynodi serch personol a pherthynas naturiol sydd yma.

Canys y Tad sydd yn caru y Mab. Dyma'r syniad llywodraethol ynglŷn â pherthynas Crist â Duw.

Câr y Tad y Mab â chariad mor gyflawn fel yr amlyga iddo ei weithredoedd pan wna hwynt. Cariad sydd yn gwneuthur y Tad a'r Mab yn un. Cariad sydd yn creu undod yn mhob cylch.

Ac yn dangos iddo yr hyn oll y mae efe yn ei wneuthur. Cyfranoga'r Mab o hollwybodaeth a hollalluogrwydd y Tad.

Ac efe a ddengys iddo ef weithredoedd mwy na'r rhai hyn. Rhoddir i'r Mab ddatguddiad cynyddol o ewyllys y Tad.

Mwy na'r rhai hyn. Mwy na gweithredoedd fel iachâd y claf wrth y llyn. Pa weithredoedd yw'r "gweithredoedd mwy"? Ceir yr ateb yn y paragraff hwn—cyfodi'r meirw a barnu dynol-ryw.

Yn xiv. 2 dywedir y byddai i ganlynwyr yr Iesu wneuthur gweithredoedd mwy na'r rhai a wnaeth Ef yn ystod ei weinidogaeth, ond nid gweithredoedd felly yw "gweithredoedd mwy" yr adnod hon.

Fel y rhyfeddoch chwi. Y mae "chwi" yn bwysleisiol—chwi, yr Iddewon anghrediniol. Enynnodd y gwyrthiau o iachâu'r cleifion nid yn gymaint eu rhyfeddodd â'u llid; ond byddai i'r "gweithredoedd mwy" o fywhau a barnu wneuthur hyd yn oed iddynt hwy ryfeddu.

Priodola traddodiad y dywediad hwn i'r Iesu: "Yr hwn a ryfedda a deyrnasa, a'r hwn a deyrnasa a orffwys."

"Nid yw'r dyn na fedr ryfeddu yn barhaus," medd Carlyle, "yn ddim ond pâr o wydrau heb lygad y tu ôl iddynt."

"Gweithredoedd" yw un o'r geiriau a ddefnyddir gan Ioan i ddynodi gwyrthiau Crist. Gwêl v. 36, vii. 3, 31, x. 25, 32, 38, xiv. 2, xv. 24. (Defnyddir y gair mewn ystyr ehangach mewn mannau). "Yng ngolwg yr Iesu ei Hun," medd Bengel, "nid oedd ei weithredoedd yn wyrthiau."

21. Cawn yma'r gyntaf o'r gweithredoedd mwy a briodolir i'r Mab,—bywhau y meirw. Credwn fod "meirw" a "bywhau" i'w deall yma mewn ystyr gyffredinol—naturiol ac ysbrydol, ac nid ysbrydol yn unig. Y mae'r Iesu yn Atgyfodiad ac yn Fywyd.

Hawlfraint ddwyfol yw bywhau'r meirw. "Myfi sydd yn lladd, ac yn bywhau" (Deut. xxxii. 39); "yr Arglwydd sydd yn marwhau: ac efe sydd yn bywhau: efe sydd yn dwyn i waered i'r bedd, ac yn dwyn i fyny" (1 Sam. ii. 6); "ai Duw **ydwyf** fi, i farwhau, ac i fywhau?" (2 Bren. v. 7). Perthyn yr hawlfraint hon i'r Mab hefyd. Y mae Ef yn Arglwydd bywyd ym mhob cylch, ac i'r canlyniadau pellaf.

Yn 1 Cor. xv. 45 dywedir am Grist ei fod "yn ysbryd yn bywhau."

Y rhai a fynno. Y mae ei ewyllys Ef yn derfynol yn y peth hwn. Ond nid wrth fympwy y gweithreda, a cheir yr amodau—yr ochr ddynol—yn adn. 24. Yr unig derfyn yw gallu dyn i dderbyn.

22, 23. Cawn yma'r ail o'r "gweithredoedd mwy," sef barnu. Awgrymir y syniad o farn yn yr ymadrodd, "y rhai a fynno." Hawlfraint Duw yn barnu (cym. Deut. i. 17) "canys ni ellir gweinyddu barn yn berffaith heb hollwybodaeth" (Bernard). Ond y mae'r swydd hon, sy'n rhyfeddol mewn mawredd, wedi ei "rhoddi" i'r Mab. Dyma un o'r pethau a enwir yn yr Efengyl hon fel pethau a roddwyd iddo.

Rhoes y Tad y gwaith goruchel o farnu yn llaw'r Mab. Y rheswm am hynny a roddir yma yw, "fel yr anrhydeddai pawb y Mab, fel y maent yn anrhydeddu y Tad." Dywaid Reith: "(1) Ordeiniwyd yr anrhydedd a dderbyn Crist oddi wrth ddynion gan y Tad; (2) ffrwyth gweithredoedd y Mab ydyw; (3) y mae'n gydradd â'r anrhydedd a roddir i'r Tad; (4) yn unig drwy anrhydeddu'r Mab y medr dynion ddwyn tystiolaeth i'w hanrhydedd i'r Tad: canys drwy genhadaeth y Mab yr adwaenir y Tad yn wirioneddol. Cyhuddid yr Iesu gan yr Iddewon ei fod yn ei wneuthur ei hun yn gystal â Duw. Etyb yr Iesu fod y fath berthynas rhwng anrhydeddu'r Tad a'i anrhydeddu Ef fel na ellir cael addoliad o'r Tad, na ffydd yn y Tad, nad ydyw yn addoliad o'r Mab ac yn ffydd ynddo."

Dianrhydeddai'r Iddewon yr Iesu (cym. viii. 49) drwy ei gyhuddo o gabledd, ond y mae addoliad yn ddyledus iddo, canys perthyn iddo yr anrhydedd sydd yn ddyledus i'r Tad. Y mae dianrhydeddu'r Mab yn ddianrhydeddu'r Tad. Cym. xv. 23, 1 Ioan ii. 23, Luc x. 16.

"Dychymyg gwag yw enw Duw pan wahenir ef oddi wrth Grist" (Calfin).

24. Yn adn. 24—26 defnyddir bywyd a marwolaeth mewn ystyr ysbrydol. Ceir bywyd tragwyddol drwy glywed a chredu. Nid yw clywed â'r glust allanol yn ddigon; rhaid wrth ufudd-dod mewnol. "Yn y galon, ac nid yn y glust, y mae eisteddle ffydd" (Calfin).

Y mae derbyniad crediniol o air Crist, yr hyn a gynnwys ffydd yn y Tad a'i hanfod, yn dwyn bywyd tragwyddol.

A gaiff fywyd tragwyddol. Yn gywir, y mae ganddo fywyd tragwyddol.

Ac ni ddaw i farn. Ni ddaw'r credadun i farn, canys yn ei achos ef y mae'r farn wedi ei phenderfynu eisoes.

Eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd. "Aeth y newydd i lawr ar hyd y 'line' felltigedig yna fod y dyn yn myn'd i uffern. Ond y mae rhywun yn gweiddi, 'D yw e' ddim yn dod,' 'D yw e' ddim yn

dod.' 'Wel, p'le mae e'?' 'O, mi gweles i e'n croesi i fyny'r 'line' o un 'station' i'r llall tros y bont newydd, ym mraich y brenin Alffa, a'r hen station-master, Cyfiawnder, yn wên dros ei wyneb i gyd" (Evan Phillips). Sylwer mai ystad o farwolaeth yw anghrediniaeth.

25. Yn yr adnod flaenorol dywedir bod gan yr hwn sydd yn clywed ac yn credu fywyd tragwyddol. Ond pa fodd y medr dynion, sydd yn gorwedd yn farw mewn camweddau a phechodau, gredu? Yn yr adnod hon ceir yr ateb—yr ochr ddwyfol i'r mater: "Y mae'r awr yn dyfod, ac yn awr y mae, pan glywo'r meirw lef mab Duw; a'r rhai a glywant, a fyddant byw." Nid yw'r meirw ysbrydol y tu hwnt i gyrraedd llef Mab Duw. Y mae cylch annherfynol i'w lef, ac y mae nerth anfeidrol ynddi. Dryllia rwymau'r bedd. Clywir hi nid yn unig gan ei ddefaid, ond hefyd gan y rhai sydd ym mro angau. "Mynwent foesol fawr yw'r byd, lle gorwedd dynion yn farw mewn pechod . . . . gydag ysbrydoedd mewn cyrff a ddylent fod yn demlau sanctaidd, ond a wnaethpwyd yn feddau aflan. Eithr enfyn Mab Duw ei lef, a phasia ysbryd, cariad, a bywyd trwy ystafelloedd marwolaeth" (Watkins).

26. Yn yr adnod hon ailadroddir gwirionedd adn. 21. Peth deilliedig yw'r gallu i roddi bywyd, ond fel rhoddwr ohono i ddynion y mae'r Mab yr hyn na fedr neb arall fod—ffynhonnell bywyd tragwyddol. Ceir yma ddibyniaeth, "rhoddwyd i'r Mab," a neilltuolrwydd personol, "fod ganddo fywyd ynddo'i hun." Y mae "ei Hun" yn bwysleisiol. "Dyma'r wrthdyb (paradox) fwyaf eofn a lefarwyd gan yr Iesu," medd Godet,—"**rhoddwyd** i'r Mab fod ganddo fywyd ynddo'i **Hun.**"

Dyma un o'r pethau a enwir yn yr Efengyl hon fel pethau a roddwyd i'r Mab.

27. Dychwelir yma at yr hyn a ddywedir yn adn. 22.

Oherwydd ei fod yn Fab dyn. Y mae'r "term" a gyfeithir "Mab dyn" yn wahanol i'r hwn a gyfeithir "Mab y dyn." Y mae'r fannod yn eisiau o flaen "Mab" ac o flaen "dyn."

Medd y Mab awdurdod i wneuthur barn fel hawlfraint ddwyfol. (Gwêl adn. 22, 23). Ond yma priodolir y gwaith hwn i'r Iesu oherwydd ei fod yn gyfrannog o'r natur ddynol—yn Fab dyn. Ei ddyndod yw'r hyn a'i gwna yn gymwys i farnu. Cyflwynwn y rhesymau a ganlyn am hyn: (a) Oherwydd ei fod yn Fab dyn medd wybodaeth brofiadol o feddyliau a bwriadau dynion. A medd gydymdeimlad dynol. Dywediad grasusol a thyner yw hwn, "oherwydd ei fod yn Fab dyn." Yn yr Epistol at yr Hebreaid dysgir bod ei gyffelybrwydd i'w frodyr ym mhob peth yn ei gymhwyso i eiriol drostynt a'u cynorthwyo. Yma, gwna hynny Ef yn gymwys i wneuthur barn. Yn Act. xvii. 31 dywedir y barna Duw y byd mewn cyfiawnder, trwy y gŵr a ordeiniodd Efe.

(b) Ef yw safon y farn. Ef yw delfryd y natur ddynol, ac wrth ei fywyd Ef y bernir ni. Peth cyfrifol yw byw wedi'r Ymgnawdoliad.

Bernir gan rai esbonŵyr nad oes pwyslais i'w roddi ar absenoldeb y fannod, a bod "Mab dyn" i'w ddeall yn yr ystyr o "Fab y dyn," ond methwn â gweled llawer o rym yn y rhesymau a roddir ganddynt yn ffafr y golygiad hwn.

28, 29. At yr atgyfodiad corfforol y cyfeirir yn yr adnodau hyn. Am hynny ni ddywedir "ac yn awr y mae," fel y gwneir yn adn. 25. Yn adn. 20 dywedir y byddai i'r Tad ddangos i'r Mab "weithredoedd mwy na'r rhai hyn"—mwy nag iachâd y claf wrth y llyn—fel y rhyfeddent. Cynnwys y "gweithredoedd mwy" y gwaith o fywhau'r meirw ysbrydol, ac o wneuthur barn yn awr. Y mae hyn yn beth rhyfeddol. Ond y mae yna beth mwy rhyfeddol: llef y Mab fydd yn deffro'r meirw o'u beddau yn yr atgyfodiad corfforol, ac Ef fydd y barnwr yn y farn olaf.

Rhai i atgyfodiad bywyd. Y mae gan y credadun fywyd yn awr, ond cyfyd i fywyd llawnach ar ôl hyn.

Rhai i atgyfodiad barn. Y mae'r farn wedi ei phenderfynu eisoes, canys gwneir barn yn awr, ond yn y farn olaf y datguddir hi ac y dygir hi i berffeithrwydd.

Yr ydym wedi gwahaniaethu rhwng gwahanol ystyron "bywyd" a "marwolaeth" yn y paragraff hwn. Ond ni olygwn wrth hynny y ceir deuoliaeth yn Ioan.

30. Rhoddes y Tad bob barn i'r Mab (adn. 22), ond dibynnai ei gyflawniad o'i waith fel barnwr ar ei ufudd-dod i'w Dad.

Yn adn. 19 dywedir bod y Mab yn gwneuthur yr hyn a welo Ef y Tad yn ei wneuthur: yma dywedir ei fod yn barnu fel y mae yn clywed. Gweithreda fel y gwêl, a barna fel y clyw. Ac y mae ei farn yn gyfiawn, canys ni chais ei ewyllys ei Hun, ond ewyllys y Tad yr Hwn a'i hanfonodd. Gwna farn fel gweithredydd ewyllys y Tad. Y mae y fath undod rhwng y ddwy ewyllys fel nad oes yn y Mab ond un ewyllys, canys y mae ei ewyllys Ef yn ddarostyngedig i ewyllys y Tad: "Nid fel yr ydwyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt ti." Ni ddylanwadir ar ei farn gan hunan-les. I'w alluogi i farnu yn gyfiawn y mae'n anhepgorol hyd yn oed iddo Ef roddi i fyny ei ewyllys ei Hun a cheisio ewyllys Duw. "Nid yw ei genhadaeth yn hunanddeilliedig (19); nid yw yn hunangynhaliol (19, 26); nid yw yn hunangyfeiriedig (30)" (Reith).

Ni allaf fi wneuthur dim ohonof fy hun. Dysgir gwers bwysig inni yn y geiriau hyn. Gwnawn ni ormod ohonom ein hunain. Yr ydym yn rhy wreiddiol, yn rhy annibynnol. Dilynwn ein gogwydd ein hunain. Am hynny y mae'n bywyd yn amddifad o allu a goleuni.

"Gwna di ewyllys Duw fel pe bai hi dy ewyllys di, fel y byddo iddo Yntau wneuthur dy ewyllys di fel pe bai hi ei ewyllys Ef."

31 Os ydwyf fi yn tystiolaethu am danaf fy hunan, nid
32 yw fy nhystiolaeth i wir. Arall sydd yn tystiol-
aethu am danaf fi; ac mi wn mai gwir yw y dystiol-
33 aeth y mae efe yn ei thystiolaethu am danaf fi. Chwy-
chwi a anfonasoch at Ioan, ac efe a ddug dystiolaeth
34 i'r gwirionedd. Ond myfi nid ydwyf yn derbyn tyst-
iolaeth gan ddyn: eithr y pethau hyn yr ydwyf yn
35 eu dywedyd, fel y gwareder chwi. Efe oedd gan-
wyll yn llosgi, ac yn goleuo; a chwithau oeddych
ewyllysgar i orfoleddu dros amser yn ei oleuni ef.
36 Ond y mae gennyf fi dystiolaeth fwy nag Ioan:
canys y gweithredoedd a roddes y Tad i mi i'w gor-
phen, y gweithredoedd hynny y rhai yr ydwyf fi yn
eu gwneuthur, sydd yn tystiolaethu am danaf fi, mai
37 y Tad a'm hanfonodd i. A'r Tad, yr hwn a'm han-
fonodd i, efe a dystiolaethodd am danaf fi. *Ond* ni
chlywsoch chwi ei lais ef un amser, ac ni welsoch ei
38 wedd ef. Ac nid oes gennych chwi mo'i air ef yn
aros ynoch: canys yr hwn a anfonodd efe, hwnnw
39 nid ydych chwi yn credu iddo. Chwiliwch yr ys-
grythyrau; canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn
meddwl cael bywyd tragwyddol: a hwynt-hwy yw
40 y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi. Ond ni fyn-
41 nwch chwi ddyfod attaf fi, fel y caffoch fywyd. Nid
ydwyf fi yn derbyn gogoniant oddi wrth ddynion.
42 Ond myfi a'ch adwaen chwi, nad oes gennych gariad
43 Duw ynoch. Myfi a ddeuthum yn enw fy Nhad, ac
nid ydych yn fy nerbyn i: os arall a ddaw yn ei enw
44 ei hun, hwnnw a dderbyniwch. Pa fodd y gellwch
chwi gredu, y rhai ydych yn derbyn gogoniant gan
eich gilydd, ac heb geisio y gogoniant *sydd* oddi
45 wrth Dduw yn unig? Na thybiwch y cyhuddaf fi
chwi wrth y Tad: y mae a'ch cyhudda chwi, *sef*
46 Moses, yn yr hwn yr ydych yn gobeithio. Canys pe
credasech chwi i Moses, chwi a gredasech i minnau:

47 oblegid am danaf fi yr ysgrifenodd efe. Ond os chwi ni chredwch i'w ysgrifeniadau ef, pa fodd y credwch i'm geiriau i?

YR IESU YN ENWI TYSTION O'I BLAID AC YN RHODDI'R RHESYMAU PAHAM Y GWRTHODID EF (adn. 31—47).

Rhoddir pwys mawr ar dystiolaeth yn yr Efengyl hon. Oherwydd y nodwedd hon gelwir hi gan rai esbonwyr yn "Athroniaeth tystiolaeth." Gwêl y nodiadau ar i. 7. Yn y bennod hon y tystion o blaid yr Iesu ydyw: y Tad (32, 37); Ioan Fedyddiwr (33); ei weithredoedd Ef ei Hun (36); yr Hen Destament (39).

31. **Os ydwyf fi yn tystiolaethu amdanaf fy hunan, nid yw fy nhystiolaeth i wir.** Yr oedd rheol nad oedd un i roddi tystiolaeth yn ei ffafr ei hun. Gwêl Deut. xvii. 6, xix. 15. Cyfeirir ati yn Mt. xviii. 16, Ioan viii. 17, 2 Cor. xiii. 1, 1 Tim. v. 19. Y mae tystiolaeth yr Iesu amdano'i Hun yn wir (gwêl y nodiadau ar viii. 14), ond yma y mae yn ymostwng i ymresymu â'r Iddewon ar eu tir eu hunain ac yn enwi tystion.

32. Yr "arall" yn yr adnod hon yw'r Tad, ac nid Ioan Fedyddiwr. Yr amser presennol a ddefnyddir yma, ond yr amser gorffennol a ddefnyddir ynglŷn â thystiolaeth Ioan Fedyddiwr. Gŵyr yr Iesu drwy ei ymwybyddiaeth bersonol fod tystiolaeth y Tad amdano yn wir.

33. **Chwychwi a anfonasoch at Ioan.** Cym. i. 19.

Ac efe a ddug dystiolaeth i'r gwirionedd. Dyna oedd cenhadaeth Ioan (i. 7).

34. Ni ellir profi y mwyaf drwy y lleiaf; "myfi nid wyf yn derbyn tystiolaeth gan ddyn." Ni ddibrisir tystiolaeth dyn yma, ond nid oedd ar yr Iesu ei heisiau i'w wneuthur ei Hun yn sicr o'i genhadaeth. Cyfeiria at dystiolaeth Ioan nid er ei fwyn ei Hun, ond er mwyn yr Iddewon—"fel y gwareder chwi."

35. **Efe oedd ganwyll.** Yn gywir, efe oedd "lusern." Rhoddir i Ioan Fedyddiwr ei le, ond dim ond ei le. Yr oedd yn llusern, ond llusern oedd. Nid y goleuni oedd (i. 8), ond llusern wedi ei chynnau gan y goleuni hwnnw. Pan ddaw'r goleuni nid oes eisiau llusern. Yng ngholeuni'r haul teifl llusern gysgod. Ymhlith plant gwragedd ni chododd neb mwy nag Ioan Fedyddiwr (Mt. xi. 11), ond nid oedd ond llusern.

Yn 2 Sam. xxi. 17 gelwir Dafydd yn llusern Israel. Cymhwysir "darperaist lusern i'm Heneiniog" (Salm cxxxii. 17) at Ioan Fedyddiwr gan Awstin.

Yn llosgi ac yn goleuo. "Y mae llusern nid yn unig yn llosgi wrth oleuo, ond y mae hefyd yn llosgi ymaith." Nid yw gwasanaeth yn bosibl heb aberth: peth costus ydyw i'r sawl a'i rhydd. Ni allwn oleuo heb losgi ymaith.

A chwithau oeddech ewyllysgar i orfoleddu . . . . ef. "Yn lle gwneuthur defnydd o'r munudau gwerthfawr pan oleuai'r llusern i gyflawni gwaith anhepgorol, ni wnaethant ddim ond dawnsio ac ymddwyn fel ynfydion yn ei golau hyd oni ddiffoddodd" (Godet). Gorfoleddodd y bobl yng ngoleuni Ioan "tel gwybed yn chwarae yn yr heulwen" (Hausrath). Ac ni fu eu gorfoledd ond peth dros amser; darfu'r teithio i lan Iorddonen yn fuan.

36. **Ond y mae gennyf fi dystiolaeth fwy nag Ioan . . . . . hanfonodd i.** Tystiolaeth fwy na thystiolaeth Ioan. Y mae **"fi"** yn bwysleisiol. Dynoda "gweithredoedd" weithredoedd Crist yn gyffredinol—ei holl ymddangosiad yn y cnawd. Praw gweithredoedd yr Iesu ei fod wedi ei anfon gan y Tad. Cym. x. 25, 38, xiv. 11.

37. **A'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd i, efe a dystiolaethodd am danaf fi.** Tystiolaeth anuniongyrchol yw tystiolaeth y Tad yng ngweithredoedd y Mab. Ond rhydd y Tad dystiolaeth uniongyrchol hefyd. Barnwn mai dechrau'r cyfeiriad at yr Ysgrythurau, a enwir yn adn. 39, yw'r adnod hon. Fe'i datguddiodd Duw ei Hun iddynt yn ei air. Dylasent ei glywed a'i weled â chlust a llygad y galon, ond ni chlywsant ei lais Ef un amser, ac ni welsant ei wedd Ef. Gwrthodwn y golygiad mai at y llef o'r nefoedd a disgyniad yr Ysbryd megis colomen adeg Bedydd Crist y cyfeirir, oherwydd y rhesymau a ganlyn: (a) Y mae "un amser" yn rhy amhenodol i'w gysylltu â hynny. (b) Credwn mai cerydd i'r Iddewon yw'r geiriau hyn. Ni ellid eu beio am eu hanwybodaeth o'r amgylchiadau cysylltiedig â Bedydd Crist.

38. **Ac nid yw ei air ef yn aros ynoch.** Nid oes ganddynt feddiant mewnol ohono, oherwydd na chlywsant lais Duw ac na welsant ei wedd Ef yn y gair. Nid gallu yn aros ynddynt oedd, ond rhywbeth y tu allan iddynt.

Canys yr hwn a anfonodd efe, hwnnw nid ydych chwi yn credu ynddo. Y mae hyn yn braw o'r gosodiad nad oedd gair Duw yn aros ynddynt.

Cred Bernard mai yr allwedd i adnodau 37 a 38 yw 1 Ioan v. 9, 10, "Hyn yw tystiolaeth Duw, yr hon a dystiolaethodd efe am ei Fab. Yr hwn sydd yn credu ym Mab Duw, sydd ganddo y dystiol-

aeth ynddo ei hun." Medd y credadun dystiolaeth fewnol, yr hon mewn gwirionedd yw tystiolaeth Duw. Y mae'n wir nad yw'r Tad yn dyst **gweledig**: ni ellir clywed ei lais â'r glust allanol na gweled ei wedd â'r llygad allanol. Eithr erys tystiolaeth Duw mai ei Fab yw Crist yng nghalon y credadun yn barhaus.

Barna Reith mai at dystiolaeth Duw yn y gydwybod y cyfeirir. Y mae gair y Tad yn aros yn yr hwn sydd ffyddlon i gydwybod. Pe gwrandawsai'r Iddewon ar lais Duw yn eu cydwybodau yn siarad am ddaioni a phurdeb a chariad clywsent yr un llais yn yr Iesu.

39. **Chwiliwch yr Ysgrythyrau.** Ai mynegiad o arferiad yw'r geiriau hyn—"yr ydych yn chwilio," ai gorchymyn—"chwiliwch." Ni ellir penderfynu oddi wrth ffurf y gair Groeg, canys yr un o ran ffurf yw'r modd mynegol presennol a'r modd gorchmynnol. Credwn y dengys y cyd-destun mai datganiad o ffaith a geir yma. Yn lle derbyn yr Ysgrythurau fel gallu bywiol a mewnol—"ac nid yw ei air ef yn aros ynoch"—chwilient hwynt am y credent y caent fywyd tragwyddol drwy eu meddu, a'u hastudio mewn modd ffurfiol. Ni cheryddir hwy am eu chwilio, ond am eu chwilio gyda'r syniad anghywir y caent fywyd tragwyddol drwy astudiaeth o'r llythyren a chadwraeth fanol a llafurus o'r ddeddf.

A hwynt-hwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi. Hwynt-hwy, "y rhai hyn," a ddarllenid ganddynt hwy. Yn nhystiolaeth yr Ysgrythurau am Grist y mae eu gwerth. Ynddo Ef y mae ffynhonnell bywyd, ac nid yn yr Ysgrythurau fel y cyfryw. Tystiolaetha'r Ysgrythurau am Grist yn eu hysbryd yn fwy nag yn y llythyren.

40. **Ond (ac eto) ni fynnwch chwi ddyfod ataf fi, fel y caffoch fywyd.** Y nodyn "tragic" eto. Cym. Mt. xxiii. 37, "Jerusalem, Jerusalem, yr hon wyt yn lladd y proffwydi ac yn llabyddio y rhai a ddanfonir atat, pa sawl gwaith y mynaswn gasglu dy blant ynghyd, megis y casgl iâr ei chywion dan ei hadenydd, ac nis mynnech!" Geilw Richmond yr Efengyl hon yn "Efengyl y Gwrthodiad," ac o un safbwynt y mae'r disgrifiad hwn yn gywir.

Yn yr ewyllys y mae'r diffyg—"ni fynnwch chwi." Moesol yw'r anhawster, ac nid deallol. Gall pawb ddyfod os mynnant, ac ni wrthodir neb a ddaw.

41. **Nid wyf fi yn derbyn gogoniant oddi wrth ddynion.** Nid gwagogoniant neu falchder clwyfedig a bair i'r Iesu eu ceryddu oherwydd na dderbyniant ei genadwri (cym. viii. 50). Sylwa Macgregor y rhydd Ef cyn lleied o bwys ar farn ffafriol dynion amdano ag a rydd ar eu tystiolaeth (adn. 34).

42. **Ond myfi a'ch adwaen chwi, nad oes gennych gariad Duw ynoch.** Dyma un rheswm am anghrediniaeth yr Iddewon, "nid oes

gennych gariad Duw ynoch." Cariad dynion at Dduw a olygir yma, ac nid cariad Duw at ddynion. Diffyg cariad at Dduw yw'r rheswm paham y gwrthyd yr Iddewon y Meseia.

43. **Myfi a ddeuthum yn enw fy Nhad.** Enw Duw yw ei gymeriad datguddiedig.

Ac nid ydych yn fy nerbyn i. Y nodyn "tragic" eto (cym. adn. 40).

Ni charant Dduw, ac oherwydd hynny nid ydynt mewn cydymdeimlad â'r Hwn a ddaeth yn enw ei Dad.

Os arall a ddaw yn ei enw ei hun, hwnnw a dderbyniwch. Daeth Ef yn enw ei Dad, ond nis derbyniasant Ef. Os daw arall, yn ei enw ei hun, h.y., "heb ddatguddio enw a natur Duw, megis y gwnaeth yr Iesu" (Bernard), hwnnw a dderbyniant. Y mae'r geiriau i'w deall mewn ystyr gyffredinol. Cym. Marc xiii. 6, 22, "canys llawer a ddaw yn fy enw i, gan ddywedyd, Myfi yw **Crist**; ac a dwyllant lawer. Canys gau-Gristiau a gau-broffwydi lawer a gyfodant, ac a ddangosant arwyddion a rhyfeddodau, i hudo ymaith, pe **byddai** bosibl, ïe, yr etholedigion." Ymddangosodd pedwar gau-Feseia a thrigain.

44. Yn yr adnod hon rhoddir rheswm arall eto am eu **hanghrediniaeth**. Yr oedd eu syniad hwy am ogoniant yn seiliedig ar safonau gau, ar gariad at fawredd cymdeithasol, ac nid ar ddymuniad i ennill cymeradwyaeth Duw. Y mae ffydd yn amhosibl i'r rhai a gais ogoniant gan ddynion.

Pa fodd y gellwch chwi gredu? Y mae "chwi" yn bwysleisiol —"chwi," y rhai ydych yn derbyn gogoniant gan eich gilydd. Dyna'u nod (xii. 43, Mt. vi. 1—8, xxiii. 5, 7). Dywaid Paul (Rhuf. ii. 29) fod clod y gwir Iddew nid o ddynion, ond o Dduw.

Ac heb geisio y gogoniant sydd oddi wrth Dduw yn unig. Oddi wrth "yr unig Dduw." Ni ddefnyddir y fannod o flaen y gair "gogoniant" yn y rhan flaenorol o'r adn, eithr gwneir hynny yma. Ceisient ogoniant gan ei gilydd—y fath ogoniant ag oedd hynny—ond ni cheisient y gogoniant, y gogoniant sydd oddi wrth yr unig Dduw. Dyna'r unig ogoniant gwerth ei gael.

45. **Na thybiwch y cyhuddaf fi chwi wrth y Tad.** Er y beia hwynt yn awr nid rhaid iddynt ofni y bydd iddo eu cyhuddo gerbron Duw—barnwr, ac nid cyhuddwr, a fydd yr Iesu yn y farn olaf.

Y mae a'ch cyhudda chwi, sef Moses. Ni fydd eisiau i'r Iesu fod yn gyhuddwr, canys y mae a'u cyhudda—a'u cyhudda'n awr—sef Moses.

Yn yr hwn yr ydych yn gobeithio. Drwy Moses y rhoddwyd y gyfraith iddynt (vii. 19), a honnent mai disgyblion Moses oeddynt. Yn eu hymosodiadau ar yr Iesu tybient fod Moses o'u plaid. Gobaith ofer, canys nid ydynt yn wir ddisgyblion i Moses, a chânt weled mai ef yw eu cyhuddwr.

Y pethau y gobeithiwn ynddynt, ein breintiau a'n cyfleusterau, a fydd ein cyhuddwyr oni wnawn ddefnydd iawn ohonynt.

46. **Canys pe credasech i Moses, chwi a gredasech i minnau.** Yn gywir, chwi a "gredech" i minnau. Dengys y ffaith na chredant yr Iesu na chredasant Moses, ac y mae hyn yn braw mai Moses yw eu cyhuddwr. Drwy eu hanffyddlondeb i ysbryd y grefydd a broffesent collasant eu safle hyd yn oed fel Iddewon.

Hefyd, pe credasent Moses, byddai iddynt gredu'r Iesu. Y mae'n naturiol i wir Iddew ddyfod yn Gristion.

Oblegid amdanaf fi yr ysgrifennodd efe. Cym. Luc xxiv. 27, 44. Esboniodd yr Iesu, medd G. A. Smith, yr hanes a geir yn yr Hen Destament fel y paratoad dwyfol i'w ddyfodiad Ef ei Hun. Cyflawnodd ei ddeddfau fel mynegiad o gyfiawnder tragwyddol Duw, a rhoddes barhad i lawer o'i iaith yn y deyrnas ehangach y daeth i'w sefydlu. Nid ydym i olygu ein bod i edrych ar holl fanylion defodaeth a hanes Iddewig fel cysgod o Grist neu broffwydoliaeth amdano.

PENNOD VI.

1 Wedi y pethau hyn yr aeth yr Iesu dros fôr Galilea,
2 hwnnw yw *môr* Tiberias. A thyrfa fawr a'i canlyn-
odd ef; canys hwy a welsent ei arwyddion, y rhai a
3 wnaethai efe ar y cleifion. A'r Iesu a aeth i fynu i'r
4 mynydd, ac a eisteddodd yno gyd â'i ddisgyblion. A'r
5 pasc, gwyl yr Iuddewon, oedd yn agos. Yna yr Iesu
a ddyrchafodd *ei* lygaid, ac a welodd fod tyrfa fawr
yn dyfod atto, ac a ddywedodd wrth Phylip, O ba le y
6 prynwn ni fara, fel y caffo y rhai hyn fwytta? (A hyn
a ddywedodd efe i'w brofi ef: canys efe a wyddai
7 beth yr oedd efe ar fedr ei wneuthur). Phylip a'i hat-
tebodd ef, Gwerth dau càn ceiniog o fara nid yw
ddigon iddynt hwy, fel y gallo pob un o honynt gym-
8 meryd ychydig. Un o'i ddisgyblion a ddywedodd
9 wrtho, Andreas, brawd Simon Petr, Y mae yma ryw
fachgennyn, a chanddo bùm torth haidd, a dau bys-
10 godyn: ond beth yw hynny rhwng cynnifer. A'r
Iesu a ddywedodd, Perwch i'r dynion eistedd i lawr.
Ac yr oedd glaswellt lawer yn y fan *honno*. Felly y
gwŷr a eisteddasant i lawr, ynghylch pùm mil o nifer.
11 A'r Iesu a gymmerth y torthau, ac wedi iddo ddiolch,
efe a'*u* rhannodd i'r disgyblion, a'r disgyblion i'r
rhai oedd yn eistedd; felly hefyd o'r pysgod, cym-
12 maint ag a fynnasant. Ac wedi eu digoni hwynt, efe
a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, Cesglwch y briw-
13 fwyd gweddill, fel na choller dim. Am hynny hwy
a'*u* casglasant, ac a lanwasant ddeuddeg basgedaid
o'r briw-fwyd o'r pùm torth haidd a weddillasai gan
y rhai a fwyttasent.

PORTHI'R PUM MIL (adn. 1—13).

"Porthaist y pum mil gwerin
Â'r pum torth bara haidd."

Porthi'r pum mil yw'r unig weithred yn mywyd cyhoeddus yr Iesu cyn yr ymweliad olaf â Jerusalem a adroddir gan y pedwar Efengylwr. Ychwanega Mt., Marc, a Ioan hanes yr ystorm ar y môr, ond ni wna Luc hynny.

Rhydd Mt. (xiv. 13—21) y wyrth ar ôl dihenydd Ioan Fedyddiwr; Marc (vi. 31—44) a Luc (ix. 10—17) ar ôl dychweliad y deuddeg o'u cenhadaeth, ac ar ôl dihenydd Ioan Fedyddiwr. Gwnaethai llafur y disgyblion ennyd o orffwys yn angenrheidiol—"Deuwch i le anghyfannedd o'r neilltu, a gorphwyswch ennyd" (Marc vi. 31). Hefyd, yr oedd drwgdybiaeth Herod wedi ei chyffroi a dymunai weled yr Iesu (Luc ix. 9).

At yr hanes fel y'i ceir yn Marc y mae'r hanes a rydd Ioan agosaf, ond dengys y gwahaniaethau a'r manylion ychwanegol yn yr hanes fel y'i rhoddir gan Ioan lygad-dyst annibynnol.

Nodwn nai ohonynt:—

(a) Yn yr Efengylau eraill geilw'r disgyblion sylw'r Iesu at sefyllfa'r dorf (Mt. xiv. 15, Marc vi. 35; Luc ix. 12): yn Ioan geilw'r Iesu ei Hun sylw at hyn.

(b) A gwnaeth hynny pan "welodd fod tyrfa fawr yn dyfod ato," ac nid "wedi ei myned hi yn hwyr" (Mt. xiv. 15. Cym. Marc vi. 35; Luc ix. 12).

(c) Yn yr Efengylau eraill, rhennir y bwyd gan y disgyblion (Mt. xiv. 19; Marc vi. 41; Luc ix. 16). Yn Ioan rhennir ef gan yr Iesu. (Y mae'r geiriau, "i'r disgyblion, a'r disgyblion," yn adn. 11 i'w gadael allan, yn ôl y Llawysgrifau mwyaf awdurdodol). Dywaid Strachan y rhydd gwaith yr Iesu yn galw sylw at angen y dyrfa, ac yn rhannu'r bwyd ei Hun, bwyslais ar ei gydymdeimlad a'i wasanaeth gostyngedig, ac ar ei hunan-ddigonolrwydd.

(d) Gan Ioan yn unig yr enwir Phylip ac Andreas, a'r bachgennyn yr hwn oedd ganddo bum torth haidd a dau bysgodyn.

(e) Ef yn unig a ddywaid mai torthau "haidd" oedd y torthau.

(f) Ef yn unig a ddywaid i'r Iesu ddywedyd wrth y disgyblion, "Cesglwch y briwfwyd gweddill, fel na choller dim."

Sylwer ein bod i wahaniaethu'r wyrth o borthi'r pum mil oddi wrth y wyrth o borthi'r pedair mil (Mt. xv. 32—39; Marc viii. 1—9).

1. **Wedi y pethau hyn.** Dynodir amser amhenodol yma.

Yr aeth yr Iesu dros fôr Galilea, hwnnw yw môr Tiberias. Cyfeiriasom at y farn y dylid rhoddi y bennod hon o flaen y bumed bennod. Gwêl y rhai a farnant felly reswm am hynny yn yr adnod hon. Aeth yr Iesu dros fôr Galilea, eithr o ba le? Yn niwedd y bedwaredd bennod y mae'r Iesu a'i ddisgyblion yng Nghana, a chawn

hwy yn awr yn croesi môr Galilea. Aethant o Gana i Gapernaum, ac oddi yno dros y môr i'r ochr ogleddol iddo. (Gwêl Rhagarweiniad).

Dywaid Luc (ix. 10), "i le anghyfannedd yn perthyn i'r ddinas a elwir Bethsaida," ar ochr ogleddol y môr.

Defnyddia Mt. a Marc y disgrifiad "môr Galilea;" Luc, "llyn Gennesaret." Yn Ioan xxi. 1 ceir "môr Tiberias." Yr enw a roddir iddo yn yr Hen Destament yw "môr Cinnereth" (Num. xxxiv. 11).

Adeiladwyd tref Tiberias yn ystod bywyd ein Harglwydd, gan Herod Antipas, yr hwn a roddes iddi'r enw Tiberias o barch i'r ymherawdr Tiberius. Adeiladwyd hi ar ochr orllewinol y môr, a rhoddwyd ei henw iddo. Yr oedd yr enw "môr Tiberias" yn naturiol yn fwy adnabyddus yn amser ysgrifennu'r Efengyl hon nag yn amser ysgrifennu'r Efengylau eraill.

2. Y mae'r berfau yn yr adnod hon i gyd yn yr amser amherffaith, yn dynodi parhad.

Dywaid Mt. (xiv. 13), "Hwy a'i canlynasant ef ar draed allan o'r dinasoedd,"—trwy rydau Iorddonen y mae'n debyg.

Y rheswm a roddir yma am eu gwaith yn canlyn yr Iesu yw, "canys hwy a welsant ei arwyddion y rhai a wnaethai efe ar y cleifion."

Esbonir presenoldeb y dyrfa fawr gan y pethau a ganlyn: (a) Yr oedd Ioan Fedyddiwr wedi ei roddi i farwolaeth, a byddai ei ganlynwyr ef yn awr yn canlyn Crist; (b) dychwelasai y deuddeg yn awr o'u cenhadaeth yng Ngalilea; (c) yr oedd gŵyl y Pasg yn agos, a byddai lliaws yn myned o Galilea i Jerusalem.

3. **A'r Iesu a aeth i fyny i'r mynydd.** Y wlad fryniog ar ochr ddwyreiniol y môr.

Ac a eisteddodd yno gyda'i ddisgyblion. Cym. Mt. v. 1 Yn ôl Marc (vi. 33) yr oedd y dyrfa wedi cyrraedd o flaen yr Iesu a'i ddisgyblion. Yn Marc (vi. 30) a Luc (ix. 10), gelwir y disgyblion oedd gyda'r Iesu yn apostolion.

5, 6. **A ddywedodd wrth Phylip, O ba le y prynwn ni fara, fel y caffo'r rhai hyn fwyta?** Fel y gwelir yn yr adnod nesaf, ni ofynnodd yr Iesu y cwestiwn hwn oherwydd bod arno eisiau gwybodaeth neu gyngor,—"A hyn a ddywedodd efe i'w brofi ef: canys efe a wyddai beth yr oedd efe ar fedr ei wneuthur." Y mae'n bosibl y gofynnwyd y cwestiwn yn unig i weled a oedd gan Phylip rywbeth i'w awgrymu; ond credwn y gofynnwyd ef i brofi ei ffydd, ac i ddangos iddo mor amherffaith oedd eto. "Y peth a geisiai'r Iesu gan Phylip oedd nid bara, ond ffydd" (Awstin). "Ymddengys bod synnwyr cyffredin Phylip yn gryfach na'i ffydd weithiau (cym. xiv. 8), ac yr oedd eisiau dysgu iddo na sicrheir y pethau gorau bob amser drwy weithredu yn ôl egwyddorion masnachol."

Dywaid Bernard fod y sylw a geir yn adn. 6 yn dangos camddealltwriaeth ar ran yr Efengylwr. Cred Ioan fod eisiau esbonio **paham** y dywedodd yr Iesu wrth Phylip. "O ba le y prynwn ni fara?" oherwydd y dymuna ochel portreadu Crist fel yn gofyn cwestiwn a awgrymai na wyddai yr ateb iddo. Eithr ni sylweddolir gwir ddyndod yr Iesu, medd Bernard, os cymerwn yn ganiataol na ofynnodd gwestiynau ynglŷn ag amgylchiadau cyffredin bywyd. Gofynnwyd y cwestiwn yma i ŵr oedd yn gyfarwydd â'r gymdogaeth, ac nid oes eisiau ei esbonio na'i esbonio ymaith.

Credwn ni mai cwestiwn Ioan yn adn. 6 yw'r esboniad cywir ar adn. 5. "Ni ellir cymryd yr Iesu 'by surprise,' ond y mae Ef yn 'surprise' i bawb a ddaw i gyffyrddiad ag Ef."

7. Ceiniog oedd cyflog arferol llafurwr am ddiwrnod, ac yr oedd yn gyfartal i oddeutu 9c. o'n harian ni, a buasai dau can swllt yn nes i'r gwreiddiol na dau can ceiniog. Pe buasai gan y disgyblion ddau can ceiniog buasai hynny yn swm rhy fach i brynu bwyd i dyrfa mor fawr.

Mynegiad o'r anhawster yw ateb Phylip, a phraw y meddwl am yr ochr ddynol i'r mater ac nid am yr adnoddau dwyfol.

8, 9. Pwysleisia Phylip faint yr anhawster, pwysleisia Andreas fychander yr adnoddau.

Pum torth haidd. Gan ei fod yn rhatach na gwenith, bara haidd oedd bwyd cyffredin y tlawd. Cym. Barn. vii. 13 ac Ezek. xiii. 19.

Dau bysgodyn. Ceid cyflawnder o bysgod yn y llyn. Bara a physgod oedd bwyd arferol y bobl gyffredin.

10. **Perwch i'r dynion eistedd i lawr.** Rhoddai'r gorchymyn hwn braw ar ffydd y dyrfa, tra ar yr un pryd y byddai'n foddion i hyrwyddo rhaniad trefnus y bwyd. Dywaid Marc (vi. 40), "A hwy a eisteddasant yn finteioedd a minteioedd, o fesur cannoedd, ac o fesur deg a deugeiniau." A dywaid Luc (ix. 14), "Gwnewch iddynt eistedd yn fyrddeidiau, bob yn ddeg a deugain."

Ac yr oedd glaswellt lawer yn y fan honno. Y gwanwyn oedd, ar ôl y tymor glawog. "A'r pasg oedd yn agos" (adn. 4).

Ynghylch pum mil o nifer. "Heblaw gwragedd a phlant" (Mt. xiv. 21).

11. **Ac wedi iddo ddiolch.** Defnyddir gair gwahanol am "ddiolch" yn yr Efengylau eraill yn yr un cysylltiad (Mt. xiv. 19; Marc vi. 41; Luc ix. 16); ond yn yr hanes a roddant am y wyrth o borthi'r pedair mil defnyddia Mt. (xv. 36) a Marc (viii. 6) y gair a

ddefnyddir gan Ioan yma, y gair o'r hwn y daw "eucharist,"—y Cymun Bendigaid.

Dywaid Mt., Marc a Luc i'r Iesu edrych i fyny tu a'r nef wedi cymryd ohono'r torthau a'r pysgod. Dirgelwch llwyddiant yw edrych i fyny tu a'r nef.

12, 13. Dywaid y pedwar Efengylwr i'r dyrfa gael eu digoni. Nid tamaid a gawsant, ond pryd sylweddol, ac nid pryd "alegoriaidd," fel y cred rhai esbonwyr.

Dywaid Ioan iddynt gael nid yn unig ddigon o fara, ond o bysgod hefyd, "felly hefyd o'r pysgod, cymaint ag a fynasant." Yr oedd y basgedi—yr un gair a ddefnyddir gan y pedwar Efengylwr—yn llai na'r basgedi y casglwyd y briwfwyd ynddynt pan borthwyd y pedair mil: basgedi teithio oeddynt,—*wallets*.

NODIADAU YCHWANEGOL.

Dadleuir nad oes angen am y wyrth hon. Gallasai'r Iesu anfon y bobl ymaith i brynu bwyd iddynt eu hunain, fel, yn ôl yr Efengylwyr eraill, y gofynnodd y disgyblion iddo wneuthur. Ond cymerai Ef ddiddordeb dwfn yn anghenion cyffredin bywyd. Ac yr oedd gwragedd a phlant yn bresennol.

Beth yw hynny rhwng cynifer? Dyna fel y meddyliai'r disgyblion; ond nid eu meddwl hwy oedd meddwl yr Iesu. Gwna Ef ddefnydd o'r hyn a ymddengys i ni yn beth rhy fach i'w gymryd i ystyriaeth.

Yr hyn a wna'r gwahaniaeth yw bendith Crist. Yr oedd rhyw gymaint o werth yn y torthau a'r pysgod, ond y *plus* dwyfol a'u gwnaeth yn ddigon i ddiwallu angen y miloedd.

Sylwer ar ofal yr Iesu, "na choller dim."

Mewn ysgrif "On the futility of Arithmetic," dywaid Kennedy Williamson fod un *sum* o leiaf mewn rhifyddiaeth yn y Testament Newydd. Pan wynebwyd Crist gan dyrfa newynog, troes at Phylip a dywedodd, "O ba le y prynwn ni fara, fel y caffo'r rhai hyn fwyta?" Gweithiodd Phylip y *sum* allan drwy *mental arithmetic*, a dywedodd,—"Gwerth dau can ceiniog o fara nid yw ddigon iddynt hwy, fel y gallo pob un ohonynt gymryd ychydig." Yr oedd rhifyddiaeth Phylip yn gywir, ond yr oedd yn ofer. Lle bo Duw, mae rhifyddiaeth yn dueddol i brofi'n anghywir. Gall Ef wneuthur dau a dau yn fwy na phedwar. Pan ddaw'r amser, byddai'n briodol cerfio'r geiriau hyn ar feddfaen "*poor old arithmetic*"—"A llanwasant ddeuddeg basgedaid o'r briwfwyd o'r pum torth haidd a weddillasai gan y rhai a fwytasent." Y mae'r rhifyddiaeth hwn yn beth na cheir yn y gwerslyfrau arferol.

14 Yna y dynion, pan welsant yr arwydd a wnaethai yr
Iesu, a ddywedâsant, Hwn yn ddïau yw y proffwyd
15 oedd ar ddyfod i'r byd. Yr Iesu gan hynny, pan
wybu eu bod hwy ar fedr dyfod, a'i gipio ef i'w wneu-
thur yn frenhin, a giliodd drachefn i'r mynydd, ei
hunan yn unig.

BWRIAD I GIPIO'R IESU A'I WNEUTHUR YN FRENIN (adn. 14, 15).

14. Ni ddywedir dim gan yr Efengylwyr eraill am frwdfrydedd y dyrfa, ond rhydd Luc y cwestiwn, "Pwy y mae'r bobl yn dywedyd fy mod i?" a'r gwahanol atebion iddo yn union ar ôl hanes y wyrth hon.

Canlynodd y dyrfa Ef, medd Ioan, oherwydd iddynt weled ei arwyddion y rhai a wnaethai ar y cleifion, ond yn awr pair yr arwydd fwy hon iddynt edrych arno fel y proffwyd oedd ar ddyfod i'r byd. Argyhoeddwyd y wraig o Samaria ei fod yn broffwyd (iv. 19), a'r dyn dall o'i enedigaeth (ix. 17). Ond yma y proffwyd y disgwylid amdano yw—y proffwyd, y proffwyd a ragfynegir yn Deut. xviii. 15. Cym. i. 21, 25, vii. 40; Mt. xi. 3. Gwelent debygrwydd rhwng y wyrth hon a gwaith Moses yn rhoddi bwyd i'r Israeliaid yn yr anialwch.

15. Ceir y gair am "gipio" yn Mt. xi. 12, "a threiswyr sydd yn ei chipio hi."

Bwriada'r dyrfa ei gipio a'i wneuthur yn frenin, h.y., yn frenin Mesiannaidd, canys credent mai Ef oedd y proffwyd a ddisgwylient. Synient amdano fel eu harweinydd yn erbyn y Rhufeiniaid. Pobl anesmwyth oedd y Galileaid: casaent Rufain, a dyma'r dyn i'w harwain! Ceisient waredigaeth a gogoniant daearol, ac nid cyfnewidiad ysbrydol. Yr un syniad oedd gan y tyrfaoedd amdano pan lefasant "Hosanna" ac y cyfarchasant Ef fel "Brenin Israel." Eithr ni dderbyniodd yr Iesu'r teitl yn yr ystyr a roddent hwy iddo. Cym. xviii. 36. Dyma demtasiwn Mt. iv. 8; Luc iv. 5. Gwêl yr Iesu ei natur, a chilia drachefn i'r mynydd, ei Hunan yn unig, y mynydd o'r hwn y disgynasai i borthi'r miloedd. Yn ôl yr Efengyl hon penderfynid gyrfa Crist gan gymhellion mewnol, ac nid gan gymhellion allanol. "Ni ddaethai ei awr ef eto." Dywedir gan Mt. (xiv. 22) a Marc (vi. 45) i'r Iesu yrru ei ddisgyblion i fyned i'r llong. Ni ddywedir hynny yma, ond ni adawsai'r disgyblion Ef ar ôl heb ei orchymyn. Ac yn yr hyn a ddywedir gan Ioan am frwdfrydedd y dyrfa gwelwn paham y gyrrodd yr Iesu ei ddisgyblion i fyned i'r llong.

Ni ddywaid Ioan, fel y gwneir gan Mt. (xiv. 23) a Marc (vi. 45), i'r Iesu ollwng y dyrfa ymaith.

Dywaid Mt. (xiv. 23) a Marc (vi. 46) i'r Iesu esgyn i'r mynydd i weddio. Efallai yr awgrymir hynny yma yn yr ymadrodd, "ei hunan yn unig." Dyna oedd ei arfer.

"Enciliai Ef i'r mynydd
I alw ar ei Dad."

16 A phan hwyrhâodd hi, ei ddisgyblion a aethant i
17 waered at y môr. Ac wedi iddynt ddringo i long, hwy a aethant dros y môr i Capernaum. Ac yr oedd hi weithian yn dywyll, a'r Iesu ni ddaethai attynt hwy.
18 A'r môr, gan wynt mawr yn chwythu, a godiodd.
19 Yna, wedi iddynt rwyfo ynghylch pump ar hugain neu ddeg ar hugain o ystadiau, hwy a welent yr Iesu yn rhodio ar y môr, ac yn nesâu at y llong; ac ofnasant.
20 Ond efe a ddywedodd wrthynt, Myfi yw; nac ofnwch.
21 Yna y derbyniasant ef yn chwannog i'r llong: ac yn ebrwydd yr oedd y llong wrth y tir yr oeddynt yn myned iddo.

YR YSTORM AR FOR GALILEA (adn. 16—21)

16. **A phan hwyrhaodd hi.** Yr un dydd, rhwng machlud haul a thywyllwch.

17. **I long.** Mewn rhai Llawysgrifau ceir "**y** llong." Y mae'n debyg mai yn eu llong eu hunain y dychwelasant.

A aethant. Yr amser amherffaith—"yr oeddynt yn myned."

I Gapernaum. Yn ôl Marc, "i'r lan arall i Bethsaida" y gorchmynnodd yr Iesu iddynt fyned.

A'r Iesu ni ddaethai atynt hwy. Yn ôl y Llawysgrifau gorau, "ni ddaethai atynt hwy eto." "Ymddengys y disgwylient iddo ddyfod atynt i'r llong. Awgryma esbonwyr y dichon eu bod wedi myned i Bethsaida, fel y gorchmynasai'r Iesu iddynt, ac mai wedi hynny y cawsant y profiad blin a ddisgrifir yn adn. 19, a barhaodd hyd y bedwaredd wylfa o'r nos" (McClymont).

19. **Pump ar hugain neu ddeg ar hugain o ystadau.** Ystâd: oddeutu dau can llath. Y mae'r môr rhwng 6 a 7 milltir o led, a dygai pump ar hugain neu ddeg ar hugain o ystadau hwynt i "ganol y môr" (Marc vi. 47).

Ar y môr. Gall y geiriau a gyfieithir "ar y môr" olygu "wrth y môr," fel y gwnant yn xxi. 1. Ond credwn ni y dengys y cyd-destun mai yr ystyr yma yw, "ar y môr"—ar wyneb y môr. Ni wnâi gweled yr Iesu yn rhodio ar y lan i'r disgyblion ofni.

19, 20. Pan welodd y disgyblion yr Iesu'n rhodio ar y môr ac yn agosáu at y llong, ofnasant. Oherwydd hynny dywedodd wrthynt, "Myfi yw; nac ofnwch." Edrydd Mt. (xiv. 27) a Marc (vi. 50) yr un geiriau cysurlawn, ond rhoddant "cymerwch gysur" o'u blaen. Dywaid Marc a Mt. i'r disgyblion ofni oherwydd y credent mai drychiolaeth oedd yr Iesu.

21. **Yna y derbyniasant ef yn chwannog i'r llong, ac yn ebrwydd yr oedd y llong wrth y tir lle yr oeddynt yn myned.** Gwêl rhai beirniaid yn "ac yn ebrwydd . . . ." gadarnhad i'r golygiad mai ar y lan yr oedd yr Iesu, a rhoddant yr ystyr a ganlyn i'r adnod hon: Dymunai'r disgyblion dderbyn yr Iesu i'r llong, ac yn ebrwydd (cyn y cawsant amser i wneuthur hynny) yr oedd y llong wrth y tir. Ond os hyn yw'r ystyr paham y dywedir "ac" yn ebrwydd, ac nid "ond" yn ebrwydd? Yr ateb a roddir yw, y defnyddir "ac" gan Ioan lle y defnyddir "ond" gan ysgrifenwyr eraill!

Dysgir i ni fod y cyfieithiad "yr oeddynt yn fodlon i'w dderbyn Ef i'r llong" yn gyfreithlon—"they were willing to receive him." Ar y cyntaf petrusent oherwydd ofn, ond ar ôl clywed llais yr Iesu yr oeddynt yn fodlon i'w dderbyn Ef i'r llong. Cyfieithia Moffatt, "they agreed to take him on board."

Dywaid Mt. a Marc i'r Iesu fyned i'r llong, ac ychwanega Mt. yr hanes am Pedr yn ceisio myned ato ar y môr.

A awgrymir elfen wyrthiol yn y geiriau "ac yn ebrwydd . . ."? "Gwelwn ynddynt o leiaf y gwahaniaeth rhwng yr ail ran o'r fordaith a'r rhan gyntaf. Rhwyfodd y disgyblion ynghylch pump ar hugain neu ddeg ar hugain o ystadau, a'r môr, gan wynt mawr yn chwythu, wedi codi. Ofnent ac anobeithient. Eithr yn awr, a'r gwynt a'r môr wedi eu tawelu drwy orchymyn yr Iesu, ac yntau ar y bwrdd, aeth y llong ymlaen yn rhwydd a chyflym. Cymerodd gwrs union. Profodd y disgyblion anhawster a pherygl cyn derbyn yr Iesu i'r llong; ond ar ôl hynny cawsant ddiogelwch a thangnefedd. Ac nid oedd y pellter oedd eto rhyngddynt a'r lan yn ddim iddynt yn eu rhyfeddod a'u llawenydd."

Ym mhob ystorm, os derbyniwn yr Iesu i'r llong, yr ydym yn ebrwydd wrth y tir yr ydym yn myned iddo.

> "Thou Framer of the light and dark,
> Steer through the tempest Thine own ark:
> Amid the howling wintry sea
> We are in port if we have Thee" (Keble).

"Ac efe a'u dug i'r porthladd a ddymunent" (Salm cvii. 30).

NODIADAU YCHWANEGOL.

Bernir gan esbonwyr na fwriada'r Efengylwr gofnodi gwyrth yma. Dywedasom y defnyddir yr ymadrodd a gyfeithir "ar y môr" yma yn xxi. 1, a'r ystyr yno yw "wrth y môr." Disgwyliai'r disgyblion i'r Iesu ddyfod atynt, ac y mae'n debyg mai yr hyn a olygir yma yw hyn:—Pan gyrhaeddodd y llong yr ochr orllewinol i'r môr, ac y gwelodd y disgyblion yr Iesu yn y golau aneglur yn cerdded ar y lan, dychrynwyd hwynt, canys nid oeddynt yn sicr beth a welent. Ni ddywaid Ioan i'r disgyblion dderbyn yr Iesu i'r llong, ond yn unig y dymunent ei dderbyn, pan gawsant fod y fordaith eisoes drosodd. Hefyd, ni chofnoda'r Efengylwr ostegiad gwyrthiol yr ystorm.

Eithr y mae'n eglur yr edrych Mt. a Marc ar y digwyddiad fel gwyrth. Dywaid Marc fod y llong "ar ganol y môr." Felly, rhaid mai rhodio **ar** y môr ac nid **ar lan** y môr a wnaeth yr Iesu. Ond defnyddir yr un geiriad gan Marc â chan Ioan. Dywaid Bernard na olyga "ar ganol y môr" o angenrheidrwydd fwy na bod y dyfroedd o amgylch y disgyblion. Credwn y gellir cymhwyso at hyn eiriau Bernard ei hun am y modd yr esbonir rhai pethau yn yr Efengyl hon gan eraill—"*desperate expedients of exegesis.*"

Geiriad gwahanol a ddefnyddir gan Mt. a Marc am yr Iesu yn rhodio "wrth y môr" pan alwodd y disgyblion.

Cyfeiriasom yn flaenorol at y golygiad y mwyheir yr elfen oruwchnaturiol yn y gwyrthiau gan Ioan. Ond Marc a Mt. sy'n gyfrifol am wneuthur yr hanes hwn yn hanes gwyrth!

Dywaid Bernard fod yr hanes fel y'i rhoddir yma yn fwy syml na'r hanes a rydd Mt. a Marc. Y mae'n union y math ar hanes y gellid yn naturiol ei ddisgwyl oddi wrth Ioan fab Sebedeus, pysgotwr a feddai wybodaeth brofiadol o'r llyn mewn ystorm a thawelwch, ac o'r pellter o un pwynt i'r llall. Ond beth am Pedr, gan yr hwn y credir i Marc gael yr hanes a rydd yn ei Efengyl? Pysgotwr oedd yntau, a chredwn y gwyddai gymaint am y llyn ag a wyddai Ioan.

Credwn ni mai fel gwyrth y rhydd Ioan yr hanes hwn, er na eilw'r digwyddiad yn arwydd, fel y gwna ynglŷn â'r gwyrthiau a gofnodir ganddo.

Nid fel cadarnhad i'n hesboniad o'r hanes y dywedwn hyn: Y mae arnom eisiau Iesu a fedr rodio ar y môr; gallwn ni ein hunain rodio ar ei lan.

22 Trannoeth, pan welodd y dyrfa oedd yn sefyll y tu hwnt i'r môr, nad oedd un llong arall yno ond yr un honno i'r hon yr aethai ei ddisgyblion ef, ac nad aethai yr Iesu gyd â'i ddisgyblion i'r llong, ond

23 myned o'i ddisgyblion ymaith eu hunain; (Eithr
llongau eraill a ddaethent o Tiberias yn gyfagos i'r
fan lle y bwyttasent hwy fara, wedi i'r Arglwydd
24 roddi diolch:) Pan welodd y dyrfa gan hynny nad
oedd yr Iesu yno, na'i ddisgyblion, hwythau a aeth-
ant i longau, ac a ddaethant i Capernaum, dan geisio
25 yr Iesu. Ac wedi iddynt ei gael ef y tu hwnt i'r môr,
hwy a ddywedasant wrtho, Rabbi, pa bryd y daethost
ti yma?

Y DYRFA YN CROESI'R MOR AC YN CAEL YR IESU YNG NGHAPERNAUM (adn. 22—25).

22—24. Gwyddai'r dyrfa nad oedd ond un llong yno yr hwyr blaenorol, ac i'r disgyblion fyned ymaith ynddi heb yr Iesu. Disgwylient, gan hynny, ei gael yn eu plith eu hunain, ond ni chawsant Ef. Yn y cyfamser, daethai llongau eraill yno o Diberias, wedi eu gyrru gan y gwynt yn ystod y nos. Pan welodd y dyrfa nad oedd yr Iesu na'i ddisgyblion yno, aethant i'r llongau o Diberias, a daethant i Gapernaum, gan geisio yr Iesu.

Dywaid Mt. a Marc i'r Iesu ollwng y dyrfa ymaith, ac y mae yn bosibl nad oedd ond y rhai mwyaf brwdfrydig ohonynt wedi aros trwy y nos yn y fan lle y cyflawnwyd y wyrth. Nid yw'n debyg y byddai digon o le i bum mil yn y llongau a ddaeth o Diberias.

22. **Y tu hwnt i'r môr.** Yr ochr ddwyreiniol. Yn adn. 25 dynoda'r un geiriau yr ochr orllewinol. Yn yr adnod hon y mae'r geiriau, "honno i'r hon yr aethai ei ddisgyblion ef," yn eisiau yn y Llawysgrifau gorau. Ychwanegiad esboniadol yw'r frawddeg hon.

23. "Onid rhoddi diolch oedd y trobwynt yn y wyrth (adn. 11) y mae'n anodd deall paham y cyfeirir ato eto yma" (Plummer).

25. **Pa bryd y daethost ti yma?** Tybiwn y golygent fwy na "pha bryd," sef "pa fodd." "Daethant gan ei geisio, ond synnwyd hwynt pan gawsant Ef" (Dods).

26 Yr Iesu a attebodd iddynt, ac a ddywedodd, Yn wir,
yn wir, meddaf i chwi, Yr ydych chwi yn fy ngheisio
i, nid o herwydd i chwi weled y gwyrthiau, eithr o
herwydd i chwi fwytta o'r torthau, a'ch digoni.

27 Llafuriwch nid am y bwyd a dderfydd, eithr am y
bwyd a bery i fywyd tragywyddol, yr hwn a ddyry
Mab y dyn i chwi: canys hwn a seliodd Duw Dad.
28 Yna y dywedasant wrtho, Pa beth a wnawn ni, fel y
29 gweithredom weithredoedd Duw? Yr Iesu a atteb-
odd ac a ddywedodd wrthynt, Hyn yw gwaith Duw:
30 credu o honoch yn yr hwn a anfonodd efe. Dywed-
asant gan hynny wrtho ef, Pa arwydd yr ydwyt ti yn
ei wneuthur, fel y gwelom, ac y credom i ti? pa beth
31 yr wyt ti yn ei weithredu? Ein tadau ni a fwyttasant
y manna yn yr anialwch, fel y mae yn ysgrifenedig,
32 Efe a roddodd iddynt fara o'r nef i'w fwytta. Yna yr
Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf
i chwi, Nid Moses a roddodd i chwi y bara o'r nef:
eithr fy Nhad sydd yn rhoddi i chwi y gwir fara o'r
33 nef. Canys bara Duw ydyw yr hwn sydd yn dyfod
34 i waered o'r nef, ac yn rhoddi bywyd i'r byd. Yna
hwy a ddywedasant wrtho, Arglwydd, dyro i ni y
35 bara hwn yn wastadol. A'r Iesu a ddywedodd wrth-
ynt, Myfi yw bara y bywyd. Yr hwn sydd yn dyfod
attaf fi, ni newyna; a'r hwn sydd yn credu ynof fi,
36 ni sycheda un amser. Eithr dywedais wrthych, i
37 chwi fy ngweled, ac nad ydych yn credu. Yr hyn oll
y mae y Tad yn ei roddi i mi, a ddaw attaf fi: a'r
38 hwn a ddêl attaf fi, nis bwriaf ef allan ddim. Canys
myfi a ddisgynais o'r nef, nid i wneuthur fy ewyllys fy
39 hun, ond ewyllys yr hwn a'm hanfonodd. A hyn yw
ewyllys y Tad a'm hanfonodd i; o'r cwbl a roddes
efe i mi, na chollwn ddim o hono, eithr bod i mi ei
40 adgyfodi ef yn y dydd diweddaf. A hyn yw ewyllys
yr hwn a'm hanfonodd i; cael o bob un a'r sydd yn
gweled y Mab, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragy-
wyddol: a myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd di-
41 weddaf. Yna yr Iuddewon a rwgnachasant yn ei
erbyn ef, o herwydd iddo ddywedyd, Myfi yw y bara

42 a ddaeth i waered o'r nef. A hwy a ddywedasant,
Onid hwn yw Iesu mab Joseph, tad a mam yr hwn a
adwaenom ni? pa fodd gan hynny y mae efe yn
43 dywedyd, O'r nef y disgynais? Yna yr Iesu a atteb-
odd ac a ddywedodd wrthynt, Na furmurwch wrth
44 eich gilydd. Ni ddichon neb ddyfod attaf fi, oddi
eithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd, ei dynnu ef: a
45 myfi a'i hadgyfodaf ef y dydd diweddaf. Y mae yn
ysgrifenedig yn y prophwydi, A phawb a fyddant
wedi eu dysgu gan Dduw. Pob un gan hynny a glyw-
odd gan y Tad, ac a ddysgōdd, sydd yn dyfod attaf fi.
46 Nid o herwydd gweled o neb y Tad, ond yr hwn sydd
47 o Dduw; efe a welodd y Tad. Yn wir, yn wir, medd-
af i chwi, Yr hwn sydd yn credu ynof fi, sydd ganddo
48 fywyd tragywyddol. Myfi yw bara y bywyd. Eich
49 tadau chwi a fwyttasant y manna yn yr anialwch, ac
50 a fuont feirw. Hwn yw y bara sydd yn dyfod i
waered o'r nef, fel y bwyttâo dyn o hono, ac na
51 byddo marw. Myfi yw y bara bywiol, yr hwn a ddaeth
i waered o'r nef. Os bwytty neb o'r bara hwn, efe
a fydd byw yn dragywydd. A'r bara a roddaf fi,
yw fy nghnawd i, yr hwn a roddaf fi dros fywyd y
52 byd. Yna yr Iuddewon a ymrysonasant â'u gilydd,
gan ddywedyd, Pa fodd y dichon hwn roddi i ni *ei*
53 gnawd i'*w* fwytta. Yna yr Iesu a ddywedodd wrth-
ynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Oni fwyttêwch
gnawd Mab y dyn, ac *oni* yfwch ei waed ef, nid oes
54 gennych fywyd ynoch. Yr hwn sydd yn bwytta fy
nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd ganddo
fywyd tragywyddol: ac myfi a'i hadgyfodaf ef yn y
55 dydd diweddaf. Canys fy nghnawd i sydd fwyd yn
56 wir, a'm gwaed i sydd ddïod yn wir. Yr hwn sydd
yn bwytta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i,

57 sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau. Fel yr
anfonodd y Tad byw fi, ac yr ydwyf fi yn byw trwy
y Tad: felly yr hwn sydd yn fy mwytta i, yntau a
58 fydd byw trwof fi. Dyma y bara a ddaeth i waered
o'r nef: nid megis y bwyttâodd eich tadau chwi y
manna, ac y buont feirw. Y neb sydd yn bwytta y
bara hwn, a fydd byw yn dragywydd.

YR IESU YN FARA'R BYWYD (adn. 26—58).

Pan ddywedir mai hanes a geir yn yr Efengyl hon, ni olygir na chrynhoir at ei gilydd ddywediadau ar yr un pwnc a lefarwyd ar achlysuron gwahanol, fel yn ôl rhai esbonwyr, y gwneir yn y bennod hon, a rhennir adn. 26—71 gan Lock fel y canlyn: (a) 26—40 wrth y dyrfa yn yr awyr agored. Crist yn fara'r bywyd. (b) 41—51. Wrth yr Iddewon, mewn synagog mae'n debyg. Bara'r bywyd yw ei gnawd—dros fywyd y byd. (c) 52—59. Wrth yr Iddewon mewn synagog. Ei gnawd a'i waed yw'r gwir fwyd a diod. (d) 60—66. Wrth lawer o ddisgyblion. Yr ysbryd sydd yn rhoddi bywyd. (e) 66—71. Wrth y disgyblion. Yr Iesu yw Sanct Duw. Bernir gan eraill mai un anerchiad yw adn. 26—58.

26. **Y gwyrthiau.** Yn gywir, yr arwyddion. Y ddwy wyrth a gofnodir yma, neu wyrthiau'r Iesu yn gyffredinol. Anwybydda'r Iesu ofyniad y dyrfa, a chyfeiria at yr angen materol a wnâi iddynt ei geisio. Daioni tymhorol a geisient—disgyblion y torthau a'r pysgod oeddynt. Ni welent yn y wyrth o'u porthi arwyddlun o fendith ysbrydol. "Yn lle gweled arwydd yn y bara, ni welsant ond bara yn yr arwydd" (Lange).

Tuedda dynion i geisio yr Iesu nid o'i herwydd Ef ei Hun, ond er mwyn sicrhau mantais dymhorol—safle, neu glod, neu gysur yn y bywyd hwn. Daeth yr Iesu yn bwyta ac yn yfed, a rhoddodd fwyd a diod i ddynion: ond i ddiwallu newyn a syched ysbrydol y daeth Ef i'r byd.

27. Derfydd ymborth naturiol yn y defnydd ohono, a newynir drachefn. Llygrai hyd yn oed y manna (Ex. xvi. 20). Eithr erys y bwyd a rydd Mab y dyn yn yr hwn a gyfranoga ohono fel ffynhonnell barhaus bywyd tragwyddol. "A'r byd sydd yn myned heibio, a'i chwant hefyd: ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys Duw sydd yn aros yn dragywydd" (1 Ioan ii. 17).

Yr hwn a ddyry Mab y dyn i chwi. "I roddi'r bywyd hwn, ac nid i luosogi torthau, y daeth Mab y dyn" (Macgregor). Y mae'r defnydd o'r ymadrodd "Mab y dyn" yn arwyddocaol yng ngoleuni yr

hyn a ddywedir ar ôl hyn yn y bennod hon. (Am "Fab y dyn" gwêl ar i. 51).

Canys hwn a seliodd Duw Dad. Ceir gwahanol farnau ynglŷn â'r frawddeg hon: (a) Drwy'r gwyrthiau fel praw o'i "genhadaeth ddwyfol. (b) Nid yn unig drwy'r gwyrthiau, ond hefyd drwy wyrth yr Ymgnawdoliad. (c) Ym medydd yr Iesu a disgyniad yr Ysbryd arno, yr hyn a ddeallwyd gan Ioan Fedyddiwr fel y dystiolaeth ddwyfol i'w genhadaeth. (d) Gwêl rhai gyfeiriad yma at stampio torthau ag enw'r pobydd. (e) Gwêl eraill gyfeiriad at arfer un a roddai wledd i roddi ei sêl i'r goruchwyliwr a awdurdodid i'w pharatoi.

28. **Pa beth a wnawn ni, fel y gweithredom weithredoedd Duw?** Dynoda "gweithredoedd Duw" y gweithredoedd a orchmynnir gan Dduw, gweithredoedd cymeradwy ganddo.

Dengys y gofyniad hwn duedd y bobl i edrych ar grefydd fel peth allanol. Ni fedrant syniad am fywyd fel rhodd. Dywedodd yr Iesu, "**Llafuriwch** am y bwyd a bery," ond dywedodd hefyd, "yr hwn a **ddyry** Mab y dyn." "Sicrhau rhodd a wna gwaith y credadun yn y diwedd, ac nid ennill tâl" (Westcott).

29. **Hyn yw gwaith Duw . . . .**" "Dywediad nodedig" (Calfin). Rhoddir yn yr adnod hon gnewyllyn dysgeidiaeth Paul am ffydd, ac una ei ddysgeidiaeth ef a dysgeidiaeth Iago. "**Ffydd** yw'r math uchaf ar **waith,** canys drwyddi hi fe'i rhydd dyn ef ei hunan; ac ni fedr bod rhydd **wneuthur** dim sydd yn fwy na'i roddi ei hunan" (Godet).

"Y fath drueni," medd Réveille, "na wyddai Paul am y geiriau hyn pan oedd y disgyblion yn Jerusalem yn ymddwyn yn oeraidd tu ag ato neu hyd yn oed yn ei esgymuno yn enw ffyddlondeb i'w Meistr oherwydd iddo ddywedyd yr un peth."

Rhaid i un gwaith flaenori pob gwaith arall, y gwaith mawr o gredu yng Nghrist, drwy'r hyn yn unig y dygir dyn i berthynas iawn â Duw. Dywedwyd gan rywun fod rhinweddau neilltuol yn ddiwerth heb y rhinweddau cyffredinol: diwerth fyddai inni borthi'r tlawd â'n holl dda, a rhoddi'n corff i'n llosgi, heb fod gennym gariad. A diwerth a diystyr yw gweithredoedd ar wahân i'r gwaith mawr o gredu. Nid drwy weithredoedd y sicrheir telyngdod gerbron Duw, ond drwy ffydd. At bob gweithred na chyfyd o ffydd, o berthynas iawn â Christ, gellid cymhwyso geiriau arlunydd mawr am waith arlunydd arall, gwaith a gyflwynwyd i'w sylw er mwyn iddo roddi ei farn arno,—"It wants **that.**" Ni wna gwybod y mesurau a'r odlau a'u harfer yn gywir mo ddyn yn fardd. Ac y mae'r peth mawr, y peth, yn eisiau yn ngweithredoedd yr hwn nid yw yn credu yng Nghrist. Heb fywyd ynom ni, nid yw'n gweithredoedd yn fyw—ym myd "mechanics" moesol yr ydym. "Yn gyntaf cred yng Nghrist; dyna ddechrau pob daioni ynot, O ddyn" (John Wesley).

Gwell fyddai gan y bobl hyn ennill eu bywoliaeth eu hunain, ond dywaid Crist wrthynt y rhaid iddynt lafurio i fod yn fodlon i dderbyn eu bywoliaeth. Câr tadau roddi; câr gwir blant dderbyn.

Disgrifiwyd yr adnod hon fel "yr ateb Cristionogol i gwestiwn Iddewaidd."

Dwg i'n cof ofyniad ceidwad y carchar yn Philippi, a'r ateb a roddwyd iddo: "Beth sydd raid i mi ei wneuthur fel y byddwyf gadwedig?" "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi."

Gredu ohonoch. Golygir credu yn barhaus.

30. Gwêl y bobl mai ato'i Hun fel Meseia y cyfeiria'r Iesu. Ond nid ystyriant y weithred a gyflawnwyd gan yr Iesu mor ddiweddar yn braw digonol o'i honiad, a gofynnant am arwydd mwy argyhoeddiadol.

Pa arwydd yr wyt ti yn ei wneuthur, fel y gwelom, ac y credom i ti? Nid fel y credom ynot, ond fel y credom Di. "Nid ymddiried mewn person yw ffydd i'r bobl hyn, ond credu ei eiriau, a'r grediniaeth honno wedi ei seilio ar dystiolaeth y synhwyrau."

Y mae "Ti" yn bwysleisiol—pa arwydd yr wyt **Ti,** yr Hwn wyt yn siarad am waith, yn ei wneuthur? Yn Mt. xvi. 1, Marc viii. 11, gofynnwyd am arwydd gan y Phariseaid yn union ar ôl y wyrth o borthi'r pum mil.

31. Cred y bobl mai at y manna y cyfeiria'r Iesu.

Ein tadau. Cym. iv. 12.

Fel y mae yn ysgrifenedig, Efe a roddodd iddynt fara o'r nef i'w fwyta. Gwêl Ex. xvi. 4; Neh. ix. 15; Salm lxxviii. 24, 25; Salm cv. 40. Cyfrifid rhoddi'r manna y peth mwyaf a wnaethpwyd gan Moses, a disgwylid y byddai i'r Mesia roddi bara o'r nef, fel y gwnaeth Moses. Yr oedd yr Iesu wedi porthi'r dyrfa drwy luosogi bwyd cyffredin, ond nid oedd wedi rhoddi bara o'r nef, fel y gwnaeth Moses.

Yn Mt. xvi. 1, Marc viii. 11, am arwydd o'r nef y gofynnwyd gan y Phariseaid. Gofyn pobl yr arwyddion am arwyddion mwy o hyd.

32. Gwyddai'r Iesu mai am Moses y meddyliai'r bobl, a'u bod yn ei fychanu Ef o'i gymharu â Moses. Ond camesboniant eu hanes gorffennol. (a) Nid rhodd Moses oedd y manna, ond rhodd Duw. (b) Yn yr ystyr fwyaf gwirioneddol, nid bara o'r nef oedd y manna. Y Tad sydd yn rhoddi'r gwir fara o'r nef. Sylwer ar y cyferbyniad rhwng y gorffennol, "rhoddodd," a'r presennol, "sydd yn rhoddi." Yn y presennol, ac nid yn y gorffennol, y mae'r wyrth fawr.

33. Y mae'r gwir fara yn ddwyfol (a) yn ei ffynhonnell, "canys bara Duw ydyw yr hwn sydd yn dyfod i waered o'r nef;" (b) yn ei effeithiau, "ac yn rhoddi bywyd i'r byd."

I'r byd. Rhydd y gwir fara, bara Duw, fywyd nid i gylch cyfyngedig fel y gwnaeth y manna, ond i'r byd. Geilw Bernard "y byd" yn un o "master-words" Ioan.

Defnyddir yr ymadrodd, "dyfod i waered o'r nef," saith o weithiau yn y bennod hon (adn. 33, 38, 41, 42, 50, 51, 58).

Sylwer fod y berfau yn yr adnod hon yn yr amser presennol. Y mae bara Duw "yn dyfod" i waered o'r nef ac "yn rhoddi" bywyd yn barhaus.

34. **Dyro i ni y bara hwn yn wastadol.** Cym. iv. 15. Crëwyd gobeithion cnawdol ynddynt, dymuniad am ddigonedd o fara, a bara gwell na'r manna.

35. **Myfi yw bara y bywyd.** Dywaid yr Iesu yma mai Ef ei Hun yw'r fendith ddwyfol fwyaf hon.

Dyma'r enghraifft gyntaf o'r dywediadau mawr, "Myfi yw," a geir yn yr Efengyl hon. Rhoddwn restr ohonynt: 1. Myfi yw bara'r bywyd (vi. 35); 2. Myfi yw goleuni'r byd (viii. 12); 3. Myfi yw drws y defaid (x. 7); 4. Myfi yw'r bugail da (x. 11); 5. Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd (xi. 25); 6. Myfi yw'r ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd (xiv. 6); 7. Myfi yw'r wir winwydden (xv. 1).

Y mae "Myfi" yn bwysleisiol iawn—"**Myfi** yw bara'r bywyd." Nid Myfi wyf yn rhoddi bara'r bywyd, ond **Myfi yw** bara'r bywyd. Defnyddiwn ni'r gair bara am fwyd yn gyffredinol; ac megis na fedrwn fyw'r bywyd naturiol heb fwyd, felly ni fedrwn fyw'r bywyd ysbrydol heb Grist, bara'r bywyd. Yr hyn yw bwyd i'r corff, hynny yw Crist i'r enaid, a mwy, canys gwna bara'r bywyd yr hyn na fedr y bara materol ei wneuthur, sef **rhoddi** bywyd, ac nid cynnal bywyd yn unig.

Yn adn. 51 fe'i geilw'r Iesu ei Hun y "bara bywiol," y bara a fedd fywyd ynddo'i hun. Rhydd y bara hwn fywyd am ei fod ei hun yn fyw. O fywyd y daw bywyd. Cym. yr ymadrodd "dwfr bywiol" (iv. 10).

Yr hwn sydd yn dyfod ataf fi, ni newyna; a'r hwn sydd yn credu ynof fi, ni sycheda un amser. Gwêl ar iv. 14, 15, vii. 37. Rhaid dyfod a chredu. Oni wnawn hyn, ni wyddom fod Crist yn fara'r bywyd. Rhaid inni gymryd a bwyta, ac yn y cyfranogiad personol hwn yn unig y profwn y medr Crist ddiwallu ein newyn a'n syched am byth. "Profwch a gwelwch mor dda yw yr Arglwydd" (Salm xxxiv. 8); "Yr hwn sydd yn credu ym Mab Duw, sydd ganddo'r dystiolaeth ynddo'i hun" (1 Ioan v. 10). Pa fodd y medrwn wybod mai bara'r bywyd yw'r bara a rydd Crist inni? "Y mae'r blas yn y bara yn braw digonol. ("The taste in the bread is sufficient criterion") (Bengel). Dyfodd a chredu yw'r brifforddi sicrwydd.

"He is his own best evidence,
The witness is within."

Sylwa Lucke ei bod yn bosibl y ceir cyfeiriad yn y geiriau, "ni sycheda un amser," at y ffaith i'r Israeliaid ddioddef eisiau newydd, eisiau dwfr, yn union wedi cael y manna. Ni fedrai'r manna ddiwallu'r eisiau hwnnw. Eithr cyferfydd yr hyn a rydd Crist â phob angen.

"Ces ddŵr o'r graig i'w yfed,
I dorri'r syched mawr;
Ces beunydd fara i'w fwyta,
O'r nef y daeth i lawr."

Ceir llawer am "ddyfod" a "chredu" yn yr Efengyl hon. Barnwn mai yr un weithred a ddynodir yn y ddau derm. Deuwn pan gredwn, a chredwn pan ddeuwn. Hedfa'r enaid am noddfa yng Nghrist yw ffydd.

Y peth rhyfeddaf mewn hanes yw hunanymddiried yr Iesu. Gallwn dderbyn ei honiadau amdano'i Hun neu eu gwrthod, ond ni allwn eu hosgoi. Ond nid er ei fwyn ei Hun, ond er ein mwyn ni, y dywedodd amdano'i Hun y pethau mawr a ddywedodd. Teimlwn iddo ddywedyd gyda breichiau estynedig: "Deuwch ataf Fi; nid oes eisiau i neb newynu, neu grwydro, neu farw."

36. Ni chroniclir dywediad o'r fath. Y mae'n bosibl mai at y syniad yn adn 26 y cyfeirir. (Bernir gan esbonwyr y dylid darllen "i chwi weled," ac nid "i chwi fy ngweled." Os cymerwn y darlleniad hwn, y mae'n eglur mai at adn. 26 y cyfeirir). Gofynasant am arwydd, fel y gwelent ac y credent (30). Cawsant fwy na hynny: gwelsant yr Iesu ei Hun, y mwyaf argyhoeddiadol o bob arwydd, ond ni chredasant, oherwydd bod eu llygaid wedi eu dallu gan synïadau daearol.

37. Oni ddeuant hwy ato, daw rhai yn sicr,—y rhai a roddwyd iddo gan y Tad, ac ni bydd iddo Yntau wrthod neb a ddaw ato.

Yr hyn: y cwbl. Y mae "yr hyn" (y cwbl), yn y "neuter gender," rhif unigol, fel yn adn. 39, "o'r **cwbl** a roddes efe i mi," ac yn xvii. 2, "y **cwbl** a roddaist iddo;" a dynoda'r credinwyr fel cyfangorff. Y pwrpas dwyfol yw iddynt oll fod yn un (xvii. 21).

A'r hwn a ddêl. Dynoda hyn gredinwyr fel unigolion. Rhoddwyd "y cwbl," ond rhaid iddynt ddyfod bod yr un.

Ai at weithred o etholedigaeth dragwyddol y cyfeirir, ai at ras presennol? Os at y cyntaf, rhagflaena'r "rhoddi" yma y "tynnu" yn adn. 44: os at yr ail, yr un peth yw'r "rhoddi" a'r "tynnu."

Gwelwn yma ddynion yn gwrthod Crist oherwydd na chyflawna eu syniad hwy am yr hyn a ddylai y Meseia fod. Ychydig a edrychant arno fel y Mab a anfonwyd i ddangos iddynt y ffordd at y Tad. Yr oedd yn angenrheidiol iddo ddangos iddynt nad oedd ei weinidogaeth yn fethiant, na ddibynnai ei llwyddiant ar ewyllys dynion, ond y deuai pawb ato a roddwyd iddo gan y Tad.

A'r hwn a ddêl ataf fi. Gweithred Duw yw rhoddi: gweithred dyn yw dyfod. Yma, dywedir llai nag a olygir, er mwyn ei bwysleisio. Ystyr "nis bwriaf allan" yw, "mi a groesawaf." Nacaol yw'r geiriau o ran ffurf, ond y maent yn fwy cadarnhaol na phe baent yn y ffurf honno. Defnyddir dau negydd yma, a chryfha hynny'r gosodiad,—"yn sicr nis bwriaf ef allan.". Darllenasom y gellir edrych ar y geiriau hyn fel hedyn dameg y mab afradlon.

"A'r hwn a ddêl ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim" yw'r geiriau a ddug gysur i'r Esgob Butler pan oedd yn marw.

38. Ceir yma'r rheswm pam na wrthyd Crist neb a ddêl. Disgynnodd o'r nef i wneuthur ewyllys y Tad, ac nid i wneuthur ei ewyllys ei Hun. Nid i feddwl ei feddyliau ei Hun, na llefaru ei eiriau ei Hun, na gwneuthur ei ewyllys ei Hun y daeth yr Iesu i waered o'r nef, ond i feddwl meddyliau, ac i lefaru geiriau, ac i wneuthur ewyllys y Tad.

39. Ac ewyllys y Tad yw na choller neb o'r rhai a roddwyd i'r Mab. Os daeth Crist i wneuthur ewyllys y Tad, ac os ewyllys y Tad yw na choller un o'r rhai a roddwyd iddo, yna y maent yng ngofal diogel Crist.

Eithr bod i mi ei atgyfodi ef yn y dydd diweddaf. . "Dyma'r diwedd, y tu hwnt i'r hyn nid oes perygl" (Bengel). Ceir y gosodiad mawr hwn, fel math ar fyrdwn, bedair o weithiau yn y bennod hon (adn. 39, 40, 44, 54). Y mae "mi" yn bwysleisiol iawn.

Y dydd diweddaf. Yn Ioan yn unig y ceir "y dydd diweddaf" am ddydd y farn. Yn ychwanegol at yr enghreifftiau a geir yn y bennod hon gwêl xi. 24, xii. 48. Yn vii. 37 defnyddir yr ymadrodd hwn am y dydd diweddaf o'r wyl. Mewn mannau eraill yn y Testament Newydd ceir "dydd y farn;" "y dydd mawr;" "y dydd hwnnw;" "dydd yr Arglwydd Iesu;" "dydd Duw;" "dydd Crist;" "dydd yr Arglwydd;" "y dydd."

"Gweithred olaf y Tad oedd rhoddi'r credinwyr i'r Mab; gweithred gyntaf y Mab yw peidio â gadael iddynt gael eu colli, h.y., cyfarfod â marwolaeth, ond eu croesawu: a'i weithred olaf, wedi iddo ddwyn ei waith trwodd yn ei holl rannau yw eu cyfodi" (Holtzmann).

Dywaid esbonwyr nad oes ond ychydig o le i'r atgyfodiad a'r farn olaf yn ffordd Ioan o feddwl. Yn ei Efengyl ef, pethau mewnol a phresennol ydynt, ac nid pethau dyfodol a dramatig. Ceir yma, meddir, un o'r gwrthddywediadau ymddangosiadol sydd mor nodweddiadol o'r Efengyl hon, pryd yr ymâd Ioan â'i safbwynt ei hun, ac y cais roddi lle i'r hyn a gredid gan yr Eglwys yn gyffredinol. Er ei holl wreiddioldeb yr oedd Ioan i raddau yn rhwym wrth y gorffennol.

Ond ni olyga'r ffaith yr edrych Ioan ar fywyd a barn fel pethau ysbrydol a phresennol ei fod wedi rhoddi o'r neilltu y syniad o atgyfodiad a barn yn "y dydd diweddaf." Y mae'r atgyfodiad a'r farn yn rhan hanfodol o'i ymresymiad. Ar y mewnol a'r presennol y rhydd bwyslais, ond dygir bywyd a barn i berffeithrwydd yn yr atgyfodiad a'r farn olaf. Y mae yna rywbeth a fwynheir yn **awr,** a rhywbeth sydd i'w fwynhau yn y **dyfodol.** Daw profiadau ysbrydol a mewnol yn brofiadau allanol yn y man. Gwna'r iechydwriaeth fawr yng Nghrist ni yn annibynnol ar bob cyfnewidiad mewn amser a thragwyddoldeb.

40. **Gweled y Mab.** Nid â'r llygad naturiol, ond â llygad ffydd. Gwelodd y bobl hyn Ef, ond ni chredasant (adn. 36).

41. **Yr Iddewon.** Yn fynych yn yr Efengyl hon dynoda "yr Iddewon" wrthwynebwyr swyddogol yr Iesu, ac y mae'n debyg mai yn yr ystyr yna y defnyddir yr enw yma. Dywaid Bernard y dengys y cyd-destun yr edrych Ioan ar "yr Iddewon" hyn fel Galilead (cym. adn. 24 a 42). Yn ôl Marc vii. 1, gwrthwynebwyd yr Iesu gan ddirprwyaeth o Jerusalem ar ôl y wyrth o borthi'r pum mil.

A rwgnachasant. Yr oeddynt mewn ysbryd beirniadol, fel y dengys y cyd-destun.

Myfi yw'r bara a ddaeth i waered o'r nef. Ni ddefnyddiodd yr Iesu'r geiriau hyn, ond rhoddent ystyr adn. 33, 35, 38.

42. **Mab Joseph.** Gwêl i. 45; Luc iii. 23; Marc vi. 3—"mab Mair." Cym. Mt. xiii. 55, "mab y saer."

Tad a mam yr hwn a adwaenom ni. Ni olyga hyn o angenrheidrwydd fwy nag y gwyddent pwy oedd ei rieni. Ni allent gredu ei fod wedi disgyn o'r nef, a cheir yma'r rheswm am eu hanghrediniaeth. Yr oedd ei haniaeth a'i enedigaeth naturiol yn wybyddus yn eu ffeithiau allanol. Dynol oedd ei fywyd, ac felly ni allasai fod wedi disgyn o'r nef. Ni chlywsent am ddim oedd yn wyrthiol yn ei haniad i fod yn sail i honiad mor uchel.

Yn ôl Mt. xiii. 55, Marc vi. 3, Luc iv. 22, pasiwyd beirniadaeth debyg ar yr Iesu yn y synagog yn Nazareth.

Dyma anhawster y cynefin. Tybient fod eu hadnabyddiaeth ohono yn cyfrif am yr Iesu.

43. Nid etyb yr Iesu eu gwrthddadl yr adwaenent ei dad a'i fam. Yn raddol hyd yn oed ymhlith y Cristionogion cyntaf y daeth yr enedigaeth wyrthiol yn wybyddus. Ac nid hwn oedd y lle i ddatgan hynny.

44. Eu hanallu ysbrydol yw'r rheswm am eu hanghrediniaeth. Paratoa'r Tad galonnau dynion i dderbyn y Mab, ac heb y dylanwad

hwn ni fedr dynion ddyfod at Grist. Rhaid iddynt gael eu "tynnu" a'u "dysgu" gan Dduw.

Ei dynnu ef. Cym. Jer. xxxi. 3, "tynnais di â thrugaredd." Yr unig le arall yn y Testament Newydd lle y defnyddir "tynnu" mewn ystyr foesol yw Ioan xii. 32. Nid gan ddyn y dechreuir nesâd yr enaid at Dduw neu Grist, ond gan ddwyfol ras. "Gras ddechreuodd ar Baul ac nid Paul ar ras. Pe buasai gras wedi gadael llonydd i Baul, buasai Paul wedi gadael llonydd i ras i dragwyddoldeb" (Davies, Maesyrhelem). Cymer amser hir yn aml iawn i ddyn ddeall bod dwyfol ras yn ei ddilyn a'i dynnu.

45. Cadarnheir yn yr Ysgrythurau yr athrawiaeth fod Duw yn "tynnu" dynion.

Yn y proffwydi. Y rhannau proffwydol o'r Hen Destament.

A phawb a fyddant wedi eu dysgu gan Dduw. Dyfyniad rhydd o Esaia liv. 13, "Dy holl feibion hefyd fyddant wedi eu dysgu gan yr Arglwydd."

Pob un gan hynny a glywodd gan y Tad, ac a ddysgodd, sydd yn dyfod ataf fi. Cym. Mt. xiii. 23.

Y Tad. Tad pawb, y Tad y gall pawb ddyfod i'w ysgol a dysgu ganddo. A daw bob un a glywodd gan y Tad, ac a ddysgodd, at y Mab. Nid yw clywed yn ddigon: rhaid dysgu, a pheth gwirfoddol yw hynny. Y mae'r ddysgeidiaeth yn gyffredinol, ond y mae'n bosibl peidio â'i chlywed, a pheidio â'i dysgu pan glywir hi. Y mae elfen ddynol ynghyd ag elfen ddwyfol yn y paratoad i ddyfod at Grist. Nid peth peiriannol a gorfodol yw'r "tynnu" yn adn. 43, ond gofyn am gydweithrediad dynol. "Onid oes ewyllys rydd nid oes yna ddim i'w achub; onid oes rhad ras nid oes yna ddim y gellir achub drwyddo" (St. Bernard).

46 Dysgir pob un a glyw, er nad drwy weledigaeth ddigyfrwng y rhoddir y ddysgeidiaeth, ond drwy ffydd yng Nghennad Duw: y Mab yn unig a fedd wybodaeth ddigyfrwng a phersonol o'r Tad. Cym. i. 18, vii. 29; Mt. xi. 27. "Ni welodd neb" ond Ef mo'r Tad; ond y mae credu ynddo Ef yn ddigon, canys y mae gan yr hwn a gred ynddo fywyd tragwyddol. Fel y dywedodd yn ddiweddarach, 'Pwy bynnag a'm gwelodd I a welodd y Tad' (xiv. 9).

47. Dwg ffydd fywyd tragwyddol. Gwêl ar iii. 15, 16. Geilw Reith fywyd tragwyddol yn un o "watch-words" Ioan.

48. Gwêl ar adn. 35. "Sylwer ar ailadroddiad y prif feddwl, nid yn hollol yn yr un geiriau bob amser—adn. 35, 41, 48, 51" (Bernard).

49—51. Nid achubodd y manna, yr hwn oedd yn gynhaliaeth i'r bywyd naturiol, yr Israeliaid rhag marwolaeth—"ac a fuont feirw." Nid oedd mwy o rinwedd ynddo i'w gwaredu oddi wrth hynny nag sydd yn ein bara beunyddiol ni. Nid bwyd i'r corff yw bara'r bywyd, ac nid achub y rhai a gredant rhag marwolaeth naturiol; ond bwyd i'r ysbryd yw, a cheidw y rhai a gyfranoga ohono rhag marwolaeth ysbrydol—"ac ni byddo marw."

Ac er y praw y neb a fwyty ohono farwolaeth naturiol ni all y farwolaeth honno gyffwrdd â'r bywyd a rydd "bara'r bywyd."

Y mae'r sylwadau uchod yn seiliedig ar y farn mai at farwolaeth ysbrydol y cyfeirir yn adn. 50. Dywaid Plummer mai at farwolaeth naturiol y cyfeirir yn adn. 49 a 50. Heb hynny, medd ef, syrth y cyferbyniad. Nid yw marwolaeth y credadun ond cwsg: y mae wedi cyfranogi o fara'r bywyd a chyfodir ef i fyny y dydd diweddaf.

50. **Fel y bwytao dyn ohono, ac na byddo marw.** Dynoda "fel" y pwrpas dwyfol, a dynoda "dyn" (unrhyw un) fod y rhodd i bawb.

51. **Myfi yw'r bara bywiol.** Y bara sydd ei hun yn fyw, ac felly yn gallu rhoddi bywyd i eraill. Dynoda "y bywyd" y bara yn ei effeithiau, a "bywiol" y bara yn ei natur. Peth di-fywyd oedd y manna a llygrai yn fuan. Y mae'r Iesu yn fara sydd a bywyd ynddo'i hun, ac yn rhoddi bywyd i'r rhai a fwytant ohono, ac felly yn dyfod yn egwyddor o fywyd ynddynt a fydd byw yn dragywydd. Adwaenir y manna a bara'r bywyd wrth eu ffrwythau.

Yr hwn a ddaeth i waered o'r nef. Yn yr Ymgnawdoliad. Oddi uchod y mae ffynhonnell bywyd i ddynion.

Ceir syniad newydd yn y rhan olaf o'r adnod hon,—"a'r bara a roddaf fi iddo yw fy nghnawd i, yr hwn a roddaf fi dros fywyd y byd." Pa beth a olyga'r gair "cnawd"? Dywaid Westcott mai disgrifiad yw o'r natur ddynol yn ei chyfanrwydd ar ei hochr ddaearol, ac mai at yr amlygiad cyfan o Grist yn y cnawd y cyfeiria, pwrpas yr hyn oedd dwyn bywyd newydd i'r byd. Am gynhaliaeth a thyfiant y siaredir ac nid am iawn.

Ond os yw hyn yn gywir nid ychwanegir dim at yr hyn a ddywedwyd eisoes, a chredwn ni nad at yr Ymgnawdoliad yn unig y cyfeiria, ond at yr Iawn hefyd.

Yn yr amser dyfodol y mae'r ferf "rhoddaf," a chadarnha hyn y farn mai am ei farwolaeth y llefara'r Iesu.

Dros fywyd y byd. Cyf. Ex. xii 43—45.

52. Grwgnachasant o'r blaen (adn. 41), ond yn awr ymrysonant â'i gilydd. Deallant (er na ddywedwyd mo hynny eto) fod ei gnawd i'w fwyta, a thrwy hynny roddi bywyd, ond "pa fodd," meddant, "y dichon hwn roddi inni ei gnawd i'w fwyta"? "Geiriau bychain angeuol eu dylanwad yw 'paham' a 'pa fodd'" (Luther).

53, 54. Y mae'r syniad o yfed gwaed Crist yn cadarnhau'r hyn a ddywedwyd ar adn. 51, sef mai am ei farwolaeth y llefara'r Iesu, canys dengys "oni yfwch ei waed ef" fod y cnawd a'r gwaed wedi eu gwahanu. Am "Fab y dyn" gwêl ar i. 51.

Os ydym i gyfranogi o'r bywyd sydd yng Nghrist, rhaid inni fwyta ei gnawd ac yfed ei waed, a thrwy hynny ddyfod yn un ag Ef. Heb hyn nid oes gennym fywyd ynom ein hunain. Try'r bwyd a fwytawn yn gnawd a gwaed inni—yn fywyd, a thry ymborthi ar Grist yn fywyd ysbrydol inni.

54. Yma mynegir mewn modd cadarnhaol yr hyn a fynegir mewn modd nacaol yn yr adnod flaenorol. Medd yr hwn a ymbortha ar Grist fywyd yn awr—y bywyd tragwyddol, ac atgyfodir ef yn y dydd diweddaf — bywyd yn feddiant presennol, a datblygiad llawnach drwy'r fuddugoliaeth derfynol ar angau a'r bedd.

Ceir y ddwy fendith hyn yn adn. 40, gyda'r gwahaniaeth mai i'r hwn sydd yn gweled y Mab ac yn credu yddo fe'i rhoddir y bendithion hyn yno.

55. **Canys fy nghnawd i sydd fwyd yn wir.** Yn wir fwyd.

A'm gwaed i sydd ddiod yn wir. Yn wir ddiod. Cyflawnir yr addewid a geir yn yr adnod flaenorol, canys ceir gwir elfennau bywyd drwy fwyta cnawd Mab y dyn ac yfed ei waed.

56. Rhoddir yma'r rheswm paham y mae bywyd gan yr hwn sydd yn bwyta cnawd Mab y dyn ac yn yfed ei waed (adn. 54). Erys yr hwn a ymbortha ar Grist ynddo, a Christ ynddo yntau. Y mae'r credadun yng Nghrist, a Christ ynddo yntau. Dyma ddiwinyddiaeth Paul hefyd. "Gan hynny od oes neb yng Nghrist, y mae efe yn greadur newydd" (2 Cor. v. 17); "yr hwn yw Crist ynoch, gobaith y gogoniant" (Col. i. 27); "Crist sydd yn byw ynof fi." Gwêl ar viii. 31.

Cawn yma wirionedd a nodwedda ysgrifeniadau Ioan—undeb â Christ. Dywaid E. F. Scott fod mawredd yr Efengyl hon yn gynwysedig yn hyn, y dwg ni'n ôl at Berson byw yr Iesu, fel gallu eithaf (ultimate) Cristionogaeth. Dyma'r gwirionedd a argreffir arnom ym mhob rhan ohoni gyda nerth a mawredd anghymharol.

57. Y mae'r undeb rhwng y Mab a chredinwyr yn adlewyrchiad o'r undeb rhwng y Tad a'r Mab. Megis y mae'r Mab yn byw oherwydd y Tad, felly y mae'r hwn a ymbortha ar Grist yn byw o'i herwydd Ef.

Fel yr anfonodd. Yr amser gorffennol, yn dynodi'r Ymgnawdoliad.

Y Tad byw. Ni ddefnyddir yr ymadrodd hwn yn un lle arall yn y Testament Newydd. Defnyddir yr ymadrodd, "y Duw byw," yn yr Hen Destament a'r Newydd. Gwêl Deut. v. 26; Mt. xvi. 16; Act. xiv. 15; 2 Cor. vi. 16; Heb. vii. 25.

Yr hwn sydd yn fy mwyta i. Sylwer nad bwyta cnawd Crist ac yfed ei waed a geir yma, ond ei fwyta Ef. "Yr ymborthi arno Ef, y cymundeb â'i Berson, yw'r peth hanfodol." Hefyd, yn yr adnod hon ac yn adn. 58 ni chyfeirir at yr ail arwyddlun, "yfed fy ngwaed i," eithr yn unig at Grist fel bara'r bywyd.

58. Symir i fyny yn yr adnod hon yr anerchiad rhyfedd ar Fara'r Bywyd. Â rhan gyntaf yr adnod cymharer adn. 49, ac â'r ail ran adn. 50.

Dyma y bara a ddaeth i waered o'r nef. Dyma natur y bara y llefarwyd gan yr Iesu amdano. Fel yn adn. 57 dynoda'r amser gorffennol yr Ymgnawdoliad, y dyfodiad hanesyddol mawr. Yn adn. 50 dywedir, "Hwn yw'r bara **sydd yn dyfod** i waered o'r nef." Daeth Crist, a daw o hyd. (Am ddysgeidiaeth adn. 26—58 gwêl, ymhellach, y Rhagarweiniad).

59 Y pethau hyn a ddywedodd efe yn y synagog, wrth athrawiaethu yn Capernaum.

59. **Yn y synagog.** Ni cheir y fannod yn y gwreiddiol. Cym. xviii. 20. Ychwanega un Llawysgrif "ar y Sabbath." Y mae adfeilion synagog wedi eu darganfod yn Tell Hum, ac os un yw Tell Hum â Chapernaum y mae rhesymau da dros gredu mai adfeilion y synagog y llefarodd yr Iesu ynddi y geiriau rhyfedd am Fara'r Bywyd ydynt. Y mae llestr â manna ynddo wedi ei gerfio ar un o'r meini.

Adeiladwyd y synagog yng Ngapernaum gan genedl-ddyn duwiolfrydig (Luc vii. 5). Sonnir am ddwy synagog yn yr Efengylau: (a) y synagog yng Nghapernaum (Marc i. 21; Luc vii. 5; Ioan vi. 59); (b) synagog yn Nazareth (Mt. xiii. 54; Marc vi. 2; Luc iv. 16).

"Ystyr y gair 'synagog' yw 'cydgasgliad.' Nid addoldy, a siarad yn fanwl, oedd y synagog. Ni chydnabyddai'r Iddewon ond un addoldy—teml Caersalem. Amcan y synagog oedd, nid addoli—ond addysgu—egwyddori y bobl yn y gyfraith. Gwir na ddisgwylid i'r werin feddu ond gwybodaeth elfennol o'r gyfraith: eto yr oedd eisiau sefydliad arbennig i ddarpar y wybodaeth honno, a'r sefydliad hwnnw oedd y synagog. Ni ellir olrhain dechreuad codi adeiladau arbennig i'r amcan hwn ymhellach yn ôl na'r cyfnod wedi'r gaethglud" (R. Morris, yn y "Geiriadur Beiblaidd").

60 Llawer gan hynny o'i ddisgyblion, pan glywsant, a
ddywedasant, Caled yw yr ymadrodd hwn; pwy a
61 ddichon wrando arno? Pan wybu yr Iesu ynddo ei
hun, fod ei ddisgyblion yn grwgnach am hyn, efe
a ddywedodd wrthynt, A ydyw hyn yn eich rhwystro
62 chwi? *Beth* gan hynny os gwelwch Fab y dyn yn
63 dyrchafu lle yr oedd efe o'r blaen? Yr yspryd yw
yr hyn sydd yn bywhâu; y cnawd nid yw yn llesâu
dim: y geiriau yr ydwyf fi yn eu llefaru wrthych,
64 yspryd ydynt, a bywyd ydynt. Ond y mae o honoch
chwi rai nid ydynt yn credu. Canys yr Iesu a wyddai
o'r dechreuad, pwy oedd y rhai nid oedd yn credu,
65 a phwy oedd yr hwn a'i bradychai ef. Ac efe a ddy-
wedodd, Am hynny y dywedais wrthych, na ddichon
neb ddyfod attaf fi, oni bydd wedi ei roddi iddo oddi
66 wrth fy Nhad. O hynny allan llawer o'i ddisgybl-
ion ef a aethant yn eu hol, ac ni rodiasant mwyach gyd
67 âg ef. Am hynny yr Iesu a ddywedodd wrth y deu-
ddeg, A fynnwch chwithau hefyd fyned ymaith?
68 Yna Simon Petr a'i hattebodd ef, *O* Arglwydd, at
bwy yr awn ni? gennyt ti y mae geiriau bywyd tra-
69 gywyddol. Ac yr ydym ni yn credu, ac yn gwybod
70 mai tydi yw y Crist, Mab y Duw byw. Iesu a'i hat-
tebodd hwynt, Oni ddewisais i chwychwi y deuddeg,
71 ac o honoch y mae un yn ddiafol? Eithr efe a ddy-
wedasai am Judas Iscariot, *mab* Simon: canys hwn
oedd ar fedr ei fradychu ef, ac efe yn un o'r deuddeg.

EFFEITHIAU GWAHANOL YR ANERCHIAD (adn. 60—71).

60. **Llawer gan hynny o'i ddisgyblion.** Dynoda'r term "disgyblion" yma gylch ehangach na'r deuddeg, sef ei ganlynwyr proffesedig (cym. adn. 66).

Caled yw'r ymadrodd hwn; pwy a ddichon wrando arno? Nid caled i'w ddeall, medd esbonwyr, ond caled i'w dderbyn. Ond onid y rheswm paham yr oedd yn galed i'w dderbyn oedd ei fod yn galed

i'w ddeall? Yr oedd yn anghredadwy, ac yn siomiant i'w disgwyliadau, am na ddeallent mohono.

Ceir y gair a gyfieithir "caled" yn Mt. xxv. 24; Act. xxvi. 14; Iago iii. 4; Jud. adn. 15. Pa ymadrodd a olygir yma? Rhoddwn wahanol farnau: (a) dysgeidiaeth adn. 32—58 yn gyffredinol; (b) yn adn. 58 dywedir, "Dyma'r bara a ddaeth **i waered** o'r nef. . . . Y neb sydd yn bwyta o'r bara hwn a fydd byw yn dragywydd." Ceir yn adn. 62 gyfeiriad arbennig at hyn—Beth gan hynny os gwelwch Fab y dyn yn **dyrchafu**? Ni all cnawd roddi bywyd tragwyddol, ond gall ysbryd wneuthur hynny. Gwrthwynebwyd rhan o'r anerchiad eisoes yn adn. 52.

61. **Pan wybu yr Iesu ynddo ei hun.** Nid drwy glywed yr hyn a ddywedid, nid drwy unrhyw gyfrwng dynol, ond "ynddo'i Hun." Y mae hyn yn nodweddiadol o'r Efengyl hon. Bernir gan rai na phriodola Ioan wybodaeth oruwchnaturiol i'r Iesu, ond yn unig radd uwch o'r wybodaeth y gellir ei hennill drwy sylwadaeth a phrofiad dynol. Ni chydolygwn ni â hyn. "Gwneir yr argraff arnom gan bob rhan o'r hanes fod yr Iesu, pan dabernaclodd ymhlith dynion, yn fwy na dynol" (Scott).

A ydyw hyn yn eich rhwystro chwi? Yma ac yn xvi. 1 yn unig yn yr Efengyl hon y defnyddir y gair a gyfieithir "rhwystro," eithr defnyddir ef yn aml yn yr Efengylau eraill.

62. **Beth gan hynny os gwelwch Fab y dyn yn dyrchafu lle yr oedd efe o'r blaen**? Yn gywir, "Pe gan hynny y gwelech?" Nid yw'r frawddeg hon yn gyflawn: ceir yr amod, ond ni cheir y canlyniad, h.y., y mae rhywbeth i'w ddeall nas dywedir. Y mae dwy ran i frawddeg amodol: (a) yr amod; (b) mynegiad o'r hyn a ddigwyddai pe cyflawnid yr amod. Yr amod yn unig a geir yma.

At ba beth y cyfeiria yn yr adnod hon? Barnwn mai at yr Esgyniad. Y mae yn wir na chofnodir yr Esgyniad gan Ioan, ond ceir cyfeiriad ato yn xx. 17, ac, o bosibl, yn iii. 13.

Lle yr oedd efe o'r blaen. Awgrymir cynhanfodiad "Mab y dyn" yma. "Arhosodd personoliaeth yr Arglwydd yn ddigyfnewid trwy'r Ymgnawdoliad a'r Esgyniad."

Pe gwelech. Defnyddir y gair a gyfieithir "gwelech" i ddynodi (a) gweled â'r llygaid corfforol; (b) gwelediad meddyliol neu ysbrydol. Barnwn mai gweled â'r llygaid corfforol a olygir yma. Yr oedd yn bosibl y gwelai rhai ohonynt yr Esgyniad, a gwelodd yr Apostolion hynny, ac yr oeddynt hwy ym mysg y rhai a anerchir yma.

Pa beth yw ystyr ateb yr Iesu? Ceir gwahanol farnau: (a) Eglura gogoniant y dyfodol anawsterau'r presennol. "Unwaith y gwelwch Fi yn dyrchafu lle yr oeddwn I o'r blaen, ac y profwch nerth bywyd y Crist dyrchafedig ac ysbrydol, bydd yn eglur i chwi nad

drwy fwyta ac yfed materol y derbynnir y bywyd sydd ynddo, ac nad oedd fy ngeiriau i'w deall yn yr ystyr faterol a bair rwystr i chwi." (b) Yn lle eu disgwyliadau materol rhoddes yr Iesu iddynt syniadau ysbrydol am y deyrnas. Pa beth fyddai eu teimladau wedi iddo eu gadael, a'i fywyd wedi ei offen heb i'r deyrnas Fesiannaidd gael ei sefydlu? Dyma olygiad Brooke, eithr dywaid fod (a) yn esboniad posibl, sef, fel y dywaid ef, y byddai i ogoniant y dyfodol egluro anawsterau'r presennol. (c) Cred rhai mai at y cwbl o'r pethau a arweiniodd i ddychweliad Crist i ogoniant, ac yn neilltuol ei farwolaeth, y cyfeirir. Felly, yr ystyr yw, "Oni fydd gweled y Meseia yn dioddef yn fwy o rwystr i chwi?" Sylwa Bernard fod defnydd y Testament Newydd o'r gair a gyfieithir "dyrchafu" yn bendant yn erbyn hyn: ni olyga yn un lle y Croeshoeliad, ond yr Esgyniad. Yn ôl (a) gwnâi'r dyrchafiad yr anhawster yn llai; yn ôl (b) a (c) gwnâi ef yn fwy.

Barnwn y gellid dywedyd fel hyn: (a) Dywedasai'r Iesu mai Ef oedd y bara a ddaeth i waered o'r nef. Peth anodd i'w gredu oedd y daethai i waered o'r nef. Ond beth pe gwelent Fab y dyn yn dyrchafu lle yr oedd o'r blaen? Ni fyddai mor anodd credu mai Ef oedd y bara a ddaeth i waered o'r nef pan gredid esgyn ohono i'r nef yn ei ddynoliaeth ogoneddedig, i anfon yr Ysbryd Glân i galonnau ei ganlynwyr, ac felly eu huno ag Ef ei Hunan mewn ystyr na fedrent eto mo'i deall. (b) Dywedasai hefyd y byddai i'r neb a fwytâi o'r bara hwn fyw yn dragywydd. Y mae'n anodd credu y gall "bara" neu "gnawd" roddi bywyd yn dragywydd. "Y cnawd nid yw yn llesáu dim." Ond cyfranna Mab y dyn fywyd tragwyddol i'r rhai a ymborthant ar ei gnawd Ef, canys er ei wneuthur Ef yn gnawd (i. 14) ysbrydol yw ei haniaeth a'i fod hanfodol, ac y mae rhoddi bywyd yn nodweddiadol o ysbryd: "yr Ysbryd sydd yn bywhau."

63. Gosodiad cyffredinol yw'r adnod hon, gyda chyfeiriad at athrawiaeth yr Iesu. "Y mae'n eglur fod y cwbl a ddywedais i'w ddeall mewn ystyr ysbrydol: ni all cnawd materol gynhyrchu bywyd ysbrydol, canys ni all ond ysbryd genhedlu ysbryd."

Yr ysbryd sydd yn bywhau. Cym. 1 Cor. xv. 45, lle gelwir Crist yn "ysbryd yn bywhau."

Y cnawd. Nid "fy nghnawd," ond "y cnawd" — y cnawd heb yr ysbryd, yr hyn y gellir cyfranogi yn faterol ohono, fel y manna. Yn yr ystyr hon nid yw hyd yn oed cnawd Crist yn llesáu dim. Â'r cyferbyniad rhwng "cnawd" ac "ysbryd" cym. iii. 6; 1 Pedr iii. 18; iv. 6.

Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych. Yn gywir, a lefenais.

Ysbryd ydynt, a bywyd ydynt. Rhyw Ioan arwyddocâd neilltuol i geiriau Crist. Cym. v. 24; viii. 31, 47; xii. 48; xv. 7; xvii. 8. "Y

mae geiriau'r Iesu yn ymgnawdoliad pur o ysbryd ac yn gyfrwng bywyd" (Godet). "Fel nad dywediad syml yw gair Duw yn yr Hen Destament, ond yn hytrach cyfrwng gallu a gyflea i'r hwn y daw ato gyfran o Ysbryd Duw ei Hun, felly nid mynegiad o'i feddwl yw geiriau Crist yn gymaint â mynediad allan ei fod a'i allu. Cynhwysant ynddynt ran ohono Ef ei Hun." "Golau a nerthol yw dy eiriau."

64. **Ond y mae rhai ohonoch chwi nid ydych yn credu.** Er bod ei eiriau yn fywyd yr oedd yna rai na chredasant. Ond ni pherodd hyn syndod iddo, "canys yr Iesu a wyddai o'r dechreuad pwy oedd y rhai nid oedd yn credu, a phwy oedd yr hwn a'i bradychai ef." Rhagwelodd nid yn unig anghrediniaeth rhai, ond hyd yn oed y bradychai Judas Ef. Ni thwyllwyd Ef yn na Judas na neb arall.

O'r dechreuad. Dibynna ystyr "o'r dechreuad" ar y cyd-destun, a barna esbonwyr mai ei ystyr yma yw, "o'r amser y dechreuasant fod yn ddisgyblion." Cym. ii. 24, 25.

A phwy oedd yr hwn a'i bradychai ef. Ai wedi iddo ei adnabod drwy fod yn ei gymdeithas y gwyddai'r Iesu y bradychai Judas Ef, ai ynteu a wyddai Ef hynny pan alwodd ef i fod yn ddisgybl? Sylwa Bernard y ceir yma enghraifft nodedig o athrawiaeth Ioan am etholedigaeth os yr ystyr yw y gwyddai'r Iesu y bradychai Judas Ef pan ddewiswyd ef yn un o'r deuddeg. "Pa un bynnag am hynny gofala Ioan yma, ac ym mhennod xiii. am wrthod y syniad i fradwriaeth Judas ddyfod i'r Iesu yn ddiarwybod iddo.

65. Y mae'r anghenraid am y dylanwad dwyfol i'w weled yn amlwg yn achos Judas a'r rhai nid oeddynt yn credu.

Am hynny y dywedais. Gwêl adn. 37, 44, 45.

66. **O hyn allan.** "Oherwydd hyn," h.y., oherwydd dysgeidiaeth yr Iesu, neu, "o'r amser hyn."

Llawer o'i ddisgyblion ef a aethant yn eu hôl. Ceir y geiriau a gyfeithir "aethant yn eu hôl" yn xviii. 6, lle y cyfeithir hwynt "aethant yn ŵysg eu cefnau." Cyfeitha Moffatt yma, "drew back." Syrthiasant ymaith o gymdeithas â'r Iesu ac aethant yn ôl i'w hen fywyd.

Ac ni rodiasant mwyach gydag ef. Am y gair "rhodio" gwêl ar vii. 1.

67. **Y deuddeg.** Dyma'r waith gyntaf y ceir y term hwn yn yr Efengyl hon, a defnyddir ef heb ei esbonio. Y mae hyn yn enghraifft o'r modd y cymer Ioan yn ganiataol fod yr hanes Efengylaidd yn wybyddus i'w ddarllenwyr. Ceir enghreifftiau eraill o hyn yn y modd y cyflwyna Mair a Martha, Pilat, meibion Sebedeus, a Mair Mag-

dalen, heb ddywedyd pwy oeddynt. A sieryd yn sydyn am fam yr Iesu fel yn bresennol yn y briodas yng Nghana heb roddi ei henw. Am etholiad "y deuddeg" gwêl Marc iii. 4 a Luc vi. 13.

A fynnwch (ewyllysiwch) chwithau hefyd fyned ymaith? Golyga ffurf y cwestiwn hwn yn y gwreiddiol mai ateb nacaol a ddisgwylir, a chyfieitha Pwyllgor Caerdydd ef fel hyn: "Nid oes awydd myned ymaith arnoch chwithau hefyd, a oes?" Gwyddai'r Iesu'r cwbl o'r dechreuad (adn. 44), ond rhoes gyfle iddynt fynegi eu ffyddlondeb.

68. **Yna Simon Pedr a'i hatebodd ef.** Yn enw'r lleill, fel yr arferai wneuthur. Ni wyddai am yr hyn oedd yng nghalon Judas.

Arglwydd, at bwy yr awn ni? gennyt ti y mae geiriau bywyd tragwyddol. Nid geiriau am fywyd tragwyddol, ond geiriau a rydd fywyd tragwyddol. Cymharer yr ymadrodd, "bara'r bywyd." Ni fynnent fyned ymaith, oherwydd y rhesymau a ganlyn: (a) Yr oedd digon yn yr Iesu i gyfarfod a'u hangen, sef geiriau bywyd tragwyddol. (b) Nid oedd geiriau bywyd tragwyddol gan neb arall. "Ffolineb yw rhoddi neb ochr yn ochr â Christ fel datguddydd o Dduw, fel esiampl o rinwedd, ac fel Gwaredwr dynion." Ceir trysorau gwerthfawr yng ngeiriau doethineb ddynol, ond ni cheir bywyd tragwyddol ynddynt. "Fel y gwelodd Pedr, rhaid dewis rhwng Crist a dim," h.y., cyn belled ag y mae bywyd tragwyddol yn y cwestiwn.

69. **Ac yr ydym ni yn credu, ac yn gwybod mai tydi yw y Crist, mab y Duw byw.** Yn ôl y Llawysgrifau gorau, "Sanct Duw." Barna esbonwyr nad sancteiddrwydd personol a olygir yma, ond mai Ef yw'r hwn a gysegrwyd i'w waith fel y Crist. Cym. Act. iii. 14, iv. 27, 30. Ond cofier ei fod yn Sanct Duw mewn ystyr bersonol hefyd.

Rhoddwyd yr enw Sanct Duw i'r Iesu gan yr ysbryd aflan (Marc i. 24; Luc iv. 34).

Ac yr ydym ni yn credu, ac yn gwybod. Y mae "ni" yn bwysleisiol—ni, y disgyblion, yn wrthgyferbyniol i'r llawer a aeth yn eu hôl. Y mae'r berfau yn y geiriau hyn yn yr amser perffaith—yr ydym wedi credu ac wedi gwybod—yn dynodi y gwnaethai'r disgyblion eu meddyliau i fyny, ac na fedrai dim ysgwyd eu hargyhoeddiad.

Sylwer ar drefn y geiriau: credu a gwybod. Daethant i wybod drwy gredu. Gall gwybodaeth ragflaenu ffydd (1 Ioan iv. 16), neu ei dilyn. Yma, ei dilyn a wna. Drwy gredu y deuir i wybod. Nid agorodd y llawer a aeth yn eu hôl eu calonnau i'r Iesu, ac felly nid agorwyd eu meddyliau i ddeall. Drwy ffydd y cyrhaeddir gwybodaeth a sicrwydd. "Credaf, fel y deallwyf." Dechrau ffydd fel arbraw a diwedda fel profiad. (Faith begins as an experiment and ends as an experience). Yn ei nodiadau ar 1 Cor. ii. 14, dywaid T. C. Edwards y rhydd y frawddeg, "ac nis gall eu gwybod," nid y rheswm paham na dderbyn dyn anianol y pethau sydd o Dduw, ond canlyn-

iad peidio â'u derbyn. Nid yr ystyr yw, nad ydyw hyd yn oed yn eu deall, chweithach eu derbyn, ond nad yw yn eu deall am nad yw eu derbyn. Rhagflaena ffydd wybodaeth. "Cred, fel y byddo i ti ddeall."

Ond gall gwybod ragflaenu credu. Ac y mae yn rhaid wrth ryw gymaint o wybodaeth cyn y gellir credu: rhaid i'r gwirionedd wneuthur rhyw fesur o apêl atom ac o argraff arnom cyn y medrwn ei dderbyn. Dywaid Lucke fod gwybodaeth o Grist a chrediniaeth ynddo yn syniad Ioan amdanynt ymron yn gyfystyr. Ym mhob gwir wybodaeth o Grist y mae ffydd eisoes yn bresennol, a gwybodaeth ym mhob gwir grediniaeth.

Barna rhai esbonwyr nad oes arwyddocâd yn nhrefn y geiriau, eithr mai gosodiad cryf o argyhoeddiad ydynt—"yr ydym yn credu ac yr ydym yn sicr." Diflanasai brwdfrydedd y dyrfa ac aethai llawer o ddisgyblion yn eu hôl. "Teimlodd hyd yn oed y deuddeg ysgydwad y gwrthweithiad" (Scott Holland), ond safodd un ar ddeg yn gadarn yn y ffydd. Nithiwyd ymaith yr us, ond y mae yn werth nithio ymaith lawer o us er cael o hyd i'r gwenith. Gallai'r un ar ddeg ddywedyd, "Ni throdd ein calon yn ei hôl, ac nid aeth ein traed allan o'th lwybrau di" (Salm xliv. 18). Cymharer cyffesiadau Pedr: 1. Yn wir mab Duw ydwyt Ti (Mt. xiv. 33); 2. Ti yw Sanct Duw (Ioan vi. 69); Ti yw y Crist, Mab y Duw byw (Mt. xvi. 16). Rhydd yr adnod hon (69) y trydydd rheswm dros beidio â myned ymaith oddi wrth yr Iesu.

70. **A'r Iesu a'u hatebodd hwynt.** Nid Pedr yn unig, ond "hwynt." Cyffesodd Pedr nid yn unig ar ei ran ei hun ond ar ran y lleill hefyd.

Oni ddewisais i chwychwi y deuddeg? Y mae "I" yn bwysleisiol: rhai a ddewiswyd yn ystyriol gan yr Iesu o gylch ehangach o ddisgyblion oedd y deuddeg.

Ac ohonoch y mae un yn ddiafol? Y mae'n debyg y diweddda'r gofyniad gyda'r gair "deuddeg": Oni ddewisais i chwychwi y deuddeg? ac y mae un ohonoch yn ddiafol.

Yn ddiafol. Sylwa Bernard y defnyddir y gair a gyfieithir "diafol" bob amser gan Ioan am Satan neu un o dan ddylanwad Satan (viii. 44, xiii. 2; 1 Ioan iii. 8, 10). Yn Ioan xiii. 2 dywedir roddi o'r "diafol" eisoes yng nghalon Judas i fradychu'r Iesu, ac yn xiii. 27, dywedir. "aeth Satan i mewn iddo." Y mae'r hwn y gweithreda'r diafol drwyddo ei hun yn ddiafol. Taflwyd fflam llusern y ddysgeidiaeth ar y cylch mewnol hefyd, ac yr oedd yn eglur i'r Iesu, er nad oedd i Bedr (adn. 69), mai gwrthgiliwr oedd Judas yn ei galon, mewn cydymdeimlad â'r rhai a aeth yn eu hôl. Yr oedd Pedr yn rhy frwdfrydig pan atebodd ofyniad yr Iesu yn enw'r deuddeg: yr oedd un ohonynt yn ddiafol.

71. **Judas Iscariot, mab Simon.** Yn y darlleniad cywir yma ac yn xiii. 26 ychwanegir "Iscariot" at enw tad Judas, ac nid at ei enw ef—Judas, **mab** Simon Iscariot. Yn xiii. 2 ceir "Judas Iscariot, **mab** Simon. Yn yr Efengyl hon yn unig y cymhwysir yr enw "Iscariot" at dad Judas. Y farn gyffredin yw mai ystyr "Iscariot" yw, "dyn o Gerioth," lle yn Juda (Josh. xv. 25) neu ym Moab (Jer. xlviii. 24). Judas, felly, oedd yr unig un o'r deuddeg nad oedd o Galilea.

Canys hwn oedd ar fedr ei fradychu ef. "Gall y gair a gyfieithir 'ar fedr' ddynodi'r dyfodol yn syml (iv. 47), neu gall ddynodi bwriad (vi. 16, xiv. 22); ond gall hefyd gynnwys y syniad fod y peth yn rhagderfynedig ac anocheladwy. "Byddai disgrifio Judas fel yr hwn a fwriadwyd i draddodi'r Iesu i'w elynion yn gwbl nodweddiadol o Ioan" (Bernard). Barnwn na olyga'r geiriau hyn y bwriadai Judas ar y pryd fradychu'r Iesu, ond mai mynegiadl ydynt o'r hyn fyddai iddo ei wneuthur. Yng ngoleuni'r hyn a ddigwyddodd ar ôl hyn, gellid dywedyd bod Judas "ar fedr" bradychu'r Iesu cyn iddo wneuthur hynny.

Un o'r deuddeg. Cym. Mt. xxvi. 14, 47; Marc xiv. 10, 20, 43; Luc xxii. 3 (o rifedi'r deuddeg), 47. Y mae'r geiriad a geir yma ychydig yn wahanol i'r hyn a geir yn yr Efengylau eraill, ac awgryma Westcott y dynoda "unoliaeth y corff i'r hwn y perthynai'r aelod anffyddlon." Mynega'r ymadrodd syndod a soriant Ioan fod cymaint ag un galon dwyllodrus o fewn y cylch etholedig. Gellid disgwyl peth gwell oddi wrth "un o'r deuddeg," ond dyna a gad. "Un o'r deuddeg" yn ddiafol: "un o'r deuddeg" yn fradychwr! Y mae'r glân a'r aflan, y golomen a'r gigfran, o hyd yn yr Arch" (Awstin).

Yn adn. 15 ceir tyrfa yn ceisio gwneuthur yr Iesu'n frenin: yn awr ceir deuddeg, a fyddant yn fuan yn un ar ddeg. Y fath gyferbyniad!

Cymhwysir y disgrifiad, "un o'r deuddeg," gan Ioan at un heblaw Judas: "Eithr Thomas, un o'r deuddeg, nid oedd gyda hwynt pan ddaeth yr Iesu." Yr oedd "un o'r deuddeg" yn absennol pan ymddangosodd y Gwaredwr wedi ei Atgyfodiad!

Ni ddywedir dim yn yr Efengylau eraill am Judas cyn y Bradychu, gyda'r eithriad o Luc xxii. 3. Yn yr Efengyl hon yn unig, medd Scott Holland, y ceir goleuni ar ei waith yn bradychu'r Iesu. Olrheinir ei gwymp yn hon, a cheir hedyn cyntaf ei weithred yma: drylliwyd ei obeithion materol gan ddysgeidiaeth y bennod hon. (Rhagdybia hyn ei fod yn wladgarwr penboeth ac uchelgeisiol). Yn ail, y bedwaredd Efengyl yn unig a wna'r Eneiniad ym Methania yn radd benodol o'r hyn y gellir ei ddisgrifio fel "rhoddi lle i diafol" (Eph. iv. 27). Nid edrydd Luc hanes yr Eneiniad gan Mair: rhydd Mt. a Marc hanes cyflawn ohono, ond ni chyfeiriant at Judas. Eithr rhoddant gynnig Judas i fradychu'r Iesu am arian yn union

ar ôl hanes yr Eneiniad, yr hyn a ddengys yn eglur y gwelent gysylltiad agos rhwng y ddau ddigwyddiad. Esbonia Ioan y cysylltiad rhwng ychwanegu mai Judas a ddywedodd "Paham na werthwyd yr ennaint hwn er tri chan ceiniog, a'i roddi i'r tlodion." Ac ychwanega'r nodiad eglurhaol, "Hyn a ddywedodd efe, nid oherwydd bod arno ofal dros y tlodion; ond am ei fod yn lleidr, a bod ganddo y pwrs, a'i fod yn dwyn yr hyn a fwrid ynddo."

Y mae ystyr y dywediad bod Judas yn lleidr yn eglur, os yw'r Cyfieithiad Diwygiedig Saesneg o'r frawddeg hon yn gywir: "a bod ganddo'r pwrs, a'i fod yn dwyn ymaith (yn lladrata) yr hyn a fwrid ynddo." Cyfieithia Moffatt, "and pilfered what was put in." Priodolir hyn gan rai, ond yn hollol ddisail, i awydd Ioan i fychanu Judas. Cyfiawnha'r hyn a ddywedir gan Ioan y cysylltiad agos a rydd Mt. a Marc rhwng yr Eneiniad a gwaith Judas yn bradychu'r Iesu.

Yn "Stori Crist," gan Papini, ceir pennod ar "Ddirgelwch Judas," yn yr hon y rhoddir yr amrywiol esboniadau arferol ar fradwriaeth Judas. Eithr yn nechrau'r bennod dywaid Papini: "Ni fu ond dau fod yn y byd a ddeallodd ddirgelwch Judas: Crist a'r bradwr ei hun. Y mae chwe deg o genedlaethau wedi dyfalu yn ei gylch, ond erys yr Iscariot heb ei esbonio, er bod rhifedi ei ddisgyblion ar y ddaear yn anghyfrifadwy. Ef yw'r unig ddirgelwch dynol a geir yn yr Efengylau. Y mae'n hawdd deall ellylldra'r Herodiaid, casineb chwerw'r Phariseaid, 'spite' gwenwynedig Annas a Chaiaphas, a gwendid llwfr Pilat; ond erys yr eglurhad ar weithred ffiaidd Judas yn guddiedig." Temtir ni i roddi dyfyniad arall o'r bennod hon: "Hyd y noson olaf ymddygasai'r Iesu bob amser tuag at Judas fel yr ymddygasai tuag at y lleill. . . . . Golchwyd a sychwyd ei draed ef hefyd—y traed a'i dug i dŷ Caiaphas—gan y dwylaw a drywanid â hoelion y dydd canlynol, a chyda'i gydsyniad anuniongyrchol ef."

PENNOD VII.

1 A'r Iesu a rodiodd ar ol y pethau hyn yn Galilea:
canys nid oedd efe yn chwennych rhodio yn Judea,
2 oblegid bod yr Iuddewon yn ceisio ei ladd ef. A gwyl
3 yr Iuddewon, *sef* gwyl y pebyll, oedd yn agos. Am
hynny ei frodyr ef a ddywedasant wrtho, Cerdda ym-
aith oddi yma, a dos i Judea; fel y gwelo dy ddisgybl-
ion dy weithredoedd di y rhai yr ydwyt yn eu gwn-
4 euthur. Canys nid oes neb yn gwneuthur dim yn
ddirgel, ac yntau yn ceisio bod yn gyhoedd: od wyt
ti yn gwneuthur y pethau hyn, amlyga dy hun i'r
5 byd. Canys nid oedd ei frodyr yn credu ynddo. Yna
6 yr Iesu a ddywedodd wrthynt hwy, Ni ddaeth fy am-
ser i etto: ond eich amser chwi sydd yn wastad yn
7 barod. Ni ddichon y byd eich casâu chwi; ond myfi
y mae yn ei gasâu, o herwydd fy mod i yn tystiol-
aethu am dano, fod ei weithredoedd ef yn ddrwg.
8 Ewch chwi i fynu i'r wyl hon: nid wyf fi etto yn
myned i fynu i'r wyl hon, oblegid ni chyflawnwyd
9 fy amser i etto. Gwedi iddo ddywedyd y pethau hyn
wrthynt, efe a arhosodd yn Galilea.

YR IESU YNG NGŴYL Y PEBYLL.

YR IESU A'I FRODYR ANGHREDINIOL (adn. 1—9).

1. **A'r Iesu a rodiodd . . . . yn Galilea.** Ni ddynoda "ar ôl y pethau hyn" olyniaeth amseryddol uniongyrchol, ond dechrau cyfnod newydd yn yr hanes.

A rodiodd. Yr amser amherffaith—"rhodiai." Y gair a gyfieithir "rhodio" yw'r gair arferol am weinidogaeth deithiol dysgawdr yng nghwmpeini ei ddisgyblion. Gweinidogaeth deithiol oedd gweinidogaeth yr Iesu. Y mae Ioan yn hoff o'r gair "rhodio."

Gwêl i. 36, vi. 66, viii. 12, xi. 9, 10, 54, xii. 35. Yn viii. 12, xi. 9, 10 defnyddir y gair mewn ystyr ffigurol, yn dynodi ymddygiad moesol ac ysbrydol.

Canys . . . . ef. Cyfeiriad at v. 18.

2. **Gŵyl y pebyll.** Yr oedd Gŵyl y Pebyll yn un o dair gŵyl genedlaethol Israel, y gofynnid i'r holl wrywaid arnynt eu cyflwyno eu hunain gerbron yr Arglwydd eu Duw, gydag offrwm cyfatebol i'w moddion—"pob un yn ôl rhodd ei law, yn ôl bendith yr Arglwydd dy Dduw a roddes efe i ti." Gwêl Ex. xxiii. 17, xxxiv. 23; Deut. xvi. 16; 2 Cron. viii. 13. Y gŵyliau hyn oedd (a) Gŵyl y bara croyw (y Pasg); (b) Gŵyl y Pentecost; (c) Gŵyl y pebyll. Cedwid gŵyl y pebyll er coffa am breswyliad yr Israeliaid mewn pebyll pan ddygwyd hwynt allan o dir yr Aifft, ac i ddathlu casgliad y cynhaeaf i mewn. Gelwid hi hefyd yn "Wyl yr wythnosau." Geilw Josephus hi y "sancteiddiaf a'r fwyaf" o'r gŵyliau. Yn wreiddiol, cedwid hi am saith niwrnod, ond yn ddiweddarach ychwanegwyd wythfed dydd, "dydd cymanfa sanctaidd," gydag aberthau neilltuol. Gwêl Lev. xxiii. 36, 39; Nnm. xxix. 35; Neh. viii. 18.

3. **Ei frodyr ef.** Gwêl ar ii. 12.

Dy ddisgyblion. Nid y deuddeg. Barnwn mai at ddisgyblion yr Iesu yn Judea a Jerusalem y cyfeirir yma.

Cerdda ymaith oddi yma . . . . gwneuthur. Cyf. Marc iii. 21, 31. Ni olyga hyn fod ei frodyr yn amau gwirioneddolrwydd ei weithredoedd, eithr eu bod yn gofyn iddo gyfiawnhau ei honiadau mewn modd mwy eofn a chyhoeddus. Yr argraff a wneir arnom gan Mt. xii. 46 a Marc iii. 32 yw y ceisiodd ei fam a'i frodyr ei berswadio i roddi i fyny ei weinidogaeth gyhoeddus, ond yma cais ei frodyr ganddo ei wneuthur ei Hun yn amlwg yn y lle y byddai hynny'n fwyaf effeithiol, sef yn y brifddinas.

Un o ffyrdd ein byd ni yw hysbysebiaeth, ac y mae i ryw raddau yn beth buddiol. Eithr nid hysbysebiaeth o unrhyw fath yw ffordd y byd ysbrydol. Y mae'r "big brush" hyd yn oed yn farwol yno. Gwyleidd-dra ac amynedd tragwyddoldeb i'w ffordd nerthoedd moesol mawr. Cyflawnodd Crist wyrthiau mewn bythynnod, yn y cylch teuluaidd, yn ystafell y claf, ar fin y ffordd, mewn lleoedd anial, a gorchmynnodd i ddynion beidio â dywedyd dim amdanynt. Cyhoeddir hwy eto drwy eu rhinweddau eu hunain, ond cais y cylch teuluaidd—"ei frodyr Ef"—gyhoeddiad dioed yn y brifddinas. Y maent yn myned i fyny i Jerusalem, a chyhoeddent Ef pe ond yn unig y cydweithredai â hwynt.

4. Ni all dyn guddio'i weithredoedd a gobeitho bod yn amlwg —yn gyhoedd—ei hun ar yr un pryd.

Os wyt ti yn gwneuthur y pethau hyn. Cyfieitha Moffatt, "gan y medri wneuthur y pethau hyn." Yn ôl hyn ni fynega ei frodyr amheuaeth ynghylch ei weithredoedd. "If thou *doest* these things, not if thou *do* these things" (Plummer). Os cyflawnai'r Iesu wyrthiau o gwbl, bydded iddo'u cyflawni gerbron yr holl genedl, ac nid mewn rhannau neilltuedig o'r wlad.

Golyga Bernard y mynega'r geiriau amheuaeth, er na fynegant anghrediniaeth bendant.

Amlyga dy hun i'r byd. I'r byd a fyddai yn Jerusalem yn ystod yr ŵyl.

5. **Canys nid oedd ei frodyr ef yn credu ynddo.** Nid oeddynt yn credu ynddo fel y Meseia. Gwelir yma onestrwydd yr Efengylwr; cyfaddef nad oedd y rhai oedd mewn cysylltiad agos ag Ef yn credu ynddo. Gellid disgwyl i'w frodyr fod y rhai cyntaf i ymddiried ynddo, ond "nid oedd hyd yn oed ei frodyr yn credu ynddo." Dyna'r amser amherffaith eu hymddygiad arferol tuag ato.

6. **Ni ddaeth fy amser i eto.** Amser ei hunanamlygiad fel y Meseia. Ynna'n unig yn Ioan y ceir y gair a gyfieithir "amser": gair Ioan yw "awr." Golyga "amser" yr amser cyfleus, yr achlysur priodol.

Ond eich amser chwi sydd yn wastad yn barod. Ni wnâi wahaniaeth iddynt hwy pa bryd yr aent i fyny i'r ŵyl: gallent hwy ddewis eu hamser, canys ni chyfarfyddent hwy â gwrthwynebiad.

Cyfieitha Pwyllgor Caerdydd: "Ni ddaeth fy adeg i eto, ond y mae'ch adeg chwi bob amser yn gyfleus."

7. Nid oedd y byd yn eu casáu hwynt, canys yr oeddynt yn rhan ohono (xv. 19). Adlewyrchiad o ffordd y byd o feddwl a gweithredu oeddynt hwy: fe'i gwelai'r byd ei hun ynddynt. Eithr yr oedd y byd yn casáu'r Iesu, a chasâ Ef eto. Dengys goleuni Crist i'r byd fod ei weithredoedd yn ddrwg, ac oherwydd hynny casâ'r byd Ef. Casâ hunanoldeb hunanaberth, a gelyniaeth gariad, a chelwydd wirionedd, megis y casâ tywyllwch oleuni.

8. **Ewch chwi i fyny i'r ŵyl hon.** Y mae "chwi" yn bwysleisiol—"ewch **chwi.**"

Nid wyf fi yn myned i fyny i'r ŵyl hon. Mewn rhai Llawysgrifau, "nid wyf fi yn myned i'r ŵyl hon." Y mae'r Cyfieithiad Diwygiedig Saesneg yn seiliedig ar y darlleniad, "nid eto," a chyfieithiad Moffatt ar y darlleniad "nid." Oherwydd y darlleniad "nid" dug Porphyry'r cyhuddiad o anwadalwch yn erbyn yr Iesu, a dywaid Meyer, "newidiodd ei fwriad." Os y darlleniad "nid eto" sy'n gywir, barnwn y rhydd Godet yr esboniad iawn: "nid wyf Fi yn myned i'r ŵyl hon gyda'r amcan y dymunwch chwi i mi fyned iddi; pan ddaw'r adeg, af i'm hamlgyu fy Hun."

Cawn yma enghraifft o beth a bwysleisir gan Ioan, sef anewyllysgarwch yr Iesu i weithredu'n frysiog ar gais eraill (cym. ii. 4, 7).

Yr un yw'r ystyr pa ddarlleniad bynnag a fabwysiadwn. Nid yw'r Iesu yn myned i'r ŵyl yn awr, yn gyhoeddus, gyda'r fintai gyffredinol.

Am na chyflawnwyd fy amser i eto. "Am nad yw'n llawn bryd i Mi eto" (Pwyllgor Caerdydd).

Yr ŵyl hon. Y mae "hon" yn bwysleisiol. Edrych yr Iesu ymlaen o'r ŵyl **hon,** gŵyl y pebyll, at ŵyl arall, gŵyl y Pasg, pryd y cyflawnid ei amser (xii. 23, xvii. 1).

Yn ei ateb i'w frodyr cyfyd yr Iesu gylch galluoedd a chyfleusterau i lefel arall. Gall dyn a weithia er ei fwyn ei hun ddefnyddio cyfleusterau ffafriol, ond ni fedr dyn sydd â chenhadaeth ganddo wneuthur hynny. Ni faidd na brysio nac oedi.

9. **Efe a arhosodd yn Galilea.** Hyd onid aeth i fyny i'r ŵyl (adn. 10).

10 Ac wedi myned o'i frodyr ef i fynu, yna yntau hefyd
a aeth i fynu i'r wyl; nid yn amlwg, ond megis yn
11 ddirgel. Yna yr Iuddewon a'i ceisiasant ef yn yr
12 wyl, ac a ddywedasant, Pa le y mae efe? A murmur
mawr oedd am dano ef ym mysg y bobl. Canys rhai
a ddywedent, Gwr da yw: ac eraill a ddywedent,
13 Nag ê; eithr twyllo y bobl y mae. Er hynny ni lefarodd neb yn eglur am dano ef, rhag ofn yr Iuddewon.

YR IESU YN MYNED I FYNY I'R ŴYL YN DDIRGEL (adn. 10—13).

10. **Yntau hefyd a aeth i fyny i'r ŵyl . . . . yn ddirgel.** Ni ddengys hyn newid o'r Iesu ei fwriad. Aeth i fyny i'r ŵyl nid yn amlwg, nid gydag un o'r minteioedd, ond megis yn ddirgel, yn breifat. Dyma'r nodwedd yn ei weinidogaeth y dymunai ei frodyr ei symud ymaith.

11. **"Yna yr Iddewon,"** y dosbarth oedd yn swyddogol wrthwynebol iddo, **"a'i ceisiasant ef yn yr ŵyl, ac a ddywedasant, Pa le y mae efe?"** Nid oedd ymhlith y cyntaf o'r pererinion i gyrraedd. Ni olygir iddo aros yn anadnabyddus wedi iddo gyrraedd.

Pa le y mae efe?—Y dyn y clywsom gymaint amdano.

12. **Murmur mawr.** "Cryn siarad" (Pwyllgor Caerdydd). Coleddid syniadau gwahanol amdano. Dywedai rhai, "Gŵr da yw,"

gŵr â'i gymhellion yn bur; dywedai eraill, "Nage, eithr twyllo y bobl y mae." Cym. Mt. xxvii. 63; Luc. xxiii. 5.

13. **Er hynny ni lefarodd neb . . . . Iddewon.** Ceir yr ymadrodd, "ofn yr Iddewon," yn xix. 38, xx. 19. Ni lefarodd neb yn eglur amdano nac o'i blaid nac yn ei erbyn, rhag ofn yr Iddewon. Gwyddent eu bod yn erbyn yr Iesu, ond gallent newid eu meddwl. Gwleidyddion oeddynt, a'u cwestiwn oedd, nid beth oedd y gwirionedd amdano, ond beth am y sefyllfa genedlaethol, eu gobeithion a'u cynlluniau hwy, a beth fyddai effaith y symudiad hwn ar bethau felly.

14 *Ac* yr awrhon ynghylch canol yr wyl, yr Iesu a aeth
15 i fynu i'r deml, ac a athrawiaethodd. A'r Iuddewon
a ryfeddasant, gan ddywedyd, Pa fodd y medr hwn
16 ddysgeidiaeth, ac *yntau* heb ddysgu. Yr Iesu a atteb-
odd iddynt, ac a ddywedodd, Fy nysgeidiaeth nid
17 eiddof fi yw, eithr eiddo yr hwn a'm hanfonodd i. Os
ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys ef, efe a gaiff
wybod am y ddysgeidiaeth, pa un ai o Dduw y mae
18 hi, ai myfi o honof fy hun sydd yn llefaru. Y mae
yr hwn sydd yn llefaru o hono ei hun, yn ceisio ei
ogoniant ei hun: ond yr hwn sydd yn ceisio gogoniant yr hwn a'i hanfonodd, hwnnw sydd eirwir, ac
19 anghyfiawnder nid oes ynddo ef. Oni roddes Moses
i chwi y gyfraith, ac nid oes neb o honoch yn gwneuthur y gyfraith? Paham yr ydych yn ceisio fy
20 lladd i? Y bobl a attebodd ac a ddywedodd, Y mae
gennyt ti gythraul: pwy sydd yn ceisio dy ladd di?
21 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Un
weithred a wneuthum, ac yr ydych oll yn rhyfeddu.
22 Am hynny y rhoddes Moses i chwi yr enwaediad;
(nid o herwydd ei fod o Moses, eithr o'r tadau;) ac
23 yr ydych yn enwaedu ar ddyn ar y Sabbath. Os yw
dyn yn derbyn enwaediad ar y Sabbath, heb dorri
cyfraith Moses; a ydych yn llidiog wrthyf fi, am i
24 mi wneuthur dyn yn holliach ar y Sabbath? Na fernwch wrth y golwg, eithr bernwch farn gyfiawn.

YR IESU YN DYSGU YN Y DEML (adn. 14—24).

14. **Canol yr ŵyl.** Oddeutu'r pedwerydd dydd.

Ac a athrawiaethodd. "Ac a ddechreuodd ddysgu." Dyma'r waith gyntaf y siaredir am yr Iesu yn dysgu yn gyhoeddus yn Jerusalem. Cym. adn. 28, viii. 20, xviii. 20.

(Rhydd nifer o feirniaid adn. 15—24 o'r bennod hon yn union ar ôl y bumed bennod ac ychwanega rhai viii. 12—20 (Gwêl Rhagarweiniad).

15. **A ryfeddasant.** "Yr oeddynt yn rhyfeddu."

Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth, ac yntau heb ddysgu? "Pa fodd y medr hwn lên?"—llên yr ysgolion, gwybodaeth o'r ysgrifeniadau Iddewig. Ceir y gair a gyfieithir "dysgeidiaeth" yma yn Act. xxvi. 24, "llawer o ddysg sydd yn dy yrru di yn ynfyd." Iddynt hwy gŵr lleyg ac annysgedig yw (cym. Act. iv. 13), anadnabyddus yng nghylchoedd esbonwyr proffesedig. Cadd yn ddiau yr addysg a roddid i blant yn y synagog, ond ni fu mewn coleg; ni ddysgodd wrth draed unrhyw Rabbi: nid oedd ganddo na gradd na thystysgrif. Nid sylwedd ei ddysgeidiaeth yw'r hyn y talant sylw iddo, ond y ffaith y medr lên, ac yntau heb ddysgu. Try ei ddirgelwch, medd Peyton, yn drafodaeth ynghylch ei addysg. Ni dderbyniant y gwirionedd i'w cydwybodau, ond trafodant eilbeth. Troant ymaith yr ergyd â phethau amherthynasol.

Ni sylwa Ioan ar wrthwynebiadau i'r Iesu, ond y mae'r ffaith na ddywaid ddim am ymddygiad yr Iddewon yn yr achos hwn yn enghraifft o hunanlywodraeth goruwchddynol ymron.

Sylwa Macgregor y gallwn dybied y gwelai'r Efengylwr beth rhyfeddol o ddramatig yn y darlun hwn o'r Iddewon wyneb yn wyneb â'r Gair ymgnawdoledig ac yn ymddwyn tuag ato fel un heb ddysgu.

16. Etyb yr Iesu nad yw yn hunanaddysgedig. Nid ei eiddo'i Hun yw ei ddysgeidiaeth, ond eiddo Duw, Dysgawdr mwy nag unrhyw Rabbi. Derbyniodd yr Iesu gan ei Dad y gwirionedd a ddysgodd i'r byd (cym. v. 30, viii. 26, 28, 38, xii. 49, xiv. 10, 24).

17. **Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys ef . . . . . gwirionedd.** Y mae rhaid wrth fwy nag ufudd-dod ffurfiol a difywyd i ewyllys Duw—rhaid ewyllysio ei gwneuthur. Nid "os gwna neb" a ddywedir, ond "os ewyllysia neb wneuthur." Yn yr adnod hon rhoddir pwyslais arbennig ar un o wirioneddau'r bedwaredd Efengyl, sef mai drwy ymddygiad iawn y ceir gwybodaeth gywir o'r pethau sydd o Dduw, ac mai achos moesol sydd i anghrediniaeth yn fynych. Rhaid gwneuthur cyn y gellir gwybod—i'r uniawn y cyfyd goleuni. Y mae bywyd a goleuni yn anwahanadwy (iii. 19—21). Ni allwn

wneuthur pethau gwael a chredu pethau mawr. Y mae'n wir fod dyn yn byw fel y mae yn credu, ond y mae'n wir hefyd ei fod yn credu fel y mae yn byw. Adlewyrchiad o'n bywyd yw ein cred. Yr ydym ni yn rhy dueddol i ddywedyd, Gadawer inni "wybod" yn gyntaf, ac yna "gwnawn": eithr y dreîn yw, "gwnewch, a chwi a gewch wybod." Felly y mae hyd yn oed yn y cylch naturiol. Medd athronydd mawr, "Dyfod yn wybodus drwy brofi yw profiad" (experience means becoming expert by experiment). Nid drwy wybod y dechreuwn, ond drwy ddysgu. Enillwn wybodaeth drwy wneuthur yn syml, a thrwy wneuthur yn unig yr enillwn hi." Ac felly y mae hefyd yn y byd moesol ac ysbrydol. Pa fodd y medrwn wybod mai o Dduw y mae dysgeidiaeth yr Iesu, ac nad llefaru ohono'i Hun a wna? Drwy ewyllysio gwneuthur ewyllys Duw. Dyna'r ffordd, ac y mae yn ffordd sicr. Cyfanswm a gynnwys bopeth yw ewyllys Duw, a phwynt uniongyrchol ei chyffyrddiad â ni yw nid ein deall, ond ein hewyllys. Nid drwy'r deall y deuir i wybod pethau ysbrydol, ond drwy brofiad. "Profwch a gwelwch mor dda yw yr Arglwydd" (Salm xxxiv. 8); "Dirgelwch yr Arglwydd sydd gyda'r rhai a'i hofnant ef" (Salm xxv. 14). Yr un ysbryd sydd yn puro'r galon ac yn goleuo'r meddwl.

"Ym mydysawd ysbrydol Duw," medd F. W. Robertson, "nid oes ffafredigion gan y nefoedd a fedrant gyrraedd gwybodaeth a doethineb ysbrydol ar wahân i ufudd-dod." Gwybod drwy wneuthur —dyna'r "ddeddf eang, gyffredinol a gogoneddus." A rhaid gwneuthur llawer i ddysgu ond ychydig. Â dysgeidiaeth yr adnod hon cymharer viii. 31, 32, ac yn arbennig xviii. 37. Ceir yr un ddysgeidiaeth yn Mt. vii. 21.

18. Ceir yn yr adnod hon ffordd arall i wybod mai o Dduw y mae dysgeidiaeth yr Iesu, ac nad llefaru ohono'i Hun a wna. Dysgir i ni yn yr adnod flaenorol mai drwy ewyllysio ewyllys Duw y deuwn i wybod hyn oherwydd mai o Dduw y mae, fe'i cymeradwya dysgeidiaeth yr Iesu ei hun i'r sawl sydd mewn cydymdeimlad ymarferol â'r ewyllys Ddwyfol.

Yma, y praw yw hwn: cais yr hwn a lefara ohono'i hun ei ogoniant ei hun. Ni wna'r Iesu naill (v. 30) na'r llall (v. 41).

Y mae'r hwn sydd yn llefaru ohono ei hun, yn ceisio ei ogoniant ei hun. Y llefarwr ei hun yw ffynhonnell a nod ei weithredoedd. Y mae yn hunanysbrydoledig ac yn hunangeisiol. Ei amcan yn y cwbl a wna yw mantais bersonol a chlod ac anrhydedd dynion.

Ond yr hwn sydd yn ceisio gogoniant yr hwn a'i hanfonodd, hwnnw sydd eirwir, ac anghyfiawnder nid oes ynddo ef. "Ni phroffesai'r Iesu ei fod yn ddysgawdr gwreiddiol, ond hawliai ei farnu fel dysgawdr a safai dros Arall. Pa fodd y mae rhoddi dysgawdr o'r math hwn ar ei braw? Y mae un praw digonol. A ydyw yn gweithio er ei fwyn ei hun neu i'w ogoneddu ei hun? Daliodd yr Iesu'r praw hwn. Ceisiodd yn ddibaid wneuthur enw Un Arall yn fawr."

"Ei ogoniant ei hun a gais unrhyw un a lefara ohono'i hun: ond y mae cennad a lefara ohono'i hun nid yn unig yn ceisio'i ogoniant ei hun ond yn dwyllodrus: hawlia genadwri ei feistr fel ei eiddo'i hun. Y mae'r cennad a gais ogoniant ei feistr yn gywir," ac nid oes anonestrwydd ynddo.

19. **Oni roddes Moses i chwi'r gyfraith?** Y gyfraith yn gyffredinol (i. 17), ond at gyfraith y Sabbath y cyfeirir yma.

Ond nid oes neb ohonoch yn gwneuthur y gyfraith. Cyfraith y Sabbath. Gwêl ar adn. 23.

Paham yr ydych yn ceisio fy lladd i? Gwêl ar v. 18.

20. Ni wyddai y bobl am amcanion eu harweinwyr, a phan ddywedodd yr Iesu "Paham yr ydych yn ceisio fy lladd i?" Credent fod ganddo gythraul. Cym. viii. 48, 52, x. 20. Dywedwyd yr un pethau am Ioan Fedyddiwr. Gwêl Mt. xi. 18; Luc vii. 33.

Yr hyn a olygir yma yw bod yr Iesu wedi gwallgofi. Priodolid gwallgofrwydd i feddiant cythreulig. Sylwa Bernard fod credu bod eraill mewn cynghrair yn erbyn un yn arwydd adnabyddus o wallgofrwydd.

21. **Un weithred a wneuthum.** Iacháu'r claf wrth y llyn.

Ac yr ydych chwi oll yn rhyfeddu. Rhyfeddent nid oherwydd y weithred o iacháu'r claf, ond oherwydd mai ar y Sabbath yr iachawyd ef.

22. **Am hyn.** Rhoddir "am hyn" yn niwedd yr adnod flaenorol gan lawer o'r golygwyr diweddar—"Ac yr ydych oll yn rhyfeddu am hyn." Os mabwysiadwn y darlleniad, "Am hyn y rhoddes Moses i chwi yr enwaediad," barnwn mai yr ystyr yw mai yr un amcan oedd gan Moses pan roddes yr enwaediad ag oedd gan yr Iesu pan iachaodd y claf wrth y llyn.

Nid oherwydd ei fod o Moses, eithr o'r tadau. Sylw eglurhaol yw hwn, ac nid rheswm am y dywediad blaenorol.

Pa beth yw ystyr y dywediad hwn? Rhoddwn wahanol farnau: (a) Rhydd y rheswm paham yr oedd enwaedu ar yr wythfed dydd yn fwy pwysig na deddf y Sabbath, sef ei fod yn hŷn deddf—"o'r tadau." (b) Rhydd y rheswm paham y gallesid disgwyl i'r Sabbath gael ei roddi ar dir uwch na deddf yr enwaediad, canys yr oedd y Sabbath o Moses ac yn rhan o'r Dengair deddf.

Ac yr ydych yn enwaedu ar ddyn ar y Sabbath. Pan fyddai'r wythfed dydd wedi genedigaeth plentyn yn Sabbath enwaedid arno.

23. **Heb dorri cyfraith Moses.** Barnwn fod "fel na thorrer cyfraith Moses" yn gywirach cyfieithiad. Os mabwysiadwn y cyfieithiad, "heb dorri cyfraith Moses," cyfraith y Sabbath a olygir: os y cyfieithiad "fel na thorrer cyfraith Moses," cyfraith yr enwaediad yw'r gyfraith y cyfeirir ati.

Am i mi wneuthur dyn yn holliach ar y Sabbath. Yn gywir, "dyn cyfan yn iach ar y Sabbath." Rhoddid o'r neilltu gyfraith y Sabbath er mwyn iechyd rhan o'r corff, ac felly yr oedd yn beth afresymol iddynt fod yn llidiog wrth yr Iesu am ei fod wedi gwneuthur dyn cyfan yn iach ar y Sabbath. Os caniateir y peth llai paham na chaniateir y peth mwy? Gwelwn fod yna olygiad arall ynglŷn â'r cyferbyniad a geir yn yr adnod hon. Anafu ac anurddo a wnâi enwaedu, a chyfieitha Moffatt: "Are you enraged at me for curing, not cutting, the entire body of a man upon the Sabbath?"

24. **Na fernwch wrth yr olwg.** Na fernwch mewn modd arwynebol. Trosedd mewn ymddangosiad yn unig o ddeddf y Sabbath oedd y weithred o iacháu'r claf wrth y llyn.

Eithr bernwch farn gyfiawn. "Y" farn gyfiawn. "Byddwch yn deg" (Bernard).

Yn adn. 19—24 ymresyma'r Iesu â'r Iddewon ar eu tir eu hunain. Nid oes neb ohonynt yn gwneuthur y gyfraith (cyfraith y Sabbath) ym mhob amgylchiad (adn. 19), ac yn adn. 23 enwir eithriad, sef yr enwaediad ar y Sabbath.

25 Yna y dywedodd rhai o'r Hierosolymitaniaid, Onid
26 hwn yw yr un y maent hwy yn ceisio ei ladd? Ac
wele, y mae yn llefaru ar gyhoedd, ac nid ydynt yn
dywedyd dim wrtho ef: a wybu y pennaethiaid mewn
27 gwirionedd mai hwn yw Crist yn wir? Eithr nyni a
adwaenom hwn o ba le y mae: eithr pan ddêl Crist,
28 nis gwŷr neb o ba le y mae. Am hynny yr Iesu, wrth
athrawiaethu yn y deml, a lefodd ac a ddywedodd,
Chwi a'm hadwaenoch i, ac a wyddoch o be le yr ydwyf fi: ac ni ddeuthum i o honof fy hun, eithr y mae
yn gywir yr hwn a'm hanfonodd i, yr hwn nid ad-
29 waenoch chwi. Ond myfi a'i hadwaen: oblegid o
30 hono ef yr ydwyf fi, ac efe a'm hanfonodd i. Am
hynny hwy a geisiasant ei ddal ef: ond ni osododd

31 neb law arno, am na ddaethai ei awr ef etto. A
llawer o'r bobl a gredasant ynddo, ac a ddywedasant,
Pan ddelo Crist, a wna efe fwy o arwyddion na'r rhai
32 hyn a wnaeth hwn? Y Phariseaid a glywsant fod y
bobl yn murmur y pethau hyn am dano ef; a'r Phariseaid a'r arch-offeiriaid a anfonasant swyddogion i'w
33 ddal ef. Am hynny y dywedodd yr Iesu wrthynt
hwy, Yr ydwyf fi ychydig amser etto gyd â chwi, ac
34 yr wyf yn myned at yr hwn a'm hanfonodd. Chwi
a'm ceisiwch, ac ni'*m* cewch: a lle yr ydwyf fi, ni
35 ellwch chwi ddyfod. Yna y dywedodd yr Iuddewon
yn eu mysg eu hunain, I ba le y mae hwn ar fedr
myned, fel na chaffom ni ef? ai at y rhai sydd ar
wasgar ym mhlith y Groegiaid y mae efe ar fedr
36 myned a dysgu y Groegiaid? Pa ymadrodd yw
hwn a ddywedodd efe, Chwi a'm ceisiwch, ac ni'*m*
37 cewch: a lle yr ydwyf fi, ni ellwch chwi ddyfod? Ac
ar y dydd diweddaf, y *dydd* mawr o'r wyl, y safodd
yr Iesu, ac a lefodd, gan ddywedyd, Od oes ar neb
38 syched, deued attaf fi, ac yfed. Yr hwn sydd yn
credu ynof fi, megis y dywedodd yr ysgrythyr, afon-
39 ydd o ddwfr bywiol a ddylifant o'i groth ef. (A hyn
a ddywedodd efe am yr Yspryd, yr hwn a gai y rhai
a gredent ynddo ef ei dderbyn: canys etto nid oedd
yr Yspryd Glân *wedi ei roddi*, o herwydd na ogon-
40 eddasid yr Iesu etto). Am hynny llawer o'r bobl,
wedi clywed yr ymadrodd hwn, a ddywedasant, Yn
41 wir hwn yw y Prophwyd. Eraill a ddywedasant,
Hwn yw Crist. Eraill a ddywedasant, Ai o Galilea
42 y daw Crist? Oni ddywedodd yr ysgrythyr, Mai o
had Dafydd, ac o Bethlehem, y dref lle y bu Dafydd,
43 y mae Crist yn dyfod? Felly yr aeth ymrafael ym
44 mysg y bobl o'i blegid ef. A rhai o honynt a fynnasent ei ddal ef: ond ni osododd neb ddwylaw arno.

45 Yna y daeth y swyddogion at yr arch-offeiriaid a'r
Phariseaid; a hwy a ddywedasant wrthynt hwy, Pa-
46 ham na ddygasoch chwi ef? A'r swyddogion a atteb-
47 asant, Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn. Yna
y Phariseaid a attebasant iddynt, A hudwyd chwi-
48 thau hefyd? A gredodd neb o'r penaethiaid ynddo ef,
49 neu o'r Phariseaid? Eithr y bobl hyn, y rhai ni
wyddant y gyfraith, melldigedig ydynt.

GWAHANOL FARNAU AM YR IESU YMHLITH Y BOBL, A'R SANHEDRIN YN ANFON SWYDDOGION I'W DDAL, AC YN DDIGLLON AM NA DDYGASANT EF (adn. 25—49).

25. **Hierosolymitaniaid.** Trigolion Jerusalem, yn wrthgyferbyniol i'r taleithwyr, "y dyrfa" o bererinion. Gwyddent hwy fwy am fwriadau eu llywodraethwyr yn erbyn yr Iesu nag a wyddai'r "bobl," a gofynnant, "Onid hwn yw yr un y maent yn ceisio ei ladd?"

26. Synnant weled yr awdurdodau yn caniatáu i'r Iesu lefaru ar gyhoedd,—"ac nid ydynt yn dywedyd dim wrtho Ef." Tybiant newid ohonynt eu barn amdano, a gofynnant, "A wybu y penaethiaid mewn gwirionedd mai hwn yw y Crist yn wir?"

27. Ond y mae yna anhawster ynglŷn â'r syniad hwn, anhawster a fynegir yn yr adnod hon.

Eithr nyni a adwaenom hwn o ba le y mae. Cym. vi. 42. Gwyddent am ei ddygiad i fyny yn Nazareth.

Eithr pan ddêl Crist, nis gŵyr neb o ba le y mae. Credid bod y Meseia yn guddiedig yn rhywle yn y nefoedd neu ar y ddaear, fel, pan ddeuai, na wybyddid gan neb o ba le y daethai. Byddai ei ddyfodiad yn sydyn, ac yn amgylchedig â dirgelwch. Dyfynna Westcott draddodiad Rabbinaidd: "Daw tri pheth yn annisgwyliadwy,—y Meseia, ffawd dda, ac ysgorpion." Cyfeiria Justin Ferthyr at draddodiad na fyddai i'r Meseia wybod mai ef oedd y Meseia hyd onid eneinid ef gan Elias.

Yn xii. 34 ceir y syniad na fyddai i'r Crist (y Meseia) farw: "ni a glywsom o'r ddeddf, fod y Crist yn aros yn dragwyddol."

Ceir gwrthwynebiad gwahanol i'r Iesu yn adn. 41, 42 i'r hyn a geir yn yr adnod hon (27).

28. **A lefodd.** Dynoda'r gair hwn fynegiad â llef uchel o deimlad dwys. Cyfaddef yr Iesu wirionedd yr hyn a ddywedir yn adn. 27.

Yr oedd yn wir y meddent wybodaeth allanol amdano, ond yr oedd mwy i'w wybod, sef na ddaethai ohono'i hun, ond ei fod wedi ei anfon gan yr Hwn sydd gywir—yr Hwn sydd "wir," h.y., yr Hwn yn yr ystyr fwyaf perffaith a fedr roddi cenhadaeth: neu, yr Hwn sydd yn anfonwr gwirioneddol ac nid dychmygol.

Yr hwn nid adwaenoch chwi. Cym. viii. 19, 35. Cyhuddiad llym: yr Hwn nid adwaenoch **chwi, yr Iddewon.**

29. **Ond myfi a'i hadwaen.** Cym. viii. 55, xvii. 25. "Myfi," yn wrthgyferbyniol i "chwi" yn adn. 28. Honna Crist, yn ei ddadl â'r Iddewon, wybodaeth berffaith a hollol o Dduw, gwybodaeth na fedd neb arall.

Oblegid ohono ef yr ydwyf fi, ac efe a'm hanfonodd i. Adwaen yr Iesu Dduw (a) oherwydd ei haniaeth ddwyfol, "ohono Ef yr ydwyf Fi." Honnir yma gynhanfodiad gyda Duw, ac felly'r undod ag Ef mewn natur ag a gyfiawnha'r gosodiad mawr, "ond Myfi a'i hadwaen Ef." (b) Oherwydd ei genhadaeth ddwyfol, "ac Efe a'm hanfonodd I."

30. **Am hynny hwy a geisiasant ei ddal ef.** Ceisient ei ddal Ef, ond ni lwyddasant. Ceisient ei ddal oherwydd yr honiadau a wnaethai amdano'i Hun (adn. 28, 29). Yn v. 18 dywedir i'r Iddewon geisio'i ladd Ef, nid yn unig am iddo dorri'r Sabbath, ond hefyd am iddo wneuthur Duw yn Dad iddo, gan ei wneuthur ei Hun yn gystal â Duw. Honiad tebyg a enynnodd eu llid yma.

Ond ni osododd neb law arno, am na ddaethai ei awr ef eto. "Ac (eto)" ni osododd neb law arno. Cym. adn. 44, viii. 20, x. 39. Yr oedd awr yr Iesu yn rhagderfynedig, ac ni fedrai na daear nac uffern ei dwyn yn nes. Pan ddaeth, wynebodd hi a'i holl ganlyniadau. "Y mae dynion drygionus mewn cadwyn gan Dduw. Y mae malais erlidwyr yn ddirym hyd yn oed pan yw fwyaf cynddeiriog; a phan leinw Satan eu calonnau, rhwym Duw eu dwylo" (Matthew Henry).

31. Sylwer ar ddatblygiad ffydd ochr yn ochr ag anghrediniaeth. Anghredodd trigolion Jerusalem, ond credodd llawer o'r dyrfa, a gofynasant, "Pan ddelo'r Crist, a wna efe fwy o arwyddion na'r rhai hyn a wnaeth hwn?" Amlyga hyn ddiffyg yn eu ffydd: yr oedd yn seiliedig ar arwyddion. Eithr condemnia anghrediniaeth y lleill.

A wna efe fwy o arwyddion . . . . hwn? Yn ôl ffurf y cwestiwn hwn yn y gwreiddiol ateb nacaol a ddisgwylid iddo.

Disgwylid i'r Meseia gyflawni gwyrthiau, a rhoddir arwyddocâd Mesianaidd i'r gwyrthiau yn yr Efengylau eraill yn ogystal ag yn yr Efengyl hon, er nad mewn modd mor amlwg.

32. **Phariseaid.** Am y Phariseaid gwêl ar iii. 1.

Archoffeiriaid. Yr archoffeiriad ar y pryd, y cyn-archoffeiriaid, ac aelodau o'u teuluoedd a feddent seddau yn y Sanhedrin. Yn Ioan cyfetyb archoffeiriaid yn ymarferol i Saduceaid yr Efengylau eraill. Dyma'r waith gyntaf yr enwir yr archoffeiriaid gan Ioan.

Y Phariseaid a glywsant . . . . ef. Clywodd y Phariseaid y dyrfa yn murmur y pethau hyn amdano; cyffröwyd eu heiddigedd, a dygasant y mater i sylw'r Sanhedrin.

A'r Phariseaid a'r archoffeiriaid a anfonasant swyddogion i'w ddal ef. Una'r Phariseaid â'r archoffeiriaid, y Sanhedrin fel y cyfryw, yn yr achos hwn. Cysyllтir hwynt eto â'i gilydd yn adn. 45, xi. 47, 57. Cym. xxi. 45, xxvii. 62.

Swyddogion. Gellid galw'r swyddogion yn "heddgeidwaid y deml." Sonnir amdanynt eto yn adn. 45, xviii. 3, 12, 18, xix. 6.

33. **Am hynny.** Mewn canlyniad i waith yr awdurdodau yn anfon swyddogion i'w ddal.

Ychydig amser. O ŵyl y pebyll hyd y Pasg—oddeutu chwe mis. Nid yw y diwedd eto, ond y mae'n agos. Defnyddir yr ymadrodd "ychydig" (amser) yn xii. 35, xiii. 33, xiv. 19, xvi. 16.

Ac yr wyf yn myned. Yn gywir, yn ymadael, yn myned ymaith. Sylwa Bernard y defnyddir y gair hwn yn fynych yn yr Efengyl hon am fynediad yr Iesu at Dduw.

Yr hwn a'm hanfonodd. Pwysleisia Ioan anfoniad yr Iesu gan Dduw. Ceir y syniad hefyd yn yr Efengylau eraill ac yn ysgrifeniadau Paul.

34. **Chwi a'm ceisiwch, ac ni'm cewch.** "Chwi a'm ceisiwch" i'ch gwaredu pan fyddwch mewn cyfyngder, "ac ni'm cewch," canys ni fyddai'r Iesu yn bresennol yn y corff, fel yr oedd yn awr. Sylwa Reith y crynhoir ynghyd yn y geiriau hyn hanes trychinebus yr Iddewon ar ôl eu gwrthodiad o Grist.

Lle yr ydwyf fi, ni ellwch chwi ddyfod. "Rhagdybia'r amser presennol—"ydwyf"—ei bresenoldeb gwastadol gyda'r Tad" (Plummer). Ni allent ddyfod i'r byd ysbrydol, yn yr hwn yr oedd Ef yn byw. Ni all neb wneuthur hyn ond y rhai sydd mewn cymundeb ysbrydol ag Ef. Eithr bernir gan rai esbonwyr yr arferir yr amser presennol yma mewn ystyr ddyfodol—"lle y byddaf Fi," y lle yr oedd yn myned iddo, er y disgrifir ef yn llai fel lle nag fel ystâd dragwyddol o undeb a chymundeb â Duw.

Yn adn. 33, 34b, rhybuddiodd yr Iesu ei elynion y dygai ei farwolaeth Ef at yr Hwn a'i hanfonodd, ac y caeai ddrws iechydwriaeth iddynt hwy. Ar ôl gwrthod Crist, teimlent angen am waredigaeth,

ond byddai'n rhy ddiweddar. Drwy eu gwrthodiad ohono Ef, dygasant ddinistr anadferadwy arnynt eu hunain. Cym. Luc xix. 43, 44.

35. **Y rhai sydd ar wasgar ymhlith y Groegiaid.** Y "gwasgariad" ymhlith y Groegiaid. Yn y Testament Newydd, yma ac yn Iago i. 1 a 1 Pedr i. 1 yn unig y defnyddir y gair a gyfieithir "gwasgariad." Dynoda'r Iddewon a breswyliai y tu allan i Balestina. Yn amser Crist yr oedd y prif drefedigaethau ohonynt ym Mabylonia, yr Aifft, Syria, Asia Leiaf, Groeg, a Rhufain. Deilliodd y Gwasgariad ym Mabylonia o'r nifer lluosog iawn o Iddewon na ddewisasant ddychwelyd i'w gwlad wedi'r caethiwed. Ni ddychwelodd ond cyfartaledd bychan ohonynt i'w hen gartref. Cysylltid y Gwasgariad â'u mamddinas gan ddwy ddolen bwysig: (a) y taliad blynyddol o dreth y deml; (b) y pererindodau i Jerusalem gan nifer enfawr o Iddewon tramor i'r tair gŵyl flynyddol,—y Pasg, y Pentecost, a'r Pebyll. Yn Act. ii. 5 dywedir y trigai yn Jerusalem (yn ystod Gŵyl y Pentecost) Iddewon, gŵŷr bucheddol, o bob cenedl dan y nef, ac yn adn. 9—11 rhoddir rhestr o'r gwledydd y daethant ohonynt i'r ŵyl.

Tybia'r Iddewon hyn y bwriada Crist, mewn canlyniad i'w wrthodiad yn Jerusalem, fyned at y Gwasgariad ymhlith y Groegiaid, er mwyn dysgu'r Groegiaid. Ni freuddwydient hwy, oherwydd culni eu meddwl, am ymlygru drwy fyned allan ac ymgysylltu â chenedlddynion, ac awgrymant yn wawdus mai dyna'r unig ffordd y gall yr Iesu ddïanc arnynt.

Cawn yn yr adnod hon enghraifft o broffwydoliaeth anymwybodol. Yr hyn a ymddengys yn beth ffol i'r Iddewon hyn, hynny a wnaed gan bregethwyr cyntaf yr Efengyl. Ceir proffwydoliaeth anymwybodol arall yn xi. 50.

36. **Pa ymadrodd yw hwn a ddywedodd efe?** Yr ymadrodd yn adn. 33 a 34. "Ni allant ysgwyd ymaith eiriau Crist" (Westcott). Ni fodlonir hwynt gan eu hesboniad eu hunain ar ei eiriau, oblegid teimlant fod iddynt ryw ystyr ddirgel sydd y tu hwnt i'w gallu hwy i'w hamgyffred. Eglura'r Iesu eu hystyr yn xiii. 33—xiv. 6.

37. **Ac ar y dydd diweddaf, y dydd mawr o'r ŵyl.** Y mae'n debyg mai yr wythfed dydd a olygir yma. Gwêl ar adn. 2.

Y safodd yr Iesu. Arferai dysgodron eistedd pan ddysgent, ond yma, er mwyn pwysleisio pwysigrwydd ei eiriau, safodd yr Iesu.

Ac a lefodd. A lefodd yn uchel.

Od oes ar neb syched, deued ataf fi, ac yfed. Cym. iv. 10, 14, vi. 35; Dat. xxii. 17; Esaia lv. 1. Yn ystod gŵyl y pebyll, yn sŵn y bobl yn canu,—"Am hynny mewn llawenydd y tynnwch ddwfr o ffynhonnau iachawdwriaeth" (Esaia xii. 3), llenwid llestr aur gan yr offeiriad bob bore â dwfr o lyn Siloam, a darddai o'r graig y safai'r deml arni. Dygid y dwfr i'r deml a thywelltid ef yno gerbron

yr Arglwydd gan yr offeiriad. Gwneid hyn er coffa am y dwfr o'r graig a roddwyd i'r Israeliaid yn yr anialwch.

Y mae'n debyg mai'r ârfer hon a awgrymodd y geiriau mawr, "Od oes ar neb syched, deued ataf fi, ac yfed."

Ymddengys na wneid hyn ar yr wythfed dydd. Felly lleinw'r Iesu'r bwlch drwy gyfeirio'r bobl ato'i Hun, yn yr Hwn y gellir diwallu eu syched ysbrydol. Ni allai unrhyw ddefod Iddewig dorri'r syched hwn.

Yr oedd y sarff bres yn gysgod o Grist (iii. 14), y manna (vi. 51), ac yma y graig y caed dwfr i'w yfed ohoni.

Ynglŷn â'r adnod hon dymunwn ddyfynnu rhannau o'r hyn a ddywedir gan Inge o dan y pennawd, "Syched yr enaid," yn ei lyfryn ardderchog "Personal Religion and the Life of Devotion":—Yn anhapus nid yw newyn yn beth anadnabyddus yn ein gwlad ni ymhlith y gwir dlawd, ond y mae'r "cwpan o ddwfr oer" yn beth y gellir ei gael drwy ei ofyn. Ond yng nghrastir Palestina, a amgylchir gan anialdir diddwfr—gwlad lle y llyncir hyd yn oed yr afonydd yn y tywod, neu y sychir hwynt gan wres angerddol yr haul—y mae'n wahanol iawn. Yr oedd syched, un o'r pethau mwyaf annioddefol i'r corff dynol, yn beth yr oedd yr Iddewon yn gyfarwydd ag ef. Pan gofiwn hyn, bydd inni sylweddoli ystyr y darnau hynny o'r Beibl lle defnyddir syched mewn ystyr gyffelybiaethol. "Fel y brefa'r hydd am yr afonydd dyfroedd, felly yr hiraetha fy enaid am danat ti, O Dduw. Sychedig yw fy enaid am Dduw, am y Duw byw." "Ti, O Dduw, yw fy Nuw i; yn fore y'th geisiaf: sychedodd fy enaid am danat, hiraethodd fy nghnawd am danat, mewn tir cras a sychedig heb ddwfr." "O deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno." Ac yng ngeiriau ein Harglwydd bendigedig ei Hun, "Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder, canys hwy a ddiwellir." Neu eto, yn yr ymddiddan rhyfedd â'r wraig o Samaria wrth ffynnon Jacob, "Pwy bynnag sydd yn yfed o'r dwfr hwn (o'r ffynnon), efe a sycheda drachefn; ond pwy bynnag a yfo o'r dwfr a roddwyf fi iddo, ni sycheda yn dragywydd; eithr y dwfr a roddwyf iddo a fydd ynddo yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragwyddol." Ac yma, "ac ar y dydd diweddaf, y dydd mawr o'r wyl, y safodd yr Iesu, ac a lefodd, gan ddywedyd, Od oes ar neb syched, deued ataf fi, ac yfed."

Am Grist ei Hun yr hiraetha'r enaid sychedig. Ef yw ein cyfiawnder ni, medd Awstin, ag Ef y diwellir y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder. Yn niwedd y Beibl, ym mhennod olaf Datguddiad, cawn adlais o eiriau Esaia, "Ac y mae yr Ysbryd a'r briodasferch yn dywedyd, Tyred. A'r hwn sydd yn clywed, dyweded, Tyred. A'r hwn sydd â syched arno deued; a'r hwn sydd yn ewyllysio, cymered o ddwfr y bywyd yn rhad."

Syched, medd y Buddha yw ffynhonnell ein hanhapusrwydd. Ni ellir ei ddiwallu: canys gan mai ymddangosiad gwag yw'r byd ac nid sylwedd, rhed y cwbl a geisiwn rhwng ein bysedd, ac yn ein hymdrechion i dorri ein syched ni chyfarfyddwn â mwy o lwyddiant na'r

gwragedd yn y chwedl Roegaidd, a gondemniwyd am byth i gario dwfr mewn rhidyll. Felly, medd y Buddha, peidiwch â dymuno dim, peidiwch â cheisio cymryd gafael ar ddim. Gwyn ei fyd yr hwn ni sycheda am ddim, canys ef a gaiff dangnefedd. Gwelwn y gwahaniaeth rhwng crefydd Buddha a chrefydd Crist.

Dywaid y Buddha, Peidiwch â dymuno dim, ac yna ni siomir chwi. Dywaid Crist, Yr ydych yn iawn pan deimlwch sychedu: gwyn ei fyd yr hwn a sycheda: dylech deimlo'r boen a'r hiraeth a deimlir gennych. Peidiwch â cheisio ei farwhau. Y mae'n ddyhead priodol a naturiol, ac y mae iddo ei ddiwalliad priodol a naturiol. Yn unig peidiwch â gwneuthur camgymeriad ynglŷn â'r hyn y sycheda eich enaid amdano, a'r lle y gellir diwallu ei syched. "Canys dau ddrwg a wnaeth fy mhobl: hwy a'm gadawsant i, ffynnon y dyfroedd byw, ac a gloddiasant iddynt eu hunain bydewau, ie, bydewau wedi eu torri, ni ddaliant ddwfr." Dyna a wna dynion o hyd. Gwariant lafur mawr ar y pydewau toredig, y rhai ni ddaliant ddwfr.

38. **Yr hwn sydd yn credu ynof fi . . . . ef.** Mewn rhai Llawysgrifau cysylltir y geiriau, "Yr hwn sydd yn credu ynof fi," â'r adnod flaenorol,—"Od oes ar neb syched, deued ataf fi, ac yfed yr hwn sydd yn credu ynof fi. Megis y dywedodd yr Ysgrythur, afonydd o ddyfroedd bywiol a ddylifant allan o'i groth ef." Yn ôl y darlleniad hwn, o'r Iesu, ac nid o'r credadun y dylifa "afonydd o ddyfroedd bywiol."

Barnwn mai am y credadun y dywedir, "afonydd o ddyfroedd bywiol a ddylifant o'i groth ef." Crist yw ffynhonnell y dyfroedd bywiol (iv. 14): diwellir yr hwn a ddaw ato Ef, a thry yntau yn ffynnon i ddisychedu eraill gyda'r un haelioni ag y diwallwyd ef ei hun. Ni all y gwir Gristion beidio â chyfrannu i eraill yr hyn a dderbyniodd. "Ac felly," medd Plummer, "cawn yma dair gradd: (a) sychedu; (b) dyfod neu gredu; (c) cael ein llanw a diwallu eraill." A gall llawer lifo dros ymyl llestr bach.

Afonydd o ddyfroedd bywiol. Saif "afonydd" yn gyntaf, gyda phwyslais—afonydd, ac nid llond llestr fel yn yr ŵyl.

Megis y dywedodd yr Ysgrythur . . . . ef. Nid yw hwn yn ddyfyniad llythrennol o'r Ysgrythur, ond cynnwys ystyr llawer addewid, e.e., Esaia xliii. 3—5, lv. 1, lviii. 11, Zech. xiv. 8.

39. Esboniad yr Efengylwr ei hun o'r adnod flaenorol yw'r adnod hon. "Am yr Ysbryd yr hwn a gai y rhai a gredent ynddo ef ei dderbyn" y dywedodd yr Iesu, "Yr hwn sydd yn credu ynof . . . . . ef." Arwyddlun yw'r dwfr bywiol o'r Ysbryd, yr hwn yr oedd y credinwyr i'w dderbyn. Cym. xvi. 13; 1 Ioan iii. 24, iv. 13. Yr Ysbryd yw ffynhonnell goleuni a chysur y credadun ei hun, ac ef hefyd yw ffynhonnell ei allu i gyfrannu i eraill y bendithion a dderbyniwyd ganddo.

Canys eto nid oedd yr Ysbryd Glân wedi ei roddi. Yn wreiddiol y mae'r fannod yn eisiau o flaen y gair "Ysbryd," ac mewn rhai Llawysgrifau pwysig ni cheir y gair "Glân." Gwelir bod y geiriau, "wedi ei roddi," mewn llythrennau Italaidd, yn dynodi nad ydynt yn rhan o'r testun gwreiddiol. Oherwydd absenoldeb y fannod, dadleuir mai dylanwad yr Ysbryd a olygir yn hytrach na'r trydydd Person—"nid oedd y bywyd ysbrydol eto." Ond ceir y fannod o flaen y gair "Ysbryd" yn y frawddeg, "A hyn a ddywedodd efe am yr Ysbryd," a barnwn mai'r Ysbryd personol a olygir yma fel yn y frawddeg honno. Ni ddywedir nad oedd yr Ysbryd yn bod, ond nad oedd wedi ei roddi eto yn yr ystyr fwyaf cyflawn—nid oedd goruchwyliaeth yr Ysbryd wedi dyfod.

Am na ogoneddasid yr Iesu eto. Yn ôl dysgeidiaeth yr Efengyl hon yr oedd rhoddi'r Ysbryd yn amhosibl ar wahân i "ogoneddiad" yr Iesu (xvi. 7; cym. Act. ii. 32, 33), syniad y gellir ymron dywedyd amdano y gwna farwolaeth, atgyfodiad, ac esgyniad yr Iesu yn un digwyddiad. Yr oedd yr Ysbryd i gymryd lle'r Iesu, ac oherwydd hynny ni ellid ei gyfrannu tra yr oedd Ef eto yn y cnawd. Felly, dibynnai ei ogoneddiad a'i weithrediad ysbrydol cyflawn ar ei farwolaeth, canys drwy ei groes y sicrhaodd fuddugoliaeth a gogoniant.

Ynglŷn â'r geiriau dwfn hyn dywaid Bernard y gwneir yn eglur yn Efengyl Ioan syniad na wneir yn eglur yn yr Efengylau eraill, sef mai gogoneddiad ohono oedd marwolaeth Crist, ac mai dyma'r amlygiad pennaf o wirionedd y dywediad, "yr hwn sydd yn casáu ei einioes ei ceidw hi" (xii. 25). Gwrthdyb barhaus yr Efengyl yw mai dechrau bywyd newydd yw marwolaeth. Ni fyddai yr hedyn oni syrth i'r ddaear a marw, ac i feddwl Paul, wedi ei atgyfodiad y daeth yr Iesu yn "Ysbryd yn bywhau" (1 Cor. xv. 45). Ni allai ei Ysbryd ddisgyn cyn myned ohono Ef trwy farwolaeth. Cyn hynny ni allai ddywedyd, "Derbyniwch yr Ysbryd Glân." Wedi Calfaria, o angenrheidrwydd, y daeth y Pentecost.

Pwrcaswyd yr Ysbryd, medd Matthew Henry, â gwaed Crist: ar hyn y seiliwyd y rhodd: ateb i'w eiriolaeth a gweithred o eiddo'i lywodraeth oedd rhoddi'r Ysbryd. Hefyd, cymer yr Ysbryd o eiddo'r Iesu a'i fynegi i ni, ac felly rhaid oedd perffeithio'r Iesu—ei ogoneddu—cyn y byddai gan yr Ysbryd eiddo i'w fynegi.

40—44. Yn yr adnodau hyn cawn wahanol farnau am yr Iesu.

40. **Llawer o'r bobl.** Yn gywir, "rhai."

Wedi clywed yr ymadrodd hwn. Nid y dywediad mawr yn adn. 37 a 38 yn unig, ond hefyd y ddysgeidiaeth a rydd yr Iesu amdano'i Hun yn y bennod hon, er mai yn adn. 37 a 38 y cyrraedd y ddysgeidiaeth ei heithafbwynt.

Yn wir hwn yw y proffwyd. Proffwyd: Deut. xviii. 15. Gwêl ar i. 21, vi. 14.

41. **Eraill a ddywedasant, Hwn yw Crist.** Yn gywir, y Crist, y Meseia.

Eraill a ddywedasant, Ai o Galilea y daw Crist? Y Crist. Ateb nacaol a ddisgwylir i'r cwestiwn. Ni allai mai hwn oedd y Crist, oherwydd mai o Galilea y daeth. Cymharer anhawster Nathanael (i. 46).

Had Dafydd. Gwêl Salm cxxxii. 11; Esaia xi. 1, 10; Jer. xxiii. 5.

42. **O Fethlehem.** Gwêl 1 Sam. xvi. 1; Mic. v. 2.

Ni rydd Ioan sylw i'r gwrthwynebiad hwn i'r Iesu, oherwydd yr oedd yn wybyddus i'w ddarllenwyr mai ym Methlehem y ganed yr Iesu. Hefyd, ni chywira Ioan syniadau gau am yr Iesu, er yr esbonia bethau y gellid eu camddeall.

43. **Felly yr aeth ymrafael ym mysg y bobl o'i blegid ef.** Dynoda'r gair a gyfieithir "ymrafael" ymraniad dwfn. "Nid yw ymrafael oblegid Crist yn ddyledus iddo Ef ond yn unig fel yr achosir tarth gan gyfodiad yr haul" (Calfin).

44. **A rhai o honynt a fynasent ei ddal ef.** Rhai o'r dyrfa, ac nid yr awdurdodau Iddewig y sonnir amdanynt yn adn. 30. Yr oeeddynt yn barod i gymryd y gŷfraith i'w dwylo eu hunain.

Ond ni osododd neb ddwylaw arno. Yn ymddangosiadol, medd rhai esbonwyr, ni osododd neb ddwylo arno oherwydd bod gormod ohonynt o'i blaid i ganiatáu gwneuthur hynny. Credwn fod yna reswm uwch, sef mawredd ei gymeriad moesol a **"rhywbeth mwy"** (Reith).

45, 46. Ofnodd hyd yn oed y swyddogion a anfonwyd i'w ddal Ef (adn. 32), a dychwelasant heb gyflawni'r gwaith y gorchmynnwyd iddynt ei wneuthur. Ceir eu hateb i'r Sanhedrin yn adn. 46, "Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn." Nid yw swyddogion, fel rheol, yn rhoddi llawer o le i deimlad, a chawn yn ymddygiad y swyddogion hyn dystiolaeth ryfeddol i nerth geiriau Crist. Nid ei weithredoedd, ond ei eiriau, a'u parlysodd. Ni ddygasant Ef, oherwydd na lefarodd neb erioed fel y llefarai Ef. Gallwn gredu i'w hadroddiad beri aflonyddwch i ddysgodron arferol y Gyfraith. Ni chlywsai'r llys adroddiad swyddogol heddgeidwaid fel hwn o'r blaen.

Dywedwydd pethau ardderchog am yr Iesu nid yn unig gan ei gyfeillion, eithr hefyd gan ei elynion, er nad i'w ganmol. Ni ddisgrifiwyd ei barodrwydd i dderbyn publicanod a phechaduriaid erioed yn well na chan y Pharisead a'r ysgrifenyddion,—"Y mae hwn yn derbyn pechaduriaid, ac yn bwyta gyda hwynt;" ac ni ddisgrifwyd

nerth ei eiriau'n well gan neb na chan y swyddogion hyn,—"Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn." Ni weithredoedd neb fel Ef, ac ni lefarodd neb fel Ef. Naddo erioed, ac nis gwna byth.

47. **Y Phariseaid.** Plaid fwyaf uniongred y Sanhedrin.

A hudwyd chwithau hefyd. "A arweiniwyd chwithau ar gyfeiliorn?" Dynoda ffurf y cwestiwn y disgwylid ateb nacaol: yr oedd y peth yn rhy ddrwg i'w gredu. Disgwylient i'r rhai a wisgai eu lifnau hwynt ufuddhau i'w gorchymyn.

48. **A gredodd neb o'r penaethiaid ynddo ef?** Saduceaid oedd y penaethiaid. A gredodd "unrhyw un" o'r penaethiaid ynddo? Yma eto dynoda ffurf y cwestiwn mai ateb nacaol a ddisgwylid iddo. Yr oedd hyn yn anghredadwy, ond, yn ddiweddarach, digwyddodd. "Er hynny llawer o'r penaethiaid hefyd a gredasant ynddo; ond oblegid y Phariseaid ni chyffesasant ef, rhag eu bwrw allan o'r synagog. Canys yr oeddynt yn caru gogoniant dynion yn fwy na gogoniant Duw" (xii. 42, 43). Y mae'r geiriau hyn yn rhai sydd yn brathu.

Neu o'r Phariseaid? Neu unrhyw un o'r Phariseaid. Druain ohonynt: credent fod barn y penaethiaid a'u barn hwynt yn derfynol. "A gredodd unrhyw un ohonom ni, y rhai anffaeledig?"

49. Edrychai'r Phariseaid gyda gwawd ar "y bobl hyn," y rhai ni wyddent y gyfraith. Ni chredent fod gan y bobl gyffredin hawl i roddi barn ar faterion crefyddol. Galwent yr anllythrennog yn y Gyfraith yn "bobl y tir," ac yn "bryf." Gwelir eu bod wedi colli eu hunanlywodraeth yn hollol.

50 Nicodemus (yr hwn a ddaethai at yr Iesu o hyd
nos, ac oedd un o honynt) a ddywedodd wrthynt,
51 A ydyw ein cyfraith ni yn barnu dyn, oddi eithr
clywed ganddo ef yn gyntaf, a gwybod beth a wnaeth
52 efe? Hwythau a attebasant ac a ddywedasant wrtho,
A ydwyt tithau o Galilea? Chwilia a gwel, na chod-
odd prophwyd o Galilea.
53 A phob un a aeth i'w dŷ ei hun.

NICODEMUS YN CYFRYNGU AR RAN YR IESU (adn. 50—52).

50, 51. Dyma ail ymddangosiad Nicodemus. Yr oedd ef yn Pharisead ac yn bennaeth, a gwinga o dan her y Phariseaid, a chyfyd ei lais ymhlaid rheswm, a chyfiawnder a gwirionedd. Geilw sylw at y ffaith nad ymddygent at yr Iesu yn ôl y gyfraith,—"A ydyw ein

cyfraith ni yn barnu dyn, oddieithr clywed ganddo ef yn gyntaf, a gwybod beth a wnaeth efe?" Dylid gwneuthur ymchwiliad i gyhuddiad cyn ei dderbyn (Ex. xxiii. 1), a rhoddi gwrandawiad i'r ddwy blaid cyn cyhoeddi barn (Deut. i. 16).

Y mae ymddygiad Nicodemus yn nodweddiadol ohono. Ni allai fod yn ddistaw, ond ofnai addef ei ffydd. Cymerodd lwybr canol, drwy godi pwynt cyfreithiol. Ceir y trydydd cyfeiriad ato, a'r olaf, yn xix. 39—42.

52. Ni cheisiodd neb ateb Nicodemus, canys yr oedd ei ymresymiad yn anatebadwy, ac yn lle ceisio gwneuthur hynny, ymosodant arno.

A ydwyt tithau hefyd o Galilea? Fel y Galilead hwn. Coleddent y gred boblogaidd mai yng Ngalilea y ganed yr Iesu.

Chwilia a gwêl, ni chododd proffwyd o Galilea. Y darlleniad cywir yw, "cyfyd," ac nid "cododd." Byddai dywedyd na chododd proffwyd o Galilea yn anghywir. O Gath-hepher yng Ngalilea yr oedd Jona (Josh. xix. 13; 2 Bren. xiv. 25), proffwyd mawr y Genhadaeth Dramor, ac y mae'n bosibl mai o Galilea yr oedd rhai o'r proffwydi eraill.

Ceir gwahanol farnau am ystyr y dywediad hwn: (a) Cyfieithir fel hyn: "Chwilia a gwêl nad o Galilea y cyfyd proffwyd." Nid oedd ond ychydig draddodiadau proffwydol yn gysylltiedig â Galilea. (b) Os cymeri drafferth i edrych, ti a gei weled nad oes proffwyd yn codi o Galilea, h.y., yn awr. Edrychai pendefigion Jerusalem gyda gwawd ar y Galileaid gwledig.

Yn Esboniad Peake dywaid Grieve y dylem, efallai, fabwysiadu'r darlleniad, "nid o Galilea y cyfyd y proffwyd."

53. Y mae'r adnod hon i'w chysylltu â'r bennod nesaf, ac nid â'r hanes blaenorol.

PENNOD VIII.

1 A'r Iesu a aeth i fynydd yr Olewydd: Ac a ddaeth
2 drachefn y bore i'r deml; a'r holl bobl a ddaeth atto
3 ef: yntau a eisteddodd, ac a'u dysgodd hwynt. A'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid a ddygasant atto ef wraig, yr hon a ddaliesid mewn godineb; ac wedi
4 ei gosod hi yn y canol, Hwy a ddywedasant wrtho, Athraw, y wraig hon a ddaliwyd ar y weithred yn
5 godinebu. A Moses yn y gyfraith a orchymynodd i ni labyddio y cyfryw: beth gan hynny yr wyt ti yn
6 ei ddywedyd? A hyn a ddywedasant hwy, gan ei demtio ef, fel y gallent ei gyhuddo ef. Eithr yr Iesu, wedi ymgrymmu tu a'r llawr, a ysgrifenodd â'*i* fys
7 ar y ddaear, heb gymmeryd arno eu clywed. Ond fel yr oeddynt hwy yn parhâu yn gofyn iddo, efe a ymuniawnodd, ac a ddywedodd wrthynt, Yr hwn sydd ddibechod o honoch, tafled yn gyntaf garreg atti hi.
8 Ac wedi iddo eilwaith ymgrymmu tu a'r llawr, efe
9 a ysgrifenodd ar y ddaear. Hwythau, pan glywsant *hyn*, wedi hefyd eu hargyhoeddi gan eu cydwybod, a aethant allan o un i un, gan ddechreu o'r hynaf hyd yr olaf: a gadawyd yr Iesu yn unig, a'r wraig
10 yn sefyll yn y canol. A'r Iesu wedi ymuniawnu, ac heb weled neb ond y wraig, a ddywedodd wrthi, *Ha* wraig, pa le y mae dy gyhuddwyr di? oni chondem-
11 niodd neb di? Hithau a ddywedodd, Na ddo neb, Arglwydd. A dywedodd yr Iesu wrthi, Nid wyf finnau yn dy gondemnio di: dos, ac na phecha mwyach.

Yr Iesu a'r wraig a ddaliwyd mewn godineb (vii. 53—viii. 11).

Ceisiwn roddi mewn cyn lleied o le ag y medrwn y sefyllfa ynglŷn â'r paragraff hwn.

1. Nid yw yn rhan o Efengyl Ioan. (a) Ni cheir ef yn y Llawysgrifau Groeg hynaf, gyda'r eithriad o un. Ac yn rhai o'r Llaw-

ysgrifau a'i cynnwys lleolir ef yn niwedd yr Efengyl, ac yn un ar ôl vii. 36. Dywaid Eusebius y cynhwysai gwaith Papias "hanes gwraig a gyhuddwyd gerbron yr Arglwydd o amryw bechodau, hanes a gynhwysir hefyd yn yr Efengyl at yr Hebreaid.

(b) Y mae yn annhebyg i ysgrifeniadau Ioan mewn iaith ac arddull.

(c) Tyr y cysylltiad agos rhwng y datganiad a'r addewid a geir yn vii. 37, 38 a'r datganiad a'r addewid a geir yn viii. 12, a thrwy hynny tyr gwrs yr hanes.

2. Y mae yn rhan o'r hanes Efengylaidd. (a) Y mae yn debyg mewn arddull i'r Efengylau eraill, yn arbennig i Efengyl Luc, a lleolir ef yn un dosbarth o Lawysgrifau ar ôl Luc xxi. Gwêl Luc xxi. 37, 38. Lleolir ef gan Holtzmann ar ôl Marc xii. 17.

(b) Y mae'r portread a rydd o'r Iesu yn gyson â'r hanes Efengylaidd. Y mae'r olygfa drawiadol pan, fel y dywaid Awstin, safodd trueni wrtho'i hun gerbron trugaredd, yn rhy fyw i fod yn ffrwyth dychymyg neb. Darn gwerthfawr yw hwn, ac y mae arnom ddyled anfesurol i'r llygad a'i darganfu, a'r llaw a'i gosododd lle gall pawb ei ddarllen heddiw.

3. Paham y lleolir ef yn y cysylltiad hwn yn y cwbl ymron o'r Llawysgrifau a'i cynnwys? Fel enghraifft, o bosibl, o'r vii. 24 a'r viii. 15. Gwahaniaetha'r Llawysgrifau a gynnwys y paragraff oddi wrth ei gilydd yn fawr.

1. **A'r Iesu a aeth i fynydd yr Olewydd.** "A phob un a aeth i'w dŷ ei hun, ond yr Iesu a aeth i fynydd yr Olewydd." Ni enwir mynydd yr Olewydd yn un lle arall yn yr Efengyl hon (cym. xviii. 1). Pan enwa Ioan le am y waith gyntaf, ychwanega esboniad. Yn ôl Luc (xxi. 37, xxii. 39) i fynydd yr Olewydd yr ai'r Iesu bob nos yn ystod wythnos olaf ei fywyd. Arferai fyned i'r mynyddoedd i ddysgu (Mt. v. 1, xxiv. 3) neu i weddio (Marc vi. 46; Luc vi. 12).

2. **Eisteddodd.** Cym. Mt. v. 1, xxiv. 3, xxvi. 55; Marc iv. 1, ix. 35; Luc iv. 20, v. 3.

Ac a'u dysgodd hwynt. Ac a ddechreuodd eu dysgu.

3. **Ysgrifenyddion.** Ni cheir y teitl "ysgrifenyddion" yn un lle arall yn Efengyl Ioan. Yr "ysgrifenyddion a'r Phariseaid" yw'r disgrifiad arferol o wrthwynebwyr yr Iesu yn yr Efengylau eraill, yn cyfateb i'r disgrifiad, "yr Iddewon," yn hon.

4. Yn ôl y cwrs arferol buasai'r wraig wedi ei gosod ar ei phraw gerbron y llys rheolaidd. Sylwer ar y diffyg tynerwch a lledneisrwydd a amlygir gan yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid.

5a. **A Moses yn y gyfraith a orchmynnodd i ni labyddio y cyfryw.** Ynglŷn â'r gyfraith mewn achosion o'r fath gwêl Lef. xx. 10;

Deut. xxii. 22, etc. Mewn achos neilltuol yn unig—"llances o forwyn wedi ei dyweddio"—y dynodir y modd y rhoddid person i farwolaeth am odineb, sef drwy labyddio â meini.

5b, 6. **Beth gan hynny yr wyt ti yn ei ddywedyd? A hyn a ddywedasant hwy, gan ei demtio ef, fel y gallent ei gyhuddo ef.** Dywedasant hyn i'w "brofi" ef. Pe dywedai nad oedd y wraig i'w llabyddio gwrthddywedai'r gyfraith Iddewig. Y mae'n debyg mai dyna a ddisgwylid iddo wneuthur, canys arferai drugarhau. Pe dywedai ei bod i'w llabyddio, a'i yn erbyn cyfraith Rhufain, canys yn llaw'r Rhufeiniaid yr oedd yr awdurdod i roddi i farwolaeth. Gallai'r Sanhedrin gyhoeddi dedfryd marwolaeth (Mt. xxvi. 66; Marc xiv. 64; Ioan xix. 7), ond i'r rhaglaw Rhufeinig y perthynai'r hawl i benderfynu a oedd y ddedfryd i'w rhoddi mewn gweithrediad neu beidio.

Eithr yr Iesu, wedi ymgrymu tu a'r llawr, a ysgrifennodd â'i fys ar y ddaear. A "ddechreuodd ysgrifennu," neu, "oedd yn ysgrifennu." Paham yr ysgrifennodd yr Iesu ar y ddaear? Rhoddwn wahanol atebion i'r cwestiwn hwn: (a) Nid oedd arno eisiau eu clywed ymhellach yn y mater hwn. (b) Teimlai gywilydd oblegid y gyhuddedig a'r cyhuddwyr.

Heb gymeryd arno eu clywed. Ni cheir y geiriau a gyfieithir fel hyn ond mewn rhai Llawysgrifau.

Ceir yr ymadrodd, "ysgrifennu ar y ddaear," yn Jer. xvii. 13, "Ysgrifennir ar y ddaear y rhai a giliant oddi wrthyf, am iddynt adael yr Arglwydd, ffynnon y dyfroedd byw," yr hyn a awgryma'r syniad fod y fath feirniaid a'r fath farnau i'w hysgrifennu "yn y tywod" a darfod. Am wrthodiad tebyg ar ran yr Iesu i weithredu fel barnwr cym. Luc xii. 13, etc.

7. Oherwydd na chymerasant yr awgrym dywedodd yr Iesu, "Yr hwn sydd ddibechod o honoch, tafled yn gyntaf garreg ati hi." Dwg yr Iesu'r mater o'r cylch cyfreithiol i'r cylch moesol, o fanion cyfreithiol i gydwybodau'r cyhuddwyr.

Yr hwn sydd ddibechod o honoch. Nid yn ddieuog o bob pechod, ond o bechod tebyg, mewn meddwl onid mewn gweithred.

Tafled yn gyntaf garreg ati hi. Dyma ddyletswydd y tyst (Deut. xvii. 7).

8. **Ysgrifennodd.** Yr amser amherffaith, fel yn adn. 6, "oedd yn ysgrifennu."

9. **Hwythau pan glywsant hyn.** Pan glywsant yr hyn a ddywedir adn. 7.

Wedi hefyd eu hargyhoeddi gan eu cydwybod. Mewn rhai Llawysgrifau yn unig y ceir y geiriau hyn. Y maent yn esboniad cywir,

ond nid oes eu heisiau, oblegid y mae'r ystyr yn eglur ddigon hebddynt.

Ymgrymodd yr Iesu eilwaith tu a'r llawr, ac ysgrifennodd ar y ddaear, i ddangos ei anewyllysgarwch i fod yn farnwr. Y mae wedi eu hateb, a rhydd amser i'w ateb gyrraedd adref i'w cydwybodau. Y mae yna ddeddf yn ysgrifenedig yn eu calonnau, ac y mae hon, tra yr ysgrifenna Ef ar y ddaear, yn eu hargyhoeddi.

Hyd yr olaf. Ni cheir y geiriau hyn ond mewn rhai Llawysgrifau.

A gadawyd yr Iesu yn unig, a'r wraig yn sefyll yn y canol. Munud ddramatig iawn. Cym. iv. 26.

Sylwa C. R. Gregory mai'r darlleniad mewn hen Lawysgrif yw, "Ef a ysgrifennodd ar y ddaear bechodau pob un ohonynt. A hwy pan ddarllenasant . . . . ." Y Pharisead hynaf, medd Gregory, a ddeuai gyntaf. Yr oedd ganddo hawl i fod ar y blaen. Edrych ar y gair a ysgrifenasid ar y ddaear, a gwêl enw pechod mawr a gyflawnwyd ganddo, ond pechod y meddyliai na wyddai neb amdano: deffry ei gydwybod a ffy ymaith mor gyflym ag y medr. Tynnodd yr Iesu ei law dros y tywod ac ysgrifennodd rywbeth eto. Darllen y Pharisead nesaf yr hyn a ysgrifenasid: gwêl bechod cuddiedig o'i eiddo'i hun, a ffy yntau hefyd ymaith. Ac yn y diwedd yr oedd yr holl gyhuddwyr wedi ffoi.

Barnwn mai ymgais yw hyn i roddi ystyr bendant i waith yr Iesu yn ysgrifennu ar y ddaear.

10. **Ha wraig, pa le y mae dy gyhuddwyr di.** Ie, yn wir, pa le y maent? Y maent wedi ffoi, gan feddwl am eu pechodau eu hunain.

Oni chondemniodd neb di? A oedd yna neb yn barod i dderbyn yr her a thaflu yn gyntaf garreg ati hi?

11. **Hithau a ddywedodd, Naddo, Arglwydd.** Byddai "Syr" yn gyfieithiad mwy priodol nag "Arglwydd."

Nid wyf finnau yn dy gondemnio di: dos, ac na phecha mwyach. Ni cheir datganiad o faddeuant yma (cyf. Mt. ix. 2; Luc vii. 48, 50), ond dywaid y dibechod na chondemnia hi, er y condemnia ei phechod pan ddywaid, "dos, ac na phecha mwyach." Ond yr oedd hyn, tra yn gondemniad ar ei phechod, yn anogaeth iddi i fyw bywyd pur, ac oni wnâi'r atgof o'i ymddygiad grasol ei chadw ar lwybr rhinwedd o hyn allan ni wnâi dim arall hynny.

Dywed Lock mai'r hyn a ddysg yr hanes hwn yw: (a) Ni all pechaduriaid fod yn wir farnwyr. (b) Swyddogaeth yr Iesu yw achub, ac nid barnu. (c) Cydnebydd yr Iesu fod y wraig yn bechadures, ond gollwng hi ymaith heb ei chosbi ac enfyn hi i fyw bywyd gwell.

12 Yna y llefarodd yr Iesu wrthynt drachefn, gan ddy-
wedyd, Goleuni y byd ydwyf fi: yr hwn a'm dilyno
i, ni rodia mewn tywyllwch, eithr efe a gaiff oleuni y
13 bywyd. Am hynny y Phariseaid a ddywedasant
wrtho, Tydi sydd yn tystiolaethu am danat dy hun;
14 nid yw dy dystiolaeth di wir. Yr Iesu a attebodd ac
a ddywedodd wrthynt hwy, Er fy mod i yn tystiolaethu
am danaf fy hun, y mae fy nhystiolaeth i yn wir:
oblegid mi a wn o ba le y deuthum, ac i ba le yr yd-
wyf yn myned; chwithau nis gwyddoch o ba le yr
wyf fi yn dyfod, nac i ba le yr wyf fi yn myned.
15 Chwychwi sydd yn barnu yn ol y cnawd; nid wyf
16 fi yn barnu neb. Ac etto os wyf fi yn barnu, y mae
fy marn i yn gywir: oblegid nid wyf fi yn unig, ond
17 myfi a'r Tad yr hwn a'm hanfonodd i. Y mae hefyd
yn ysgrifenedig yn eich cyfraith chwi, Mai gwir yw
18 tystiolaeth dau ddyn. Myfi yw yr hwn sydd yn tyst-
iolaethu am danaf fy hun; ac y mae y Tad, yr hwn
19 a'm hanfonodd i, yn tystiolaethu am danaf fi. Yna y
dywedasant wrtho, Pa le y mae dy Dad di? Yr Iesu
a attebodd, Nid adwaenoch na myfi, na'm Tad: ped
adnabuasech fi, chwi a adnabuasech fy Nhad i hefyd.
20 Y geiriau hyn a lefarodd yr Iesu yn y trysordy, wrth
athrawiaethu yn y deml: ac ni ddaliodd neb ef, am
na ddaethai ei awr ef eto.

CRIST YN OLEUNI'R BYD (adn. 12—20).

12. **Yna y llefarodd yr Iesu wrthynt drachefn, Goleuni y byd ydwyf fi.** Y mae'r geiriau hyn i'w cysylltu â'r seithfed bennod.

Myfi yw goleuni'r byd. Dyma'r ail o'r dywediadau mawr, "Myfi yw," yn yr Efengyl hon. Dichon yr awgrymwyd y dywediad mawr-eddog hwn gan arferiad arall ynglŷn â Gŵyl y pebyll (gwêl ar vii. 37). Ar un hwyr neu ragor goleuid cynteddodd y deml â phedair canhwyllbren aur yng nghyntedd y gwragedd, er coffa am y golofn dân a arweiniodd yr Israeliaid yn yr anialwch. Y ddau beth a barai fod yr anialwch i'w ofni oedd ei fod heb ddwfr ac heb lwybr.

Cyflawnodd Duw y ddau eisiau hyn. Rhoddes i'w bobl ddwfr o'r graig, a cholofn dân i'w harwain ar eu ffordd.

Cytunir na oleuid y cynteddoedd ar ddydd olaf yr ŵyl. Lleinw Crist y bwlch drwy alw sylw ato'i Hun fel goleuni'r byd.

Y mae Crist yn oleuni'r byd—Iddewon a Chenhedloedd (cym. Esaia xlii 6, xlix. 6). Ef yw'r goleuni sydd yn goleuo pob dyn (i. 9). Galwodd Crist ei ganlynwyr yn oleuni'r byd (Mt. v. 14), a galwodd Paul ei ddychweledigion yn "oleuadau yn y byd." Ond Crist yw **y goleuni**; ohono Ef y derbyniwn ni ein goleuni. Sylwa Lock fod "**Goleuni**" yn un o enwau'r Meseia.

Yr hwn a'm dilyno i, ni rodia mewn tywyllwch. "Yn y tywyllwch." Yn y frawddeg, "ni rodia yn y tywyllwch," y mae'r negydd yn ei ffurf gryfaf yn y gwreiddiol,— ni rodia mewn un modd yn y tywyllwch. Mewn dilyn Crist nid oes ansicrwydd; nid "efallai ni rodia yn y tywyllwch," ond "yn sicr ni rodia yn y tywyllwch." "Y tywyllwch a aeth heibio, a'r gwir oleuni sydd yr awrhon yn tywynnu" (1 Ioan ii. 8). Y mae'r addewid yn sicr, ac y mae'n addewid i bawb,— "yr hwn a'm dilyno I." Eithr rhaid dilyn yn wastadol, ac nid yn unig pan yw'r goleuni yn cydfyned â'n hewyllys ni ein hunain. Crwydrwn am y ceisiwn arweinwyr eraill, ynom ein hunain neu mewn eraill.

Defnyddir "rhodio" am ymddygiad yn yr Hen Destament a'r Newydd.

Efe a gaiff oleuni'r bywyd. Rhoddwn wahanol farnau am ystyr y geiriau hyn:—

1. Goleuni a rydd fywyd. Cym. vi. 35, "Myfi yw bara'r bywyd." 2. Goleuni ar fywyd. 3. Goleuni a ddaw o fywyd. Tueddir ni i gyfuno 2 a 3. Caiff y neb a ddilyno Grist oleuni ar fywyd — y gwir fywyd. Ac o fywyd y daw'r goleuni hwn. Eithr o ba fywyd? (a) Y bywyd a rydd Crist i'r rhai a gred ynddo Ef. Drwy'r bywyd hwn cânt weledigaeth i mewn i'r gwirionedd a'u ceidw rhag crwydro. (b) Bywyd o ddilyn yr Iesu ar ein rhan ni: "Yr hwn a'm dilyno i . . . . efe a gaiff oleuni'r bywyd." O ufudd-dod y daw goleuni. Nid o'n blaen, fel y golofn dân, y mae'r goleuni, nac uwch ein pennau, fel yr haul yn y ffurfafen, ond o'n mewn. Peth allanol oedd yr arweiniad yn yr anialwch, peth mewnol yw'r arweiniad hwn. Ac oherwydd mai arweiniad mewnol yw yr ydym mewn cydymdeimlad ag ef a dewiswn yn naturiol yr hyn sydd dda. Y mae inni arweiniad anffaeledig, ac ynom y mae.

> "He that has light within his own clear breast
> May sit i' the centre, and enjoy bright day."

13. Etyb y Phariseaid na ellir derbyn hunandystiolaeth. Cydnebydd yr Iesu hyn yn v. 31. Gofynnant am braw fod yr haul wedi codi, a hwythau'n sefyll yng ngoleuni dydd. Nid oes i oleuni dyst

ond ef ei hun, ond rhaid cael llygad i'w weled. Oni welwn wirionedd yn ei oleuni ei hun ni welwn ef o gwbl. Ofer arwyddion a thystion, rhaid inni weled y gwirionedd fel y mae ynddo'i hun. Dylem roddi mwy o bwys nag a roddir yn gyffredin ar y gweledigaeth ysbrydol.

14—18. Ceir gwahanol olygiadau ynghylch yr ymresymiad yn yr adnodau hyn. (a) Y mae'r ddau dyst angenrheidiol yn bresennol yn achos yr Iesu (16—18), Ef ei Hun a'r Tad. Ond tystiolaeth yr Iesu ei Hun a bwysleisir, ac felly y mae'r ymresymiad yn wahanol i'r hyn a geir yn y bumed bennod. Cyfiawnha ei ymwybyddiaeth o'i hanfaeth ddwyfol ac agosrwydd y berthynas rhyngddo a'i Dad y dywediad, "Er fy mod i yn tystiolaethu amdanaf fy hun, y mae fy nhystiolaeth i yn wir." Dywaid Strachan mai'r dystiolaeth wreiddiol, uniongyrchol, i Ddwyfoldeb yr Iesu yw (a) ei hunanymwybyddiaeth; (b) profiad yr Eglwys Apostolaidd, a ailadroddwyd trwy'r oesoedd. Profasant yn eu calon a'u bywyd, drwy bresenoldeb yr Iesu, beth na allai neb ond Duw ei wneuthur.

(b) Yn adn. 16—18 y ceir gwir ymresymiad yr Iesu, lle yr ailadroddd ymresymiad v. 32, sef y cadarnheir ei hunandystiolaeth gan Arall. Ni wna adn. 14 ddim ond paratoi'r ffordd i ymresymiad adn. 16—18 drwy bwysleisio'r hunanymwybyddiaeth ddwyfol drwy yr hyn y cenfydd yr Iesu yn ei genhadaeth ei Hun dystiolaeth gadarnhaol y Tad. Cydnebu'r Iesu dwf tystiolaeth (v. 31), a dangosodd y cyflawnid hi ynddo Ef. Y mae ar fedr dangos hyn eto, eithr yn gyntaf hawlia na ellir ei chymhwyso ato Ef.

14. **Mi a wn o ba le y deuthum.** Yn yr Ymgnawdoliad (cym. xiii. 3, xvi. 28).

Ac i ba le yr ydwyf yn myned. Drwy ei farwolaeth a'i esgyniad.

Chwithau ni wyddoch o ba le yr wyf fi yn dyfod. Ni wyddent am ei haniaeth ddwyfol.

15. **Chwychwi sydd yn barnu yn ôl y cnawd.** Cym. 1 Cor. i. 26; 2 Cor. v. 16. Y mae'r adnod hon i'w chysylltu ag adn. 13. Barnent Ef wrth ei ymddangosiad allanol, fel petai onid dyn fel hwythau, wrth amgylchiadau ei fywyd ac nid wrth y gwirioneddau a lefarai (vii. 27). Rhybuddiasai'r Iesu hwynt yn flaenorol i beidio â gwneuthur hyn (vii. 24).

Nid wyf fi yn barnu neb. Nid i farnu y daeth yr Iesu i'r byd, ond i achub (iii. 17). Gwahaniaethodd, y mae'n wir, medd Bernard, rhwng dynion a'i gilydd (adn. 16, 26); ond mynega'r geiriau, "nid wyf fi yn barnu neb," nid yn unig nad dyna **amcan** ei ddyfodiad, ond nad **arferai** wneuthur hynny. Barnai'r Phariseaid yn gyson, a dygasant yn erbyn yr Iesu y cyhuddiad na wahaniaethai'n ddigonol, ei fod yn derbyn publicanod a phechaduriaid ac yn bwyta ac yfed gyda

hwynt (Marc ii. 16; Luc xv. 2), ac na yrrodd ymaith y bechadures yn nhŷ Simon y Pharisead (Luc vii. 39). Ni chondemniodd hyd yn oed y wraig a ddaliwyd mewn godineb (viii. 11). Yr oedd ei esiampl yn gyson â'i orchymyn, "Na fernwch" (Mt. vii. 1).

16. **Ac eto os wyf fi yn barnu.** "Ond" os wyf fi yn barnu. Nid y farn a effeithir drwy'r amlygiad o'r goleuni a ddaeth i'r byd yng Nghrist a olygir yma, nid yr amlygiad o gymeriad dynol a geir yn ymddygiad dynion tuag ato, ond ei waith yn barnu mewn achosion neilltuol. Gwêl adn. 26.

Y mae fy marn i yn gywir. Yn ddelfrydol wir, yn cyflawni yn hollol yr hyn sy'n gynwysedig mewn barnu.

Oblegid nid wyf fi yn unig, ond myfi a'r Tad yr hwn a'm hanfonodd i. Cym. v. 30. Rhydd hyn y rheswm am y dywediad, "Y mae fy marn I yn gywir." Nid ei farn ei Hun a fynega'r Iesu pan farna,—"nid wyf Fi yn unig." Barn Duw yw ei farn Ef: ni ddywaid ddim ac ni wna ddim ar wahân i'r Tad, oherwydd ei gymundeb ag Ef a'i anfoniad ganddo. Gogoniant yr Iesu yw nad yw yn unig: ymffrostiwn ni yn fynych yn ein hannibyniaeth.

17. Gwêl y nodiadau ar v. 31.

Eich cyfraith chwi. Cym. x. 34. Yn xv. 25 geilw'r Iesu'r Ysgrythurau "eu cyfraith hwynt," h.y., cyfraith yr Iddewon. Ni olyga'r disgrifiad, "eich cyfraith chwi," fod yr Iesu yn gwrthwynebu cyfraith Moses (gwêl Mt. v. 17; Ioan v. 47), ond ei fod yn dadlau â'r Phariseaid ar eu tir eu hunain. Proffesent y cadwent y gyfraith yn fanwl.

18. Ceir y modd y tystiolaetha'r Tad am yr Iesu yn v. 36, 39.

19. **Yna y dywedasant wrtho, Pa le y mae dy Dad di?** Nid "pwy?" and "pa le?" Gwyddant at bwy y cyfeirir. Ymddengys y cwestiwn fel pe wedi ei ofyn mewn gwawd: gwelant un o'r ddau dyst, ond pa le y mae'r llall? Y mae yn anweledig, ac felly ni all dystiolaethu. Y mae cais Phylip, "Dangos i ni y Tad" (xiv. 8) yn wahanol mewn ysbryd a ffurf i'r cwestiwn hwn.

Y mae'n bosibl y ceisient beri i'r Iesu ddywedyd mai Duw oedd ei Dad, fel y gallent ei gyhuddo o gabledd.

Nid adwaenoch na myfi na'm Tad: ped adnabuasech fi, chwi a adnabuasech fy Nhad hefyd. Nid adwaenant haniaeth ddwyfol yr Iesu na'i berthynas â'r Tad, ac felly nid adwaenant y Tad ei Hun. Yng Nghrist y mae'r Tad i'w adnabod (xiv. 7, 9). Y mae'r Tad yn weledig yn y Mab, ac yndo Ef yn unig: yn wyneb Iesu Grist y mae goleuni gwybodaeth gogoniant Duw i'w weled. Drwy ddysgu ei adnabod Ef y dysgodd y disgyblion adnabod y Tad.

20. **Y trysordy.** Cym. Marc xii. 41; Luc xxi. 1. Dynoda'r "trysordy" y rhan honno o Gyntedd y Gwragedd lle yr oedd tri ar ddeg o flychau i dderbyn rhoddion at wasanaeth y deml, neu at gynhaliaeth y tlawd, neu at ryw amcan cysegredig arall. Mewn ffurf yr oeddynt yn debyg i utgorn. Yr oedd y lle y cyfarfyddai'r Sanhedrin yn agos, ac felly dysgai yr Iesu yn ymyl prif fan cyfarfod ei elynion.

Ac ni ddaliodd neb ef. "Ac eto" ni ddaliodd neb Ef. Ni ddaliodd neb Ef, er y llefarai yng nghlyw ei elynion. Y mae'r ail ran o'r adnod hon yn aralleiriad llythrennol ymron o vii. 30.

21 Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt hwy drachefn, Yr
wyf fi yn myned ymaith, a chwi a'm ceisiwch i, ac a
fyddwch feirw yn eich pechod. Lle yr wyf fi yn
22 myned, ni ellwch chwi ddyfod. Am hynny y dywed-
odd yr Iuddewon, A ladd efe ei hun? gan ei fod yn
dywedyd, Lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddy-
23 fod. Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, Chwychwi
sydd oddi isod; minnau sydd oddi uchod: chwychwi
24 sydd o'r byd hwn; minnau nid wyf o'r byd hwn. Am
hynny y dywedais wrthych, y byddwch chwi feirw
yn eich pechodau: oblegid ni chredwch chwi mai myfi
25 yw *efe*, chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau. Yna
y dywedasant wrtho, Pwy wyt ti? A'r Iesu a ddy-
wedodd wrthynt, Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd
26 hefyd wrthych o'r dechreuad. Y mae [gennyf fi
lawer o bethau *i'w* dywedyd ac i'*w* barnu am danoch
chwi: eithr cywir yw yr hwn a'm hanfonodd i; a'r
pethau a glywais i ganddo, y rhai hynny yr ydwyf fi
27 yn eu dywedyd i'r byd. Ni wyddent hwy mai am y
28 Tad yr oedd efe yn dywedyd wrthynt hwy. Am
hynny y dywedodd yr Iesu wrthynt, Pan ddyrchafoch
chwi Fab y dyn, yna y cewch wybod mai myfi yw *efe*,
ac nad wyf fi yn gwneuthur dim o honof fy hun; ond
megis y dysgodd fy Nhad fi, yr wyf yn llefaru y pethau
29 hyn. A'r hwn a'm hanfonodd i sydd gyd â myfi:
ni adawodd y Tad fi yn unig; oblegid yr wyf fi yn
gwneuthur bob amser y pethau sydd foddlawn ganddo

30 ef. Fel yr oedd efe yn llefaru y pethau hyn, llawer a gredasant ynddo ef.

YR IESU YN RHYBUDDIO'R IDDEWON YNG NGHYLCH CANLYNIADAU ANGHREDINIAETH (adn. 21—30).

21. **Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt drachefn.** Ni wyddom pa un ai parhad o'r hyn a ddywedwyd yn flaenorol a geir yma, ai dechrau anerchiad newydd.

Yr wyf fi yn myned ymaith. Cym. adn. 14 a vii. 33. Drwy'r cwbl o'r ymddiddan hwn rhed y teimlad dwys mai dyma ei eiriau olaf i lawer a'i clyw.

A chwi a'm ceisiwch. Cym. Ezek. iii. 18, xviii. 18; Deut. xxiv. 9. waredir **y rhai a geisiant** yr Iesu fel y Meseia pan fydd yn rhy ddiweddar—byddant feirw yn eu pechod. Nid yn eich "pechodau," ond yn eich "pechod." Dynoda'r rhif unigol ystâd bechadurus. Dywed Reith: Y pechod o wrthod Crist, hanfod a gwreiddyn pob pechod.

Lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod. Cym. vii. 34. Cyferbynner geiriau Crist wrth ei ddisgyblion, xiii. 33—36, xiv. 3. Peth dros amser oedd eu hanallu hwy i ddyfod i'r lle yr oedd Ef yn myned iddo. Ar yr adnod hon dywaid Brooke, "Gŵyr yr Iesu y rhaid i'r llywodraethwyr gael eu ffordd yn y diwedd. Dywaid wrth y Phariseaid fod ei amser yn fyr, ac y bydd arnynt ei eisiau pan fydd yn rhy ddiweddar."

22. **A ladd efe ei hun**? Ateb nacaol a ddisgwylir,—"yn sicr ni fwriada gyflawni hunanladdiad?" Tybiant mai am fynediad gwirfoddol allan o'r byd y llefara, ac, o bosibl, drwy hunanladdiad, yr hyn a'i rhoddai y tu hwnt i'w cyrraedd hwy, canys ni ddymunent farw gydag Ef. Rhoddasant esboniad gwaeth ar ei eiriau nag a wnaethant yn vii. 35.

23. Y mae'r rhan gyntaf o'r dywediad hwn a'r ail ran yn gyfystyr: "oddi isod" yw "o'r byd hwn," ac "oddi uchod" yw "nid o'r byd hwn." Dywaid Godet mai bywyd dynol mewn annibyniaeth ar ewyllys Duw, ac felly yn wrthwynebol iddi, yw'r "byd hwn." "Cymdeithas ddynol," medd Gore, yn ei threfnu ei hun ar wahân i Dduw yw'r "byd," h.y., y "byd" pan ddefnyddir y term mewn ystyr ddrwg—y byd bydol. Am y gair "byd" gwêl ar i. 9.

Yr oedd gagendor na ellir ei mesur rhwng Crist a'r Iddewon.

24. **Byddwch chwi feirw yn eich pechodau.** Nid "pechod," fel yn adn. 21, ond "pechodau"—pechod yn ei amrywiol amlygiadau a gweddau.

Oblegid oni chredwch mai myfi yw efe. Sylwer bod y gair "efe" mewn llythrennau Italaidd, yn dynodi nad yw yn rhan o'r gwreiddiol. Yn y mannau lle y ceir "myfi yw Efe" yn yr Efengyl hon ni ddefnyddir yr ail ragenw—"efe"—yn y gwreiddiol.

Yn y dywediadau "Myfi yw" y rhoddasom restr ohonynt yn ein nodiadau ar v. 35 mynegir y traethiad (predicate). Ac yn y bennod hon mynegir ef neu y mae i'w ddeall yng ngoleuni'r cyd-destun yn adn. 18, 28. Eithr yma ac yn adn. 58, ac yn xiii. 19 y mae yn gyfystyr â'r datganiad dwyfol, "Myfi (yw) efe," a briodolir gan y proffwydi i Jehofah.

Eithr bernir gan rai mai yr ystyr yma yw, "Oni chredwch mai'r hwn yr honnaf fy mod wyf Fi—y Meseia, neu, yr hwn sydd oddi uchod."

25. **Pwy wyt ti?** Gofynasant hyn yn wawdus, ac nid gyda dymuniad am wybodaeth. Drwy beidio â dywedyd yn bendant pwy ydoedd, awgrymodd yn eglur ei fod yn ei berson yn un na ellid ei ddisgrifio gan neb. Pwy wyt ti, fel y rhaid inni gredu dy fod yn rhyw Ef mawr?

Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd wrthych o'r dechreuad. Yn ychwanegol at y cyfieithiad hwn ceir y rhai a ganlyn: (a) Paham yr wyf Fi hyd yn oed yn siarad â chwi o gwbl? Dyna gyfieithiad ymyl y ddalen yn y Cyfieithiad Diwygiedig Saesneg. (b) Yn bennaf, yr hyn yr wyf Fi yn ei ddywedyd wrthych. (c) Y dechreuad, yr hyn yr wyf Fi yn ei ddywedyd wrthych.

Barnwn mai yr ystyr yw eu bod i gasglu eu gwybodaeth amdano o'i ddysgeidiaeth, ac felly gwrthodwn (a).

26. Cyfeiria'r geiriau, "a glywais i ganddo," at gynhanfodiad a chymdeithas agos. Ceir gwahanol farnau am ystyr yr adnod hon: (a) "Y mae gennyf lawer o bethau i'w dywedyd ac i'w barnu amdanoch chwi, ond cadwaf at fy ngwaith o ddywedyd i'r byd yr hyn a glywais gan y Tad, yr Hwn sydd gywir, a'r Hwn a'm hanfonodd." (b) "Y mae gennyf lawer o bethau i'w dywedyd a'u barnu amdanoch chwi, ond ni wnaf hynny, canys nid oes ond un barnwr cywir, a'i ddedfryd Ef, ac nid fy nedfryd I, yw'r ddedfryd y rhaid i Mi ei chyhoeddi i'r byd." (c) "Y mae gennyf lawer o bethau i'w dywedyd a'u barnu amdanoch chwi, pethau anhyfryd i'w gwrando, ond rhaid i Mi eu dywedyd, canys anfonodd yr Hwn sydd gywir Fi i lefaru fel hyn," h.y., y mae'r hyn a lefara yn wir ynddo'i hun ac y mae awdurdod y tu ôl iddo. (d) Dywaid Bernard yr ymddengys yr adnod hon fel yn cymryd i fyny ddysgeidiaeth adn. 16. Ni etyb yr Iesu'r gofyniad, "Pwy wyt ti?" A ymlaen â'i anerchiad, oblegid yr oedd llawer mwy i'w ddywedyd. Am farn y siaradai (adn. 21, 24). Cyfeiria "ond" yn ôl at y gwrthwynebiad nad oedd ganddo awdurdod y tu ôl iddo. "Pa wrthwynebiad bynnag a godwch i'm hawl i farnu, rhaid i chwi gofio bod yr Hwn a'm hanfonodd yn gywir."

27. Nodiad gan yr Efengylwr yw'r adnod hon. Y mae'n rhyfedd na wyddent mai am y Tad y dywedai'r Iesu, a gwneir y sylw hwn gan Ioan am fod hynny yn rhyfedd. Amlygir anwybodaeth anghyffredin yma: eto rhaid cofio bod anwybodaeth anghrediniaeth ymron yn ddiderfyn.

28. **Am hynny y dywedodd yr Iesu wrthynt.** Oherwydd eu hanwybodaeth.

Pan ddyrchafoch chwi Fab y dyn. Ar y groes. Gweithred o eiddo'r Iddewon oedd croeshoeliad yr Iesu. Gwêl Act. ii. 36, iii. 15. I'r Rhufeiniaid y perthynai'r awdurdod i roddi i farwolaeth, eithr yr Iddewon oedd y rhai a lefasant "Croeshoelia Ef."

Yna y cewch wybod mai myfi yw efe. Mai myfi yw Mab y dyn. Dilynir marwolaeth Crist gan ei ogoneddiad, yr hyn na fwriadant hwy, a'r pryd hynny tynnir ymaith y gorchudd oddi ar eu llygaid. Cânt wybod na wnâi ddim ohono'i Hun, eithr mai cennad ufudd Duw ydoedd. Cyflawnwyd y geiriau hyn. Gwêl Act. ii. 37. Barna rhai mai at y pethau a ddigwyddodd iddynt, cwymp Jerusalem a phethau eraill, y cyfeirir. Dysgodd ffeithiau iddynt yr hyn y methodd geiriau â'i ddysgu.

Megis y dysgodd fy Nhad fi. Cyn yr Ymgnawdoliad.

29. **Ni adawodd y Tad fi yn unig.** Ni adawodd y Tad y Mab yn unig pan ddaeth i'r byd, pan wnaethpwyd y Gair yn gnawd, ac ni adawodd Ef wedi hynny, eithr bu gydag Ef yn ei holl brofiadau. Dyma eiriau sy'n cyffwrdd â thannau tyneraf ein calon,—"ni adawodd Fi yn unig." Ac ni edy ninnau yn unig chwaith, y rhai sydd arnom ei eisiau Ef bob awr, Ef, "the great Companion of the soul."

Oblegid yr wyf fi yn gwneuthur bob amser y pethau sydd foddlawn ganddo ef. Yr achos o gymundeb di-dor y Mab â'r Tad yw ei ufudd-dod cyson i'r ewyllys ddwyfol. Cym. xv. 10, "Os cedwch fy ngorchmynion, chwi a arhoswch yn fy nghariad i; fel y cedwais i orchmynion fy Nhad, ac yr ydwyf yn aros yn ei gariad Ef."

"A'r uwchanianol a'r moesol law yn llaw. Y mae'r Iesu yn un â Duw mewn hanfod. Y mae'r Iesu, fel Mab y dyn, yn ostyngedig ac ufudd, a seilia bresenoldeb gwastadol y Tad gydag Ef ar ei gyflawniad perffaith o'i ewyllys."

Yr wyf **Fi** yn gwneuthur **bob amser.** Yr oedd yn wir amdano Ef na thaflodd cymaint ag un weithred o'i eiddo gysgod ar ddisgleirdeb presenoldeb ei Dad. Rhagdybia'r honiad hwn ei fod yn ddibechod (cym. adn. 46): ni allai neb arall ddywedyd hyn.

Barna rhai esbonwyr mai praw o wirionedd y rhannau cyntaf o'r adnod hon yw'r geiriau, "Yr wyf Fi yn gwneuthur bob amser y

pethau sydd foddlawn ganddo," yn hytrach na'r achos ohono. Profir y ffaith o bresenoldeb y Tad gan ufudd-dod y Mab. Y mae'r Tad gyda'r Mab, ac y mae'r ffaith y gwna'r Mab y pethau sydd foddlawn gan y Tad yn braw o hynny.

Gwrthodwn y golygiad hwn fel esboniad ar yr adnod hon, er y dywaid y rhai a'i mabwysiada ei fod yn ddyfnach gwirionedd na'r un a roddir uchod. Hyd yn oed pe credem hynny, barnem nad dyna'r gwirionedd a geir yma.

30. **Fel yr oedd efe yn llefaru y pethau hyn, llawer a gredasant ynddo.** Nid a'i credasant Ef, ond a gredasant ynddo (arno). Sylwer mai oherwydd ei eiriau y credasant arno, ac nid oherwydd unrhyw arwydd (cym. iv. 39, 40). A sylwer hefyd mai oherwydd yr honiadau mwyaf aruchel y credasant arno.

31 Yna y dywedodd yr Iesu wrth yr Iuddewon a gred-
asant ynddo, Os arhoswch chwi yn fy ngair i, disgybl-
32 ion i mi ydych yn wir; A chwi a gewch wybod y
gwirionedd, a'r gwirionedd a'ch rhyddhâ chwi.
33 Hwythau a attebasant iddo, Had Abraham ydym ni,
ac ni wasanaethasom ni neb erioed: pa fodd yr wyt
34 ti yn dywedyd, Chwi a wneir yn rhyddion? Yr Iesu
a attebodd iddynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi,
Pwy bynnag sydd yn gwneuthur pechod, y mae efe
35 yn was i bechod. Ac nid yw y gwas yn aros yn tŷ
36 byth: y Mab sydd yn aros byth. Os y Mab gan
hynny a'ch rhyddhâ chwi, rhyddion fyddwch yn wir.
37 Mi a wn mai had Abraham ydych chwi: ond yr
ydych chwi yn ceisio fy lladd i, am nad yw fy ngair
38 i yn genni ynoch chwi. Yr wyf fi yn llefaru yr hyn a
welais gyd â'm Tad i: a chwithau sydd yn gwneu-
39 thur yr hyn a welsoch gyd â'ch tad chwithau. Hwy-
thau a attebasant ac a ddywedasant wrtho, Ein tad
ni yw Abraham. Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Pe
plant Abraham fyddech, gweithredoedd Abraham a
40 wnaech. Eithr yn awr yr ydych chwi yn ceisio fy
lladd i, dyn a ddywedodd i chwi y gwirionedd, yr
hwn a glywais i gan Dduw: hyn ni wnaeth Abra-

41 ham. Yr ydych chwi yn gwneuthur gweithredoedd
eich tad chwi. Am hynny y dywedasant wrtho, Nid
trwy butteindra y cenhedlwyd ni: un Tad sydd gen-
42 nym ni, *sef* Duw. Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt
hwy, Pe Duw fyddai eich Tad, chwi a'm carech i:
canys oddi wrth Dduw y deilliais, ac y deuthum i;
oblegid nid o honof fy hun y deuthum i, ond efe a'm
43 hanfonodd i. Paham nad ydych yn deall fy llefer-
44 ydd i? am na ellwch wrandaw fy ymadrodd i. O'*ch*
tad diafol yr ydych chwi, a thrachwantau eich tad a
fynnwch chwi eu gwneuthur. Lleiddiad dyn oedd
efe o'r dechreuad; ac ni safodd yn y gwirionedd,
oblegid nid oes gwirionedd ynddo ef. Pan yw yn
dywedyd celwydd, o'r eiddo ei hun y mae yn dy-
wedyd: canys y mae yn gelwyddog, ac yn dad iddo.
45 Ac am fy mod i yn dywedyd y gwirionedd, nid ydych
46 yn credu i mi. Pwy o honoch a'm hargyhoedda i
o bechod? Ac od wyf fi yn dywedyd y gwir, paham
47 nad ydych yn credu i mi? Y mae yr hwn sydd o
Dduw, yn gwrandaw geiriau Duw: am hynny nid
ydych chwi yn *eu* gwrandaw, am nad ydych o Dduw.
48 Yna yr attebodd yr Iuddewon, ac y dywedasant
wrtho ef, Onid da yr ydym ni yn dywedyd, mai Sa-
49 maritan wyt ti, a bod gennyt gythraul? Yr Iesu a
attebodd, Nid oes gennyf gythraul; ond yr wyf fi yn
anrhydeddu fy Nhad, ac yr ydych chwithau yn fy
50 nianrhydeddu innau. Ac nid wyf fi yn ceisio fy ngo-
51 goniant fy hun: y mae a'i cais, ac a farn. Yn wir,
yn wir, meddaf i chwi, Os ceidw neb fy ymadrodd i,
52 ni wêl efe farwolaeth yn dragywydd. Yna y dywed-
odd yr Iuddewon wrtho, Yr awrhon y gwyddom fod
gennyt gythraul. Bu Abraham farw, a'r prophwydi;
ac meddi di, Os ceidw neb fy ymadrodd i, nid arch-

53 waetha efe farwolaeth yn dragywydd. Ai mwy wyt
ti nag Abraham ein tad ni, yr hwn a fu farw? a'r
prophwydi a fuant feirw: pwy yr wyt ti yn dy
54 wneuthur dy hun? Yr Iesu a attebodd, Os wyf fi
yn fy ngogoneddu fy hun, fy ngogoniant i nid yw
ddim: fy Nhad yw yr hwn sydd yn fy ngogoneddu i,
yr hwn yr ydych chwi yn dywedyd, mai eich Duw
55 chwi yw. Ond nid adnabuoch chwi ef: eithr myfi
a'i hadwaen ef. Ac os dywedaf nad adwaen
ef, myfi a fyddaf debyg i chwi, yn gelwyddog:
ond mi a'i hadwaen ef, ac yr wyf yn cadw ei
56 ymadrodd ef. Gorfoledd oedd gan eich tad Abra-
ham weled fy nydd i: ac efe a'*i* gwelodd *hefyd*, ac a
57 lawenychodd. Yna y dywedodd yr Iuddewon wrtho,
Nid wyt ti ddengmlwydd a deugain etto, ac a welaist
58 ti Abraham? Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn
wir, yn wir, meddaf i chwi, Cyn bod Abraham, yr
59 wyf fi. Yna hwy a godasant gerrig i'w taflu atto ef.
A'r Iesu a ymguddiodd, ac a aeth allan o'r deml, gan
fyned trwy eu canol hwynt: ac felly yr aeth *efe*
heibio.

ADDEWID AM WIR WYBODAETH A RHYDDID YSBRYDOL (adn. 31—59).

31. **Yna y dywedodd yr Iesu wrth yr Iddewon a gredasant ynddo.** Yn gywir, yr Iddewon a'i credasant Ef, ac nid a gredasant ynddo (adn. 30). Heblaw y rhai a gredasant ynddo, yr oedd yna rai a'i credasant Ef. Yr oedd hyn yn gam yn y ffordd i wir ddisgyblaeth, ac yn well na'r ffydd a ddisgrifir yn ii. 23.

Os arhoswch yn fy ngair i, disgyblion i mi ydych yn wir. Cym. 2 Ioan 9. Credasant Ef, ond nid digon hynny; rhaid iddynt aros yn ddyfalbarhaus mewn myfyrdod yng ngair Crist ac ymarferiad ohono. Hyn yn unig a sicrha iddynt yr anrhydedd uchaf, yr anrhydedd o fod yn ddisgyblion iddo Ef (cym. xv. 8). Sieryd Crist am y gair yn aros ynom ni (adn. 37, v. 38), ac am aros ohonom ninnau yn y gair —dwy wedd i'r un gwirionedd (vi. 56, xv. 7).

32. **A chwi a gewch wybod y gwirionedd.** Drwy arhosiad gair Crist ynddynt, cânt y wybodaeth na ellir ei dysgu ond drwy brofiad (cym. vii. 17).

A'r gwirionedd a'ch rhyddha chwi. Ceir y ddysgeidiaeth fod y gwirionedd yn rhyddhau mewn llenyddiaeth baganaidd. Dysgodd Socrates mai anwybodaeth yw drygioni; a dysgodd y Stoiciaid mai'r doeth yn unig sy'n rhydd, ac mai caethwas yw pob annoeth. Dywaid Epictetus, sant y byd paganaidd, "Rhyddhawyd fi gan Dduw, gwn ei orchmynion, ac ni all neb fy nghaethiwo bellach."

Mynegir egwyddor fawr yn y geiriau, "a'r gwirionedd a'ch rhyddha chwi," egwyddor y gellir rhoddi cymhwysiad cyffredinol iddi. Ym mhob cylch y gwirionedd sy'n rhyddhau, ond am ryddhad o gaethwasanaeth pechod (adn. 34) y lleferir yma. Y "gwirionedd" yw'r "datganiad cyflawn o wir natur pethau" (Godet), a rhyddha'r fath weledigaeth moesol ddyn oddi wrth allu drygioni. "Rhaid i'r hwn sy'n dioddef gan anallu i weled yn iawn," medd Glover, "gael y gwydrau a ddengys iddo'r byd sylweddol. Yna y mae yn ddiogel, ac yn rhydd i fyned a dyfod wrth ei ewyllys. Pan welir y sylweddol yn y byd moesol, y mae'r perygl mawr cyntaf drosodd."

33. **Hwythau a atebasant iddo.** Pwy? Rhoddwn wahanol farnau: (a) Y rhai y sonnir amdanynt yn adn. 31. Os felly, fel rhai a'i credasant Ef, methodd eu ffydd â dal y praw a gwywodd yn fuan. (b) Y gwrthwynebwyr Iddewig a ymryson â'r Iesu yn y gweddill o'r bennod.

Had Abraham ydym ni. Cym. Salm cv. 6; Esaia li. 8. Rhybyddiodd Ioan Fedyddiwr yr Iddewon i beidio ag ymddiried yn eu hanaeth o Abraham (Luc iii. 8).

Ac ni wasanaethasom ni neb erioed. Ni "chaethwasanaethasom" ni neb erioed. Anghofiant ffeithiau hanesyddol,—y caethiwed yn yr Aifft ac ym Mabylon, ac yn awr iau Rhufain. Fel etifeddion addewidion Duw i Abraham—"a brenhinoedd a ddaw allan ohonot ti" (Gen. xvii. 6); "a'th had a feddianna borth ei elynion" (Gen. xxii. 17)—yr oeddynt yn rhydd mewn ystyr ysbrydol, ond yn weithredol yr oeddynt o dan lywodraeth eraill, ac yn xix. 15 cyfaddefant nad oedd iddynt frenin ond Cesar.

34. **Pwy bynnag sydd yn gwneuthur pechod.** Yn parhau i wneuthur pechod, yn byw yn yr ymarferiad o bechod.

Y mae efe yn was i bechod. Yn "gaethwas." Yn Rhuf. vi. 17, 20, sieryd Paul am bechaduriaid fel "caethweision i bechod," ac yn 2 Pedr ii. 19 ceir yr ymadrodd "caethweision llygredigaeth." Had Abraham neu beidio,—"pwy bynnag sydd yn gwneuthur pechod, y mae efe yn was i bechod." Y mae'r syniad bod drygioni yn gaethwasanaeth yn un a geir ym mhob llenyddiaeth.

35. **Ac nid yw'r gwas** (caethwas) **yn aros yn tŷ byth: y mab sydd yn aros byth.** Ceir syniad newydd yn yr adnod hon, sef y gwahaniaeth rhwng safle caethwas a safle mab mewn tŷ. Gosodiad cyffredinol yw'r adnod: "ac nid yw'r caethwas (nid caethwas pechod, ond un-

rhyw gaethwas) yn aros yn tŷ byth: y mab (unrhyw fab) sydd yn aros byth." Ni fedd caethwas freintiau a hawliau sicr. Nid oes ganddo gyfamod â'i feistr, a gellir ei werthu neu ei droi allan wrth ei ewyllys ef. Nid oes dim yn gyffredin rhwng meistr a chaethwas.

Efallai bod yn y geiriau, "nid yw'r caethwas yn aros yn tŷ byth," gyfeiriad at hanes Agar ac Ismael (Gen. xxi. 10; cym. Gal. iv. 30).

Ond y mae'r mab yn aros byth. Cym. Luc xv. 31, "Fy mab yr wyt ti yn wastadol gyda mi, a'r eiddof fi oll sydd eiddot ti."

36. **Os y mab gan hynny a'ch rhyddha chwi, rhyddion fyddwch yn wir.** Gosodiad cyffredinol, ond gyda chyfeiriad arbennig at Fab Duw. Meddai mab ac etifedd fraint neilltuol ynglŷn â rhyddhad caethweision.

Y mae cymhwysiad adn. 35 a 36 at yr Iddewon yn eglur. Drwy ddyfod yn gaethweision collasant yr hawl a berthynai iddynt yn wreiddiol fel had Abraham i le sefydlog yn nheulu Duw. Ond medd y Mab hawl i'w rhyddhau a'u gwneuthur yn aelodau o'r teulu. Rhydd Ef ryddid gwirioneddol: symud ymaith yr ymdeimlad o euogrwydd a ddinistria nerth pechod. "Canys deddf ysbryd y bywyd yng Nghrist Iesu a'm rhyddhaodd i oddi wrth ddeddf pechod a marwolaeth" (Rhuf. viii. 2). Rhydd Ef inni safle a breintiau meibion (Gal. iv. 4—7).

Y mae'r hwn a ryddheir gan y Mab yn rhydd ym mhob ystyr. Os gwneuthur yr hyn a gerir ac a ddewisir yw rhyddid, y mae'r da yn rhydd: ac os gwneuthur yr hyn sydd dda yw rhyddid, ef yn unig sydd yn rhydd. Medd ryddid ffurfiol a rhyddid materol—"formal freedom and material freedom."

Rhyddid meibion, rhyddid teulu, yw'r rhyddid i'r hwn y rhyddha'r Mab ni: rhaid wrth gyfranogiad o ysbryd y teulu, ac ufuddhau i'w reolau cyn y gellir sylweddoli ei ryddid. Os cyfranogir o'i ysbryd ni theimlir ei reolau yn feichus,—"a'i orchmynion Ef nid ydynt drymion."

"Mor felys yw dy eiriau i archwaeth dy etholedigion! Mor hyfryd dy gynghorion i glustiau dy gyfeillion! Mor ysgafn dy orchmynion i liniau dy saint" (Bonaventura).

"Caethiwed santaidd a hawddgar i'r Ysbryd yw rhyddid meibion Duw. Wedi i Fab Duw ein rhyddhau, a darostwng ohono ni yn unig i wasanaeth a llywodraeth yr Ysbryd, yr ydym yn rhydd, fel tywysogion o fewn cylch eu coron, a breichledau yw'n cadwyni, a 'chyfraith rhyddid' yw'r gyfraith, ac y mae ei wasanaeth Ef yn rhyddid perffaith; ac i'r graddau yr ydym yn ddeiliaid, i'r un graddau y 'teyrnaswn fel brenhinoedd;' a chyflymach y cerddwn, ysgafnach fydd ein baich; ac y mae iau Crist i ni fel adenedd i aderyn, nid yn feichiau, ond yn gynorthwyon i ehedeg; hebddynt hwy syrth y corff" (Jeremy Taylor).

37. **Mi a wn mai had Abraham ydych chwi.** Disgynyddion naturiol Abraham.

Ond yr ydych chwi yn ceisio fy lladd i. Cym. v. 18, vii. 1, 19, 25. Nid yw eu hymddygiad yn gyson â'u haniaeth: nid oeddynt yn blant Abraham drwy enedigaeth ysbrydol (adn. 39). Yr oedd gwaed Abraham yn eu gwythiennau, ond nid oedd ffydd Abraham yn eu calonnau.

Am nad yw fy ngair i yn geni ynoch. "Yn cerdded ynoch" (Pwyllgor Caerdydd); "makes no headway in you" (Moffatt); "yn parhau ynoch," gydag awgrym o weithgarwch gweithredol (Bernard). Achos moesol sydd i'w gelyniaeth i'r Iesu.

38. Cyfyd gwrthwynebiad yr Iddewon i'r Iesu o'r gwahaniaeth rhyngddo Ef a hwynt mewn haniaeth. Llefara Ef y pethau a welodd gyda'i Dad; gwnant hwythau yr hyn a welsant gyda'u tad, sef y diafol (adn. 44). Honnai'r Iesu feddu gweledigaeth uniongyrchol o Dduw. Gwêl vi. 46.

39, 40. **Pe plant Abraham fyddech, gweithredoedd Abraham a wnaech.** Cyfeiriant eto at eu haniaeth o Abraham, "ein tad ni yw Abraham." Etyb yr Iesu nad oes tebygrwydd rhwng eu hymddygiad hwy a'r eiddo Abraham, "cyfaill Duw," canys ceisiant ladd cydddyn a ddywedodd wrthynt y gwirionedd a glywsai gan y Tad. Dichon mai'r darlleniad cywir yw: "Os plant Abraham ydych, gwnewch weithredoedd Abraham," neu, "yr ydych yn gwneuthur gweithredoedd Abraham;" a'r gweithredoedd hyn ni wnaent, ac felly ni allent fod yn blant iddo.

Dyn. Ni ddefnyddir y term hwn gan yr Iesu amdano'i Hun yn un lle arall. Ni ragdybia'r defnydd o'r term "dyn" yma nad oedd yn ddwyfol.

41. **Yr ydych chwi yn gwneuthur gweithredoedd eich tad chwi.** "Yn y cwbl a wnawn plant ein rhieni ydym" (Reith). Eithr drwy ras gallwn newid ein cymeriad. Gellir gwneuthur plant diafol yn blant i Dduw: gellir ein haileni. Y mae gras Duw yn fwy nerthol nag etifeddeg, ac amgylchedd, ac arferiad gyda'i gilydd.

Nid drwy buteindra y cenhedlwyd ni: un Tad sydd gennym ni, sef Duw. Ceir gwahanol farnau am ystyr y dywediad hwn, ond dewiswn yr un a ganlyn: Gwelant mai am haniaeth ysbrydol ac nid naturiol y llefara'r Iesu, a dywedant fod eu haniaeth ysbrydol cyn bured â'r haniaeth naturiol y maent wedi ymffrostio cymaint ynddi. Nid amlygasant unrhyw anffyddlondeb godinebus i Dduw: ni lygrwyd eu mabolaeth gan eilunaddoliaeth. Siaredir yn gyson yn yr Hen Destament am eilunaddoliaeth fel godineb.

42. Cyferfydd yr Iesu â'u honiad mai Duw yw eu Tad yn yr un modd ag y cyfarfu â'u honiad mai had Abraham oeddynt. Cymhwysa bnaw moesol ato, drwy osod i lawr ffaith foesol a ddryllia eu honiadau: "Pe Duw fyddai eich Tad, chwi a'm carech i." Cym. 1 Ioan v. 1.

Canys oddi wrth Dduw y deilliais. Y deuthum allan—yn yr Ymgnawdoliad.

Ac y deuthum i. Ac yr wyf yma.

Oblegid nid o honof fy hun y deuthum i, ond efe a'm danfonodd i. Cym. vii. 28. Ni ddaeth yr Iesu heb gomisiwn a chenhadaeth ddwyfol.

43. **Paham nad ydych yn deall fy lleferydd i?** Yn adnabod fy lleferydd i. Golyga "fy lleferydd i" ddull nodweddiadol yr Iesu o lefaru. "Ni werthfawrogai'r ymrysonwyr Iddewig briod-ddull geiriau'r Iesu: nid adnabuant eu hacen ddwyfol."

Am na ellwch wrando fy ngair i. Am na ellwch glywed fy ngair I. Nid nad oeddynt yn deall y gair, yn clywed gyda gwerthfawrogiad, yn gwrando, ond nad oeddynt yn clywed: byddariaid ysbrydol oeddynt. Barna rhai mai yr ystyr yw nad oeddynt yn deall lleferydd yr Iesu oherwydd y gwrthodent gynnwys moesol ei genadwri—yr hen wirionedd yr achosir ein hanawsterau deallol gan ystâd ein hewyllys, yn fwy mynych na pheidio. "Our 'reception' is poor," medd Macgregor, "because our moral 'set' is not 'tuned' to God's 'wavelength.'"

44. **O'ch tad diafol yr ydych chwi.** Dywaid Crist yn eglur yma mai'r diafol yw eu tad, yr hyn a ragdybir yn adn. 38 a 41. Cym. 1 Ioan iii. 8a, "Yr hwn sydd yn gwneuthur pechod o ddiafol (o'r diafol) y mae." Y mae "chwi" yn bwysleisiol: chwi, y rhai a ymffrostia yn eu haniaeth naturiol ac ysbrydol, plant y diafol ydych.

A thrachwantau eich tad a fynnwch chwi eu gwneuthur. Dynoda "mynnwch" (ewyllysiwch) bwrpas sefydlog. Ewyllysiant wneuthur y trachwantau sy'n nodweddiadol o'r diafol, ac amlyga hyn eu perthynas foesol ag ef.

Lleiddiad dyn oedd efe o'r dechreuad. Ceisient ladd yr Iesu (adn. 37, 40), a dywaid Ef yn awr y deilliai'r bwriad llofruddiog hwn o'u tad, yr hwn oedd leiddiad dyn o'r dechreuad. Y maent yn debyg i'w tad yn yr hyn sy'n nodweddiadol ohono, canys lladd dynion yn ysbrydol a naturiol yw gwaith y diafol. At ba beth y cyfeirir yn y frawddeg, "lleiddiad dyn oedd ef o'r dechreuad"? Bodlonwn ar ddywedyd hyn: o ddechreuad hanes dynol.

Ac ni safodd yn y gwirionedd, oblegid nid oes gwirionedd ynddo ef. Ceir darlleniad arall yma,—ni "saif" yn y gwirionedd. Os mab-

wysiadwn y darlleniad, ni "safodd," yr ystyr yw bod y diafol wedi hen ymadael â'r gwirionedd am nad oes gwirionedd ynddo ef.

Nid y gwirionedd yw'r cylch y try'r diafol ynddo, oblegid nid oes gwirionedd ynddo ef. Cyfetyb ei berthynas â'r gwirionedd i'w natur.

Pan yw yn dywedyd celwydd, o'r eiddo ei hun y mae yn dywedyd. Natur dwyllodrus yw natur y diafol, a phan ddywaid gelwydd mynega ei natur ei hun—y mae yn "true to (his own) nature." "O helaethrwydd y galon y llefara'r genau" (Mt. xii. 34).

Canys y mae yn gelwyddog, ac yn dad iddo. Yn dad y celwyddwr; neu, yn dad y celwydd.

Cydnabyddir bodolaeth bersonol y diafol yma. "Ni ŵyr y Testament Newydd ddim am ddylanwadau amhersonol, neu am ynni moesol yn trigo mewn deddfau amhersonol" (Law).

45. **Ac am fy mod i yn dywedyd y gwirionedd, nid ydych yn credu i mi.** Ond am danaf Fi, am fy mod I yn dywedyd y gwirionedd, ni chredwch Fi. Credant yr hwn a ddywaid gelwydd, sef y diafol, ond ni chredant yr Iesu, oherwydd ei fod yn dywedyd y gwirionedd. Peth naturiol i blant y diafol, ond peth rhyfedd iawn er hynny.

46. **Pwy ohonoch a'm hargyhoedda i o bechod?** Bernir gan rai mai mewn cysylltiad â'r adnod flaenorol y dylid cymryd y gofyniad herfeiddiol hwn—"Pwy ohonoch a'm hargyhoedda i o bechod?" h.y., y pechod o beidio â dywedyd y gwirionedd. Ond y farn gyffredin yw mai honiad o fywyd perffaith ddibechod yw. Gwêl ar adn. 29, a chym, xiv. 30; 1 Ioan iii. 5; Heb. iv. 15; 1 Pedr i. 19, ii. 22.

"Y mae mawredd dwyfoldeb yn yr her hon. Pa farwol ddyn a feiddiai ei gwneuthur?" "Yr oedd yn anatebadwy, ac ni ddywedir iddynt geisio'i hateb."

Ac od wyf fi yn dywedyd y gwir, paham nad ydych yn credu i mi? Yn gywir, "yn fy nghredu i." Ceir yr ateb i'r gofyniad hwn yn yr adnod nesaf.

47. **Y mae yr hwn sydd o Dduw, yn gwrando geiriau Duw: am hynny nid ydych chwi yn eu gwrando, am nad ydych o Dduw.** Perthyn am hynny i'r hyn sy'n dilyn, "am nad ydych o Dduw." Gwrthodant wirionedd Duw am nad ydynt o Dduw. Dyna'r gwir reswm am eu gwaith yn peidio â gwrando geiriau Duw. Cymhwysir yr un praw yn 1 Ioan iv. 6, "Nyni o Dduw yr ydym. Yr hwn sydd yn adnabod Duw, sydd yn ein gwrando ni: yr hwn nid yw o Dduw, nid yw yn ein gwrando ni. Wrth hyn yr adwaenom ysbryd y gwirionedd ac ysbryd y cyfeiliorni."

48. **Onid da yr ydym ni yn dywedyd, mai Samaritan wyt ti, a bod gennyt gythraul?** Dywedasai'r Iesu nad oeddynt nac yn blant i Abra-

ham nac o haniaeth ddwyfol. Atebant hwythau nad oedd Ef wir Iddew—"Samaritan wyt ti"—a bod ganddo gythraul.

Samaritan wyt ti. Gwrthddywedai dysgeidiaeth yr Iesu draddodiadau'r Iddewon, a'u gwaith yn cau eraill allan o gymdeithas â hwynt, ac felly yr oedd yn naturiol iddynt ei alw yn Samaritan, oblegid ni chydnabyddai'r Samariaid mai i'r Iddewon yn unig y perthynai'r addewidion a roddwyd i Abraham a'i had. "Samaritan wyt ti"—gelyn dy bobl.

A bod gennyt gythraul. Barna rhai esbonwyr fod y cyhuddiad a geir yma yn fwy chwerw na'r un a geir yn vii. 20 a x. 20, lle y golyga'r ymadrodd yn unig ei fod allan o'i bwyll, ac y ceir enghreifftiau tebycach iddo yn yr Efengylau eraill, pan ddywedir ei fod yn bwrw allan gythreuliaid drwy bennaeth y cythreuliaid. Barna eraill mai yr un peth a olygir ag yn vii. 20 a x. 20. Cyfieitha Moffatt, "you are mad."

49. Ni wna'r Iesu sylw o'r cyhuddiad mai Samaritan oedd. Amlygodd Samariaid ffydd (iv. 39—42), a diolchgarwch (Luc vii. 16). A meddai'r Iesu syniad digon uchel am y Samariaid i lefaru dameg am Samariad a amlygodd dosturi pan aeth offeiriad a Lefiad o'r tu arall heibio (Luc x. 30—37). Ac heblaw hynny, dywedodd y deuai dydd pan ddiflannai'r cydymgais rhwng Iddewon a Samariaid (iv 21).

Etyb yr Iesu yn dyner a thawel nad yw allan o'i bwyll, a dywaid mai ei amcan yn y cwbl a ddywedodd oedd gogoneddu ei Dad, a'u bod hwy yn ei ddianrhydeddu Ef. Ac ni allai y rhai a ddianrhydeddent un a anrhydeddai Dduw fod yn blant iddo. Ag ymddygiad yr Iesu yma cym. 1 Pedr ii. 23, "Yr hwn pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn; pan ddioddefodd, ni fygythiodd; eithr rhoddodd ar y neb sydd yn barnu yn gyfiawn."

50. Nid yw eu gwaith yn ei ddianrhydeddu yn fater o bwys iddo Ef, oblegid ni chais ei ogoniant ei Hun (cym. adn. 54, v. 41, vii. 18). Eithr y mae un yn ceisio (ei ogoniant) ac yn barnu rhyngddo Ef a hwynt. Y mae ei ogoniant yn ddiogel yn llaw ei Dad. Barnwyd a bwriwyd allan dywysog y byd hwn (xii. 31, xvi. 11). Nid oes gwrthddywediad rhwng yr adnod hon a v. 22, "Efe a roddes bob barn i'r Mab."

51. **Yn wir, yn wir, meddaf i chwi.** Gwêl ar i. 51.

Os ceidw neb fy ymadrodd i. Fy ngair I. Cyfetyb "os ceidw neb fy ngair i" i "os arhoswch chwi yn fy ngair i" (adn. 31). Nid cadw'r gair yn y cof yn unig a olygir, ond ufuddhau iddo'n ofalus. Ceir llawer yn ysgrifeniadau Ioan am gadw'r gair, a'r geiriau, a'r gorchmynion.

Ni wêl farwolaeth yn dragywydd. Ni wêl yn dragywydd farwolaeth. Ystyr "ni wêl farwolaeth" yw, ni bydd marw. Cym. Luc

ii. 26; Heb. xi. 5. Nid marwolaeth naturiol a olygir, ond marwolaeth ysbrydol.

Defnyddir dau negydd yn y gosodiad hwn, a chadarnha hynny ef, —"yn sicr ni wêl farwolaeth yn dragywydd." Ā'r adnod hon cym. v. 24. Sylwer ar y bendithion a addewir yn y chweched, y seithfed, a'r wythfed bennod: bara, dwfr, goleuni, rhyddid, bywyd yn dragywyddol.

52. Tybia'r Iddewon mai am farwolaeth naturiol y sieryd yr Iesu.

Yn awr y gwyddom fod gennyt gythraul. Tybient o'r blaen ei fod yn wallgof (adn. 48), ond y maent yn sicr o hynny'n awr—yn awr "daethom i wybod" bod gennyt gythraul.

Bu Abraham farw, a'r proffwydi. Ni chadwodd gair Duw ei Hun mo Abraham a'r proffwydi rhag marwolaeth naturiol. Dywaid yr Iddewon hyn i wrthbrofi gosodiad yr Iesu yn yr adnod flaenorol.

Ac meddi di, Os ceidw neb fy ymadrodd (fy ngair) i, nid archwaetha efe farwolaeth yn dragywydd. Ni "phrofa" ef farwolaeth. Cym. Mt. xvi. 28; Marc ix. 1; Luc ix. 27; Heb. ii. 9. Ystyr "profi marwolaeth" yw marw.

53. **Ai mwy wyt ti nag Abraham ein tad ni?** Cym. iv. 12, "Ai mwy wyt ti na'n tad Jacob?"

Pwy yr wyt ti yn dy wneuthur dy hun? Pa fodd y gallai'r Iesu ddywedyd na fyddai i'r sawl a gadwai ei air Ef farw, pan oedd dynion fel Abraham a'r proffwydi wedi marw yng nghwrs cyffredin natur? Ni allai bod y Galilead gwallgof hwn yn fwy nag Abraham.

54. **Os wyf fi yn fy ngogoneddu fy hun, fy ngogoniant i nid yw ddim.** Cym. adn. 50, v. 31, 41, vii. 18.

Fy Nhad yw yr hwn sydd fy ngogoneddu i. Yn ei waith yn gyffredinol, ei genhadaeth trwy y cwbl o'i fywyd yn nyddiau ei gnawd.

Yr hwn yr ydych yn dywedyd, mai eich Duw chwi yw. Yma, unolir y Tad â Duw Israel.

55. **Ond nid adnabuoch chwi ef: eithr mi a'i hadwaen ef.** Nid yr un yw'r ferf a gyfeithir "adnabuoch" â'r un a gyfeithir "adwaen." (Am y gwahaniaeth rhyngddynt gwêl ar i. 26). Nid adnabuoch chwi Ef—ni ddysgasoch wybod. Nid oeddynt wedi dysgu gwybodaeth oedd o fewn eu cyrraedd. Myfi a'i hadwaen ef—drwy wybodaeth uniongyrchol a hollol.

Ac os dywedaf nad adwaen ef, myfi a fyddaf debyg i chwi, yn gelwyddog. Y mae'r Iddewon yn gelwyddog pan honnant wybodaeth am Dduw: byddai'r Iesu yn gelwyddog pe dywedai nad adwaenai Ef.

Ond mi a'i hadwaen ef. Unwaith eto dywaid yr Iesu y medd wybodaeth berffaith o'r Tad.

Ac yr wyf fi yn cadw ei ymadrodd ef. Ei air Ef. Bywyd o ufuddod oedd bywyd yr Iesu. Gwêl Rhuf. v. 19; Phil. ii. 8; Heb. v. 8.

56. **Gorfoledd oedd gan eich tad Abraham weled fy nydd i.** Gorfoleddodd Abraham yn y gobaith o weled dydd Crist, dydd ei enedigaeth neu ei ymddangosiad yn y cnawd, y dydd y bendithid holl genhedloedd y ddaear.

Ac efe a'i gwelodd hefyd, ac a lawenychodd. Pa bryd? Rhoddwn wahanol farnau: (a) Ym Mharadwys. Yr oedd Abraham yn ymwybodol o ymddangosiad Crist yn y cnawd. Ni wyddom sut, ond rhoddwyd gwybod i saint yr Hen Destament ddyfod y Meseia. Gorfoleddodd Abraham yn y gobaith o weled dydd Crist: pan ddaeth, gwelodd Ef a llawenychodd. (b) Mewn gweledigaeth yn un neu arall o amgylchiadau mawr ei fywyd.

Eithr gwell fyddai peidio â bod yn fanwl ynglŷn â geiriau'r Iesu am brofiad rhyfedd tad y ffyddloniaid.

57. **Nid wyt ti ddengmlwydd a deugain eto.** Rhydd Chrysostom ddarlleniad arall yma: "Nid wyt ti ddeugain mlwydd eto," ond nid oes amheuaeth nad yw'r darlleniad hwn yn anghywir. Ymgais yw i gysoni'r dywediad hwn â darnau fel Luc iii. 23. Eithr dywaid Ireneus fod yr Iesu yn agos i ddengmlwydd a deugain oed ar derfyn ei weinidogaeth ar y ddaear,—"megis y tystiolaetha'r Efengyl, a'r holl henuriaid yn Asia a ymgyngorasant ag Ioan, disgybl yr Arglwydd." Y mae'n debyg mai'r Efengyl hon a olygir wrth "yr Efengyl." Ond dengmlwydd a deugain oedd amser dyndod cyflawn (Num. iv. 3, 39, viii. 25), ac yr oedd y dywediad, "nid wyt ti ddengmlwydd a deugain oed," yn gyfystyr â dywedyd nad oedd yr Iesu eto ond dyn cymharol ieuanc. Gofyn Strachan, "A edrychai'r Iesu yn hŷn nag oedd?" Nid oedd eto ond 33 mlwydd oed. Daw dwy linell i'n cof o ddarn o farddoniaeth odiaeth o dyner ar y geiriau, "Nid wyt ti ddengmlwydd a deugain eto":—

> "Ei wallt oedd wyn fel eira mân,
> A dyna'r gwallt fu ar y groes."

Ac a welaist ti Abraham? A fu farw ugain canrif yn ôl. Dichon mai'r darlleniad cywir yw, "A welodd Abraham di?" Ond ni wna hyn wahaniaeth.

58. **Cyn bod Abraham.** Cyn dyfod Abraham i fod: cyn geni Abraham.

Yr wyf fi. Yr wyf. Dynoda hyn fodolaeth ddiamser, bodolaeth heb ddechrau na diwedd. Yn y geiriau hyn, cymhwysa'r Iesu ato'i Hunan enw Jehofah, ac y maent yn osodiad pendant o'i Dduwdod.

59. Y mae'r rhan olaf o'r adnod hon, "gan fyned trwy eu canol hwynt, ac felly yr aeth **efe** heibio," i'w gadael allan, oherwydd ei bod yn eisiau yn y mwyafrif o'r Llawysgrifau gorau.

Yna hwy a godasant gerrig i'w taflu ato. Cym. x. 31—33. Yr oedd ei eiriau yn gableddus: ni allent ei oddef yn hwy, a chodasant gerrig i'w taflu ato. Yr oedd cerrig wrth law, at y gwaith o orffen adeiladu'r deml.

A'r Iesu a ymguddiodd, ac a aeth allan o'r deml. Nid "a aeth allan o'r deml, ac a ymguddiodd," ond "a ymguddiodd, ac a aeth allan o'r deml." A olygir ymguddiad goruwchnaturiol yma, fel yn Luc iv. 30? Cred rhai na olygir mwy nag iddo fyned allan o'r deml ymhlith y dyrfa oedd o'i amgylch. Tueddir ni i gredu y gwneir. Codasant gerrig i'w taflu ato, ond nid oedd eu cais i'w lofruddio ond "fel tonnau yn ymgodi i ddiffoddi'r ser."

PENNOD IX.

1 Ac wrth fyned heibio, efe a ganfu ddyn dall o'i ened-
2 igaeth. A'i ddisgyblion a ofynasant iddo, gan ddy-
wedyd, Rabbi, pwy a bechodd, ai hwn, ai ei rïeni, fel
3 y genid ef yn ddall? Yr Iesu a attebodd, Nid hwn a
bechodd, na'i rïeni chwaith: eithr fel yr amlygid
4 gweithredoedd Duw ynddo ef. Rhaid i mi weithio
gwaith yr hwn a'm hanfonodd, tra yr ydyw hi yn
ddydd: y mae y nos yn dyfod, pan na ddichon neb
5 weithio. Tra yr ydwyf yn y byd, goleuni y byd ydwyf.
6 Wedi iddo ef ddywedyd hyn, efe a boerodd ar lawr, ac
a wnaeth glai o'r poeryn, ac a irodd y clai ar lygaid y
7 dall; Ac a ddywedodd wrtho, Dos, ac ymolch yn llyn
Siloam, (yr hwn a gyfieithir, Anfonedig). Am
hynny efe a aeth ymaith, ac a ymolchodd, ac a ddaeth
yn gweled.

Iachad dyn dall o'i Enedigaeth (adn. 1—7).

1. **Ac wrth fyned heibio.** Ar y ffordd o'r deml o bosibl (viii. 59). Eithr ceir y farn mai ar achlysur diweddarach yn nes i'r Gysegr-ŵyl y digwyddodd hyn. "Gwyddom mai cardotyn oedd y dyn hwn (adn. 8), ac y mynychai cardotwyr byrth y Deml (Act. iii. 2); ond ni ddywedir lle yr oedd hwn yn cardota."

Efe a ganfu ddyn dall o'i enedigaeth. Am enghreifftiau eraill o iachâd deillion gwêl Marc viii. 23, x. 46 (cym. Mt. xx. 9, Luc xviii. 35); Mt. ix. 27, xii. 22 (cym. Luc xi. 14), xv. 30, xxi. 4. Ond dyma'r unig enghraifft o iachâd un a anesid yn ddall. Yn hyn y gorwedd nodwedd arbennig y wyrth, canys "ni chlybuwyd agoryd o neb erioed lygaid un a anesid yn ddall" (adn. 32). Er bod yr Iesu yn yr achos hwn, medd Matthew Henry, yn ffoi rhag perygl bygythiol, eto y mae'n ewyllysgar yn aros i drugarhau wrth y truan hwn. Gwnawn ni, medd yr esboniwr penigamp hwn ymhellach, fwy o frys na 'good speed' pan redwn o flaen cyfleusterau i wneuthur daioni. (Gwêl rhai beirniaid yma enghraifft o'r arfer a briodolir ganddynt i'r Efengylwr o fwyhau'r elfen wyrthiol yng ngweinidogaeth yr Iesu).

2. Gwêl y disgyblion y dioddefydd, ac â dioddef cysylltant y syniad o bechod, a gofynnant gwestiwn sydd cyn hyned â dynoliaeth

Pwy a bechodd? Y mae'r cwestiwn yn seiliedig ar yr athrawiaeth y cyfyd pob anffawd o ryw bechod neilltuol.

Ai hwn? Dyma un posibilrwydd, yn ôl eu syniad hwynt sef mai'r dyn ei hun a bechodd. Ond pa fodd y gallai un gael ei eni'n ddall am ei bechod ei hun? Awgrymwyd yr atebion a ganlyn i'r cwestiwn: (a) Cosbwyd ef am bechodau y gwyddai Duw y byddai iddo eu cyflawni yn ei fywyd. Y mae'r syniad hwn yn hollol anysgrythurol, afresymol, a gwrthun. (b) Yr esboniad Iddewig o Gen. xxv. 22, Salm li. 5, &c.; ei bod yn bosibl i faban yng nghroth ei fam feddu teimladau (cym. Luc i. 41—44), ac y gallai'r rhain fod, a'u bod hefyd yn fynych, yn deimladau pechadurus. (c) Cosbwyd ef am bechodau a gyflawnwyd mewn ystâd flaenorol o fodolaeth. Prin y gellir credu bod yr athrawiaeth hon yn un y gwyddai'r disgyblion amdani. Diddordeb hynafiaethol yn unig a berthyn i'r syniadau uchod.

Ai ei rieni? Dyma'r posibilrwydd arall, sef bod dallineb y dyn yn gosb am bechod ei rieni, athrawiaeth a fynegir yn fynych yn yr Hen Destament (Ex. xx. 5, xxxiv. 7; Num. xiv. 18; Salm lxxix. 8, cix. 14; Esaia lxv. 6, 7). (Ond sylwer ar yr hyn a ddywedir yn Jer. xxxi. 29; Esek. xviii. 20). Y mae'n ffaith y dioddef plant oherwydd pechodau eu rhieni, drwy weithrediad deddfau naturiol. (Ond nid y syniad gwyddonol hwn yw athrawiaeth yr Hen Destament). Rhaid i blant dalu am bechodau eu tadau; etifeddiaeth a 'mortgage' arni yw etifeddiaeth llawer ohonynt.

3. **Nid hwn a bechodd, na'i rieni chwaith.** Ni chymeradwya'r Iesu'r naill na'r llall o'r esboniadau a awgrymwyd gan y disgyblion. Dioddef dynion am eu pechodau eu hunain (Ioan v. 14; Mt. ix. 2), a dioddefant am bechodau rhai eraill, ond nid pechod neb sydd gyfrifol yn yr achos hwn. Dysg Llyfr Job ni nad effaith pechod yw dioddef bob amser. Cym. Luc xiii. 2, 4. Yn wir, pa beth bynnag y gellir ei ddywedyd am gysylltiad pechod â dioddef o safbwynt cyffredinol, mewn achosion unigol canlyniad daioni yn fynych yw dioddef. Y mae gan Dduw well gwobr i'r da na ffodus ffawd, a disgyblaeth fwy grymus i'r drwg nag anffodion tymhorol.

"Nid ydym i weled yn anffodion a gofidiau dynion effeithiau pechodau unigolion, neu'r praw o anfodlonrwydd dwyfol. Y mae yna gadwyn a gysyllta bechod dynoliaeth â'i gwaeau, ond ni fedr y llygad dynol olrhain y dolennau. Yn nhrefn Rhagluniaeth Duw y mae dioddef dros eraill yn fynych yn rhan odidog rhagorolion y ddaear. Ni ddygwyd baich o ofid cyn drymed gan neb erioed â'r un a ddug yr hwn nid adnabu bechod." "Efe a archollwyd am ein camweddau ni, efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni: cosbedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef: a thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni" (Esaia liii. 5).

Eithr fel yr amlygid gweithredoedd Duw ynddo ef. Olrheinir y dallineb gan yr Iesu i'r cylch lle y mae pwrpas ac effaith yn un. Cym. xi. 40, "Nid yw y clefyd hwn i farwolaeth, ond er gogoniant Duw, fel y gogonedder Mab Duw drwy hynny." Cynnwys "gweithredoedd Duw" nid yn unig y wyrth ond ei heffeithiau.

4. **Rhaid i mi weithio gwaith . . . . weithio.** Dichon mai'r darlleniad cywir yw, "rhaid i ni weithio." Nid galwad i ddamcaniaethu, yn bennaf, yw problem dioddef, ond (a) galwad i weithredu. Nid esboniadau yn unig sydd eisiau ond gweithredoedd; nid athroniaeth yn unig ond dyngarwch—"not philosophy only but philanthropy" (Peyton). Y mae'r fath weithrediad yn genhadaeth ddwyfol ("a'm hanfonodd"), ac yn waith Duw ("gwaith yr hwn a'm hanfonodd"). Dynoda dydd a nos fywyd a marwolaeth, megis y gwnant yn fynych mewn llenyddiaeth. Os digwyddodd y cwbl a adroddir yn y darn o vii. 37 i x. 21 ar yr un dydd mawr o'r ŵyl, rhaid y cyflawnwyd y gwaith hwn yn agos i ddiwedd y dydd. Yr oedd y dydd yn darfod, a'r nos yn nesáu. Atgofiwyd yr Iesu o ddydd bywyd, a nos marwolaeth. Rhaid dal ar y cyfleustra, canys byr yw bywyd; a phan ddaw'r nos ni ddichon neb weithio. Nid oedd yr Iesu ei Hunan y tu allan i gylch gweithrediad y ddeddf hon. Gorffennwyd ei waith ar y ddaear pan ddaeth y nos; a gwyddai, pan lefarodd y geiriau hyn, ei fod yn agos.

5. **Tra yr ydwyf yn y byd, goleuni'r byd ydwyf.** Cym. viii. 12, xi. 9. "Awgrymwyd y dywediad 'goleuni'r byd ydwyf' gan natur y wyrth yr oedd ar fedr ei chyflawni, yr hon a ddangosodd nid yn unig y gallai roddi goleuni (ysbrydol) yn wrthrychol drwy ei ddysgeidiaeth, ond y gallai hefyd roddi'r gallu i weled y goleuni i lygaid oedd yn gaeedig." Sylwa Bernard yr ail-ymddengys honiad mawreddog viii. 12 yma, "Myfi yw goleuni'r byd," ond nid mewn ffurf mor gyffredinol, canys ymddengys y frawddeg "tra yr ydwyf yn y byd" fel yn cyfyngu ei gymhwysiad i amser gweinidogaeth yr Iesu ar y ddaear. Y mae Crist bob amser, bu bob amser, a bydd bob amser yn oleuni'r byd, ond ni roddir mynegiad llawn i hynny yma. Y syniad yw yr ordeiniwyd yn y pwrpas Dwyfol ei fod Ef i weithio gwaith Duw yn ystod ei weinidogaeth ddaearol. Ef yw'r gwir oleuni, ac ni all y gwir oleuni fod yn y byd heb lewyrchu yn ei dywyllwch. A llewyrchodd yn iachad corfforol ac ysbrydol y dall o'i enedigaeth.

6. **Efe a boerodd ar y llawr, ac a wnaeth glai o'r poeryn, ac a irodd y clai ar lygaid y dall.** Priodolid rhinwedd meddyginiaethol i'r moddion hyn. Cymharer y defnydd o foddion yn Marc viii. 22—26, vii. 23—27; Mt. ix. 27—31, x. 29—34. Y mae'n debyg y bwriadwyd y defnyddio moddion i fod yn gymorth i ffydd y dall. Y mae'n haws credu, pan ellir canfod moddion; y mae'n haws fyth, pan ymddengys y moddion yn gymwys. Efallai bod yr holl weithred yn arwyddluniol. "Drwy ychwanegu at y dallineb gwirioneddol, na fedrai neb ond Ef ei iacháu, y dallineb 'artificial' ac arwyddluniol yr

oedd dyfroedd Siloam yn alluog i'w symud ymaith, datganodd: gwnaf i yn wirioneddol yr hyn a wna dyfroedd Siloam yn gysgodol" (Godet).

7. **Llyn Siloam.** Bernir mai'r un yw Llyn Siloam â Birket Silwan, i'r de-ddwyrain i fynydd Seion. Y mae'n debyg mai Siloa Neh. iii. 15 a Shiloa Esaia viii. 6 ydyw. Y mae'n bosibl mai adeilad cysylltiedig â'r dwfr oedd "y tŵr yn Siloam" y cyfeirir ato yn Luc xiii. 4. Rhydd Ioan ystyr Siloam,—"anfonedig." Tybia Bernard nad oes ganddo unrhyw amcan mewn golwg yn hyn ond rhoddi gwybodaeth i'w ddarllenwyr; eithr y farn gyffredin yw y gwêl yn yr enw gysgod o'r Meseia, yr anfonedig. Daeth i'r pwrpas hwn.

Efe a aeth ymaith, ac a ymolchodd, ac a ddaeth yn gweled. Nid "daeth i weled yn raddol," ond "daeth adref yn gweled" (gwêl adn. 8). Ufuddhaodd i orchymyn yr Iesu, a phan olchodd y clai oddi ar ei lygaid gwelodd fyd na feddai syniad amdano yn flaenorol. Rhydd yr Iesu, medd Matthew Henry, nid yn unig oleuni ond golwg—"not only light but sight." "Ef," medd ymhellach, "yw haul Cyfiawnder, sydd nid yn unig â goleuni yn ei esgyll i'r rhai sydd yn gweled, ond sydd â meddyginiaeth yn ei esgyll i'r rhai sydd yn ddall, ac yn methu â gweled; ac felly y mae yn tra rhagori ar y goleuad mawr a lywodraetha y dydd." Sylwer na wnaed cais am iachâd yn yr achos hwn. "Cafwyd fi gan y rhai nid oeddynt yn fy ngheisio; a gwnaed fi yn eglur i'r rhai nid oeddynt yn ymofyn amdanaf."

8 Y cymmydogion gan hynny, a'r rhai a'i gwelsent ef o'r blaen, mai dall oedd efe, a ddywedasant, Onid hwn yw yr un oedd yn eistedd ac yn car-
9 dotta? Rhai a ddywedasant, Hwn yw efe: ac eraill, Y mae efe yn debyg iddo. Yntau a ddywedodd, Myfi
10 yw *efe*. Am hynny y dywedasant wrtho, Pa fodd yr
11 agorwyd dy lygaid di? Yntau a attebodd ac a ddywedodd, Dyn a elwir Iesu, a wnaeth glai, ac a irodd fy llygaid i; ac a ddywedodd wrthyf, Dos i lyn Siloam, ac ymolch. Ac wedi i mi fyned ac ymolchi, mi a
12 gefais fy ngolwg. Yna y dywedasant wrtho, Pa le y mae efe?

EI IACHAD YN ACHOS SYNDOD I'W GYMDOGION, A'R RHAI A'I GWELSENT EF O'R BLAEN (adn. 8—12).

8. **Y cymdogion.** Rhagdybia hyn yr aeth y dyn adref.

Mai dall oedd efe. Y darlleniad cywir yw, "mai cardotyn oedd." Gwyddid amdano, canys, oherwydd mai cardotyn oedd, mynychai

leoedd cyhoeddus. Yr oedd ei gyflwr blaenorol yn un truenus iawn —cardotyn dall.

9. Mynegir gwahanol farnau amdano. Dywaid rhai, "Hwn yw efe;" eraill, "Y mae efe yn debyg iddo": gymaint oedd y cyfnewidiad yn ei ymddangosiad fel y credent nad oedd ond achos o debygrwydd mawr. Penderfynwyd y cwestiwn gan ei osodiad ef ei hun,—"Myfi yw efe." (Y mae dyn wedi ei achub mor wahanol i'r hyn oedd cyn hynny fel ag i beri ei bod yn anodd credu mai yr un yw).

10, 11. "Y maent yn naturiol yn awyddus i wybod y modd y cyflawnwyd yr iachâd rhyfeddol hwn. Edrydd yntau yr hanes orau y medr, a chyfeiria at ei gymwynaswr fel "dyn a elwir Iesu"—un o arwyddion gwreiddioldeb yr hanes.. Ni chydnebydd eto mo'r Iesu fel y Crist.

12. **Pa le y mae efe**? Cym. vii. 11.

Ni wn i. Rhagdybia hyn na ddychwelodd at yr Iesu (adn. 7).

13 Yntau a ddywedodd, Ni wn i. Hwythau a'i dyg-
asant ef at y Phariseaid, yr hwn gynt a *fuasai*
14 yn ddall. A'r Sabbath oedd hi pan wnaeth yr Iesu
15 y clai, a phan agorodd efe ei lygaid ef. Am hynny y Phariseaid hefyd a ofynasant iddo drachefn, pa fodd y cawsai efe ei olwg. Yntau a ddywedodd wrthynt, Clai a osododd efe ar fy llygaid i, a mi a
16 ymolchais, ac yr ydwyf yn gweled. Yna rhai o'r Phariseaid a ddywedasant, Nid yw y dyn hwn o Dduw, gan nad yw efe yn cadw y Sabbath. Eraill a ddywedasant, Pa fodd y gall dyn pechadurus wneuthur y cyfryw arwyddion? Ac yr oedd ymrafael
17 yn eu plith. Hwy a ddywedasant drachefn wrth y dall, Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd am dano ef, am agoryd o hono dy lygaid di? Yntau a ddywedodd,
18 *Mai* prophwyd yw *efe*. Am hynny ni chredai yr Iuddewon am dano ef, mai dall fuasai, a chael o hono ef ei olwg, nes galw o honynt ei rïeni ef, yr hwn a

19 gawsai ei olwg. A hwy a ofynasant iddynt, gan
ddywedyd, Ai hwn yw eich mab chwi, yr hwn yr yd-
ych chwi yn dywedyd ei eni yn ddall? pa fodd gan
20 hynny y mae efe yn gweled yn awr? Ei rïeni ef a
attebasant iddynt hwy, ac a ddywedasant, Nyni a
wyddom mai hwn yw ein mab ni, ac mai yn ddall y
21 ganwyd ef: Ond pa fodd y mae efe yn gweled yr
awrhon, nis gwyddom ni; neu pwy a agorodd ei lyg-
aid ef, nis gwyddom ni: y mae efe mewn oedran;
gofynwch iddo ef: efe a ddywed am dano ei hun.
22 Hyn a ddywedodd ei rïeni ef, am eu bod yn ofni yr
Iuddewon: oblegid yr Iuddewon a gyd-ordeiniasent
eisoes, os cyfaddefai neb ef yn Grist, y bwrid ef allan
23 o'r synagog. Am hynny y dywedodd ei rïeni ef, Y
24 mae efe mewn oedran; gofynwch iddo ef. Am hynny
hwy a alwasant eilwaith y dyn a fuasai yn ddall, ac a
ddyweadsant wrtho, Dyro y gogoniant i Dduw:
25 nyni a wyddom mai pechadur yw y dyn hwn. *Yna*
yntau a attebodd ac a ddywedodd, Ai pechadur yw,
nis gwn i: un peth a wn i, lle yr oeddwn i yn ddall,
26 yr wyf fi yn awr yn gweled. Hwythau a ddywedas-
ant wrtho drachefn, Beth a wnaeth efe i ti? pa fodd
27 yr agorodd efe dy lygaid di? Yntau a attebodd idd-
ynt, Mi a ddywedais i chwi eisoes, ac ni wrandaws-
och: paham yr ydych yn ewyllysio clywed drachefn?
a ydych chwithau yn ewyllysio bod yn ddisgyblion
28 iddo ef? Hwythau a'i difenwasant ef, ac a ddywed-
asant, Tydi sydd ddisgybl iddo ef; eithr disgyblion
29 Moses ydym ni. Nyni a wyddom lefaru o Dduw wrth
Moses: *eithr* hwn, nis gwyddom ni o ba le y mae efe.
30 Y dyn a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Yn hyn
yn ddïau y mae yn rhyfedd, na wyddoch chwi o ba le
31 y mae efe, ac efe a agorodd fy llygaid i. Ac ni a
wyddom nad yw Duw yn gwrandaw pechaduriaid:
ond os yw neb yn addolwr Duw, ac yn gwneuthur

32 ei ewyllys ef, hwnnw y mae yn ei wrandaw. Ni chly-
buwyd erioed agoryd o neb lygaid un a anesid yn
33 ddall. Oni bai fod hwn o Dduw, ni allai efe wneu-
34 thur dim. Hwy'a attebasant ac a ddywedasant wrtho, Mewn pechodau y ganwyd ti oll; ac a wyt ti yn ein dysgu ni?

Y PHARISEAID YN GWNEUTHUR YMCHWILIAD I IACHAD Y DYN DALL AR Y SABBATH (adn. 13—34).

13. **Hwythau a'i dygasant ef at y Phariseaid.** Oherwydd mai ar y Sabbath yr iachawyd ef, dygasant ef at y Phariseaid, y mwyaf uniongred o'r arweinwyr crefyddol. Nid ar y dydd yr iachawyd ef y dygasant ef, ond ar ddydd diweddarach.

14. Yr oedd y cwbl, yr iachâd a'r moddion y gwnaed defnydd ohono, yn groes i reolau y Rabbiniaid.

15. Ymchwiliad swyddogol yw hwn, a rhaid rhoddi'r banes eto. Dengys byrdra'r atebion fod y dyn yn dechrau colli ei amynedd. Y mae wedi blino ar ateb cwestiynau.

16. Yr oedd ymraniad ymhlith y Phariseaid a glywsent stori'r dyn a iachawyd. Addefir y wyrth, ond (a) dywaid rhai, "Nid yw y dyn hwn o Dduw, gan nad yw efe yn cadw y Sabbath." Ni all y gallu a amlygwyd yn y wyrth fod o Dduw, oherwydd mai ar y Sabbath y cyflawnwyd hi. (b) Eraill, yn llai o dan ddylanwad rhagfarn gyfreithiol, ac yn gweled natur gymwynasgar y weithred, a ddywaid, "Pa fodd y gall dyn pechadurus wneuthur y cyfryw arwyddion?" Gallwn dybied bod Nicodemus (cym. iii. 2) a Joseph o Arimathea ymhlith y dosbarth hwn.

17. Yn eu hanhawster cyflwynant y mater i'r dyn ei hun.

Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd am dano ef? Y mae "ti" yn bwysleisiol.

Proffwyd yw efe. Nid y proffwyd (vi. 14), ond proffwyd (iv. 19), h.y., person anghyffredin a fedrai wneuthur pethau anghyffredin.

18. Hyd yma nid yw'r Phariseaid wedi herio'r gosodiad ddarfod agor llygaid y dall. Eithr y mae ei farn mai proffwyd yw'r Iesu yn un ni fedr yr Iddewon—y blaid fwyaf gwrthwynebus i'r Iesu (cym. adn. 22)—ei choledd. Am hynny, ceisiant wadu dilysrwydd y wyrth, a'i phriodoli i gyd-ddealltwriaeth twyllodrus rhwng yr Iesu a'r dyn sydd wedi addef ei gred ynddo. Felly, gwysiant ei rieni i roddi tystiolaeth.

19. Try'r ymchwiliad o gylch tri phwynt: (a) "ai hwn yw eich mab chwi?"; (b) "yr hwn yr ydych chwi yn dywedyd ei eni ef yn ddall;" (c) "pa fodd gan hynny y mae efe yn gweled yn awr?"

20. Y mae'r atebion i (a) a (b) yn y cadarnhaol.

21. Dywaid ei rieni na feddant wybodaeth bersonol am y trydydd pwynt. "Pa fodd y mae efe yn gweled yr awron, nis gwyddom ni; a phwy a agorodd ei lygaid ef, nis gwyddom ni." Ni allant roddi tystiolaeth nac am foddion yr iachâd nac am y person a'i cyflawnodd.

Y trydydd pwynt hwn yw'r pwynt peryglus. Dychrynwyd y rhieni, a dywedant, **"Y mae efe mewn oedran** (ac felly yn dyst yn ôl y gyfraith); **gofynnwch iddo ef: efe a ddywaid amdano'i hun."**

22. **Am eu bod yn ofni'r Iddewon.** Cym. i. 19, v. 10, vii. 13.

Oblegid yr Iddewon a gyd-ordeiniasent eisoes, os cyfaddefai neb ef yn Grist, y bwrid ef allan o'r synagog. Ni ragdybia hyn orchymyn ffurfiol, ond cytundeb ar ran yr arweinwyr, a wnaed yn hysbys i'r bobl, ac a ellid ei roddi mewn grym heb lawer o anhawster.

Y bwrid ef allan o'r synagog. Cym. xii. 42, xvi. 2.

24. Gan iddynt fethu â gwneuthur dim o'r rhieni, **hwy a alwasant eilwaith y dyn a fuasai ddall, ac a ddywedasant wrtho, Dyro y gogoniant i Dduw,** h.y., "dwed y gwir" (cym. Josh. vii. 19).

Nyni a wyddom mai pechadur yw y dyn hwn. "Nyni," y bobl mewn awdurdod, a fedd hawl i benderfynu, "a wyddom mai pechadur yw y dyn hwn." Awgrymant fod y dyn yn dywedyd celwydd pan ddywedai mai "proffwyd yw efe."

25. Ni fyn y dyn ymresymu â'r Phariseaid, ond ceidw at y ffeithiau na ellir eu hamau: **Lle yr oeddwn i gynt yn ddall, yr wyf fi yn awr yn gweled.** Y maent hwy yn fwy o awdurdodau ar "pechaduriaid" nag yw ef, ond ef yw'r awdurdod ar ei brofiad ei hun.

26. Croesholir ef eto, gyda'r gobaith o'i brofi'n euog o anghywirdeb neu anghysondeb, neu o gael rhywbeth y gellid ei wneuthur yn gyhuddiad yn erbyn yr Iesu.

27. Try'r dyn yn awr ar ei groesholwyr. Ni fyn adrodd yr hanes eto.

A ydych chwithau hefyd yn ewyllysio bod yn ddisgyblion iddo ef? Chwithau **hefyd,** yn ogystal â'i ddisgyblion adnabyddus. Ai am y tueddir chwi i ddyfod yn ddisgyblion iddo y gwnewch yr ymchwiliad i'm hanes?

28. **Hwythau a'i difenwasant ef.** Y mae eu hymresymiad wedi methu, ac felly nid oes dim i'w wneuthur â'r dyn ond ei ddifenwi.

Tydi sydd ddisgybl iddo ef. Cyflea "ef" awgrym o wawd—"that fellow."

Disgyblion Moses ydym ni. "Ni," yn wrthgyferbyniol i "tydi"; "Moses," yn wrthgyferbyniol i "ef."

29. **Nyni a wyddom lefaru o Dduw wrth Moses.** Dyna'r rheswm paham yr ymffrostiant eu bod yn ddisgyblion i Moses (adn. 28). "Iddynt hwy, yr oedd awdurdod y deddfroddwr mawr yn derfynol. Ceir cuddgyfeiriad yn eu geiriau at y ffaith yr edrychent ar weithredoedd yr Iesu fel trosedd o ddeddf Moses. Ni all Moses a'r Iesu fod yn iawn. Rhagdybir y gwadai'r dyn yn ymarferol, drwy gyffesu bod yr Iesu yn broffwyd, awdurdod Moses" (Watkins).

Hwn, nis gwyddom ni o ba le y mae. Yn vii. 27, y rheswm a roddir gan rai o bobl Jerusalem dros wrthod honiad yr Iesu mai Ef yw'r Meseia yw y gwyddant "o ba le y mae," "er bod yna ystyr ddyfnach yn yr hon ni wyddai neb ohonynt hynny (viii. 14)" (Bernard).

30. Y mae llid y dyn yn awr wedi ei ddeffroi, a rhydd dywediad y Phariseaid, "hwn, nis gwyddom ni o ba le y mae," gyfle iddo i ymosod arnynt. "Yn hyn yn ddiau y mae yn rhyfedd, na wyddoch chwi," y rhai a ddylech wybod y pethau hyn, "o ba le y mae efe," ac (eto) "efe a agorodd fy llygaid i." Chwi, y bobl wybodus, a ddywedasoch "nyni a wyddom mai pechadur yw y dyn hwn" (adn. 24), a "nyni a wyddom lefaru o Dduw wrth Moses"—ni wyddoch chwi o ba le y mae Ef, ac Ef a agorodd fy llygaid i!

31. Y mae ymresymiad yr adnod hon yn eglur. (a) Nid yw Duw yn gwrando pechaduriaid. (b) Gwrendy Duw yr hwn a'i haddola ac a wna ei ewyllys—y da. (c) Y mae'r wyrth yn braw fod Duw wedi gwrando'r Iesu. (d) Felly, y mae'r Iesu yn ddyn da.

Ni a wyddom nad yw Duw yn gwrando pecaaduriaid. Cym. Job xxvii. 9; Salm lxvi. 18; Esaia i. 15; Ezek. viii. 18, &c. Am y gwirionedd cyferbyniol, y gwrendy Duw weddi'r cyfiawn, cym. Salm xxxiv. 5, clv. 19; Diar. xv. 29; Iago v. 16.

32. Yn hyn y gorwedd nodwedd arbennig y wyrth. Gwnaed peth na chlybuwyd erioed am ei debyg, sef agoryd llygaid un a anesid yn ddall.

33. Cym. iii. 2, x. 21.

34. Addef y Phariseaid yn awr yr hyn a amheuent yn flaenorol, sef y ganed y dyn yn ddall, a dywedant mai y rheswm am hynny oedd ei bechodau cyn ei eni (cym. adn. 2).

A hwy a'i bwriasant ef allan. Y mae'n debyg na olyga hyn yr esgymunwyd ef (adn. 22), ond yn unig y bwriasant ef allan o'u presenoldeb.

35 A hwy a'i bwriasant ef allan. Clybu yr Iesu
ddarfod iddynt ei fwrw ef allan: a phan ei caf-
odd, efe a ddywedodd wrtho, A wyt ti yn credu ym
36 Mab Duw? Yntau a attebodd ac a ddywedodd, Pwy
37 yw *efe, O* Arglwydd, fel y credwyf ynddo? A'r Iesu
a ddywedodd wrtho, Ti a'i gwelaist ef; a'r hwn sydd
38 yn ymddiddan â thi, hwnnw yw efe. Yntau a ddywed-
odd, Yr wyf fi yn credu, *O* Arglwydd. Ac efe a'i
haddolodd ef.

Y DYN A IACHAWYD YN CYFFESU MAI'R IESU YW MAB DUW (adn. 35—38).

35. **A phan ei cafodd**: fel y bugail y ddafad golledig. Y mae'n debyg y rhagdybia'r gair am "cafodd" geisio blaenorol. Cym. i. 44, v. 14.

A wyt ti yn credu ym Mab Duw? Yn credu **ar** Fab Duw. (Dichon mai'r darlleniad cywir yw "Mab y dyn").

36. **Pwy yw efe, O Arglwydd, fel y credwyf ynddo**? Fel y credwyf arno. Nid o gywreinrwydd y gofyn y cwestiwn, ond gyda'r amcan o glywed enw gwrthrych ffydd.

37. **Ti a'i gwelaist ef.** Dyma un o'r bendithion cyntaf a ddygodd agoriad llygaid iddo—"ti a'i gwelaist ef."

A'r hwn sydd yn ymddiddan â thi, hwnnw ydyw efe. Cymharer y datganiad a wnaeth yr Iesu i'r wraig o Samaria (iv. 26).

38. **Yr wyf fi yn credu, O Arglwydd.** Ni wyddai ystyr lawn cred ym Mab Duw: yn araf y dysgodd hyd yn oed yr Apostolion hynny. Yr oedd ei ffydd o angenrheidrwydd yn amherffaith; eithr yr oedd y cwbl a feddai, a rhoddodd ef yn ewyllysgar.

Ac efe a'i haddolodd ef. Yn Ioan arferir y gair am "addolodd" am addoliad Dwyfol yn unig.

Dyma ddiwedd yr hanes a geir yma am "the open-eyed champion of Jesus" (A. T. Robertson).

Sylwer ar ddatblygiad graddol ffydd yn ei enaid: "dyn a elwir Iesu" (adn. 11); "proffwyd" (adn. 17); "o Dduw" (adn. 33); "Mab Duw" (adn. 38), a sylwer y bu erledigaeth yn foddion i'w datblygu.

"Bwriasant ef allan." Ond (pen. x.) y mae yna Gorlan Newydd, Bugail Newydd, Drws Newydd, defaid eraill; a dug Bugail mawr y defaid y ddafad golledig i'r gorlan.

39 A'r Iesu a ddywedodd, I farn y deuthum i'r byd hwn; fel y gwelai y rhai nid ydynt yn gweled, ac yr elai y rhai sydd yn gweled yn ddeillion.

Ystyr arwyddluniol y wyrth (adn. 39).

39. **I farn.** Dynoda'r gair a ddefnyddir yma, nid y weithred o farnu (v. 22, 24, 27, 30) ond yr effaith—y ddedfryd. Nid i farnu y daeth Crist, ond i achub (iii. 17—20); eithr y mae barn yn ganlyniad anocheladwy ei ymddangosiad yn "y byd hwn," "cartref dyn syrthiedig, sydd oherwydd hynny yn amherffaith."

Fel y gwelai y rhai nid ydynt yn gweled. Y rhai sy'n ymwybodol o'u dallineb ysbrydol: "y rhai cleifion," y pechaduriaid (Mt. ix. 12, 13), "y rhai bychain" (Mt. xi. 25): rhai fel y dyn dall, oedd yn ymwybodol o'i ddallineb ysbrydol ac a ofynnodd, "Pwy yw **efe, O** Arglwydd, fel y credwyf ynddo?"

40 A *rhai* o'r Phariseaid a oedd gyd âg ef, a glywsant y
y pethau hyn, ac a ddywedasant wrtho, Ydym ninnau
41 hefyd yn ddeillion? Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Pe deillion fyddech, ni byddai arnoch bechod: eithr yn awr meddwch chwi, Yr ydym ni yn gweled; am hynny y mae eich pechod yn aros.

Yr Iesu'n condemnio'r Phariseaid (adn. 40, 41).

40. **Ydym ninnau hefyd yn ddeillion?** Ni, a gydnabyddir fel dysgodron crefyddol y genedl. Arwydda ffurf y cwestiwn mai ateb nacaol a ddisgwylid.

41. **Pe deillion fyddech, ni byddai arnoch bechod.** Pe byddech ymwybodol o'ch dallineb, ni byddai arnoch bechod; h.y., ni byddent yn euog o gau eu llygaid i oleuni gwirionedd Dwyfol.

Yr ydym ni yn gweled. Cadwai eu hunan-foddhad hwynt rhag gweled yr hyn y dylasent ei weled. Felly, "y mae eich pechod yn aros."

"Light received increaseth light;
Light rejected bringeth night."

PENNOD X.

1 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Yr hwn nid yw yn
myned i mewn trwy y drws i gorlan y defaid, eithr
sydd yn dringo ffordd arall, lleidr ac yspeiliwr yw.
2 Ond yr hwn sydd yn myned i mewn trwy y drws,
3 bugail y defaid ydyw. I hwn y mae y drysawr yn
agoryd, ac y mae y defaid yn gwrandaw ar ei lais ef:
ac y mae efe yn galw ei ddefaid ei hun erbyn eu henw,
4 ac yn eu harwain hwy allan. Ac wedi iddo yrru allan
ei ddefaid ei hun, y mae efe yn myned o'u blaen hwy:
a'r defaid sydd yn ei ganlyn ef, oblegid y maent yn
5 adnabod ei lais ef. Ond y dïeithr nis canlynant,
eithr fföant oddi wrtho: oblegid nad adwaenant lais
6 dïeithriaid. Y ddammeg hon a ddywedodd yr Iesu
wrthynt: ond hwy ni wybuant pa bethau ydoedd y
7 rhai yr oedd efe yn eu llefaru wrthynt. Am hynny
yr Iesu a ddywedodd wrthynt drachefn, Yn wir, yn
8 wir, meddaf i chwi, Myfi yw drws y defaid. Cyn-
nifer oll ag a ddaethant o'm blaen i, lladron ac ys-
peilwyr ŷnt; eithr ni wrandawodd y defaid arnynt.
9 Myfi yw y drws: os â neb i mewn trwof fi, efe a
fydd cadwedig; ac efe a â i mewn ac allan, ac a gaiff
10 borfa. Nid yw lleidr yn dyfod ond i ladratta, ac i
ladd, ac i ddistrywio: myfi a ddeuthum fel y caent
11 fywyd, ac y caent *ef* yn helaethach. Myfi yw y bugail
da. Y bugail da sydd yn rhoddi ei einioes dros y
12 defaid. Eithr y gwas cyflog, a'r hwn nid yw fugail,
yr hwn nid eiddo y defaid, sydd yn gweled y blaidd
yn dyfod, ac yn gadael y defaid, ac yn ffoi: a'r
blaidd sydd yn eu hysglyfio hwy, ac yn tarfu y defaid.
13 Y mae y gwas cyflog yn ffoi, oblegid mai gwas cyf-
14 log yw, ac nid oes ofal arno am y defaid. Myfi yw y
bugail da; ac a adwaen yr eiddof fi, ac a'm hadweinir

15 gan yr eiddof fi. Fel yr edwyn y Tad fyfi, felly yr ad-
waen innau y Tad: ac yr ydwyf yn rhoddi fy einioes
16 dros y defaid. A defaid eraill sydd gennyf, y rhai
nid ŷnt o'r gorlan hon: y rhai hynny hefyd sydd raid
i mi eu cyrchu, a'm llais i a wrandawant; a bydd un
17 gorlan, *ac* un bugail. Am hyn y mae y Tad yn fy
ngharu i, am fy mod i yn dodi fy einioes, fel y cym-
18 merwyf hi drachefn. Nid oes neb yn ei dwyn oddi
arnaf fi: ond myfi sydd yn ei dodi hi i lawr o honof
fy hun. Y mae gennyf feddiant i'w dodi hi i lawr,
ac y mae gennyf feddiant i'w chymmeryd hi dra-
chefn. Y gorchymyn hwn a dderbyniais i gan fy
Nhad.

1. **Yn wir, yn wir, meddaf i chwi.** Cysyllter y geiriau hyn ag adran olaf y bennod flaenorol (ix. 35—41). Cyfarch y Phariseaid yn arbennig y mae'r Gwaredwr yma eto.

I gorlan y defaid. Am y "gorlan" gweler ar adn. 16.

Lleidr ac ysbeiliwr. Ar un olwg y mae yr ysbeiliwr yn llai dirmygus na'r lleidr: oblegid cyflawna'r lleidr ei weithredoedd anfad yn llechwraidd, tra yn fynych yr anturia'r ysbeiliwr ei fywyd ei hunan. "Lladron" y geilw y Testament Cymraeg y ddau a groeshoeliwyd gyda'r Iesu: ond "ysbeilwyr" ydynt yn y gwreiddiol, ac y mae y C.D. Saesneg wedi eu hadfer i'w hurddas cyntefig. Ond lleidr oedd Judas, ac erys yn "lleidr" yn y C.D. "Lleidr ac ysbeiliwr" sydd yma—cyfuniad o ddichell y naill a thrais y llall.

2. **Bugail y defaid ydyw.** Gan fod y gair "bugail" yn y gwreiddiol heb y fannod o'i flaen (yn Saesneg, "a shepherd," nid "the shepherd"), a chan y gallai defaid mwy nag un bugail fod yn yr un gorlan, yr ystyr yw bod yr hwn sydd yn myned i mewn trwy y drws yn wir fugail, pa un bynnag ai unig fugail defaid y gorlan ai un gydag arall neu eraill yw.

3. **Y drysawr.** Math ar is-fugail oedd hwn, a'i waith oedd gwylio'r defaid yn y nos. Nid doeth yw ceisio ysbrydoli'r "drysawr," canys tra y dywaid y Gwaredwr mai Ef ei Hun yw'r drws a'r bugail da, ni ddywaid pwy yw'r drysawr, ac ni sonia mwyach amdano.

Erbyn eu henw. Gwell, "wrth eu henwau." Yr oedd i bob dafad ei henw; felly yr oedd pob dafad, i'w bugail ei hun, yn meddu

ar rywbeth tebyg i bersonoliaeth. Yn nameg y ddafad a gollasid (Luc xv. 4—6), pa fodd y gwybu y dyn golli y ddafad? Ai cyfrif y defaid a wnaeth, a chael eu bod un o dan y nifer? Nage, adnabod y ddafad yr oedd, a gweled nad oedd hi yno.

4. **Ac wedi iddo yrru allan ei ddefaid ei hun.** "**Arwain** allan" yn niwedd adn. 3: "**gyrru** allan" yma. Rhaid i'r bugail wneud y naill a'r llall. Nid bob amser y mae arwain yn ddigon: weithiau rhaid defnyddio grym—ond ei ddefnyddio gyda thynerwch bugail, ac nid gyda gerwindeb ysbeiliwr.

5. **Ond y dieithr,** &c. Efallai nad lladron ac ysbeilwyr mo'r "dieithriaid" oll; er hynny, gan mai dieithriaid ydynt, nid edwyn y defaid mo'u llais.

6. **Y ddameg hon.** Y mae dau air a gyfieithir "dameg" yn y Testament Cymraeg—parabole a paroimia. Yr olaf sydd yma. Pedair gwaith y defnyddir y gair hwn yn y Testament Newydd—teirgwaith yn Efengyl Ioan (yma ac yn xvi. 25, 29), ac unwaith yn 2 Pedr (ii. 22). Ym mhob man yn Efengyl Ioan cyfieithir ef "dameg," ond yn 2 Pedr "dihareb." Golyga'r gair ymadrodd cyfrin yn gwasgu llawer o feddwl i ychydig o le. Ymadrodd felly yw dihareb; ond gan yr arferir y gair "dihareb" yn gyffredin i ddynodi brawddeg fer, gwell yw cadw'r gair "dameg" yma.

7. **Drachefn,** ond ar yr un achlysur—efallai wedi ennyd o oediad.

Myfi yw drws y defaid. H.y., nid y drws i fyned trwyddo **at** y defaid, ond y drws y mae y defaid eu hunain i fyned trwyddo. "Drws **y** defaid," nid "drws y gorlan" (gweler ar adn. 16).

8. **Cynifer oll ag a ddaethant o'm blaen i.** H.y., pob un oedd wedi honni mai ef oedd y Meseia addawedig, neu wedi ei wneuthur ei hun yn fugail heb ei anfon gan Dduw.

9. **Trwof fi.** H.y., trwy rin ei aberth, a thrwy dderbyniad personol y credadun ohono fel ei Waredwr a'i Arglwydd.

Efe a fydd cadwedig. Yn fwy llythrennol, "efe a achubir." Bydd Crist fel y drws rhyngddo a phob perygl dinistriol.

Ac efe a â i mewn ac allan. Megis y mae defaid yn myned i mewn i'w corlannau ac allan ohonynt bob yn ail, felly hefyd, mewn un ystyr, y mae defaid Crist. Ni threuliant eu holl amser gyda gorchwylion ac ordinhadau uniongyrchol crefydd; ânt allan i'r byd: ond, os aethant i mewn trwy Grist, gallant fyned allan ac ymgymysgu â'r byd yn ddiberygl.

Ac a gaiff borfa, y tu allan yn ogystal â'r tu mewn i'r gorlan. Gall defaid Crist dynnu maeth ysbrydol iddynt eu hunain hyd yn oed oddi wrth eu cymdeithas â'r byd.

10. **Myfi a ddeuthum fel y caent fywyd,** sef yr unig wir fywyd, y bywyd ysbrydol newydd a roddir gan y Gwaredwr.

Ac y caent ef yn helaethach. Cywirach, "ac y caent helaethrwydd." Nid rhywbeth amgen na'r "bywyd," ac ychwanegiad ato, yw yr "helaethrwydd;" nid mwy **na'r** bywyd, ond mwy **o'r** bywyd.

11. **Myfi yw y bugail da.** Ystyr gyntaf y gair a gyfieithir "da" yw "hardd;" ac arwydda, nid yn unig mai Crist yw'r gwir Fugail mewn cyferbyniad i fugeiliaid gau, ond hefyd ei fod Ef, ac mai Ef yn unig sydd, yn llanw'r syniad o fugail yn ei holl harddwch delfrydol.

Y bugail da sydd yn rhoddi (cywirach, "yn rhoddi i lawr") **ei einioes dros y defaid.** Am fugeiliaid da yn gyffredinol y llefara'r Gwaredwr yma. Byddai galwad mynych ar fugail yn y Dwyrain i roddi ei einioes i lawr dros y defaid; ac y mae'r bugail a wna hynny yn "fugail da." Ni cheir mo'r ymadrodd "rhoddi einioes i lawr" yn y Testament Newydd ond yn Efengyl ac Epistol cyntaf Ioan. Cynigir dau esboniad arno: (1) Rhoddi i lawr i brynu, megis y gosodir arian ar y bwrdd cyfnewid. (2) Rhoddi i lawr o'r neilltu, megis y gesyd un ei wisg o'r neilltu wedi ymddiosg ohoni. Os derbynnir y cyntaf, yr ystyr yw mai einioes y bugail yw pris diogelwch y defaid. Ond ymddengys yr ail yn fwy cyson â'r defnydd a wna'r Gwaredwr o'r un ymadrodd yn adn. 17, 18, lle y sonia am ddodi ei einioes i lawr **a'i chymeryd hi drachefn,** yr hyn sydd fwy cydweddol â'r ffigur o wisg nag â'r ffigur o arian.

12. **Eithr y gwas cyflog, a'r hwn nid yw fugail.** Yn flaenorol cyferbynnir y bugail (1) â'r "lleidr ac ysbeiliwr," (2) â'r "dieithr;" yn awr cyferbynnir ef (3) â'r "gwas cyflog." Gwna hwn ei waith, nid er mwyn y defaid, ond er mwyn y cyflog; ac "nid yw fugail,"—h.y., er mai bugeilio yw ei orchwyl proffesedig yntau, nid yw anian y bugail ynddo.

Yr hwn nid eiddo y defaid. Gallesid meddwl oddi wrth y geiriau hyn mai bugail y defaid oedd eu perchennog hefyd: pe amgen, derbynnydd cyflog a fuasai yntau. Eto gellir rhoddi ystyr arall i'r ymadrodd, sef bod y defaid yn "eiddo" i'r bugail yn rhinwedd y ffaith fod perthynas arbennig rhyngddo a hwynt, pa un bynnag ai ef ai rhywun arall oedd eu perchen; ac nad oedd y berthynas honno rhwng y defaid a'r "gwas cyflog." Un peth yw gweithio **am** gyflog; peth arall yw gweithio **er mwyn** y cyflog. Yr olaf, nid y cyntaf, sydd yn anghyson ag anian y gwir fugail.

Y blaidd. Cyfaill gau i'r defaid yw'r "gwas cyflog;" gelyn proffesedig iddynt yw'r blaidd.

Yn eu hysglyfio hwy, ac yn tarfu y defaid. Gwell, "yn eu cipio hwy ac yn eu chwalu,"—h.y., yn cipio rhai ac yn gyrru'r lleill ar wasgar. Nid yw'r geiriau "y defaid" yn y Llawysgrifau gorau.

13. **Y mae y gwas cyflog yn ffoi.** Nid yw'r geiriau hyn ychwaith yn y Llawysgrifau gorau; gan hynny gadawer hwy allan, cysyllter gweddill adn. 13 â'r geiriau am y gwas cyflog yn adn. 12, a doder y cymal am y blaidd rhwng cromfachau.

Ac nid oes ofal arno. Gwir fod gofal y defaid wedi ei ymddiried iddo; ond ei ddiogelwch ei hunan, ac nid diogelwch y defaid, oedd oruchaf yn ei galon.

14. **Ac a'm hadwaenir gan yr eiddof fi.** Yn fwy manwl-gywir, "ac y mae yr eiddof Fi yn fy adwaen I." Hanfod y cymundeb rhwng Crist a'i bobl yw adnabyddiaeth y naill o'r llall. Gwir fod gwahaniaeth mawr rhwng y ddau adnabod: y mae adnabyddiaeth y Bugail o'r defaid yn drwyadl, tra nad yw adnabyddiaeth y defaid o'r Bugail ond amherffaith iawn. Er hynny y mae yr olaf yn gywir mor bell ag yr â, a chynydda o hyd mewn ehangder a thrylwyredd.

15. **Fel yr edwyn y Tad fyfi, felly yr adwaen innau y Tad.** Cywirach, "ac yr adwaen innau y Tad." Cysyllter y geiriau hyn â'r geiriau blaenorol: "Yr wyf Fi yn adnabod yr eiddof, a hwythau yn fy adnabod I, fel y mae y Tad yn fy adnabod I a Minnau yn ei adnabod Yntau." Er bod adnabyddiaeth y Tad a'r Mab o'i gilydd yn drwyadl o'r ddeutu, ac adnabyddiaeth Crist a'i bobl o'i gilydd yn drwyadl o un tu yn unig, eto y mae yr olaf **fel** y blaenaf. Ac y mae yma fwy na thebygrwydd: cymundeb y Personau Dwyfol yn undod y Duwdod yw sail a grym cymundeb Crist a'i bobl.

Ac yr ydwyf yn rhoddi fy einioes (i lawr) **dros y defaid.** Dyma ganlyniad adnabyddiaeth y Mab o'r Tad, ac o'r defaid hefyd. Am ei fod yn adnabod y Tad, ffynhonnell y cariad tragwyddol, dangosodd Yntau berffeithrwydd cariad trwy roddi ei einioes i lawr; ac am ei fod yn adnabod y defaid, gwelai eu bod, er eu gwanned a'u ffoled, yn werth iddo aberthu ei einioes er eu mwyn. Y gair a gyfieithir yma "dros" yw huper, "er mwyn" neu "er budd," ac nid anti, yn lle." Nid yw'r cyntaf yn cau allan y diweddaf: i'r gwrthwyneb, gan mai bugail yw'r ffigur a ddefnyddir, awgrymir yn eglur fod y Bugail yn marw er mwyn i'r defaid gael byw, ac felly, mewn rhyw ystyr o leiaf, yn marw yn lle y defaid. Ar yr un pryd, nid yw'r ffigur fel y cyfryw yn awgrymu cosb gyfreithiol ac aberth iawnol. Nid cyfraith na chyfiawnder oedd yn gofyn bywyd bugail yn lle ei ddefaid, ond anghyfraith a thrais. "Ei fywyd rhodd yn 'sglyfaeth

yn eu lle" (David Charles). Yn ddiweddarach newidiwyd y gair "'sglyfaeth" i "aberth." Y mae'r naill a'r llall yn wir am Iesu Grist. Rhoddodd Ef ei fywyd yn aberth i Dduw, a hefyd yn ysglyfaeth i fleiddiaid a lladron. Eto ni allai holl fleiddiaid a lladron daear ac uffern ei niweidio Ef yn y gradd lleiaf ar wahân i'w ewyllys Ef ei Hunan ac ewyllys ei Dad.

16. **A defaid eraill sydd gennyf.** Yr oedd i'r Bugail da ei ddefaid (er na wyddent hwy eu hunain eu bod yn ddefaid iddo) ymhlith Cenedl-ddynion a phaganiaid.

Y rhai nid ŷnt o'r gorlan hon. Na phwysleisier y gair "hon," fel pe buasent o gorlan arall. I'r gwrthwyneb, nid oedd y "defaid eraill," hyd yma, yn perthyn i unrhyw gorlan o gwbl. Yr unig "gorlan" oedd yn bod hyd yma oedd y genedl Iddewig.

Eu cyrchu. Cywirach, "eu harwain."

A bydd un gorlan, ac un bugail. Yn gywir, "a bydd un ddiadell, un bugail." "Diadell" yw'r gair yn yr holl Lawysgrifau: ac y mae "un gorlan" yn gyfieithiad nodedig o anffodus, gan y gall awgrymu undeb ffurfiol a gorfodol. Dymunol yn ddiau fuasai gweled llai o ymraniadau yn yr Eglwys weledig nag y sydd: eto yr hyn sydd oll-bwysig yw fod y defaid yn ffurfio un ddiadell, er iddynt fod mewn lluaws o gorlannau. Gofaler am undod y ddiadell, a gadawer i undod y gorlan ofalu amdano ei hun. Yn wir, lle ailraddol a roddir gan y Gwaredwr i'r "gorlan": nid "drws y gorlan" y'i geilw ei Hunan, ond "drws y defaid" (adn. 7). Nid sefydliad, ond personau, oedd nesaf at ei galon Ef.

17. **Am hyn,** sef **am fy mod i yn dodi fy einioes** (i lawr) fel y **cymerwyf hi drachefn.** Y mae'r geiriau olaf—"fel y cymerwyf hi drachefn"—yn rhan hanfodol o'r rheswm paham y mae y Tad yn caru'r Mab. Nid hunanaberth diystyr a diamcan oedd hunanaberth y Mab: nid dioddef er mwyn dioddef yr ydoedd. Ac nid yw Duw yn ymbleseru yn nioddefiadau neb,—lleiaf oll yn nioddefiadau ei briod Fab. Ond y mae'r Tad yn caru'r Mab oherwydd yr amcan gogoneddus oedd gan y Mab mewn golwg wrth ddioddef, ac oherwydd nad ymataliodd rhag yfed y cwpan i'r gwaelod yn ei ymgyflwyniad llwyr a hollol i'r amcan hwnnw. Ac i gyrraedd yr amcan hwn yr oedd rhaid iddo hefyd gymryd ei einioes drachefn—atgyfodi yn ogystal â marw.

18. **Nid oes neb yn ei dwyn.** Cywirach, "Ni ddygodd neb mohoni." Llefara'r Gwaredwr yma fel pe buasai ei farwolaeth eisoes wedi digwydd, ac felly yr oedd, mewn un ystyr, er y tragwyddoldeb ddiddechrau. "Pan fo Ewyllys anfeidrol wedi penderfynu rhywbeth, y mae'r peth cystal â phe buasai wedi ei wneud" (Ellis Edwards).

Y mae gennyf feddiant. H.y., "Y mae gennyf hawl."

Y gorchymyn hwn, sef y gorchymyn deublyg i ddodi ei einioes i lawr ac i'w chymryd hi drachefn. Y mae'r fath undeb rhwng y Tad a'r Mab yn undod y Duwdod fel y gallai'r Gwaredwr heb unrhyw anghysondeb ddweud ei fod yn gweithredu ohono ei Hun, ac ar yr un pryd mewn ufudd-dod i orchymyn ei Dad. Yr oedd uchelderau mawr ei Dduwdod a dyfnderau ei ufudd-dod, nid yn gwrthweithio, ond yn perffeithio'r naill y llall.

19 Yna y bu drachefn ymrafael ym mysg yr Iuddewon,
20 am yr ymadroddion hyn. A llawer o honynt a ddywedasant, Y mae cythraul ganddo, ac y mae efe yn ynfydu: paham y gwrandêwch chwi arno ef.
21 Eraill a ddywedasant, Nid yw y rhai hyn eiriau un a chythraul ynddo. A all cythraul agoryd llygaid y deillion?

19. **Yna y bu drachefn ymrafael.** Cywirach, "Cyfododd drachefn ymraniad."

20. **Llawer ohonynt.** Anghyfartal iawn mewn rhifedi oedd y ddwy adran. Yr oedd y "llawer," y mwyafrif mawr, yn aros mor elyniaethus ag erioed.

21. **Eraill a ddywedasant.** Yr oedd rhai hyd yn oed o'r Pharisead yn **fwy rhesymol a chymedrol na'r lleill.**

Un a chythraul ynddo. Yn llythrennol, "un wedi ei feddiannu gan gythraul."

A all cythraul agoryd llygaid y deillion? Yn llythrennol, "agoryd llygaid deillion?" Gwelai'r Iddewon mwyaf deallus nad geiriau un "yn ynfydu" oedd geiriau y Llefarwr hwn, ac nad geirredoedd "cythraul" oedd ei weithredoedd. Gwir y credai'r Iddewon yng ngallu demoniaid i wneud gwyrthiau, hyd yn oed gwyrthiau o lesâd; ond yr oedd yr "eraill" hyn, i ryw fesur o leiaf, wedi ymgodi uwchlaw syniadau amrwd eu cydgenedl. Eto nid oes hanes ddarfod iddynt fwrw eu coelbren gyda'r Gwaredwr.

22 Ac yr oedd y gyssegr-wyl yn Jerusalem, a'r gauaf
23 oedd hi. Ac yr oedd yr Iesu yn rhodio yn y deml,
24 ym mhorth Solomon. Am hynny y daeth yr Iuddewon yn ei gylch ef, ac a ddywedasant wrtho, Pa hyd yr wyt yn peri i ni ammeu? os tydi yw y Crist, dywed i

ni yn eglur. Yr Iesu a attebodd iddynt, Mi a ddywedais i chwi, ac nid ydych yn credu. Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur yn enw fy Nhad, y mae y rhai hynny yn tystiolaethu am danaf fi. Ond chwi nid ydych yn credu: canys nid ydych chwi o'm defaid i, fel y dywedais i chwi. Y mae fy nefaid i yn gwrandaw fy llais i; a mi a'u hadwaen hwynt, a hwy a'm canlynant fi: A minnau ydwyf yn rhoddi iddynt fywyd tragywyddol; ac ni chyfrgollant byth, ac ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i. Fy Nhad i, yr hwn a'*u* rhoddes i mi sydd fwy na phawb: ac nis gall neb *eu* dwyn *hwynt* allan o law fy Nhad i. Myfi a'r Tad un ydym. Am hynny y cododd yr Iuddewon gerrig drachefn i'w labyddio ef. Yr Iesu a attebodd iddynt, Llawer o weithredoedd da a ddangosais i chwi oddi wrth fy Nhad: am ba un o'r gweithredoedd hynny yr ydych yn fy llabyddio i? Yr Iuddewon a attebasant iddo, gan ddywedyd, Nid am weithred dda yr ydym yn dy labyddio, ond am gabledd, ac am dy fod di, a thithau yn ddyn, yn dy wneuthur dy hun yn Dduw. Yr Iesu a attebodd iddynt, Onid yw yn ysgrifenedig yn eich cyfraith chwi, Mi a ddywedais, Duwiau ydych? Os galwodd efe hwy yn dduwiau, at y rhai y daeth gair Duw, (a'r ysgrythyr nis gellir ei thorri;) A ddywedwch chwi am yr hwn a sancteiddiodd y Tad, ac a'i hanfonodd i'r byd, Yr wyt ti yn cablu; am i mi ddywedyd, Mab Duw ydwyf? Onid wyf fi yn gwneuthur gweithredoedd fy Nhad, na chredwch i mi: Ond os ydwyf yn eu gwneuthur, er nad ydych yn credu i mi, credwch y gweithredoedd; fel y gwybyddoch ac y credoch, *fod* y Tad ynof fi, a minnau ynddo yntau. Am hynny y ceisiasant drachefn ei ddal ef: ac efe a ddïangodd allan o'u dwylaw hwynt. Ac efe a aeth ymaith drachefn dros yr Iorddonen, i'r man lle y buasai Ioan ar y cyntaf yn bedyddio; ac a ar-

41 hosodd yno. A llawer a ddaethant atto ef, ac a ddy-
wedasant, Ioan yn wir ni wnaeth un arwydd: ond
yr holl bethau a'r a ddywedodd Ioan am hwn, oedd
42 wir. A llawer yno a gredasant ynddo.

22. **Ac yr oedd y gysegr-ŵyl yn Jerusalem.** Amlwg yw fod bwlch mwy neu lai o amser rhwng y digwyddiadau sydd yn dilyn a'r digwyddiadau blaenorol. Nid oedd y gysegr-ŵyl yn un o'r gwyliau Iddewig gwreiddiol. Sefydlwyd hi yn yr ail ganrif C.C. gan **Judas** Maccabaeus, i goffáu atgysegriad y deml wedi i Antiochus Epiphanes ei halogi. Cynhelid yr ŵyl hon yn flynyddol tua chanol Rhagfyr, **a** pharhâi **am wyth niwrnod.**

23. Cysyllter yr adnod hon â geiriau olaf yr adnod **flaenorol.**

"Yr oedd yn aeaf, a rhodiai yr Iesu," nid yn yr awyr agored, ond mewn lle o dan gysgod—"yn y deml **ym mhorth Solomon."** Safai'r porth hwn ar yr ochr ddwyreiniol i'r deml; a dywaid Josephus ei fod yn rhan o deml Solomon, wedi dianc rhag y distryw a wnaed gan Nebuchodonosor.

24. **Yn ei gylch ef.** Nid yn unig daethant ato, ond amgylchynasant Ef. Eto nid ydym i dybied bod ei ddisgyblion wedi ei adael, nac ychwaith ddarfod i'r Iddewon eu gwthio eu hunain rhyngddo Ef a'i ddisgyblion.

Pa hyd yr wyt yn peri i ni amau? Yn llythrennol, "Pa hyd yr wyt yn codi ein henaid i fyny?" h.y., yn cadw eu henaid mewn ystâd o aflonyddwch.

Os tydi yw y Crist, dywed i ni yn eglur. Yn llythrennol, "dywed i ni yn rhydd." Gofynnwyd yr un cwestiwn i'r Gwaredwr drachefn, o dan amgylchiadau dwysach (Luc xxii. 67).

25. **Mi a ddywedais i chwi.** Nid mewn geiriau pendant, fel wrth y wraig o Samaria (iv. 26); er hynny llefarasai Ef, hyd yn oed wrth yr Iddewon, eiriau na ellid yn rhesymol eu deall ond fel datganiad mai Ef oedd y Crist.

Y gweithredoedd. Hyd yn oed onid oedd ei eiriau yn eglur a phendant, yr oedd ei weithredoedd yn dangos yn amlwg pwy a pha beth oedd.

Yn enw fy Nhad. H.y., yn rhinwedd y berthynas arbennig oedd rhyngddo Ef a'i Dad, a chyda'r amcan o ddatguddio'r berthynas honno.

Y mae y rhai hynny yn tystiolaethu am danaf fi, nid yn unig fel amlygiadau o Ddwyfol allu, ond hefyd, ac yn enwedig, fel amlygiadau o Ddwyfol gariad.

26. **Canys nid ydych chwi o'm defaid i.** Yr oeddynt yn y "gor- . . . " iddewig, **ond nid oeddynt yn** ddefaid y Bugail da. Yr oedd rhai yn y gorlan nad oeddynt ddefaid iddo, ac yr oedd iddo ddefaid nad oeddynt yn y gorlan. Nid yw'r geiriau "fel y dywedais i chwi" yn y Llawysgrifau gorau.

27. **Y mae fy nefaid yn gwrandaw fy llais i.** Nid felly yr Iddewon: nid oeddynt hwy yn adnabod acenion Dwyfol gariad.

A hwy a'm canlynant i. Nid aros yn eu hunfan y maent, **ond** canlyn y Bugail. Ei "ganlyn," nid ei ddynwared: "nid dynwarediad, hyd yn oed o Grist, yw crefydd" (David Williams).

28. **A minnau ydwyf yn rhoddi iddynt fywyd tragwyddol.** Y mae y ferf yn yr amser presennol: nid un o fendithion y dyfodol (llai fyth y dyfodol pell) yn unig yw bywyd tragwyddol, ond rhywbeth a roddir gan y Bugail da i'w bobl o'r foment y dechreuant ei ganlyn.

Ac ni chyfrgollant byth, ac ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i. Y maent felly yn ddiogel rhag pob perygl mewnol ac allanol,—rhag myned ar ddisberod ohonynt eu hunain a rhag eu dinistrio gan arall. Y mae hyn yn hollol gyson â'r gwirionedd cyferbyniol, y rhaid iddynt wylio a gweddio fel nad elont i brofedigaeth.

29. **Fy Nhad i, yr hwn a'u rhoddes i mi, sydd fwy na phawb.** Os hwn yw y darlleniad gorau y mae ei ystyr yn eglur: ond y mae'r Llawysgrifau gorau yn amrywio. Efallai mai'r darlleniad cywir yw, "Yr hyn a roddodd fy Nhad i mi sydd fwy na phopeth." Os felly, beth a olyga'r Gwaredwr wrth "yr hyn"? Ei Ddwdod, medd tri o'r Tadau Eglwysig—Hilari, Emrys ac Awstin; ond mwy naturiol, a mwy cyson â'r cyd-destun, yw tybied mai'r "defaid" a olygir. Y mae'r ffaith mai'r Tad a roddodd y defaid i'r Bugail yn gwneud y defaid yn "fwy na phopeth" a all gyfodi i'w herbyn.

Ac nis gall neb eu dwyn hwynt allan o law fy Nhad i. Cywirach, "o law y Tad."

30. **Myfi a'r Tad un ydym.** Dengys y gwreiddiol nad un Person a olygir, ond un Sylwedd neu Hanfod. Y mae yr adnod fechan fawr hon yn gorff o ddiwinyddiaeth,—yn gosod allan amrywiaeth y Personau ("Myfi **a'r** Tad": "un ydym," nid "un ydwyf") ac undod y Duwdod. Gofynasai'r Iddewon i'r Gwaredwr ddweud ai Ef oedd y Crist—y Meseia. Wele Yntau yn ateb trwy ddweud llawer mwy; canys nid oedd yr Iddewon yn disgwyl i'r Meseia fod yn ogyfuwch â Duw. Nid rhyfedd, felly, fod y datganiad hwn yn fwy nag y gallai yr Iddewon ei ddal.

31. **Am hynny.** Gadawer allan y geiriau hyn; nid oes dim yn cyfateb iddynt yn y Llawysgrifau gorau.

Y cododd yr Iddewon gerrig. Nid eu cipio, ond eu "codi." Arwydda hynny eu bod yn gerrig o faintioli a phwysau.

Drachefn. Nid dyma y tro cyntaf (gweler viii. 59).

32. **Llawer o weithredoedd da.** Yn llythrennol, "o weithredoedd hardd." Yr oedd ei weithredoedd Ef yn "hardd"—yn gyfryw ag i hawlio edmygedd a serch.

A ddangosais i chwi. Yr oedd ei weithredoedd Ef yn bethau i'w "dangos," h.y., yn ddatguddiadau. Yr oedd mwy ynddynt nag oedd yn y golwg. Hyd yn oed i'r sylwedydd arwynebol yr oeddynt yn rhyfeddodau; ond i'r sylwedydd meddylgar yr oeddynt yn arwyddion.

Oddi wrth fy Nhad. Cywirach, "oddi wrth y Tad." Yr oedd y "gweithredoedd hardd" yn ddatguddiadau o'r Tad, yr Hwn yw ffynhonnell pob harddwch.

Am ba un o'r gweithredoedd hynny . . . .? Cywirach, "Am ba fath weithred ohonynt?" Nid yn unig yr oedd ei weithredoedd Ef oll yn hardd, ond yr oedd amryw fathau ar harddwch arbennig iddynt. Felly ergyd y cwestiwn yw, "Pa harddwch arbennig yn fy ngweithredoedd sydd wedi ennyn eich dig nes peri i chwi fwriadu fy llabyddio?"

33. **Nid am weithred dda.** Yr un ansoddair eto—"nid am weithred hardd.

Ond am gabledd, &c. Os oes rhywrai heddiw yn camddeall y geiriau "Myfi a'r Tad un ydym," gan eu toddi i lawr i rywbeth llai na'u gwir ystyr, ni chamddeallodd yr Iddewon, a'u clywodd gyntaf, mohonynt. Iddynt hwy nid oedd ystyr amgen i'r geiriau na bod yr Iesu yn ei "wneuthur ei Hun yn Dduw." Felly yr oedd yr Iddewon yn gywir yn eu hesboniadaeth, beth bynnag am eu diwinyddiaeth.

34. **Yn eich cyfraith chwi.** Rhennid Ysgrythurau yr Hen Destament i dair rhan—y Gyfraith, y Proffwydi a'r Salmau. Yn y Salmau (lxxxii. 6) ceir yr Ysgrythur a ddyfynnir yma: ond arferid defnyddio'r ymadrodd "y Gyfraith" weithiau (fel y gwna'r Gwaredwr yma) i ddynodi yr holl Ysgrythurau Iddewig. Ond paham "eich cyfraith chwi"? Nid ydym i dybied bod yr Arglwydd Iesu yn ei ddidol ei Hun oddi wrth ei gydgenedl yn ei pharch i'r Ysgrythurau a'i hymlyniad wrthynt. Ond gan fod yr Iddewon yn dal mai hwynt-hwy oedd yn cadw'r "Gyfraith," ac nad oedd Ef yn ei chadw, defnyddia'r Gwaredwr yma, fel yn viii. 17, yr ymadrodd "eich cyfraith chwi."

Mi (sef Duw ei Hunan) **a ddywedais** (wrth y barnwyr anghyfiawn a gondemnir yn y Salm), **Duwiau ydych.** Yr ystyr yw, "Pan osodais chwi yn eich swydd, rhoddais i chwi, fel fy nghynrychiolwyr fy Hun, safle ac awdurdod duwiau."

35. **At y rhai y daeth gair Duw,** h.y., y gair a'u gosododd yn eu swydd fel barnwyr. Er iddynt eu profi eu hunain yn annheilwng, rhoddir iddynt y teitl o "dduwiau" ar gyfrif Dwyfol urddas eu swydd a'u Dwyfol alwad hwythau iddi.

A'r ysgrythur nis gellir ei thorri. Cywirach, "ei datod."

36. **A ddywedwch chwi,** &c. Yr ymresymiad yw: "Os yw eich cyfraith chwi, yr hon yr addefwch chwi eich hunain na ellir ei datod, yn galw dynion (a dynion drwg) yn dduwiau, yn unig am fod gair Duw wedi dyfod atynt, pa hawl sydd gennych i ddweud fy mod I, yr Hwn a sancteiddiodd y Tad, &c., yn cablu trwy ddweud fy mod yn Fab Duw?"

A sancteiddiodd y Tad. Ystyr y gair "sancteiddio" yma yw, nid glanhau, ond neilltuo. Bu'r neilltuad hwn yn y tragwyddoldeb ddiddechrau; a golyga fod y Tad, nid yn unig wedi penodi'r Mab i'r gwaith oedd yn ei aros, ond hefyd wedi ei ddonio â phob cymwysterau angenrheidiol ar gyfer y gwaith hwnnw.

Ac a'i hanfonodd i'r byd. "Sancteiddio" yn nhragwyddoldeb: "anfon i'r byd" yng nghyflawnder yr amser.

Mab Duw ydwyf. Cywirach, "Yr wyf yn Fab Duw," gan nad yw'r fannod o flaen y gair "Mab." Dweud y mae'r Gwaredwr yma **beth** yw, yn hytrach na **phwy** yw.

37. **Onid wyf fi,** &c. H.y., "Na chredwch fy ngeiriau, onid yw tystiolaeth fy ngweithredoedd yn eu cadarnhau."

38. **Er nad ydych yn credu i mi.** Cywirach, "hyd yn oed pe na chredech i Mi."

Credwch y gweithredoedd. Cywirach, "credwch i'r gweithredoedd."

Fel y gwybyddoch ac y credoch. Yn fanwl-gywir, "fel y gwybyddoch ac y cydnabyddoch."

Fod y Tad ynof fi, a minnau ynddo yntau. Cywirach, "fod y Tad ynof Fi, a Mi yn y Tad." Fel pe dywedasai'r Gwaredwr, "Dechreuwch gyda'r gweithredoedd — dyna'r cam cyntaf; ac o gredu i'r gweithredoedd, yn fuan neu yn hwyr deuwch i wybod ac i gydnabod yr undeb goruchel a dirgeledig sydd rhwng y Tad a Minnau."

39. **Ei ddal ef.** Yr oedd Ef wedi arafu rhyw gymaint ar eu cynddaredd: nid ei labyddio ar unwaith a geisiant mwyach, ond ei ddal.

Ac efe a ddiangodd allan o'u dwylaw hwynt. Cywirach, "a aeth allan o'u llaw hwynt." Gellir casglu nad "dianc" neu ffoi a wnaeth, ond cerdded yn dawel o ganol ei elynion. Er ceisio ohonynt ei ddal yr oedd ynddo Ef ryw urddas a barai iddynt ymatal rhag dodi "llaw" arno.

40. **Ac efe a aeth ymaith.** Peryglu ei fywyd y buasai wrth aros yn hwy yn Judea; a chan nad oedd ei awr i ddioddef eto wedi dyfod (er ei bod yn agosáu), ciliodd i Perea am ysbaid o lonyddwch.

Drachefn. Gweler i. 28.

I'r man lle y buasai Ioan, &c. Gwyddai'r Gwaredwr y cai gydymdeimlad a chroesaw mewn lle ag yr oedd dylanwad Ioan eto yn aros ynddo.

41. **Ioan yn wir ni wnaeth un arwydd.** Ond dywaid Matthew (xix. 2) ddarfodd i'r Iesu wneuthur gwyrthiau yn Perea yn ystod yr ymweliad hwn.

Ond yr holl bethau, &c. Trwy ymweliad y Gwaredwr, cadarnhawyd cred y bobl hyn yn Ioan fel ei ragredegydd.

42. **A llawer yno a gredasant ynddo.** "Yno" yw y gair olaf yn y gwreiddiol, ac y mae i'w bwysleisio. Beth bynnag am Judea a Jerusalem, llawer a gredasant ynddo **yno.**

Argraffwyd yn Argraffdy'r Cyfundeb, Caernarfon.

ST. DEINIOL'S
HAWARDEN
LIBRARY

76355.